# City & Guilds Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

Gorffenaff 2021 Fersiwn 1.1

## Llawlyfr y Cymhwyster

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.1 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Iechyd a gofal cymdeithasol |
| **Rhif City & Guilds** | 8040 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Rhaid bod dysgwyr wedi cwblhau'r cymhwyster City & Guilds canlynol (neu gymhwyster cymaradwy y cytunwyd arno) cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:<br><br>8040-09 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Asesu | 100% asesiad allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Cofrestru ac ardystio** | Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer | 8040-10 | C00/1260/7 |

# Cynnwys

Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer 1
**Cipolwg ar y cymhwyster 2**
**Cynnwys 4**
**1 Cyflwyniad 8**
Nodau ac amcanion y pwnc 9
Strwythur 10
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) 12
**2 Gofynion canolfannau 13**
Cymeradwyo'r cymhwyster 13
Cofrestru ac ardystio **Error! Bookmark not defined.**
Staff canolfannau 14
Cymwysterau cymaradwy y cytunwyd arnynt 15
Cyfyngiadau oedran 15
**3 Cyflwyno'r cymhwyster 16**
Asesu cychwynnol a sefydlu 16
Deunyddiau cefnogi 17
Swyddogion cyswllt allanol/penodedigion 17
Sicrhau ansawdd mewnol 19
Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol 19
Camymddwyn 19
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 20
**4 Asesu 21**
Crynodeb o'r dulliau asesu 21
Efelychu 21
Cyfyngiadau amser 21
Cydnabod dysgu blaenorol 21
Dyfarnu'r cymhwyster 21
Cyfleoedd ailsefyll 21
Prosesau asesu allanol 22
**5 Unedau 24**
Argaeledd unedau 24
Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 26
**Uned 520 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog 28**
Canllawiau cyflwyno 32
Adnoddau 33
SGC cysylltiedig 33

| | |
|---|---|
| **Uned 521 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol** | **35** |
| Canllawiau cyflwyno | 38 |
| Adnoddau | 38 |
| SGC cysylltiedig | 38 |
| **Uned 522 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol** | **39** |
| Canllawiau cyflwyno | 45 |
| Adnoddau | 46 |
| SGC cysylltiedig | 46 |
| **Uned 523 Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol** | **48** |
| Canllawiau cyflwyno | 51 |
| Adnoddau | 52 |
| SGC cysylltiedig | 52 |
| **Uned 524 Ymarfer proffesiynol** | **53** |
| Canllawiau cyflwyno | 57 |
| Adnoddau | 58 |
| SGC cysylltiedig | 58 |
| **Uned 525 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion** | **59** |
| Canllawiau cyflwyno | 62 |
| SGC cysylltiedig | 62 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 63 |
| Adnoddau | 63 |
| **Uned 526 Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith** | **65** |
| Canllawiau cyflwyno | 67 |
| SGC cysylltiedig | 67 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 67 |
| Adnoddau | 67 |
| **Uned 527 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal** | **69** |
| Canllawiau cyflwyno | 79 |
| SGC cysylltiedig | 82 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau | 83 |
| Adnoddau | 83 |
| **Uned 528 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl** | **84** |
| Canllawiau cyflwyno | 92 |
| SGC cysylltiedig | 96 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau | 96 |
| Adnoddau | 96 |
| **Uned 529 Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad** | **97** |
| Canllawiau cyflwyno | 103 |
| SGC cysylltiedig | 109 |
| Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 109 |
| **Unit 530 Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain** | **111** |
| Canllawiau cyflwyno | 117 |
| SGC cysylltiedig | 117 |

| | | |
|---|---|---|
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 118 |
| | Adnoddau | 118 |
| **Uned 531** | **Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal** | **120** |
| | Canllawiau cyflwyno | 125 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau | 129 |
| | Adnoddau | 129 |
| | SGC cysylltiedig | 130 |
| **Uned 532** | **Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia** | **131** |
| | Canllawiau cyflwyno | 140 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 143 |
| | Adnoddau | 143 |
| **Uned 533** | **Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl** | **145** |
| | Canllawiau cyflwyno | 155 |
| | SGC cysylltiedig | 164 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 164 |
| **Uned 534** | **Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth** | **167** |
| | Canllawiau cyflwyno | 175 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 183 |
| | Adnoddau | 184 |
| **Uned 535** | **Arwain gwaith gydag unigolion sydd â nam ar y synhwyrau** | **185** |
| | Canllawiau cyflwyno | 191 |
| | SGC cysylltiedig | 193 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 194 |
| | Adnoddau | 194 |
| **Uned 536** | **Arwain a rheoli gwaith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau** | **196** |
| | Canllawiau cyflwyno | 200 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 202 |
| **Uned 537** | **Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes** | **203** |
| | Canllawiau cyflwyno | 206 |
| | SGC cysylltiedig | 207 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 207 |
| **Uned 538** | **Arwain a rheoli maes clinigol** | **208** |
| | Canllawiau cyflwyno | 219 |
| | SGC cysylltiedig | 220 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 221 |
| **Uned 539** | **Arwain a rheoli gwasanaethau lleoli oedolion/cysylltu bywydau** | **223** |
| | Canllawiau cyflwyno | 228 |
| | Adnoddau | 229 |
| **Uned 540** | **Arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol** | **230** |
| | Canllawiau cyflwyno | 234 |
| | SGC cysylltiedig | 235 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 235 |
| | Adnoddau | 236 |
| **Uned 541** | **Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr** | **237** |
| | Canllawiau cyflwyno | 240 |

| | | |
|---|---|---|
| | Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig | 240 |
| | SGC cysylltiedig | 241 |
| | Adnoddau | 241 |
| **Uned 542** | **Arwain cefnogaeth i ofalwyr** | **242** |
| | Canllawiau cyflwyno | 245 |
| | Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig | 245 |
| | SGC cysylltiedig | 246 |
| | Adnoddau | 246 |
| **Uned 543** | **Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol** | **247** |
| | Canllawiau cyflwyno | 250 |
| | SGC cysylltiedig | 250 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 250 |
| **Uned 544** | **Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr** | **251** |
| | Canllawiau cyflwyno | 255 |
| | SGC cysylltiedig | 256 |
| **Uned 545** | **Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes** | **258** |
| | Canllawiau cyflwyno | 260 |
| | SGC cysylltiedig | 260 |
| | Adnoddau | 260 |
| **Uned 546** | **Arwain a rheoli tîm therapi** | **261** |
| | Canllawiau cyflwyno | 268 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 269 |
| **Uned 401** | **Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol** | **270** |
| | Canllawiau cyflwyno | 272 |
| | SGC cysylltiedig | 277 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 277 |
| **Atodiad 1** | **Cydberthnasau â chymwysterau eraill** | **278** |
| | Cysylltiadau â chymwysterau eraill | 278 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych yr hyn y mae angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymhwyster:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at y rheini mewn swyddi arwain neu reoli yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Lluniwyd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy eu gwaith.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (neu gymhwyster cymaradwy y cytunwyd arno) cyn astudio ar gyfer y cymhwyster hwn.<br><br>Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Cofrestredig, ar yr amod eu bod hefyd yn bodloni'r holl ofynion cofrestru eraill. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Mae'r cymhwyster hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnig cyfleoedd i'r rheini sy'n arwain ac yn rheoli lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion, plant a phobl ifanc. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch. |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br><br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli ac yn eu rhoi ar waith;
- myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain ac eraill a deall sut mae hyn yn effeithio ar y rheini y maent yn gweithio gyda nhw, yn y lleoliad a'r tu allan i'r lleoliad;
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella perfformiad mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol;
- arwain a rheoli dulliau gweithredu person/plentyn-ganolog wrth ymarfer;
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;
- gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn hyddysg sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol yn eu rôl.

## Strwythur

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer**, rhaid i ddysgwyr ennill cyfanswm o 120 o gredydau o leiaf.

- Rhaid ennill 20 o gredydau o grŵp Gorfodol A*
- Rhaid ennill 70 o gredydau o grŵp Gorfodol B
- Rhaid ennill o leiaf 30 o gredydau o'r grŵp Dewisol .

Y gofyniad **sylfaenol** o ran oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn yw 395.

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol A | | | |
| 520 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog | 60 | 20 |
| 521 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol | 60 | 20 |
| Grŵp Gorfodol B | | | |
| 522 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 65 | 18 |
| 523 | Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol | 70 | 16 |
| 524 | Ymarfer proffesiynol | 50 | 12 |
| 525 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion | 60 | 12 |
| 526 | Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith | 60 | 12 |
| Grŵp Dewisol | | | |
| 527 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal | 45 | 31 |
| 528 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gofal ar gyfer plant a phobl ifanc anabl | 50 | 30 |
| 529 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad | 40 | 21 |
| 530 | Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain | 40 | 19 |
| 531 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal | 30 | 30 |

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| 532 | Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia | 40 | 31 |
| 533 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw ag iechyd meddwl gwael | 40 | 31 |
| 534 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth | 40 | 34 |
| 535 | Arwain gwaith gydag unigolion sy'n colli'r synhwyrau | 50 | 20 |
| 536 | Arwain a rheoli gwaith yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau | 40 | 19 |
| 537 | Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes | 30 | 11 |
| 538 | Arwain a rheoli maes clinigol | 50 | 30 |
| 539 | Arwain a rheoli gwasanaethau lleoliadau oedolion/rhannu bywydau | 40 | 18 |
| 540 | Arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol | 20 | 24 |
| 541 | Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr | 20 | 11 |
| 542 | Arwain cefnogaeth i ofalwyr | 10 | 8 |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | 20 | 10 |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | 10 | 9 |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | 20 | 12 |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi | 80 | 20 |
| 401 | Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol | 35 | 6 |

* Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ddewis uned 521 o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o Grŵp Gorfodol A.

Dim ond credydau ar gyfer un o'r canlynol y gall dysgwyr eu hennill:

- Uned 541 Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr
- Uned 542 Arwain cefnogaeth i ofalwyr

Os bydd dysgwyr yn astudio'r ddwy uned fel rhan o'r cymhwyster hwn, dim ond credyd o un uned fydd yn cyfrif tuag at y cyfanswm credydau a gyflawnir.

Dylai dysgwyr ddewis unedau sy'n berthnasol i'w rôl ac i'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt yn eu sefydliad/lleoliad.

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm Amser Cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sydd ei angen i gyflwyno uned a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir y CAC ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 5 Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer | 1200 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol ar gyfer canolfannau a chymwysterau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â chymhwysedd staff cyflwyno ac aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymhwyster hwn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn yn cael eu cofrestru ar Pro Platform i gefnogi'r elfen asesu allanol. Mae Pro Platform yn galluogi canolfannau i gofrestru ar sail 'mewn ac allan' hy gallwch gofrestru ar unrhyw amser ac mewn unrhyw niferoedd yn ystod y flwyddyn.

**Ni ddylid** cofrestru dysgwyr am y cymhwyster hwn ar Walled Garden.

Mae mynediad i Pro Platform yn cael ei ddarparu i ganolfannau ar ôl derbyn cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn. Mae canllawiau ar gael o dan y tab 'Welsh Qualifications' yn yr adran 'Support Materials' i ddarparu cymorth i ganolfannau cwblhau cofrestru, fesul dysgwyr unigol neu fesul grŵp.

Bydd dysgwyr yn cael eu tystysgrifo drwy Walled Garden.

## Staff canolfannau

### Y gofynion ar gyfer aseswyr mewnol

Ni fydd aseswyr mewnol yn llunio barn asesu sy'n cyfrif tuag at radd derfynol y cymhwyster, ond byddant yn cefnogi'r broses asesu drwy gefnogi'r broses o gytuno ar y project busnes a rhoi tystiolaeth drwy arsylwi a thystio.  Rhaid i unigolion sy'n ymgymryd â'r rôl hon,

- fod yn gymwys yn alwedigaethol mewn swydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar y cymwysterau cyfredol ar gyfer Aseswyr, neu fod yn gweithio tuag at eu cyflawni, e.e.
    - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith **neu**
    - meddu ar Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33

Lle bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddynt ddangos eu bod yn gweithio'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall wrth helpu i asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r rhain ar dudalen we'r cymhwyster.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

Lle y defnyddir tystion arbenigol i ddarparu tystiolaeth gefnogol fel rhan o'r portffolio, rhaid eu bod

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu naill ai ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer beunyddiol staff.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Bydd swyddogion sicrhau ansawdd mewnol (IQA) yn gyfrifol am sicrhau bod y broses asesu a'r ffordd y caiff ei rhoi ar waith yn briodol, ac y caiff unrhyw dystiolaeth asesu a lunnir (e.e. tystiolaeth portffolio) ei dilysu.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
    - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu

- Lefel 4 Dystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
- Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Y cyd-destun Cymreig

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

### Datblygiad proffesiynol parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Rhaid bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r cymhwyster canlynol neu gymhwyster cymaradwy y cytunwyd arno cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn.

**8040-09 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Nid yw'r City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion mynediad ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cymwysterau cymaradwy y cytunwyd arnynt

Mae'r cymwysterau canlynol yn dderbyniol fel dewisiadau amgen y cytunwyd arnynt er mwyn gallu cwblhau'r cymhwyster 8040-09 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Dyfarniad Camu Ymlaen i Reoli (Prifysgol De Cymru)

Mae cyfrifoldeb ar y ganolfan fel rhan o'r trefniadau ar gyfer sefydlu dysgwyr i'r rhaglen i gadarnhau bod yr holl feysydd gwybodaeth wedi'u cwmpasu'n ddigon manwl, a bod y dysgwr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol i symud ymlaen i'r rhaglen Lefel 5.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer ymgeiswyr o dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

Dyluniwyd cynnwys yr unedau gorfodol (520 – 526) i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd a ddatblygwyd drwy gwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cymhwyster ymarfer yn cadarnhau'r cysyniadau, y ddamcaniaeth a'r arweiniad a roddwyd ar Lefel 4, ac yn rhoi'r sgiliau a'r galluoedd ar waith yn Lefel 5.

Dylai'r rheini sy'n cyflwyno'r cymhwyster Lefel 5 sicrhau bod y broses o gyflwyno Lefel 5 yn adeiladu ar gynnwys Lefel 4, ond nad yw'n ceisio ei ailadrodd yn ddiangen. Gall fod yn ddefnyddiol atgoffa neu ailbwysleisio elfennau penodol o'r cynnwys; ond dylai'r broses gyflwyno ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau Lefel 5, gan ddeall bod yr ymgeiswyr eisoes yn meddu ar sail wybodaeth gadarn.

Fel enghraifft, mae'r sail wybodaeth a addysgir drwy uned 412 (Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol) yn sail i elfennau ymarfer uned 522 (Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol). Fel rhan o'r broses o gyflwyno 522, bydd yn fuddiol i'r rheini sy'n cyflwyno herio'r dysgwyr i ystyried y gwahanol fodelau arwain, gwerthoedd ac egwyddorion y maent wedi dysgu amdanynt eisoes, wrth iddynt ystyried cynnwys yr uned hon, ac i roi eu sgiliau arwain ar waith. Bydd yn arbennig o ddefnyddiol i ddysgwyr fyfyrio ar yr heriau unigol y maent yn eu hwynebu wrth iddynt weithio fel arweinwyr sy'n cefnogi eraill wrth ymarfer. Dylai cynnwys yr uned hon herio dysgwyr i feithrin eu sgiliau a'u technegau arwain eu hunain, felly bydd yn ddefnyddiol annog dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau hunanddadansoddi wrth iddynt fyfyrio, wrth iddynt ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gydag aelodau o'u tîm (e.e. recriwtio, sefydlu, goruchwylio). Mae'r mathau o gwestiynau y gallai fod yn ddefnyddiol eu gofyn yn cynnwys,

- Sut rwyf wedi perfformio yn y sefyllfa hon?
- Sut y gallwn fod wedi ymddwyn yn wahanol?
- Beth allai fod wedi digwydd pe byddwn wedi gweithredu mewn ffordd wahanol?

Bydd trefniadau goruchwylio rheolaidd a chefnogol yn amhrisiadwy wrth gyflwyno'r uned hon er mwyn helpu dysgwyr i gadarnhau eu dealltwriaeth o ystyr bod yn arweinydd pobl, a sut y gallant barhau i addasu, gwneud cynnydd a datblygu eu harddull arwain eu hunain yn effeithiol.

Fodd bynnag, dylai'r rheini sy'n cyflwyno'r cymhwyster bob amser ystyried gofynion penodol y dysgwr unigol (e.e. y cyfnod o amser ers astudio cymhwyster gwybodaeth Lefel 4; unrhyw fylchau mewn cyflogaeth y tu allan i'r sector neu p'un a ydynt wedi cwblhau cymhwyster

amgen a gymeradwywyd ac a gydnabyddir yn lle'r cymhwyster Lefel 4 ac ati), yn ogystal â natur gyfannol cynnwys y cymhwyster hwn, a'r ffordd y bwriedir iddo gael ei gyflwyno, wrth iddynt ddatblygu ac addasu eu dull addysgu er mwyn sicrhau model cyflwyno effeithiol.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael gafael arno |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion cyswllt allanol/penodedigion

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft, Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA) neu aseswyr allanol.

Pennwyd meini prawf gan y Consortiwm er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai yn meddu ar y wybodaeth/profiad a sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.
Mae staff City & Guilds yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodai. Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner Consortiwm yn cymryd camau cywirol a fyddai'n gallu cynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodai.

Ar gyfer y cymhwyster hwn, caiff cronfa o aseswyr allanol eu recriwtio gan City & Guilds a fydd yn ymgymryd â'r gwaith asesu allanol, ac yn gwneud penderfyniad asesu ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau'r asesiad ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd pob aseswr allanol yn ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol ar y dull asesu. Caiff aseswyr allanol eu safoni a'u samplu gan arweinwyr. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol gyda'r holl aseswyr.

Bydd yr aseswyr arweiniol yn helpu i recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau a chynnig cefnogaeth yn ystod gweithgareddau asesu, fel arsylwi a thrafodaethau proffesiynol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd pob swyddog cyswllt/penodedig yr ystyrir ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd rheoleiddiedig yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac yn cael hyfforddiant Diogelu cyn ymweld â chanolfan.

## Y gofynion ar gyfer aseswyr allanol

Rhaid i aseswyr ar gyfer y cymhwyster hwn fod yn alwedigaethol gymwys – mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr

allu cyflawni'r gofynion llawn sy'n rhan o'r unedau cymhwysedd y mae'n eu hasesu.

Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus. Rhaid i aseswyr

feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys

yr uned y maent yn ei hasesu.

Hefyd, rhaid iddyn nhw feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atyn nhw:

- y Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol;
- cynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau y maen nhw yn eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Bydd rôl Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar yr elfen cymeradwyo canolfannau adeg eu derbyn.

Mae'r Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:

Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol

D35 - Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 - Tystysgrif Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu byddan nhw eisoes wedi'i ennill, neu byddan nhw'n meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Y cyd-destun Cymreig

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

## Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddyn nhw strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol ysgrifenedig.
Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dulliau sicrhau ansawdd mewnol yn:

- sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr o ran defnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennaeth y cymhwyster a/neu'r asesiad
- effeithlon ac yn gost effeithiol

Rhaid i unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol fodloni'r polisïau a'r arweiniad a amlinellir yng nghanllawiau'r Consortiwm i ganolfannau. Gellir gweld manylion y dogfennau canllaw hyn yn y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli'r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae'r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments.* Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau weld ar y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith ymgeisydd arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith
- gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi ymgeiswyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i ymgymryd â'r asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd ymgeiswyr yn gallu bodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler *JCQ access arrangements and reasonable adjustments* ac *Access arrangements - when and how applications need to be made to City & Guilds* am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds: **http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sydd wedi cael salwch, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen JCQ, *A guide to the special consideration process*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4 Asesu

## Crynodeb o'r dulliau asesu

Rhaid i'r ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- portffolio o dystiolaeth
- project busnes
- trafodaeth broffesiynol

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion yr asesiad o wefan y Consortiwm.

## Efelychu

Creu sefyllfa artiffisial at bwrpasau asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei gynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Ar gyfer y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir i chi ddefnyddio gweithgareddau efelychu fel tystiolaeth o ymarfer at ddibenion asesu crynodol.

Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gan yr ymgeisydd.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned a chwblhau ac asesu'r gofynion cysylltiedig o fewn cyfnod cofrestru'r ymgeisydd.

## Cydnabod dysgu blaenorol

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Caniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses o gydnabod dysgu blaenorol a pholisi'r consortiwm ar gyfer y broses hon, dylid cyfeirio at y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael o wefan y consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Dyfernir y cymhwyster yn seiliedig ar farn gyfannol derfynol a gaiff ei llunio gan aseswr allanol ar ôl adolygu'r dystiolaeth a welir yn yr holl asesiadau.

## Cyfleoedd ailsefyll

Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran sawl gwaith y gall ymgeiswyr ailsefyll/ailgyflwyno tasgau y byddant wedi'u methu fel rhan o'r cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am arweiniad ar y cyfleoedd ailsefyll sydd ar gael i ymgeiswyr sy'n cwblhau'r asesiadau, ac am arweiniad pan na fydd ymgeisydd yn llwyddo i gwblhau unrhyw elfen o'r asesiad ar yr ymgais gyntaf.

## Prosesau asesu allanol

Mae'r pecyn asesu yn amlinellu'r pwyntiau yn y broses asesu lle mae'n ofynnol i'r ganolfan gydgysylltu a threfnu gwasanaethau aseswr allanol City & Guilds.

## Rolau

Mae'r broses o asesu'r cymhwyster hwn yn cynnwys y rolau canlynol.

**Tiwtor – yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster.** Gall y tiwtor helpu i drefnu asesiadau, ond ni fydd yn gyfrifol am lunio unrhyw farn asesu derfynol.

**Aseswr mewnol**[1] – aseswr cymwys, yn cynnig cefnogaeth wrth gynnal yr asesiadau. Bydd yr aseswr mewnol yn cefnogi'r broses asesu  er mwyn darparu tystiolaeth sy'n ategu'r penderfyniad asesu allanol. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am gadarnhau dilysrwydd cyfle project busnes yr ymgeisydd a'i gynllun ar gyfer y project, am ddarparu tystiolaeth asesu ddigonol ac am gynnal o leiaf ddwy sesiwn i arsylwi ar yr ymgeisydd yn rhoi ei broject ar waith. Bydd hefyd yn helpu'r ymgeisydd i ddarparu tystiolaeth fel rhan o'i bortffolio, ac yn ymgymryd â gwaith arsylwi ychwanegol ac yn darparu tystiolaeth ychwanegol lle y bo'n briodol.

**Rheolwr/cyflogwr** – yn deall prosesau mewnol arferol y lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, ac yn gallu asesu p'un a yw'r ymgeisydd yn eu defnyddio'n briodol ai peidio. Lle y bo'n briodol gall ddarparu tystiolaeth fel tyst arbenigol o ran ymarfer dyddiol y gweithle. Mae'r rheolwr/cyflogwr yn gyfrifol am gadarnhau dilysrwydd project busnes yr ymgeisydd, gan sicrhau bod y cyfle a gyflwynir yn ymarferol o safbwynt gweithrediad busnes.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu i ymdrin ag unedau y mae angen arbenigedd penodol ar eu cyfer, gall lleoliadau ddarparu tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol –** yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth asesu a gyflwynir yn fewnol o ansawdd cyson a phriodol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol –** bydd yn cefnogi ymweliad cychwynnol â'r ganolfan fel rhan o broses cymeradwyo cymwysterau'r corff dyfarnu, gan sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith yn y ganolfan.

**Aseswr Allanol City & Guilds** – aseswr cymwys, wedi'i benodi gan City & Guilds, ac yn gyfrifol am ymgymryd â gwaith arsylwi uniongyrchol ar yr ymgeisydd yn ymarfer, ac am gynnal y drafodaeth broffesiynol. Bydd yr aseswr allanol yn adolygu'r holl dystiolaeth derfynol a gyflwynir ar gyfer y portffolio a'r project busnes ac yn llunio'r farn asesu derfynol ar gyfer yr ymgeisydd.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds –** bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r barnau asesu a wnaed gan aseswyr allanol.

[1] Er mwyn cael cadarnhad o ofynion asesu'r cymhwyster hwn, gweler adran '**Gofynion canolfannau**' Llawlyfr y Cymhwyster hwn.

# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr cymhwyster hwn;

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 520 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog |
| 521 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol |
| 522 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol |
| 523 | Arwain a rheoli ansawdd y broses o ddarparu gwasanaethau i fodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol |
| 524 | Ymarfer proffesiynol |
| 525 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion |
| 526 | Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith |
| 527 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal |
| 528 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gofal ar gyfer plant a phobl ifanc anabl |
| 529 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad |
| 530 | Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain |
| 531 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal |
| 532 | Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia |
| 533 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw ag iechyd meddwl gwael |
| 534 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth |
| 535 | Arwain gwaith gydag unigolion sy'n colli'r synhwyrau |
| 536 | Arwain a rheoli gwaith yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau |
| 537 | Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes |
| 538 | Arwain a rheoli maes clinigol |
| 539 | Arwain a rheoli gwasanaethau lleoliadau oedolion/rhannu bywydau |
| 540 | Arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol |
| 541 | Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr |

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 542 | Arwain cefnogaeth i ofalwyr |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi |
| 401 | Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol |

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys yr unedau ac sy'n berchen arno.

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal plant.

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

### Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

### Deilliannau Dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

### Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan ystod, a nodir gan eiriau neu gymalau mewn testun **trwm.**

### Ystod

Bydd rhai geiriau neu gymalau yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Golyga hyn fod ystod wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r ystod yn cynnwys gwybodaeth am faint o ddyfnder a manylder sydd eu hangen ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr – gall fod enghreifftiau eraill a allai berthyn i'r maes pwnc hwnnw. Fodd bynnag, mae'r rhai a restrir yn yr ystod yn allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid mynd i'r afael â phob elfen a restrir yn yr ystod wrth gyflwyno'r uned.**

Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r ystod, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r ystod fel rhan o'r broses asesu; gan adlewyrchu'r ffaith y dylai'r farn asesu fod yn farn gyfannol, ac yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu.

### Canllawiau cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r canllawiau cyflwyno hefyd yn cynnwys diffiniadau o'r derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned, ac yn darparu cefndir a chefnogaeth bellach mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y cynnwys.

### Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos ble y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

### Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig

Darperir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

**Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae'r gwerth hwn hefyd yn cynnwys yr amser a gymerir i baratoi ar gyfer asesu'r uned, ac i gwblhau'r broses honno. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

**Gwerth credyd**

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad yn ogystal ag unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

# Uned 520 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y cymwyseddau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi dulliau gweithredu cydgynhyrchiol person/plentyn-ganolog sy'n cyfrannu at y broses o nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

1.2 Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cynhwysol mewn perthynas ag asesiadau

1.3 Datblygu diwylliant sy'n grymuso unigolion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt ac i wneud penderfyniadau am y canlyniadau y maent am eu cyflawni

1.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff unigolion gefnogaeth i wneud y canlynol:

- sicrhau llais a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofal a'r gefnogaeth a gânt a'r ffordd y caiff eu gwasanaeth ei ddylunio a'i ddarparu
- nodi'r canlyniadau y maent am eu cyflawni a'r ffordd orau o'u helpu i wneud hynny
- nodi a chydnabod eu cryfderau a'u sgiliau
- datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu cefnogi wrth gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hybu annibyniaeth
- cydbwyso eu hawliau, cyfrifoldebau a risgiau
- cynnal cydberthnasau sy'n bodoli eisoes a meithrin cydberthnasau newydd
- gwerthuso'r broses o gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt

1.5 Sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael i weithwyr sy'n eu helpu i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i weithio gydag unigolion er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol

1.6 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:

- defnyddio dull gweithredu cydgynhyrchiol
- gweithio gydag unigolion er mwyn cadarnhau eu hanes, diwylliant, dewisiadau, dymuniadau ac anghenion ac adlewyrchu hyn yn eu hymarfer
- defnyddio dull gweithredu seiliedig ar gryfderau
- defnyddio cynlluniau rheoli risg er mwyn helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
- hyrwyddo parch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ymdrin ag unigolion fel rhan o'u hymarfer
- cynnwys dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eu hymarfer

1.7 Defnyddio strategaethau i reoli achosion o wrthdaro buddiannau, gwahaniaeth barn a chyfyng-gyngor a all godi rhwng unigolion, gweithwyr, teuluoedd/gofalwyr ac eraill ynghylch risgiau ac ynghylch y canlyniadau y mae unigolion am eu cyflawni

1.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn;

- Cynnal dadansoddiad beirniadol o effaith ymarfer seiliedig ar ganlyniadau ar y broses o gyflawni canlyniadau ar gyfer unigolion
- Nodi'r newidiadau a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn rhoi cefnogaeth bellach i unigolion gyflawni eu canlyniadau

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo lles cyfannol unigolion

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi lles cyfannol unigolion

2.2 Datblygu diwylliant

- lle y mae gweithwyr yn ystyried pob agwedd ar les unigolion fel rhan o'u hymarfer beunyddiol
- sy'n cefnogi ymarfer seiliedig ar gydberthnasau sy'n gwerthfawrogi unigolion, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr
- sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

2.3 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i feithrin ymlyniadau a chydberthnasau cadarnhaol, diogel ac iach

2.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo hunan-barch, ymdeimlad o sicrwydd a pherthyn unigolion

2.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo

- dewisiadau ffordd o fyw iach
- cefnogi anghenion iechyd unigolion

2.6 Rhoi ymarfer a phrotocolau y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn diwallu anghenion iechyd unigolion

2.7 Sicrhau bod protocolau y cytunwyd arnynt lle y caiff tasgau sy'n gysylltiedig ag iechyd eu dirprwyo gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill i weithwyr

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog

3.2 Datblygu diwylliant o gyfranogiad gweithredol sy'n:
- cefnogi dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog
- galluogi unigolion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt, eu dewisiadau a'u hanghenion
- ystyried dewis ddulliau cyfathrebu a dewis iaith

3.3 Helpu eraill i werthuso ffactorau a all atal cyfathrebu a chyfranogi

3.4 Helpu eraill i ddeall a defnyddio dulliau i oresgyn y ffactorau a nodwyd sy'n atal unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr rhag cyfathrebu a chyfranogi

3.5 Sicrhau y defnyddir dulliau cyfathrebu yn y lleoliad sy'n:
- cydnabod cyfrinachedd
- dangos parch at unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- osgoi achosion o stigmateiddio neu atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o unigolion

3.6 Sicrhau bod unigolion:
- yn gallu cael gafael ar gofnodion, adroddiadau a gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt mewn fformatau hygyrch
- yn cael cyfleoedd i gyflwyno sylwadau, mynegi pryderon, herio neu gwyno am **gynnwys cofnodion, adroddiadau a gwybodaeth** sy'n berthnasol iddynt

3.7 Myfyrio ar eu sgiliau cyfathrebu eu hunain a'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd/gofalwyr ac eraill

3.8 Addasu dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau y gellir cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion, eu teuluoedd/gofalwyr, gweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cynnwys cofnodion, adroddiadau a gwybodaeth** - ysgrifenedig neu lafar

---

Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth mewn perthynas â newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Arwain ymarfer sy'n helpu gweithwyr, unigolion a theuluoedd/gofalwyr i nodi'r canlynol:
- effaith bosibl newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo ar les
- rhwystrau i newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo llwyddiannus
- canlyniadau cadarnhaol o ran newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo

- eu cryfderau a'u galluoedd personol a fydd yn cyfrannu at newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo llwyddiannus

4.2 Galluogi gweithwyr i nodi unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn helpu unigolion a theuluoedd/gofalwyr drwy newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo

# Uned 520 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Noder,** dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ddewis cwblhau uned (521) o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn **ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall** ddewis uned **520** o Grŵp Gorfodol A.

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliannau dysgu: 1; 2; 3; 4; 5; 6; 7; 8
- Uned 411 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 3; 4
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 2; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 520.

**Fformatau hygyrch**, gan gynnwys ffyrdd i helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn hawdd i'w darllen a'i deall (gweler yr adran adnoddau; mae'r canllawiau arfer da hyn yr un mor berthnasol i unigolion ag anableddau dysgu, ac i feysydd sector eraill).

Ystyr **cynnal dadansoddiad beirniadol** yw archwilio rhywbeth yn ofalus fel polisi, gweithdrefn, damcaniaeth, sefyllfa gymhleth, problem neu ddull ymarfer – gan nodi'r rhannau neu'r materion sy'n cyfrannu at y cynnyrch, y sefyllfa neu'r syniad cyfan a phenderfynu sut mae'r gwahanol rannau hyn yn effeithio ar ansawdd y cynnyrch cyfan neu sut mae'r materion unigol yn effeithio ar y sefyllfa gyffredinol

Mae dadansoddiad beirniadol yn cynnwys pwyso a mesur y ffactorau dan sylw, o ran cyfraniad eu cryfderau / gwendidau neu fanteision / anfanteision y cynnyrch neu'r sefyllfa. Mae dadansoddiad beirniadol yn rhan o'r broses o ddeall materion a datblygu ymatebion gwreiddiol a chreadigol

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddi, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grŵp cyfoedion

Gallai **adnoddau** gynnwys adnoddau ariannol, cyfarpar, gweithwyr neu wasanaethau eraill

Yng nghyd-destun lleoliadau i oedolion/cysylltu bywydau ar gyfer yr uned hon, byddai'r term **gweithwyr** yn cyfeirio at ofalwyr mewn lleoliad i oedolion/cysylltu bywydau.

**Mae'r canllawiau cyflwyno canlynol ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol:**

**Datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu cefnogi wrth gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau, profiadau a thasgau beunyddiol sy'n hybu annibyniaeth** – bydd angen i hyn ganolbwyntio ar gynnal ac ailsefydlu sgiliau, lle y bo'n bosibl

**Cynnal cydberthnasau sy'n bodoli eisoes a meithrin cydberthnasau newydd** – cydberthnasau proffesiynol â'r staff fydd y cydberthnasau newydd

**Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i feithrin ymlyniadau a chydberthnasau cadarnhaol, diogel ac iach** - byddai angen i hyn fod yng nghyd-destun cydberthynas gydweithredol llawn ymddiriedaeth â'r staff

**Cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn diwallu anghenion iechyd unigolion** - O fewn y Tîm Amlddisgyblaethol yn yr ardal

**Sicrhau bod protocolau y cytunwyd arnynt lle y caiff tasgau sy'n gysylltiedig ag iechyd eu dirprwyo gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill i weithwyr** - O fewn y Tîm Amlddisgyblaethol yn yr ardal

**Mynediad i gofnodion, adroddiadau a gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt mewn fformatau hygyrch** - Lle y bydd wedi'i ddirprwyo o'r tu allan i'r tîm clinigol sy'n gyfrifol am yr unigolyn

**Cynnwys cofnodion, adroddiadau a gwybodaeth** - Yn unol â pholisïau'r Bwrdd Iechyd Lleol

Gallai **cyfnodau o drosglwyddo** gynnwys: derbyn, rhyddhau, newidiadau posibl o ran diagnosis / prognosis

## *Adnoddau*

- Anabledd Dysgu Cymru – Llawlyfr clir a hawdd ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn hawdd i'w darllen a'i deall i bobl ag anabledd dysgu
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar Ganlyniadau Personol: **https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/canlyniadau-personol**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Risg cadarnhaol a phenderfynu ar y cyd': **https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Risg-cadarnhaol-a-phenderfynu-ar-y-cyd.pdf**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd

- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli arfer a systemau cyfathrebu effeithiol

# Uned 521 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y cymwyseddau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'eiriolaeth annibynnol' hefyd yn cynnwys eiriolaeth broffesiynol annibynnol |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi dulliau gweithredu wedi'u harwain gan unigolion sy'n cyfrannu at y broses o nodi a chyflawni canlyniadau

1.2 Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cynhwysol er mwyn cadarnhau dymuniadau'r unigolyn

1.3 Datblygu diwylliant sy'n grymuso ac yn cefnogi unigolion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt ac i wneud penderfyniadau am y canlyniadau y maent am eu cyflawni

1.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff unigolion gefnogaeth i wneud y canlynol:
- sicrhau llais a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r gofal a'r gefnogaeth a gânt a'r ffordd y caiff eu gwasanaeth ei ddylunio a'i ddarparu
- nodi'r canlyniadau y maent am eu cyflawni a'r ffordd orau o'u helpu i wneud hynny
- nodi cyfleoedd ar gyfer hunaneiriolaeth
- nodi a chydnabod eu cryfderau a'u sgiliau
- datblygu a chynnal sgiliau sy'n eu cefnogi wrth gymryd rhan weithredol mewn prosesau gwneud penderfyniadau
- gwerthuso'r broses o gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ganddynt ac effaith y broses eirioli

1.5 Sicrhau bod cyfleoedd datblygu ar gael i eiriolwyr sy'n eu helpu i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i weithio gydag unigolion er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt

1.6 Sicrhau y caiff eiriolwyr eu cefnogi i ddefnyddio dull gweithredu wedi'i arwain gan unigolion

1.7 Sicrhau bod eiriolwyr yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:
- gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n sensitif i'w hunaniaeth, eu nodweddion, eu hanes, eu diwylliant, eu dewisiadau, eu dymuniadau a'u hanghenion
- hyrwyddo parch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ymdrin ag unigolion fel rhan o'u hymarfer
- cynnwys dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn eu hymarfer
- nodi achosion o wrthdaro buddiannau ac ymdrin â nhw

1.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i gynnal dadansoddiad beirniadol o effaith yr ymarfer ar y broses o gyflawni canlyniadau

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo lles cyfannol unigolion

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi llesiant cyfannol unigolion

2.2 Datblygu diwylliant lle mae eiriolwyr yn ystyried yr agweddau ar les sy'n bwysig i unigolion fel rhan o'u hymarfer beunyddiol

2.3 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff unigolion gefnogaeth i ddiffinio a mynegi eu hymdeimlad o les.

2.4 Datblygu diwylliant sy'n cefnogi cydberthnasau gwaith da sy'n gwerthfawrogi unigolion ac eiriolwyr

2.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo lles unigolion ac yn herio amgylchiadau lle na wneir hynny.

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi prosesau cyfathrebu person/plentyn-ganolog

3.2 Datblygu diwylliant o gyfranogiad gweithredol sy'n:
- cefnogi dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog
- galluogi unigolion i fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt, eu dewisiadau a'u hanghenion
- ystyried dewisiadau a dulliau cyfathrebu ac iaith

3.3 Helpu eraill i werthuso ffactorau a all atal cyfathrebu a chyfranogi
3.4 Helpu eraill i ddeall a defnyddio dulliau i oresgyn y ffactorau a nodwyd sy'n atal unigolion rhag cyfathrebu a chyfranogi
3.5 Sicrhau y defnyddir dulliau cyfathrebu yn y lleoliad sy'n:
- cydnabod cyfrinachedd
- dangos parch at unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- osgoi achosion o stigmateiddio neu atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o unigolion

3.6 Sicrhau bod unigolion:
- yn gallu cael gafael ar gofnodion, adroddiadau a gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt mewn fformatau hygyrch
- yn cael cyfleoedd i gyflwyno sylwadau, mynegi pryderon, herio neu gwyno am **gynnwys cofnodion, adroddiadau a gwybodaeth** sy'n berthnasol iddynt

3.7 Myfyrio ar eu sgiliau cyfathrebu eu hunain a'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu ag unigolion ac eraill
3.8 Addasu dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau y gellir cyfathrebu'n effeithiol ag unigolion, eu teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cynnwys cofnodion, adroddiadau a gwybodaeth** ysgrifenedig neu lafar

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth mewn perthynas â newidiadau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:
- ystyried effaith bosibl y newid arfaethedig
- mynegi eu barn am y newid arfaethedig
- cymryd rhan weithredol yn y broses
- nodi addasiadau a fydd yn lleihau effeithiau negyddol

4.2 Galluogi eiriolwyr i nodi cefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn helpu unigolion drwy newidiadau

# Uned 521 Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Noder,** dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn **arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol** ddewis cwblhau'r uned hon (**521**) o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o Grŵp Gorfodol A.

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliannau dysgu: 1; 2; 4; 5; 6; 7; 8
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 2; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 521.

Byddai **dulliau gweithredu** yn cynnwys eiriolaeth heb gyfarwyddyd ac eiriolaeth â chyfarwyddyd

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddi, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grŵp cyfoedion

### *Adnoddau*

- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

### *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd
- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli arfer a systemau cyfathrebu effeithiol

# Uned 522 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 65 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y cymwyseddau sydd eu hangen i arwain a rheoli perfformiad tîm yn effeithiol. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain y broses o ddatblygu diwylliant cadarnhaol sy'n gymhellol ac yn ysbrydoledig

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sydd:
- yn agored, yn ddiogel ac yn gynhwysol
- yn cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- yn gwerthfawrogi cyfraniadau gweithwyr tuag at gyflawni canlyniadau cadarnhaol a darparu gwasanaethau
- yn annog arloesedd a chreadigrwydd
- yn annog dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion
- yn cymell gweithwyr

1.2 Helpu gweithwyr i ddeall gweledigaeth gyffredin a chyfeiriad strategol y sefydliad a'r gwasanaeth a'u rôl wrth helpu i gyflawni ei amcanion

1.3 Defnyddio arddulliau a dulliau arwain i roi gweledigaeth y sefydliad ar waith mewn ffyrdd sy'n fyfyriol, yn gymhellol, yn arloesol ac yn gynhwysol

1.4 Sicrhau y caiff cyfraniad cadarnhaol gweithwyr ei gydnabod a'i werthfawrogi

1.5 Gweithredu fel model rôl cadarnhaol ar gyfer arloesedd, creadigrwydd a newid

1.6 Ysbrydoli hyder drwy ymateb yn effeithlon, yn gadarnhaol ac yn adeiladol i faterion, canmoliaeth neu gwynion a godir gan unigolion neu eraill

1.7 Myfyrio ar eich rhinweddau a'ch ymddygiad arwain eich hun, ac ystyried i ba raddau y maent yn cefnogi diwylliant cymhellol ac ysbrydoledig o fewn y tîm ac wrth weithio gydag eraill

1.8 Defnyddio modelau arwain, fframweithiau damcaniaethol ac arferion gorau a welwyd/a brofwyd gan arweinwyr/rheolwyr eraill er mwyn datblygu eich ymarfer eich hun fel arweinydd

Deilliant dysgu:

2. Rheoli prosesau recriwtio gweithwyr sy'n seiliedig ar werthoedd

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi prosesau recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd

2.2 Sicrhau bod prosesau recriwtio a dethol yn bodloni gofynion dethol diogel

2.3 Gweithio o fewn gofynion sefydliadol i wneud y canlynol:

- gwerthuso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu a nodi unrhyw fylchau
- helpu i ddatblygu disgrifiadau swydd a manylebau person sy'n diwallu anghenion y ddarpariaeth gwasanaethau ac unrhyw fylchau a nodwyd
- cytuno ar brosesau dethol a recriwtio gydag eraill
- cytuno sut y gall unigolion gymryd rhan yn y broses recriwtio a dethol
- hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu

2.4 Gweithio o fewn gofynion sefydliadol i wneud y canlynol:

- defnyddio prosesau recriwtio a dethol y cytunwyd arnynt
- darparu gwybodaeth ac adborth clir a chywir i ymgeiswyr lle y gofynnir am hynny
- Cadw cofnodion clir a chywir o'r broses recriwtio a dethol

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

3. Rheoli prosesau sefydlu gweithwyr sy'n seiliedig ar werthoedd

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi prosesau sefydlu sy'n seiliedig ar werthoedd

3.2 Sicrhau y caiff gweithwyr newydd ddisgrifiad swydd ysgrifenedig, manyleb person a chontract sy'n amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau

3.3 Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer gweithwyr newydd sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

3.4 Sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu cefnogi i feithrin dealltwriaeth o'r canlynol:

- eu rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau
- gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
- Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- gweithdrefnau ac arferion y mae'n rhaid iddynt eu dilyn yn eu gwaith

3.5 Sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael cyfleoedd i drafod materion ymarfer, eu cynnydd a'u hanghenion dysgu a datblygu yn rheolaidd

3.6 Sicrhau bod gan weithwyr newydd gynllun datblygiad personol sy'n ystyried

- eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u profiad presennol
- disgwyliadau eu rôl
- gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ychwanegol sydd eu hangen

3.7 Sicrhau bod pob penodiad parhaol neu gyfnod penodol yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn foddhaol
3.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer sefydlu gweithwyr asiantaeth a/neu wirfoddolwyr

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

4. Rheoli datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr drwy drefniadau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer trefniadau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad
4.2 Sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig ar waith ar gyfer goruchwylio ac adolygu perfformiad pob gweithiwr
4.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion
4.4 Sicrhau bod cofnodion o sesiynau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad yn gywir ac yn cael eu cwblhau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt
4.5 Defnyddio sylwadau ac adborth gan unigolion ac eraill i asesu ymarfer gweithwyr yn erbyn eu rolau a'u cyfrifoldebau diffiniedig
4.6 Creu amgylchedd cadarnhaol sy'n cefnogi prosesau cyfnewid gwybodaeth ac adborth adeiladol fel rhan o sesiynau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad
4.7 Defnyddio sesiynau goruchwylio â gweithwyr i wneud y canlynol:
- rhoi adborth adeiladol ar ymarfer
- cytuno ar gamau gweithredu, terfynau amser a nodau
- monitro a gwerthuso'r broses o gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt
- nodi meysydd ar gyfer dysgu a datblygu a gweithgareddau a dulliau a ddefnyddir i'w cefnogi
- helpu i fyfyrio ar ymarfer ac i nodi i ba raddau y mae gweithgareddau wedi diwallu eu hanghenion dysgu a datblygu
- eu hannog i gymryd cyfrifoldeb personol dros eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain
- deall unrhyw ofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol neu sefydliadol ar gyfer dysgu a datblygu
- adolygu a rheoli eu llwyth gwaith
- trafod unrhyw broblemau iechyd neu les a chytuno ar gamau gweithredu er mwyn ymdrin â nhw
- addasu i newid

4.8 Cynnig cyfleoedd datblygu er mwyn cefnogi ymarfer diogel ac effeithiol ymhlith gweithwyr

4.9 Cael gafael ar gefnogaeth ychwanegol i weithwyr nad ydynt yn teimlo'n gymwys i gyflawni unrhyw agwedd ar eu gwaith

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

5. Rheoli'r broses o ddirprwyo tasgau

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer dirprwyo tasgau

5.2 Sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch y canlynol:

- diben y tasgau a ddirprwywyd iddynt
- eu rôl a'u cyfrifoldeb dros y tasgau
- y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau
- y camau gweithredu i'w cymryd os na fyddant yn meddu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth neu'r sgiliau sydd eu hangen, neu os ystyrir nad yw'r dasg yn ddiogel
- unrhyw hyfforddiant neu gefnogaeth a fydd ar gael i'w cefnogi wrth gyflawni'r tasgau
- sut y caiff eu gwaith ei fonitro

5.3 Dilyn gweithdrefnau llywodraethu y cytunwyd arnynt lle y caiff tasgau eu dirprwyo gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill

5.4 Cael gafael ar gefnogaeth ac adnoddau ychwanegol er mwyn galluogi gweithwyr i gyflawni'r tasgau a ddirprwywyd lle y bo angen hynny

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

6. Deall gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn neu berfformiad anfoddhaol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n ymwneud â rheoli perfformiad gwael a sut a phryd y dylid gofyn am gyngor arbenigol

6.2 **Opsiynau rheoli** y gellir eu defnyddio er mwyn helpu i wella perfformiad

**Ystod**

**Opsiynau rheoli** Hyfforddiant, pennu amcanion, hyfforddi/mentora, cyfryngu, opsiynau disgyblu gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y gŵyn, atgyfeiriad addasrwydd i ymarfer i gyrff rheoleiddio

---

Deilliant dysgu:

7. Rheoli achosion o wrthdaro a pherfformiad gwael yn y tîm

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer ymdrin â pherfformiad gwael
7.2 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion o **gamymddwyn a pherfformiad anfoddhaol**
7.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael adborth clir, teg a rheolaidd ar eu perfformiad ac unrhyw broblemau posibl o ran ymddygiad
7.4 Datblygu diwylliant ac amgylchedd lle mae unigolion ac eraill yn teimlo y gallant herio ymddygiad a pherfformiad sydd islaw'r safonau disgwyliedig
7.5 Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau yn annog unigolion i roi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad a pherfformiad
7.6 Cytuno ar opsiynau rheoli lle mae ymddygiad a pherfformiad gweithwyr islaw'r safon ddisgwyliedig
7.7 Defnyddio sesiynau goruchwylio i ystyried y rhesymau dros ymddygiad a pherfformiad sydd islaw'r safonau disgwyliedig, a'u trafod â gweithwyr, er mwyn nodi achosion sylfaenol ac atebion posibl
7.8 Asesu'r broses o gyflawni amcanion ymddygiad a pherfformiad a bennwyd ar gyfer gweithwyr er mwyn cadarnhau a fu gwelliant
7.9 Cynnal cyfrinachedd ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â chamymddwyn neu berfformiad anfoddhaol yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
7.10 Gwerthuso sefyllfaoedd a allai arwain at achosion o wrthdaro, pwysau cynyddol neu argyfyngau ac ymyrryd i'w hosgoi
7.11 Defnyddio modelau a fframweithiau damcaniaethol i ddatblygu arfer personol wrth reoli achosion o wrthdaro a pherfformiad gwael yn y tîm

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Achosion o gamymddwyn a pherfformiad anfoddhaol**, gan gynnwys Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

---

Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli arloesedd a newid

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.1 Hwyluso dealltwriaeth gyffredin o'r angen am arloesedd a newid a sut mae hyn yn cefnogi'r canlynol:
- Gweledigaeth gyffredin ac amcanion strategol y sefydliad a'r gwasanaeth
- Y broses o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion

8.2 Sicrhau bod gweithwyr ac eraill yn cael eu cefnogi i ddeall unrhyw gynllun rheoli newid, eu rôl a'u cyfrifoldebau a sut y caiff y cynlluniau eu gwerthuso
8.3 Asesu heriau ac effeithiau posibl newidiadau arfaethedig a gweithio gydag eraill er mwyn datblygu atebion
8.4 Addasu cynlluniau er mwyn ystyried materion wrth iddynt godi
8.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y cynhelir ansawdd y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o newid

# Uned 522 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliannau dysgu: 1
- Uned 411 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 1; 2; 5; 6
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 1; 2; 3; 4; 5; 6; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 522.

Byddai **gweithwyr asiantaeth** hefyd yn cynnwys gweithwyr annibynnol ar gontract

Gall **cynllun rheoli newid** gynnwys y canlynol:

- Cynllun datblygu'r gweithlu
- Cynllun adnoddau
- Cynllun cefnogaeth ar gyfer unigolion ac eraill yr effeithir arnynt gan y newid
- Cynllun cyfathrebu
- Cynllun rheoli risg
- Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Dylai **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

**Tasgau a Ddirprwywyd** I arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau eiriolaeth, byddai'r cyd-destun yn ymwneud â thasgau a ddirprwywyd gan gomisiynwyr.

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddiant, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau â grwpiau o gyfoedion

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

Ystyr **rheolaeth** yw'r gallu i bennu'r cyfeiriad gweithredol a threfnu i redeg y gwasanaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion

moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan eu galluogi i ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

Y **cyfnod prawf** fyddai'r cyfnod o amser lle y disgwylir i weithwyr a recriwtiwyd gyrraedd y safonau a nodwyd yn y fanyleb person ar gyfer eu rôl. Mae'n bosibl y bydd rhai sefydliadau yn defnyddio terminoleg wahanol ar ei gyfer, ac os felly, dyma fyddai'r gofynion a'r prosesau a ddefnyddir gan y sefydliad i gadarnhau bod gweithwyr newydd yn addas ar gyfer y swydd.

**Lle bo ymddygiad a pherfformiad gweithwyr islaw'r safon ddisgwyliedig:** byddai hyn yn cynnwys Codau Ymddygiad ac Ymarfer, y rôl a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, gofynion sefydliadol

**Mae'r canllawiau cyflwyno canlynol ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol:**

**Cyfnod prawf -** Byddai hyn yn cyfeirio at yr amodau cyflogaeth, gan nad yw'r GIG yn defnyddio unrhyw gyfnodau prawf

## *Adnoddau*

- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle: **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Pecyn Cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/datblygiad-proffesiynol-parhaus-dpp**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer sefydlu: **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Ffiniau proffesiynol: adnodd i reolwyr': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/professional-boundaries-a-resource-for-managers**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Canllaw i gyflogwyr ar broses atgyfeirio, ymchwilio a gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer': **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/canllaw-i-gyflogwyr-ar-broses-atgyfeirio-ymchwilio-a-gwrandawiadau-addasrwydd-i-ymarfer**

## *SGC cysylltiedig*

- SCDLMC A1 Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal
- SCDLMC A2 Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal
- SCDLMC A3 Ymwneud yn weithredol â dethol a recriwtio gweithwyr yn ddiogel a'u cadw mewn gwasanaethau gofal

- SCDLMC A5 Rheoli dyraniad, cynnydd ac ansawdd gwaith mewn darpariaeth gwasanaeth gofal
- SCDLMC E2 Arwain wrth reoli perfformiad darpariaeth gwasanaeth gofal
- SCDLMC E10 Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

# Uned 523 Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 70 |
| **Credyd:** | 16 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ansawdd y gwasanaethau a ddarperir er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Deall damcaniaethau, dulliau a modelau y gellir eu defnyddio er mwyn helpu'r gwasanaethau a ddarperir i fodloni'r gofynion ar gyfer safonau ansawdd

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y safonau ansawdd y mae'n rhaid i'r gwasanaeth eu cyrraedd

1.2 Damcaniaethau, dulliau a modelau rheoli perfformiad, sicrhau ansawdd a rheoli'r gwasanaeth

1.3 Modelau busnes ac adnoddau sy'n helpu i nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i'r gwasanaethau a ddarperir

1.4 Sut i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil gyfredol, ymchwiliadau, adolygiadau ac adroddiadau er mwyn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir

1.5 Cyfrifoldeb pobl a sefydliadau allweddol o ran sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

## Deilliant dysgu:

2. Nodi dangosyddion perfformiad y gwasanaethau a ddarperir a'r dulliau a ddefnyddir i'w mesur

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Meithrin dealltwriaeth o fewn y gwasanaethau a ddarperir o'r safonau ansawdd y mae angen eu cyrraedd

2.2 Sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch y canlynol:

- eu rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau
- gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
- Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol y mae'n rhaid iddynt eu dilyn

er mwyn cyrraedd safonau ansawdd

2.3 Arwain gwaith i nodi sut y caiff perfformiad y gwasanaethau a ddarperir ei fesur, gan gynnwys dangosyddion allweddol a rolau a chyfrifoldebau

2.4 Nodi dulliau priodol ar gyfer casglu data er mwyn mesur perfformiad y gwasanaethau a ddarperir mewn ffordd wrthrychol

---

## Deilliant dysgu:

3. Rheoli'r broses o roi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith i fonitro, mesur a gwella perfformiad y gwasanaethau a ddarperir

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i fonitro a mesur cynnydd y gwasanaethau a ddarperir yn erbyn y dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt

3.2 Cynnal dadansoddiad beirniadol o wybodaeth a data meintiol ac ansoddol a gesglir drwy fonitro perfformiad

3.3 Dehongli'r dadansoddiad data er mwyn adrodd ar ddangosyddion perfformiad a fodlonwyd a meysydd i'w gwella

3.4 Nodi'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella'r meysydd y mae angen eu gwella a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gwneud hynny

3.5 Cytuno ar gynlluniau i wella perfformiad â'r bobl a/neu'r sefydliadau allweddol

3.6 Asesu sut mae ymarfer gweithwyr yn cyfrannu at ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

3.7 Sicrhau y caiff cyfraniad cadarnhaol gweithwyr ei gydnabod a'i werthfawrogi

3.8 Datblygu diwylliant sy'n cefnogi arloesedd, creadigrwydd a newidiadau er mwyn cyrraedd safonau ansawdd

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

4. Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ganmoliaeth, pryderon a chwynion i wella'r gwasanaethau a ddarperir

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o ganmoliaeth, pryderon a chwynion
4.2 Datblygu diwylliant lle yr ystyrir y gellid defnyddio canmoliaeth, pryderon a chwynion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir
4.3 Arwain gwaith i adolygu canmoliaeth, pryderon a chwynion yn rheolaidd er mwyn nodi tueddiadau, meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella yn y gwasanaethau a ddarperir
4.4 Sicrhau bod gweithwyr ac unigolion/teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o feysydd o arfer da a meysydd i'w gwella yn y gwasanaethau a ddarperir
4.5 Defnyddio adolygiadau o ganmoliaeth, pryderon a chwynion i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
4.6 Cofnodi newidiadau a wneir mewn ymateb i adolygiadau o ganmoliaeth, pryderon a chwynion a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 523 Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 411 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu; 2; 3; 4
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliant dysgu: 2

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i uned 523.

Dylai **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Ystyr **cynnal dadansoddiad beirniadol** yw archwilio rhywbeth yn ofalus fel polisi, gweithdrefn, damcaniaeth, sefyllfa gymhleth, problem neu ddull ymarfer – gan nodi'r rhannau neu'r materion sy'n cyfrannu at y cynnyrch, y sefyllfa neu'r syniad cyfan a phenderfynu sut mae'r gwahanol rannau hyn yn effeithio ar ansawdd y cynnyrch cyfan neu sut mae'r materion unigol yn effeithio ar y sefyllfa gyffredinol

Mae dadansoddiad beirniadol yn cynnwys pwyso a mesur y ffactorau dan sylw, o ran cyfraniad eu cryfderau / gwendidau neu fanteision / anfanteision y cynnyrch neu'r sefyllfa. Mae dadansoddiad beirniadol yn rhan o'r broses o ddeall materion a datblygu ymatebion gwreiddiol a chreadigol

Gallai **pobl a sefydliadau allweddol** gynnwys y canlynol:

- Unigolyn cyfrifol
- Rheolwr cofrestredig
- Gweithwyr
- Cyrff rheoleiddio fel:
  - Arolygiaeth Gofal Cymru
  - Arolygiaeth Iechyd Cymru
  - Estyn
  - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
  - Comisiynwyr gwasanaethau
- Byrddau llywodraethu/pwyllgorau/ymddiriedolwyr
- Grwpiau sy'n cynrychioli unigolion/teuluoedd/gofalwyr
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

- Swyddfa Archwilio Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol/ymddiriedolaethau
- Llywodraeth Cymru

Gallai'r **safonau ansawdd y mae'n rhaid i'r gwasanaeth eu cyrraedd** gynnwys y canlynol:

- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: rheoliadau cysylltiedig a chanllawiau statudol
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Y Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)
- Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Cod Ymarfer i Gyflogwyr
- Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru
- Canllawiau Ymarfer (a gyhoeddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru)

**Mae'r canllawiau cyflwyno canlynol ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol:**

**Adolygu canmoliaeth, pryderon a chwynion yn rheolaidd er mwyn nodi tueddiadau** - Gwneir hyn ar y cyd ag adran gwynion y sefydliad (sy'n chwarae rhan arweiniol yn achos cwynion ffurfiol), yn ogystal â chwynion lleol (anffurfiol)

**Sicrhau bod gweithwyr ac unigolion/teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o feysydd o arfer da a meysydd i'w gwella yn y gwasanaethau a ddarperir** - Ar lefel leol, byddai hyn yn berthnasol i'r gweithwyr, nid o reidrwydd i unigolion. Fel arfer, bydd hyn yn rhan o rôl yr adran gyfathrebu, yn hytrach nag yn benodol i faes clinigol, felly byddai'n cynnwys cydgysylltu â'r adran gyfathrebu

## *Adnoddau*

- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCA1** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu
- **SCDLMCE2** Arwain wrth reoli perfformiad darpariaeth gwasanaeth gofal
- **SCDLMCE3** Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal i ateb gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol, cofrestru ac arolygu
- **SCDLMCE9** Rheoli systemau, gweithdrefnau ac arferion mewn gwasanaethau gofal ar gyfer derbyn ac ymateb i ganmoliaeth, pryderon a chwynion, a dysgu ohonynt

# Uned 524 Ymarfer proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i fyfyrio ar eu hymarfer proffesiynol a'i ddatblygu mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'iechyd a gofal cymdeithasol' hefyd yn cyfeirio at eiriolaeth. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Cyfrifoldebau ac atebolrwyddau proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol

1.2 Gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a phwysigrwydd bod yn agored ac yn onest os bydd pethau'n mynd o chwith

1.3 Atebolrwydd am ansawdd ymarfer personol

1.4 Pwysigrwydd cydnabod ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldebau a chydymffurfio â nhw

1.5 Sut a phryd i ofyn am gefnogaeth ychwanegol mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch rôl, cyfrifoldebau, lefel o brofiad ac arbenigedd neu os byddwch yn ansicr ynghylch sut i fwrw ati mewn perthynas â mater gwaith

## Deilliant dysgu:

2. Datblygu sgiliau arwain ac ymarfer moesegol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2

2.1 Defnyddio **damcaniaethau a fframweithiau** i fyfyrio ar sgiliau a rhinweddau arwain personol a'u datblygu
2.2 Gofyn am adborth ar sgiliau arwain personol a defnyddio'r adborth hwnnw i wella ymarfer
2.3 Myfyrio ar y ffordd y mae eich ymarfer personol yn gwneud y canlynol:
- gwerthfawrogi, parchu, hyrwyddo a dathlu amrywiaeth
- herio anghydraddoldeb mewn modd effeithiol
- hyrwyddo diwylliant sy'n deg, yn gynhwysol ac nad yw'n gwahaniaethu
- parchu'r proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol
- dangos esiampl drwy gydymffurfio â'r Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- cydnabod y pŵer sy'n dod gyda'r rôl a'i ddefnyddio mewn modd sensitif

## Ystod

**Damcaniaethau a fframweithiau** Deallusrwydd Emosiynol, Rheoli Cydbertnasau, Dadansoddi Trafodion, Fframwaith Synhwyrau, Cymhelliant, Gostyngeiddrwydd Diwylliannol

---

## Deilliant dysgu:

3. Sicrhau bod eich datblygiad proffesiynol parhaus yn bodloni gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3
3.1 Sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus
3.2 Defnyddio llenyddiaeth, gwaith ymchwil ac adolygiadau perthnasol i sicrhau bod ymarfer yn gyfredol ac yn effeithiol
3.3 Gwerthuso ac adolygu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau yn erbyn y canlynol fel mater o drefn:
- gofynion deddfwriaethol perthnasol
- safonau a fframweithiau perthnasol
- Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth

er mwyn nodi meysydd i'w gwella
3.4 Defnyddio cyfleoedd datblygu i wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau

---

## Deilliant dysgu:

4. Datblygu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4

4.1 Meithrin ymddiriedaeth a hyder â phartneriaid gan gydnabod eich rolau, cyfrifoldebau, atebolrwyddau ac arbenigedd eich hun ac eraill
4.2 Rhoi egwyddorion 'Cyd-ddibyniaeth Gadarnhaol' ar waith er mwyn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
4.3 Meithrin cydberthnasau effeithiol â phartneriaid ond gan gynnal ffiniau proffesiynol clir ar yr un pryd
4.4 Cymryd camau i ddatrys heriau sy'n deillio o drefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
4.5 Cydymffurfio â phrotocolau y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithio a rhannu gwybodaeth ar y cyd
4.6 Hyrwyddo hawliau a lles unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn barhaus gyda gweithwyr proffesiynol eraill

---

## Deilliant dysgu:

5. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer cyflwyno, cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
5
5.1 Fformat a diben adroddiadau a rhannu gwybodaeth a sut y dylid ei **chyflwyno**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
5.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau arni yn y lleoliad gwaith
5.3 Sicrhau bod eich cofnodion a'ch adroddiadau eich hun yn:
- gywir
- wedi'u dyddio
- gwrthrychol
- dealladwy
- darllenadwy
- hygyrch
- adlewyrchu safbwyntiau unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- cydnabod cyfrinachedd
- dangos parch at unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- osgoi achosion o stigmateiddio neu atgyfnerthu canfyddiadau negyddol o unigolion
- gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- cael eu cyflwyno i'r rheini y mae angen iddynt wneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu
- cael eu storio, eu rhannu a'u cadw'n unol â pholisïau sefydliadol, gofynion cyfreithiol a gofynion diogelu data

## Ystod

**Wedi'u cyflwyno** yn ysgrifenedig ac ar lafar

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 524 Ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliant dysgu: 1
- Uned 411 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 1; 2
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 1; 2; 4; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i uned 524.

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol** gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddiant, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau â grwpiau o gyfoedion

**Protocolau rhannu gwybodaeth** gan gynnwys WASPI

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

Byddai **partneriaeth** yn cynnwys trefniadau gweithio amlddisgyblaethol

Mae **Cyd-ddibyniaeth Gadarnhaol** yn adlewyrchu cydberthnasau cydweithredol a chyfathrebu effeithiol, lle ceir trafodaeth agored a lle mae aelodau'r grŵp yn barod i dderbyn syniadau ei gilydd (Damcaniaeth Cyd-ddibyniaeth Gymdeithasol - Deutsch 1958, 2002)

Gallai **fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer perthnasol** gynnwys y canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: rheoliadau cysylltiedig a chanllawiau statudol
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Y Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)

- Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- Cod Ymarfer i Gyflogwyr
- Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru
- Canllawiau Ymarfer (a gyhoeddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru)

## *Adnoddau*

- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCA1** Rheoli a datblygu eich hun a’ch gweithlu
- **SCDLMCE1** Arwain a rheoli cyfathrebu effeithiol sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl o fewn gwasanaethau gofal

# Uned 525 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo diogelu unigolion mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol er mwyn diogelu unigolion

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n galluogi gweithwyr i gydymffurfio â gofynion diogelu

1.2 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau gweithredu lle na cheir cydymffurfiaeth

1.3 Rheoli perfformiad gweithwyr er mwyn bodloni gofynion diogelu deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

2. Datblygu a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu unigolion

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr yn deall gwybodaeth am arwyddion a symptomau a all ddangos bod unigolyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu fod perygl o hynny
2.2 Sicrhau bod gweithwyr yn deall gwybodaeth am ofynion lle ceir pryderon bod unigolyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu fod perygl o hynny, gan gynnwys achosion chwythu'r chwiban
2.3 Sicrhau bod gweithwyr yn deall rôl gwahanol asiantaethau, gan gynnwys eiriolaeth, o ran diogelu unigolion
2.4 Sicrhau bod gweithwyr yn deall sut i osgoi camau gweithredu a datganiadau a allai gael effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio tystiolaeth fel rhan o ymchwiliadau neu achos llys yn y dyfodol, gan roi blaenoriaeth ar yr un pryd i ddiogelu unigolion.
2.5 Defnyddio Adolygiadau o Ymarfer i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a ffyrdd o weithio sy'n hyrwyddo diogelu
2.6 Myfyrio ar eich ymddygiad eich hun er mwyn sicrhau nad yw'n cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu neu ymddygiad a allai fod yn niweidiol neu'n sarhaus

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n diogelu unigolion rhag cael eu niweidio a'u cam-drin

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Sicrhau bod gweithwyr yn deall eu cyfrifoldeb o ran egluro wrth unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr bod cyfrifoldeb arnynt i ddatgelu unrhyw wybodaeth am achosion posibl neu wirioneddol o niwed neu gam-drin
3.2 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i weithio gydag unigolion ac eraill i gytuno ar weithdrefnau i'w dilyn os bydd sefyllfaoedd, digwyddiadau neu ymddygiad yn codi a allai arwain at achosion o niweidio neu gam-drin
3.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i gymryd camau ar unwaith os byddant yn gweld arwyddion neu symptomau o niwed neu gam-drin neu lle y bydd achos o'r fath wedi cael ei ddatgelu
3.4 Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau yn bodloni **gofynion deddfwriaethol a sefydliadol**
3.5 Dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwybodaeth am achosion a amheuir neu achosion a ddatgelwyd o niwed neu gam-drin o fewn cytundebau cyfrinachedd
3.6 Monitro effeithiolrwydd systemau i ddiogelu unigolion a chymryd camau i wella ymarfer yn barhaus
3.7 Defnyddio sesiynau goruchwylio a chefnogaeth i ystyried effaith achos a amheuir neu achos a ddatgelwyd o niwed neu gam-drin ar weithwyr, arnoch chi eich hun ac ar eraill
3.8 Cael gafael ar gefnogaeth ychwanegol ar gyfer sefyllfaoedd sydd y tu allan i'ch arbenigedd, eich rôl a'ch cyfrifoldeb

**Ystod**

Mae **gofynion deddfwriaethol a sefydliadol** yn fanwl, yn gywir, wedi'u hamseru, wedi'u dyddio a'u llofnodi, yn cydymffurfio â chytundebau cyfrinachedd, yn osgoi'r defnydd o ddatganiadau a allai gael effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio tystiolaeth mewn ymchwiliadau ac achosion llys yn y dyfodol

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi hawliau, lles a chydberthnasau cadarnhaol er mwyn hyrwyddo diogelu

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Helpu gweithwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng **ymarfer person/plentyn-ganolog** a diogelu unigolion
4.2 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n hyrwyddo ymarfer person/plentyn-ganolog wrth ddiogelu unigolion
4.3 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi cydberthnasau cadarnhaol rhwng gweithwyr ac unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
4.4 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i fynegi eu hofnau, eu pryderon, eu teimladau a'u gofidiau heb ofni y cânt eu gwatwar, eu gwrthod na'u barnu
4.5 Sicrhau y defnyddir dulliau cyfathrebu yn y lleoliad sy'n cydnabod cyfrinachedd o fewn ffiniau diogelu

### Ystod

**Ymarfer person/plentyn-ganolog** sy'n helpu unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, yn hyrwyddo lles corfforol a lles meddwl unigolion, yn hyrwyddo dulliau cyfathrebu person/plentyn-ganolog, yn cefnogi newid a chyfnodau o drosglwyddo

### Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Arwain y broses o reoli ymarfer sy'n herio ymddygiad neu gamau gweithredu a all arwain at achos o niwed neu gam-drin
5.2 Arwain a rheoli gwaith gydag unigolion i nodi ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a all achosi niwed neu gam-drin neu arwain at achos o'r fath
5.3 Arwain a rheoli gwaith gydag unigolion/eu teuluoedd a'u gofalwyr i nodi pa gamau y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn osgoi sefyllfaoedd a all arwain at achos o niwed neu gam-drin
5.4 Arwain a rheoli gwaith gydag unigolion a/neu eu teuluoedd a'u gofalwyr sy'n cytuno ar ffiniau teg, diogel, cyson a dealladwy i'w cadw'n ddiogel
5.5 Arwain y broses o reoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gydnabod pan fo ymddygiad tuag atynt neu tuag at eraill yn amhriodol neu'n annerbyniol

# Uned 525 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn arbennig:

- Uned 410 Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog - Deilliannau dysgu: 2; 4; 5; 6; 7; 8: 9
- Uned 411 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 2
- Uned 412 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - Deilliannau dysgu: 2

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 525.

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

Ystyr **rheolaeth** yw'r gallu i bennu'r cyfeiriad gweithredol a threfnu i redeg y gwasanaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

Rhaid ystyried **cytundebau cyfrinachedd** yn unol â phrotocolau cyfredol WASPI.

**Rheoli perfformiad gweithwyr:** Byddai hyn yn cynnwys:

- Recriwtio a dethol diogel
- Darparu rhaglen sefydlu effeithiol
- Darparu cyfleoedd datblygu
- Hyrwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth â holl bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
- Hyrwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer
- Darparu sesiynau goruchwylio rheolaidd ac adolygiadau o berfformiad rheolaidd

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCB1** Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi diogelu unigolion
- **SCDHSC 0431** Cefnogi unigolion sydd wedi eu niweidio neu eu cam-drin

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed rhag Camdriniaeth 2010
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Y Ddeddf Plant (1989 a 2004)
- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Diwygiad i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
  - Ar Gov.UK (felly nid ydynt yn ddwyieithog)
  - Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 **https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-bill**
  - Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – diogelu **https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-strategy-**2019-to-2025-office-of-the-public-guardian
  - Diogelu i sefydliadau elusennol **https://www.gov.uk/government/publications/strategy-for-dealing-with-safeguarding-issues-in-charities** **https://www.gov.uk/guidance/charities-how-to-protect-vulnerable-groups-including-children**
  - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) **https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service**
  - Cymhwysedd **https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance**
  - Atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) **https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs**
  - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhan 7 diogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/arweiniad-statudol**
  - Byw Heb Ofn **https://livefearfree.gov.wales/?lang=en** / **https://livefearfree.gov.wales/?skip=1**&lang=cy
  - Caethwasiaeth Fodern **https://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/modern-slavery?lang=cy-gb**
  - Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol - adolygiadau arfer **http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews/?noredirect=cy_GB**
  - Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru (enghraifft dda o wefan gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol) **https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/**
  - Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu**
  - Dyletswyddau atal

## *Adnoddau*

- Gofal Cymdeithasol Cymru - Pecyn Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu: **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu**

- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

# Uned 526 Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Diben yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau er mwyn arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a /neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Deall gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol o ran iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol o ran iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

1.2 Eich cyfrifoldeb chi ac **eraill** dros iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

## Ystod

**Eraill** Sefydliad (aelodau'r bwrdd, uwch reolwyr/unigolyn cyfrifol, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, unigolion/teuluoedd/gofalwyr)

## Deilliant dysgu:

2. Monitro a chynnal cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr ac eraill yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion gwaith a chyfreithiol sydd eu hangen er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

2.2 Sicrhau bod systemau ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr ac eraill am newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith a chyfreithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch

2.3 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch a chymryd camau gweithredu lle na cheir cydymffurfiaeth

2.4 Arwain gwaith gydag eraill i nodi, asesu, lleihau a rheoli risgiau a pheryglon posibl yn yr amgylchedd gwaith

2.5 Sicrhau y caiff cofnodion ac adroddiadau ar iechyd, diogelwch a rheoli risg eu cwblhau'n unol â gofynion deddfwriaethol a gofynion y lleoliad gwaith

---

Deilliant dysgu:

3. Rheoli'r risg o salwch cysylltiedig â gwaith

Meini prawf asesu:

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Asesu risgiau posibl yn y lleoliad gwaith mewn perthynas â salwch cysylltiedig â gwaith

3.2 Nodi a gweithredu dulliau sy'n helpu gweithwyr i osgoi salwch cysylltiedig â gwaith

3.3 Monitro salwch cysylltiedig â gwaith yn y lleoliad gwaith, gan gynnwys tueddiadau yn y gweithlu

3.4 Cymryd camau gweithredu i ymdrin ag achosion o salwch cysylltiedig â gwaith a nodwyd

# Uned 526 Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Salwch cysylltiedig â gwaith – byddai hyn yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gan gynnwys straen. Gweler adnoddau HSE i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad.

### *SGC cysylltiedig*

- SCDLMC C1 Arwain a rheoli arfer ar gyfer iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

### *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 1999
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi 1998
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013
- Rheoliadau (Diogelwch) Cyfarpar Trydanol 1994
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Llesiant) 1992

### *Adnoddau*

- Rheoli Sylweddau Peryglus I Iechyd (COSHH): **http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm**
- Dermatitis ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/dermatitis.htm**
- Diogelwch trydanol yn y gwaith: **http://www.hse.gov.uk/trydan/indhttp://www.hse.gov.uk/electricity/index.htmex.htm**
- Diogelwch offer: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/equipment-safety.htm**
- Syrthio o ffenestri neu falconïau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis5.htm**
- Syrthio o ffenestri: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/falls-windows.htm**
- Mynd i'r afael â chodi pobl: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis3.pdf**
- Iechyd a diogelwch mewn cartrefi gofal: **http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg220.htm**
- Sut mae'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi yn gymwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis4.htm**
- Heintiau yn y gwaith: **http://www.hse.gov.uk/biosafety/infection.htm**

- Legionella: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/legionella.htm**
- Rheoli'r risg o ddŵr ac arwynebeddau poeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis6.htm**
- Rheoli straen yn y gweithle: **http://www.hse.gov.uk/stress/standards/index.htm**
- Symud a chodi a chario: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/moving-handling.htm**
- Rhoi gwybod am anafiadau, afiechydon a digwyddiadau peryglus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis1.htm**
- RIDDOR: **http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm**
- Defnyddio canllawiau gwely yn ddiogel: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/bed-rails.htm**
- Asesiadau risg synhwyrol: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/sensible-risk-assessment-care-settings.htm**
- Sgaldio a llosgi: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/scalding-burning.htm**
- Anafiadau o ganlyniad i eitemau miniog: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/needlesticks/index.htm**
- Llithro a baglu: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/slips/index.htm**
- Trais yn y gweithle: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/violence/index.htm**
- Salwch cysylltiedig â gwaith: **http://www.hse.gov.uk/statistics/industry/health.pdf**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'Camau Cyntaf mewn Rheoli': **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/camau-cyntaf-mewn-rheoli**
- Adnoddau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Codau Ymarfer Proffesiynol a Chanllawiau Ymarfer: **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**

# Uned 527 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 45 |
| **Credyd:** | 31 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. |

## Deilliant dysgu:

1. Rôl gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.

1.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- yr amrywiaeth o wasanaethau, trefniadau a lleoliadau arbenigol i blant sy'n derbyn gofal
- rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a lleoliadau arbenigol
- y rhesymau pam y gall fod angen i blant ddefnyddio gwasanaethau a/neu leoliadau arbenigol
- y rhesymau pam y gall fod angen i blant symud o fewn y system ofal a/neu symud o ardal eu cartref, a'r effaith y gall hyn ei chael arnynt

1.2 Pwysigrwydd darparu'r canlynol:
- cyfleoedd a chefnogaeth o ran sicrhau parhad i blant
- amgylcheddau sy'n addas yn seicolegol
- cyfleoedd i gynnwys plant wrth ddylunio gwasanaethau

1.3 Y gweithdrefnau y dylid eu dilyn a'r camau diogelu a ddylai fod ar waith os bydd angen i blentyn neu berson ifanc symud o ardal ei gartref

1.4 Beth y dylid ei ystyried pan fydd plant yn dychwelyd at ardal eu cartref

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 Helpu gweithwyr i ddeall:
- yr amrywiaeth o wasanaethau a lleoliadau arbenigol a'u rôl
- pam y bydd plant o bosibl yn defnyddio gwahanol fathau o wasanaethau a lleoliadau arbenigol wrth iddynt symud drwy'r system ofal
- pwysigrwydd parhad

- pwysigrwydd amgylcheddau sy'n addas yn seicolegol

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth benodol, gofynion rheoleiddiol, canllawiau polisi a safonau i blant a phobl ifanc

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 **Deddfwriaeth** benodol, **gofynion rheoleiddiol**, canllawiau polisi a safonau ar gyfer gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal

2.2 Y defnydd o waith ymchwil i ddatblygu canllawiau polisi ac ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth i blant sy'n derbyn gofal

2.3 Sut y gellir cefnogi gweithwyr i wneud y canlynol:
- hyrwyddo a chynnal hawliau plant
- deall sut y mae hawliau plant yn rhan o fframweithiau deddfwriaethol

2.4 Rôl gwahanol fathau o eiriolaeth a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi hawliau plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â **deddfwriaeth, gofynion rheoleiddiol**, canllawiau polisi a safonau i blant sy'n derbyn gofal

2.6 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo ac yn parchu hawliau plant

2.7 Sicrhau bod gweithwyr yn galluogi plant i ddeall eu hawl i eiriolaeth, ac yn eu cefnogi i wneud hynny pan fo'i angen

## Ystod

**Deddfwriaeth, gofynion rheoleiddiol:** Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cofrestredig) (Cymru) 2017 a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol ar Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth ar gyfer: Lleoliadau Cartrefi Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Llety Diogel a Gwasanaethau Gofal Teulu Preswyl

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

3. Arwain y broses o gymhwyso ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i:

- dadansoddi damcaniaethau, modelau, fframweithiau a dulliau gweithredu
- cysylltu damcaniaethau, modelau, fframweithiau a dulliau gweithredu â'r broses o ddarparu gwasanaethau i blant

3.2 Sut y gellir cymhwyso tystiolaeth ymchwil ochr yn ochr â damcaniaethau, modelau, fframweithiau a dulliau gweithredu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.3 Arwain y broses o ddefnyddio tystiolaeth ymchwil, damcaniaethau, modelau, fframweithiau a dulliau gweithredu er mwyn llywio ymarfer

3.4 Helpu i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o waith ymchwil ac ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth wrth weithio gyda phlant

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r broses o asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu gofal plant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Arfer gorau mewn perthynas â'r broses o asesu a chynllunio lleoliadau sy'n cynnwys y canlynol:

- pwysigrwydd paru
- sut i gydbwyso anghenion amrywiol plant a'u diwallu
- yr angen am asesiadau cywir er mwyn pennu cyfleoedd lleoli a lleoliadau addas
- gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- adolygiadau rheolaidd ac ystyrlon o gynlluniau
- hyrwyddo sefydlogrwydd a gallu plant i ragweld beth fydd yn digwydd iddynt

4.2 Heriau posibl mewn perthynas â'r broses o gynllunio lleoliadau

4.3 Sut i sicrhau bod cynlluniau personol i blant yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau bod plant:

- yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y broses o ddatblygu eu cynllun personol
- yn cael cefnogaeth i gael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y broses o ddatblygu, adolygu a gwerthuso eu cynllun gofal a chefnogaeth

4.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd a gallu plant i ragweld beth fydd yn digwydd iddynt

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli'r gefnogaeth a roddir i blant cyn unrhyw newidiadau a symudiadau, yn ystod y broses ac ar ôl hynny

Rydych yn deall:

5.1 Sut i gefnogi gweithwyr i ddeall y canlynol:
- effaith bosibl symudiadau wedi'u cynllunio a symudiadau heb eu cynllunio ar blant a'r unigolion sy'n gofalu amdanynt
- y rhesymau pam y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol â ffocws pendant ar blant sy'n derbyn gofal cyn unrhyw newidiadau, yn ystod y broses ac ar ôl hynny
- dulliau gweithredu y gellir eu defnyddio er mwyn helpu plant pan fydd newidiadau wedi'u cynllunio neu pan geir newidiadau heb eu cynllunio
- effaith amgylchiadau'r teulu ar newidiadau a symudiadau
- pwysigrwydd helpu plant i feithrin a chynnal dealltwriaeth o'u taith bywyd

5.2 Sut i sicrhau y caiff plant eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y canlynol:
- y broses o gynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau a symudiadau
- ymyriadau a fydd yn eu helpu cyn unrhyw newidiadau a symudiadau, yn ystod y broses ac ar ôl hynny

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau y caiff plant eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y canlynol:
- y broses o gynllunio a pharatoi ar gyfer newidiadau a symudiadau
- ymyriadau a fydd yn eu helpu cyn unrhyw newidiadau a symudiadau, yn ystod y broses ac ar ôl hynny

5.4 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n monitro ac yn gwerthuso ymyriadau a chynlluniau yn barhaus, gan nodi gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol pan fo'u hangen

5.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd a gallu plant i ragweld beth fydd yn digwydd iddynt

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu plant a phobl ifanc i feithrin ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut y gellir helpu plant i gymryd risgiau fel rhan o'u datblygiad

6.2 Tystiolaeth o gysylltiadau rhwng bod yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n derbyn gofal, a chyflawni **canlyniadau cadarnhaol**

6.3 Sut y gellir helpu plant i gael disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a phennu nodau realistig tuag at eu bodloni

6.4 Sut i helpu gweithwyr i ystyried
- effaith pŵer, gwahaniaethu a chymdeithas ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr drwy gydol eu bywyd
- effaith dewis geiriau ac iaith ar y ffordd y caiff plant eu canfod a'u trin
- sut y gall barn, tybiaethau ystrydebol a disgwyliadau pobl eraill arwain at stigmateiddio plant sy'n derbyn gofal
- sut y gall y stigma a brofir gael effaith uniongyrchol ar bobl eraill sy'n darparu gofal iddynt
- y cymhlethdodau rhwng ymarfer sy'n seiliedig ar gydberthnasau sy'n helpu plant i deimlo'n ddiogel ac i deimlo cariad a ffiniau proffesiynol
- pwysigrwydd modelau rôl cadarnhaol a'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol wrth ddatblygu lles emosiynol plant a'u hymdeimlad o'r hunan

6.5 Sut i helpu gweithwyr i gydnabod y canlynol
- effaith cydberthnasau proffesiynol ar blant
- sut y gall bod yn blentyn sy'n derbyn gofal effeithio ar hunan-barch a hyder plant
- sut y gall cefnogaeth effeithiol wneud gwahaniaeth i blant, gan gynnwys ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol
- y ffordd y gall gwaith taith bywyd helpu plant i feithrin '**ymdeimlad o'r hunan'** sy'n gadarnhaol

6.6 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol
- yr amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael i blant feithrin gwydnwch, deallusrwydd emosiynol a hunan-gred

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.7 Arwain a rheoli ymarfer sy'n pennu disgwyliadau uchel i blant

6.8 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu gweithwyr i alluogi plant i deimlo'n ddiogel ac i deimlo cariad, gan feithrin ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan ar yr un pryd

6.9 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:
- cynnig cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n cyfrannu at ddatblygu ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan
- helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant
- datblygu hunan-barch, hyder ac ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan ymhlith plant
- helpu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau cadarnhaol
- helpu plant i feithrin gwydnwch, deallusrwydd emosiynol a hunan-gred

6.10 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio **geiriau cywir a phenodol** i ddisgrifio'r plant y maent yn gofalu amdanynt

## Ystod

**Canlyniadau cadarnhaol** – cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth neu hyfforddiant, annibyniaeth, cydberthnasau sefydlog a diogel â'r teulu a chyfoedion, lle parhaol i fyw, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, dewisiadau mewn bywyd, dyheadau uchel, gobaith, adnabod talentau a galluoedd

**Ymdeimlad o'r hunan -** hunan-werth, hunanhyder, ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn, deallusrwydd emosiynol, teimladau a gwydnwch, ymdeimlad o reolaeth, cydberthnasau (aelodau o'r teulu ehangach a rhwydweithiau anffurfiol), cysyniadau o gyfrifoldeb ac atebolrwydd rhieni

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Geiriau cywir a phenodol** - sy'n disgrifio nodweddion penodol plant ac nad ydynt yn annog canfyddiadau neu stereoteipiau anghywir neu amwys

---

Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi datblygiad a chyflawniad addysgol plant a phobl ifanc

Meini Prawf Asesu:

Rydych yn deall:

7.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- y cysylltiadau rhwng cyflawniad addysgol a bod yn blentyn sy'n derbyn gofal
- effaith symudiadau ar addysg plentyn
- yr amrywiaeth o gyfleoedd addysgol sydd ar gael i blant
- gwahanol rolau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg plant sy'n derbyn gofal
- pwysigrwydd sicrhau na chaiff plant eu stigmateiddio ym maes addysg o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn derbyn gofal
- sut mae cael eu gwahardd o addysg yn effeithio ar blant
- sut i gydnabod arwyddion 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a chael gafael ar gefnogaeth i blant
- eu rôl wrth helpu plant i ymgymryd â'u gweithgareddau addysgol

7.2 Sut i helpu gweithwyr i wneud y canlynol:
- annog plant i ymgysylltu ac i ailymgysylltu â gweithgareddau addysgol
- meithrin hyder a dathlu llwyddiannau plant

7.3 Pwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr a phlant yn cael eu cynnwys yn y grŵp proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.9 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:
- helpu i fanteisio ar gyfleoedd a phrofiadau addysgol cadarnhaol i blant
- helpu gweithwyr i feithrin hyder plant ac i ddathlu eu llwyddiannau

7.10 Sicrhau bod gweithwyr yn helpu plant i ddatblygu dyheadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol ac yn annog hunan-gred

7.11 Arwain ymarfer sy'n anelu at gynnwys hawliau a hawliadau plant yn y ddarpariaeth addysg

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

8. Arwain y broses o gymhwyso a deall datblygiad  plant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.1 Helpu gweithwyr i gymhwyso dealltwriaeth o'r canlynol:

- **damcaniaethau am ddatblygiad cwrs bywyd pobl**
- Camau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd yn ystod:
  - y cyfnod cynenedigol
  - plentyndod cynnar
  - y glasoed
  - oedolaeth ifanc
- ffactorau posibl a Phrofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a allai effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
- potensial straen a thrawma beri niwed i ddatblygiad a lles cyffredinol plant a phobl ifanc drwy gydol eu hoes
- sut y gall straen a thrawma effeithio ar niwroddatblygiad plant wrth iddynt dyfu i fyny
- sut y gall gwahanol arddulliau ymlyniad effeithio ar y ffordd y bydd plant ac oedolion yn gweithredu mewn cymdeithas, yn meithrin cydberthnasau ac yn ymateb i eraill
- y posibilrwydd y bydd ymddygiad plant sydd wedi cael eu cam-drin neu wedi profi trawma yn newid yn ystod eu bywydau
- cysylltiadau rhwng ymddygiad, camau datblygiadol a phrofiadau o gam-drin a thrawma
- sut y gall trawma barhau rhwng cenedlaethau

## Ystod

**Damcaniaethau am ddatblygiad cwrs bywyd pobl:** Cymdeithasegol, biolegol, seicolegol, seicogymdeithasol

---

## Deilliant dysgu:

9. Arwain a rheoli ymarfer sy'n defnyddio ymyrraeth gynnar a chamau atal cynnar i leihau'r risg y ceir argyfwng

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9.1 Pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar wrth atal sefyllfaoedd o argyfwng

9.2 Mathau o argyfwng

9.3 Elfennau'r fframwaith **Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol** a sut y gall hyn helpu i leihau'r risg y ceir sefyllfa o argyfwng

9.4 Pryd a sut y gellir defnyddio **ymyriadau cyfyngol**

9.5 Sut i sicrhau bod gan blant gynllun cefnogaeth ymddygiad clir

9.6 Sut i ymateb os ceir sefyllfa o argyfwng

9.7 **prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.8 Gweithredu diwylliant o atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn osgoi sefyllfa o argyfwng

9.9 Yn sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:

- ymgymryd â **hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol** cyn ymgymryd â hyfforddiant ar ddefnyddio ymyriadau cyfyngol
- ymgymryd yn rheolaidd â hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith yn ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

9.10 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n helpu eraill i ymdopi â sefyllfaoedd o argyfwng os byddant yn codi
9.11 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer **ymarfer ar ôl digwyddiad**
9.12 Sicrhau y caiff pob adroddiad/cofnod ei ddiweddaru'n unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Ystod

**Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol** - dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol

**Ymyriadau cyfyngol -** atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

**Prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** - Cefnogaeth ôl ddigwyddiad (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - sylw at les corfforol ac emosiynol yr unigolyn ac eraill a oedd yn rhan o'r digwyddiad, rhoddir cefnogaeth bersonol ac emosiynol ar unwaith ac yn y tymor hwy os bydd ei hangen. Adolygiad ar ôl y digwyddiad - er mwyn dysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer, cynhelir hyn ar wahân i'r gefnogaeth ar ôl digwyddiad, nid yw'n ddefnyddiol gofyn i rywun gofio digwyddiad pan fyddant mewn cyflwr gofidus o hyd, a gall achosi trawma

**Hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol** - byddai'n cynnwys dulliau gweithredu moesegol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd, ystyr ymddygiad heriol a sut y gall weithredu fel swyddogaeth ymhlith unigolion, sut mae swyddogaethau ymddygiad yn berthnasol i bawb, effaith trawma a phrofiadau'r gorffennol ar ymddygiad, ymyriadau rhagweithiol sy'n gwella lles ac yn atal ymddygiad sy'n herio, sut mae eich agweddau a'ch ymddygiad personol yn cyfrannu at agweddau ac ymddygiad unigolion, hawliau dynol a sut maent yn berthnasol i'r defnydd o ymarfer cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol, y model dwysedd amser, pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau yn gywir a gwrthrychol a sut y defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi ymarfer lleihau

**Hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith** – defnyddio'r model hyfforddiant 3 cham - cymhwysedd llafar, cymhwysedd chwarae rôl, cymhwysedd yn y sefyllfa benodol honno

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

10. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi cyfathrebu effeithiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
10.1 Modelau cyfathrebu
10.2 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:
- Yr amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi plant
- Ffactorau y mae angen eu hystyried wrth nodi dulliau a ffyrdd o gyfathrebu
- Ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer meithrin sgiliau cyfathrebu
- Pwysigrwydd defnyddio dulliau a ffyrdd priodol o gyfathrebu â phlant
- Pwysigrwydd defnyddio ac addasu iaith a dulliau cyfathrebu sy'n briodol o ran oedran a gallu
- Sut y gall profiadau blaenorol, cyflyrau ychwanegol ac iaith gyntaf ddylanwadu ar barodrwydd a gallu plentyn neu berson ifanc i gyfathrebu

- Sut y gall anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol effeithio ar blant
- Sut i gadarnhau pan gaiff ymddygiad ei ddefnyddio fel ffordd o gyfathrebu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

10.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn helpu gweithwyr i ddefnyddio ac addasu amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu â phlant

10.4 Helpu eraill i ddefnyddio dulliau creadigol sy'n helpu plant i fynegi eu meddyliau a'u teimladau

10.5 Arwain a rheoli'r broses o werthuso dulliau a ddefnyddir i gefnogi cyfathrebu effeithiol

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

11. Arwain a rheoli'r defnydd o feddyginiaeth i blant a phobl ifanc

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

11.1 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch y canlynol:

- Y polisi a'r weithdrefn ar gyfer rhoi, storio a gwaredu meddyginiaeth
- Pwysigrwydd adolygiadau rheolaidd ar gyfer defnyddio meddyginiaeth a phwy y dylid eu cynnwys
- Pwysigrwydd cael gafael ar gefnogaeth ac arweiniad cyfredol ar ddefnyddio meddyginiaeth

11.2 Pwysigrwydd sicrhau na chaiff meddyginiaethau eu defnyddio fel ffordd o reoli ymddygiad

11.3 Cyfrifoldebau dros roi gwybod am wallau a materion diogelwch mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth a thros ymchwilio iddynt

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

11.4 Sicrhau bod gweithwyr yn cael hyfforddiant priodol i roi meddyginiaeth

11.5 Pennu dulliau ar gyfer asesu cymhwysedd gweithwyr sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth

11.6 Sicrhau bod gweithwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi, storio a gwaredu meddyginiaeth

---

### Deilliant dysgu:

12. Arwain a rheoli cefnogaeth o ran maeth a hydradiad plant a phobl ifanc

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

12.1 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn gwybod y canlynol:

- canllawiau cenedlaethol cyfredol ar gyfer deiet cytbwys i blant
- rôl maetholion hanfodol er mwyn cefnogi twf a datblygiad cyfannol, a lles
- ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod

- sut i annog plant i fwyta'n iach a chynllunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion plant unigol
- yr **heriau posibl** a all godi a strategaethau i'w rheoli
- y rhesymau pam na ddylid defnyddio bwyd fel gwobr
- **effaith bosibl** maeth a hydradiad gwael

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

12.2 Sicrhau'r canlynol:

- gweithwyr yn defnyddio strategaethau sy'n sicrhau arferion bwyta ac yfed sy'n annog rhyngweithio cymdeithasol
- gweithwyr yn cael cefnogaeth i ystyried heriau posibl a ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod
- plant yn cael eu hannog i arbrofi â bwydydd newydd a'u profi
- gweithwyr yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd plant yn gwrthod bwyd a diod, gan wneud addasiadau fel y bo angen
- plant yn cael eu hannog i yfed digon o hylif

### Ystod

**Heriau posibl** – ymddygiadol, amgylcheddol, corfforol

**Effaith bosibl –** methu â ffynnu, diffyg maethiad, dadhydradiad, gordewdra, rhwymedd

# Uned 527 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Heriau mewn perthynas â'r broses o gynllunio lleoliadau** - gallant gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth atgyfeirio annigonol am blant a phobl ifanc
- Methiant i ddarparu barn gyfannol am y plentyn
- Lleoliad amhriodol
- Diffyg cyfranogiad ystyrlon gan blant
- Diffyg defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau sydd ond yn ystyried ymddygiad y plentyn neu'r bobl ifanc ar yr adeg benodol honno
- Cydberthnasau teuluol
- Digonolrwydd gwasanaethau/argaeledd lleoliadau

**Newidiadau a symudiadau:** gall gynnwys symud cartref, ysgol, newidiadau o ran plant eraill yn dod i'r cartref, newidiadau o ran staff, newidiadau o ran gweithgareddau, newidiadau o ran y teulu, newidiadau o ran y rhwydwaith cyfoedion, newidiadau o ran yr amgylchedd, newidiadau o ran arferion.

**Camau allweddol:** ffurfio'r tiwb niwral, datblygiad, strwythur a diben y niwronau (lledaenu, mudo, gwahaniaethu, a thocio), ffurfio'r synapsau a'u diben (llawnder a thocio), plastigrwydd, myelineiddio, datblygiad strwythurau'r ymennydd, eu swyddogaeth a'r ffordd y maent yn rhyngweithio, ffurfio gwynnin a breithell a'u diben.

**Technoleg ddigidol:** Y rhyngrwyd, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, apiau, ffonau clyfar ac eraill

**Gweithgareddau Addysgol:** gallent gynnwys - Gweithgareddau yn yr ysgol, gweithgareddau allgyrsiol, addysg heblaw yn yr ysgol, gwaith cartref, nosweithiau rhieni a gofalwyr, eisteddfod, cyflwyniadau, gwasanaethau, cyngherddau, digwyddiadau codi arian a digwyddiadau arbennig, ffeiriau ysgol, gwibdeithiau

**Yr amgylchedd** - byddai hyn yn cynnwys:

- Trefn a chynllun ffisegol y cartref
- Gofod personol ac ardaloedd cymunedol
- Amgylchedd cartrefol, croesawgar a chyfforddus
- Mannau yn yr awyr agored

**Dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd:** ymarfer person/plentyn-ganolog, cynhwysiant, cyfranogiad, dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau/cryfderau, rhwydweithiau a chydberthnasau cryf, dewis, urddas a pharch, pwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol

**Dull gweithredu unigoledig:** gallai gynnwys – helpu plant i aros yn ddiogel yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u cam datblygu. Gweithio 'gyda' yn hytrach na gweithio 'er mwyn'. Helpu eraill i ddeall y cysylltiadau rhwng ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'r broses o ddiogelu plant; cynllunio diogelwch personol gyda'r plentyn ac eglurder ynghylch y rhesymau dros ffiniau a disgwyliadau. Helpu plant i ddeall – pam a sut mae rhai cydberthnasau o fudd ac y gall eraill fod yn niweidiol i'w hiechyd a'u lles.

**Dulliau cyfathrebu:** gallent gynnwys:
- Alder a Rudman (2006)
- Linear Model of Communication (Shannon a Weaver 1949)
- Transactional model of communication (Barnlund 1970)
- PCS model (Thompson 1997; 2006)
- Motivational Interviewing (Miller and Rollnick; Amrywiol)
- Makaton
- System cyfathrebu drwy gyfnewid lluniau

**Cynllun personol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau:** – dylai fod yn seiliedig ar ffactorau sy'n cynnwys y canlynol:
- Cynllun gofal a chefnogaeth presennol y plentyn
- Beth sy'n bwysig iddynt
- Y canlyniadau yr hoffent eu cyflawni
- Annog dyheadau uchel
- Cryfderau a galluoedd
- Hanes y plentyn
- Achosion sylfaenol posibl dros yr ymddygiad dan sylw
- Cydberthnasau

**'Parhad' i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'i ddimensiynau:** parhad emosiynol (ymlyniad), parhad ffisegol (sefydlogrwydd) a pharhad cyfreithiol (pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant)

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol:**
- Yn seiliedig ar Gynyddu Gwerth Rolau Cymdeithasol, Dadansoddiad o Ymddygiad Cymhwysol a Gwaith Cynllunio Person-Ganolog
- Yn hyrwyddo dulliau ymyrryd sy'n seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth
- Yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd fel nod canolog
- Yn defnyddio ymyriadau unigoledig sy'n deillio o asesiad swyddogaethol o ymddygiad y plentyn
- Yn pwysleisio dulliau atal sylfaenol fel y prif ddull gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth weithredol, addysgu sgiliau, gwella dulliau cyfathrebu, gwella amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ac ymdrin â sbardunau a swyddogaethau ymddygiad sy'n deillio o'r asesiad swyddogaethol.
- Yn cynnwys strategaethau atal eilaidd er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd ymddygiad yn gwaethygu
- Yn cynnwys strategaethau adweithiol moesegol nad ydynt yn seiliedig ar boen a gynlluniwyd yn benodol i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel.
- Yn cynnwys strategaethau dadfriffio a bennwyd ar gyfer y plentyn unigol ac eraill sy'n ymwneud â'r broses yn dilyn digwyddiad lle cafwyd ymddygiad heriol
- Yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i werthuso effaith ymyriadau a phryd y dylid adolygu'r cynllun Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.

**Adolygiad ar ôl digwyddiad:** yn cynnwys:

- Myfyrio ar y ffordd roedd yn teimlo cyn y digwyddiad ac yn union cyn y digwyddiad; yr ymddygiad ei hun, canlyniadau'r ymddygiad a sut roedd yn teimlo wedyn
- Beth fyddai wedi eu helpu i sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol
- Cefnogaeth emosiynol
- Myfyrdod personol
- Cyfleoedd i fynegi sut roeddent yn teimlo
- Hyfforddiant ychwanegol
- Newidiadau i gynlluniau cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol

**Cymorth ar ôl Digwyddiad** (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - Sut y dylid cefnogi gweithwyr unigol, gofalwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ar ôl digwyddiad lle ceir ymddygiad heriol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Help i ymdawelu
- Cefnogaeth emosiynol
- Cymorth cyntaf os oes ei angen
- Amser i ffwrdd
- Amser tawel
- Cyfleoedd i fynegi sut roeddent yn teimlo

**Opsiynau lleoli posibl:** o dan ofal teulu a ffrindiau, gyda rhiant, person â chyfrifoldeb rhiant neu y gwnaed gorchymyn trefniant plentyn o'i blaid, gyda pherthynas, ffrind neu berson cysylltiedig, gyda gofalwyr maeth nad ydynt yn perthyn i'r plentyn o dan drefniadau'r awdurdod lleol, gydag asiantaeth maethu annibynnol, gyda darpar fabwysiadwr ('maethu er mwyn mabwysiadu'), mewn cartref plant, ac mewn 'trefniadau eraill' gan gynnwys llety â chymorth, trefniadau byw â chymorth, ysgolion preswyl arbennig a llety annibynnol â chefnogaeth fel y bo'r angen

**Grŵp proffesiynol:** gallai gynnwys – gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu, gweithwyr cymorth teulu, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr addysgol, swyddogion adolygu annibynnol, Cydgysylltwyr Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal, eiriolwyr.

**Amgylcheddau sy'n addas yn seicolegol:** Gwasanaethau sy'n ystyried anghenion emosiynol a seicolegol plant a phobl ifanc, sy'n deall effaith trawma a Phrofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod ac sy'n cynnwys y canlynol:

- Datblygu fframwaith seicolegol,
- Yr amgylchedd ffisegol a mannau cymdeithasol,
- Hyfforddiant a chefnogaeth i staff,
- Rheoli cydberthnasau,
- Gwerthuso canlyniadau[2].

**Cydberthnasau**: rhieni/gofalwr, aelodau eraill o'r teulu, brodyr a chwiorydd, anifeiliaid anwes, cyfoedion, ffrindiau, cymdogion, ymwelwyr annibynnol, eraill

**Y rhesymau pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau a/neu leoliadau arbenigol:** gallai gynnwys plant sydd wedi profi camdriniaeth, trawma a/neu esgeulustod, babanod a phlant ifanc, babanod sy'n cael eu diddyfnu o sylweddau, plant â syndrom alcohol yn y groth, plant sy'n cael anawsterau iechyd meddwl, plant sy'n defnyddio

[2] Amgylcheddau sy'n Addas yn Seicolegol: Adolygiad o Lenyddiaeth – cyrchwyd ar 24.06.2019 yn **https://www.mentalhealth.org.uk/publications/psychologically-informed-environments-literature-review**

sylweddau, plant ag anableddau, plant y camfanteisir arnynt yn droseddol neu'n rhywiol, plant sy'n destun caethwasiaeth fodern, plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches, plant â hanesion rhywiol cymhleth, plant a gaiff eu lleoli y tu allan i'r ffin neu'r sir, plant sydd wedi symud sawl gwaith ac eraill.

**Arferion cyfyngol** – yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng, neu os bydd rhywun yn mynd i niweidio ei hun yn ddifrifol

**Gwasanaethau, trefniadau:** Gofal Preswyl, Gofal Maeth, gofal carennydd, lleoliad â rhieni, gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, mabwysiadu.

**Lleoliadau arbenigol:** Lleoliadau rhieni a phlant, gofal therapiwtig, gofal seibiant byr, llety â chymorth, 'pan fyddaf yn barod', cymorth/ymyriad teuluol estynedig, gofal cartref, gofal a rennir, asesiadau preswyl i rieni a phlant, argyfwng, remand a chyfiawnder ieuenctid, llety diogel

**Damcaniaethau, modelau a dulliau gweithredu:** modelu rôl cadarnhaol, Damcaniaeth Dysgu Cymdeithasol, dulliau gweithredu yn seiliedig ar gryfderau, dulliau gweithredu sefydlog a chyson yn seiliedig ar ganlyniadau, Model Adfer ar ôl Trawma, Hierarchaeth Anghenion Maslow, dulliau gweithredu yn seiliedig ar ymlyniad, Addysgeg Gymdeithasol, dulliau gweithredu systemig

**Pryd a sut y gellir defnyddio ymyriadau cyfyngol:** Os defnyddir ymyriadau cyfyngol mewn argyfwng neu lle y bydd unigolyn yn bwriadu niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol, dylid sicrhau bod amser:

- Na chânt eu defnyddio am ddim mwy o amser na'r hyn sy'n angenrheidiol
- Eu bod yn gymesur â'r risg ac mai dyma'r opsiwn lleiaf cyfyngol
- Eu bod yn gyfiawnadwy yn gyfreithiol ac yn foesegol
- Eu bod wedi cael eu hystyried yn fanwl ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn arall neu lle bo pob opsiwn arall yn anymarferol
- Eu bod yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw i bawb gyda llinellau atebolrwydd clir ar waith
- Eu bod yn cael eu cydnabod yn agored ac na chânt byth eu cuddio
- Eu bod yn cael eu pennu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol
- Eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn briodol
- Eu bod yn cael eu monitro, eu cynllunio a'u hadolygu er mwyn dod o hyd i ddull gweithredu mwy cadarnhaol yn y tymor hwy
- Eu bod yn cynnwys dadfriffio a chefnogaeth i bawb sy'n rhan o'r broses

Dylai ymyriadau cyfyngol, heblaw'r rhai a ddefnyddir mewn argyfwng, bob amser fod wedi'u cynllunio ymlaen llaw, a dylai tîm amlddisgyblaethol fod wedi cytuno arnynt a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r unigolyn fod wedi cytuno arnynt a dylai fod wedi'i gynnwys yn ei gynllun ymddygiad a chefnogaeth

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMC B6** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy’n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMC B7** Arwain a rheoli darpariaeth byw mewn grŵp o fewn gwasanaethau gofal

- **SCDLMC B8** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad ymddygiad cadarnhaol
- **SDCHSC 0452** Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo hawliau, cyfrifoldebau, cydraddoldeb ac amrywiaeth unigolion

## *Deddfwriaeth a chanllawiau*

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Confensiwn yr UN ar hawliau plant 115
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf GIG Cymru 2006
- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
- Mesur y Gymraeg (2011)
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Addysg 1996
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015

## *Adnoddau*

- Canllawiau NICE – babanod, plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal **https://pathways.nice.org.uk/pathways/looked-after-babies-children-and-young-people**
- Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
- Canllawiau ymarfer y gweithiwr gofal preswyl i blant https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/y-gweithiwr-gofal-preswyl-plant---canllawiau-ymarfer
- Yr adnodd gweithwyr gofal preswyl i blant https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/plant-syn-derbyn-gofal
- Gwasanaethau plant SCIE https://www.scie.org.uk/children/
- Y Rhwydwaith Maethu https://www.thefosteringnetwork.org.uk/about/about-us/our-work-in-wales
- Y sefydliad proffesiynol ar gyfer addysgeg gymdeithasol https://sppa-uk.org/
- Plant yng Nghymru http://www.plantyngnghymru.org.uk/
- Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllaw-arfer-da.pdf**
- Comisiynydd Plant Cymru **https://www.complantcymru.org.uk/**

## Uned 528 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 30 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli cefnogaeth i blant a phobl ifanc anabl gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys eu twf, dysgu a datblygiad cyfannol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at 'blant a phobl ifanc anabl'. |

### Deilliant dysgu:

1. Meithrin dealltwriaeth o ganfyddiadau, safbwyntiau a natur anabledd

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut mae fframweithiau deddfwriaethol, polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru a modelau presennol o ddylunio a darparu gwasanaethau yn anelu at helpu plant anabl a'u teuluoedd/gofalwyr

1.2 Pam y gall cyfleoedd plant anabl mewn bywyd fod yn fwy cyfyngedig na chyfleoedd y boblogaeth gyffredinol a sut mae deddfwriaeth, polisi cenedlaethol a gwasanaethau cefnogaeth yn ceisio unioni'r cydbwysedd hwn

1.3 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cefnogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau i blant anabl
- beth yw ystyr y termau 'nam' ac 'anabl' a phwysigrwydd gweld y plentyn yn gyntaf, nid y nam
- natur a nodweddion **amrywiaeth o namau/cyflyrau**
- **achosion posibl amrywiaeth o namau/cyflyrau**
- safbwyntiau cymdeithasol a meddygol ynghylch **amrywiaeth o namau/cyflyrau**, sut mae'r rhain wedi datblygu a newid dros amser ac wedi dylanwadu ar fodelau darparu gwasanaethau
- sut mae agweddau a gwerthoedd cymdeithas tuag at blant anabl yn effeithio ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- effeithiau (cadarnhaol a negyddol) cael eich labelu fel plentyn anabl

1.4 Sut i helpu gweithwyr i ystyried:
- effaith pŵer, gwahaniaethu a chymdeithas ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr drwy gydol eu bywyd

- effaith dewis geiriau ac iaith ar y ffordd y caiff plant eu canfod a'u trin
- sut y gall barn, tybiaethau ystrydebol a disgwyliadau pobl eraill arwain at stigmateiddio plant anabl, a sut y gall y stigma hwn effeithio ar y plentyn a'i deulu/gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydnabod mai'r plentyn sy'n hollbwysig, nid y nam

1.6 Arwain y gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r broses o ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n:
   - adlewyrchu bwriadau'r fframweithiau deddfwriaethol, Polisi a Chanllawiau Llywodraeth Cymru
   - cynnwys safbwyntiau a barnau plant a'u teuluoedd/gofalwyr

1.7 Sicrhau y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu mewn ffyrdd sy'n cael effaith gadarnhaol ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr

1.8 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol ac agweddau cadarnhaol mewn perthynas â phlant anabl

1.9 Arwain a rheoli ymarfer sy'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol i herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, achosion o wahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at blant anabl

1.10 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau bod:
   - Gweithwyr yn defnyddio **geiriau cywir a phenodol** i ddisgrifio plant a'u teuluoedd/gofalwyr

## Ystod

**Achosion posibl –** a gafwyd, genedigol, genetig

**Amrywiaeth o namau/cyflyrau** – anaf a gafwyd i'r ymennydd, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), awtistiaeth, anabledd dysgu, nam corfforol, colli synhwyrau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Geiriau cywir a phenodol** - sy'n disgrifio nodweddion penodol plant ac nad ydynt yn annog canfyddiadau neu stereoteipiau anghywir neu amwys

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu plant i feithrin ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
   - rolau a chyfrifoldebau gweithwyr yn y gwasanaethau a ddarperir, asiantaethau a gwasanaethau eraill mewn perthynas â gwaith gyda phlant anabl, teuluoedd/gofalwyr
   - effaith trefniadau gweithio amlasiantaeth ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr
   - datblygiad plant a sut y gall y datblygiad disgwyliedig fod yn wahanol i blant anabl
   - sut y mae datblygiad arafach mewn un maes yn effeithio ar y gallu i gaffael sgiliau mewn meysydd eraill
   - pwysigrwydd sicrhau bod plant yn cael cyfle cyfartal i dyfu, dysgu a datblygu'n gyfannol, gan gynnwys cymryd risgiau

- nodweddion allweddol **amgylchedd hygyrch** sy'n cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol
- cymhorthion ac addasiadau y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad gweithredol
- strategaethau er mwyn goresgyn rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig rhag cyfranogiad gweithredol a chynhwysiant plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- pam ei bod yn bosibl bod plant wedi cael eu hanghymell neu eu hatal rhag cymryd risgiau, neu pam y gall hynny ddigwydd
- sut y gall nam plentyn gael gormod o ddylanwad ar farn, tybiaethau ystrydebol a disgwyliadau pobl eraill
- cysylltiadau rhwng bod yn blentyn anabl, a chyflawni **canlyniadau cadarnhaol**
- sut i helpu plant a'u teuluoedd/gofalwyr i gael disgwyliadau uchel a'u helpu i bennu nodau realistig tuag at eu bodloni
- sut i ennyn ymddiriedaeth plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- sut y gall bod yn anabl effeithio ar hunan-barch a hunanhyder plant
- sut y gall cefnogaeth effeithiol helpu plant i feithrin **ymdeimlad** cadarnhaol **o'r hunan**
- dulliau y gellir eu defnyddio i helpu plant i feithrin gwydnwch, deallusrwydd emosiynol a hunan-gred

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n helpu plant i wneud y canlynol:
  - archwilio eu hanghenion cymdeithasol ac emosiynol eu hunain yn unol ag oedran, gallu a cham datblygu
  - meithrin ymdeimlad cadarnhaol o'r hunan
  - meithrin sgiliau annibyniaeth a sgiliau bywyd yn ddiogel, gan ystyried oedran, gallu a cham datblygu
  - sicrhau cydbwysedd rhwng diogelwch, cymryd risgiau a her
  - manteisio ar gyfleoedd i chwarae, dysgu a datblygu yn unol ag oedran, gallu a cham datblygu ac ymgysylltu â'r cyfleoedd hynny
  - sicrhau canlyniadau cadarnhaol

2.3 Sicrhau y caiff amgylcheddau eu haddasu i gefnogi cyfranogiad a chynhwysiant ac i adlewyrchu anghenion unigol plant

### Ystod

**Canlyniadau cadarnhaol** – cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth neu hyfforddiant, annibyniaeth, cydberthnasau sefydlog a diogel â'r teulu a chyfoedion, lle parhaol i fyw, iechyd corfforol ac iechyd meddwl da, dewisiadau mewn bywyd, dyheadau uchel, gobaith, adnabod talentau a galluoedd

**Ymdeimlad o'r hunan -** hunan-werth, hunanhyder, ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn, deallusrwydd emosiynol, teimladau a gwydnwch, ymdeimlad o reolaeth, cydberthnasau (aelodau o'r teulu ehangach a rhwydweithiau anffurfiol), cysyniadau o gyfrifoldeb ac atebolrwydd rhieni

**Amgylchedd hygyrch -** amgylchedd ffisegol, amgylchedd synhwyraidd ac amgylchedd sy'n addas yn seicolegol

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli cefnogaeth i blant yn ystod newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i gefnogi gweithwyr i ddeall y canlynol:

- y **gwahanol fathau o drosglwyddo** y mae plant yn eu profi a'r gwahanol ffyrdd y gallant ymateb iddynt
- pam y gall fod angen **cefnogaeth** ychwanegol sydd â ffocws pendant ar blant anabl cyn newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo, yn ystod y broses ac ar ôl hynny
- effaith bosibl cyfnodau o drosglwyddo ar ymddygiad plant
- dulliau o roi cefnogaeth i blant drwy gyfnodau o newid a throsglwyddo
- pwysigrwydd cynnwys plant wrth gynllunio ar gyfer cyfnodau o newid a throsglwyddo, neu ymateb iddynt, gan ystyried oedran, gallu a cham datblygu

3.2 Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:

- cefnogi plant mewn ffordd ystyrlon wrth baratoi ar gyfer cyfnodau o newid a throsglwyddo
- datblygu, defnyddio a gwerthuso modelau ymyrryd sy'n cefnogi plant yn ystod cyfnodau o newid a throsglwyddo
- defnyddio proses o werthuso ymyriadau i lywio ffyrdd newydd o weithio

### Ystod

**Gwahanol fathau o drosglwyddo:** corfforol, emosiynol, personol neu seicolegol, rhagweladwy neu annisgwyl dros gyfnod byr neu gyfnod hir, gan gynnwys newidiadau bywyd mawr, newidiadau o ddydd i ddydd (newidiadau i weithgareddau, newidiadau i'r amgylchedd, newidiadau i strwythur ac arferion)

**Cefnogaeth**: ymarferol ac emosiynol

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i gyfathrebu'n effeithiol â phlant anabl

## Meini prawf asesu

4.1 Rydych yn deall:

4.2 Modelau cyfathrebu

4.3 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- y dulliau a'r ffyrdd o gyfathrebu y gellir eu defnyddio i gefnogi plant ag **amrywiaeth o namau a chyflyrau**
- ffactorau y mae angen eu hystyried wrth nodi dulliau a ffyrdd o gyfathrebu
- yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a fyddai'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i feithrin sgiliau cyfathrebu
- pwysigrwydd defnyddio dulliau a ffyrdd priodol o gyfathrebu â phlant
- pwysigrwydd defnyddio ac addasu iaith a dulliau cyfathrebu sy'n briodol o ran oedran a gallu
- sut y gall profiadau blaenorol, cyflyrau ychwanegol ac iaith gyntaf ddylanwadu ar barodrwydd a gallu plentyn/person ifanc i gyfathrebu

- sut y gall anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol effeithio ar blant
- sut i nodi pan ddefnyddir ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu

4.4 Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer defnyddio a gwerthuso amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu er mwyn cefnogi plant

**Ystod**

**Amrywiaeth o namau a chyflyrau:** anaf a gafwyd i'r ymennydd, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), awtistiaeth, anabledd dysgu, nam corfforol, colli synhwyrau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli cefnogaeth o ran maeth a hydradiad plant anabl

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn gwybod y canlynol:

- canllawiau cenedlaethol cyfredol ar gyfer deiet cytbwys i blant
- rôl maetholion hanfodol er mwyn cefnogi twf a datblygiad cyfannol, a lles
- ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod
- sut i annog plant i fwyta'n iach a chynllunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion plant unigol
- yr **heriau posibl** a all godi a strategaethau i'w rheoli
- y rhesymau pam na ddylid defnyddio bwyd fel gwobr
- **effaith bosibl** maeth a hydradiad gwael
- pwysigrwydd hydradiad i blant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer defnyddio strategaethau sy'n sicrhau'r canlynol:

  - arferion bwyta ac yfed diogel sy'n annog rhyngweithio cymdeithasol yn unol ag oedran a cham datblygu
  - cyfleoedd ar gyfer meithrin sgiliau annibyniaeth yn unol ag oedran a cham datblygu

5.3 Sicrhau'r canlynol:

  - gweithwyr yn cael cefnogaeth i ystyried heriau posibl a ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod
  - plant yn cael eu hannog i arbrofi â bwydydd newydd a'u profi
  - gweithwyr yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd plant yn gwrthod bwyd a diod, gan wneud addasiadau fel y bo angen
  - plant yn cael eu hannog i yfed digon o hylif
  - gweithwyr yn monitro ac yn cofnodi cymeriant bwyd a diod fel y bo'n ofynnol

**Ystod**

**Heriau posibl** – ymddygiadol, amgylcheddol, corfforol
**Effaith bosibl:** methu â ffynnu, diffyg maethiad, dadhydradiad, gordewdra, rhwymedd
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli'r defnydd o feddyginiaeth wrth weithio gyda phlant anabl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch y canlynol:
- Y polisi a'r weithdrefn ar gyfer rhoi, storio a gwaredu meddyginiaeth
- Pwysigrwydd adolygiadau rheolaidd ar gyfer defnyddio meddyginiaeth a phwy y dylid eu cynnwys
- Pwysigrwydd cael gafael ar gefnogaeth ac arweiniad cyfredol ar ddefnyddio meddyginiaeth
- Pwysigrwydd sicrhau na chaiff meddyginiaethau eu defnyddio fel ffordd o reoli ymddygiad

6.2 Cyfrifoldebau dros roi gwybod am wallau a materion diogelwch mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth a thros ymchwilio iddynt

6.3 Rydych chi'n gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n
6.4 Sicrhau bod gweithwyr yn cael hyfforddiant priodol i roi meddyginiaeth
6.5 Pennu dulliau ar gyfer asesu cymhwysedd gweithwyr sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth
6.6 Sicrhau bod gweithwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi, storio a gwaredu meddyginiaeth

---

## Deilliant dysgu:

7. Meithrin dealltwriaeth o gefnogaeth o ran gofal iechyd i blant anabl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Sut i gefnogi gweithwyr i ddeall y canlynol:
- yr amrywiaeth o archwiliadau a chefnogaeth gofal iechyd ar gyfer plant
- cyfnodau magu mathau o salwch, heintiau/plâu a chlefydau hysbysadwy
- arwyddion a symptomau corfforol ac ymddygiadol achosion posibl o salwch, heintiau/plâu a chlefydau hysbysadwy mewn plant
- camau i'w cymryd pan fydd pryderon ynglŷn â salwch, heintiau/plâu a chlefydau hysbysadwy posibl
- symptomau y mae angen cymryd camau brys yn eu cylch

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.2 Sicrhau bod plant yn cael gafael ar archwiliadau a chefnogaeth gofal iechyd

## Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli ymarfer sy'n defnyddio ymyrraeth gynnar a chamau atal cynnar i leihau'r risg y ceir argyfwng

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar wrth atal sefyllfaoedd o argyfwng
8.2 Mathau o argyfwng
8.3 Elfennau'r **fframwaith Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol** a sut y gall hyn helpu i leihau'r risg y ceir sefyllfa o argyfwng
8.4 Pryd a sut y gellir defnyddio **ymyriadau cyfyngol**
8.5 Sut i sicrhau bod gan blant gynllun cefnogaeth ymddygiad clir
8.6 Sut i ymateb os ceir sefyllfa o argyfwng
8.7 **Prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.8 Gweithredu diwylliant o atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn osgoi sefyllfa o argyfwng
8.9 Yn sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:

- ymgymryd â **hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol** cyn ymgymryd â hyfforddiant ar ddefnyddio ymyriadau cyfyngol
- ymgymryd yn rheolaidd â **hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith** yn ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

8.10 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n helpu eraill i ymdopi â sefyllfaoedd o argyfwng os byddant yn codi
8.11 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer ymarfer ar ôl digwyddiad
8.12 Sicrhau y caiff pob adroddiad/cofnod ei ddiweddaru'n unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Ystod

**Ymyriadau cyfyngol -** atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

**Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol** - dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol
**Prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** - Cefnogaeth ôl ddigwyddiad (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - sylw at les corfforol ac emosiynol yr unigolyn ac eraill a oedd yn rhan o'r digwyddiad, rhoddir cefnogaeth bersonol ac emosiynol ar unwaith ac yn y tymor hwy os bydd ei hangen. Adolygiad ar ôl y digwyddiad - er mwyn dysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer, cynhelir hyn ar wahân i'r gefnogaeth ar ôl digwyddiad, nid yw'n ddefnyddiol gofyn i rywun gofio digwyddiad pan fyddant mewn cyflwr gofidus o hyd, a gall achosi trawma
**Hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol** - byddai'n cynnwys dulliau gweithredu moesegol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd, ystyr ymddygiad heriol a sut y gall weithredu fel swyddogaeth ymhlith unigolion, sut mae swyddogaethau ymddygiad yn berthnasol i bawb, effaith trawma a phrofiadau'r gorffennol ar ymddygiad, ymyriadau

rhagweithiol sy'n gwella lles ac yn atal ymddygiad sy'n herio, sut mae eich agweddau a'ch ymddygiad personol yn cyfrannu at agweddau ac ymddygiad unigolion, hawliau dynol a sut maent yn berthnasol i'r defnydd o ymarfer cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol, y model dwysedd amser, pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau yn gywir a gwrthrychol a sut y defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi ymarfer lleihau
**Hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith** – defnyddio'r model hyfforddiant 3 cham - cymhwysedd llafar, cymhwysedd chwarae rôl, cymhwysedd yn y sefyllfa benodol honno
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

9. Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud ymdrech weithredol i gynnwys teuluoedd/gofalwyr wrth gefnogi plant anabl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9.1 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:

- beth yw ystyr y term '**gofalwr**'
- deddfwriaeth, polisi a chanllawiau am hawliau gofalwyr o ran hawliadau, trefniadau asesu a chefnogaeth
- **effaith bosibl** gofalu am blentyn anabl **ar deuluoedd**

9.2 Pwysigrwydd rhoi cefnogaeth sensitif i deuluoedd/gofalwyr er mwyn:

- nodi'r rôl y maent yn ei chwarae wrth ofalu am y plentyn
- penderfynu sut yr hoffent gael cefnogaeth
- ystyried 'beth sy'n bwysig' iddynt
- deall yr amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael gan y ddarpariaeth gwasanaethau a chan wasanaethau eraill a all eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.3 Arwain ymarfer sy'n helpu teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol:

- eu hawliau a'u hawliadau
- yr amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael iddynt a sut y gallant gael gafael ar y gefnogaeth honno
- y gefnogaeth sydd ar gael gan y ddarpariaeth gwasanaethau

9.4 Ystyried effaith unigol gofalu am blentyn neu berson ifanc anabl ar deuluoedd

## Ystod

**Gofalwr -** gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion

**Yr effaith bosibl ar deuluoedd -** cadarnhaol a negyddol, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd ac aelodau'r teulu ehangach a rhwydweithiau anffurfiol (deinameg y teulu, cydberthnasau rhwng brodyr a chwiorydd, lles unigol, ffactorau economaidd-gymdeithasol, cydberthnasau ac ymdrechion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chymunedol, pwysau yn deillio o faint y mewnbwn proffesiynol)

# Uned 528 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Cymhorthion ac addasiadau** - gallant gynnwys cymhorthion ffisegol, ond hefyd addasiadau i ddulliau cyfathrebu neu ryngweithio cymdeithasol

**Gofalwyr/gofalwyr ifanc** - Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl".
Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gofalwyr sy'n rhieni (sy'n gofalu am blentyn anabl) a gofalwyr y cyfeirir atynt fel gofalwyr rhyngosod ('sandwich carers' yn Saesneg) (sef pobl sy'n gofalu am berson/perthynas hŷn yn ogystal â magu teulu).
Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr sydd o dan 18 oed. Er y gellir ystyried unigolyn o dan 18 oed yn ofalwr, bydd ei hawliau fel gofalwr ifanc yn wahanol ar adegau i hawliau oedolyn.
Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel unigolion rhwng 16 a 25 oed.
Nid yw person yn ofalwr o dan y Ddeddf os yw'r person yn bwriadu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

Mae'r term '**plant a phobl ifanc anabl**' yn disgrifio'r rhai y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd eu nam a/neu gyflwr meddygol. Gall arferion sy'n gwahaniaethu, fel agweddau negyddol, amgylcheddau anhygyrch a systemau sefydliadol, ei gwneud hi'n anodd ac weithiau'n amhosibl i blant a phobl ifanc anabl brofi'r un cyfleoedd a phlant nad ydynt yn anabl.

**Newidiadau a chyfnodau trosglwyddo** - gall gynnwys symud cartref, ysgol, newidiadau o ran plant eraill yn dod i'r cartref, newidiadau o ran staff, newidiadau o ran gweithgareddau, newidiadau o ran y teulu, newidiadau o ran y rhwydwaith cyfoedion, newidiadau o ran yr amgylchedd, newidiadau o ran arferion

**Dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** - ymarfer person/plentyn ganolog, cynhwysiant, cyfranogiad, dull gweithredu yn seiliedig ar asedau/cryfderau, rhwydweithiau a chydberthnasau cryf, dewis, urddas a pharch, pwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol

**Ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod**:

- Gall anghenion deietegol arbennig am resymau meddygol gynnwys addasu'r ansawdd er mwyn gwneud bwyd yn haws ei fwyta e.e. piwrî neu stwnsh; bwyd heb glwten i blant/pobl ifanc â chlefyd seliag, addasu deiet ar gyfer diabetes, alergeddau ac anoddefiadau bwyd.
- Darparu ar gyfer rhesymau diwylliannol, crefyddol, llysieuol neu fegan,
- Siâp, lliw, ansawdd, arogl a chyflwyniad a dewis o fwyd, osgoi bwyd, cydfwyta â chyfoedion, dull gweithredu cyson a dangos esiampl gadarnhaol, annog i arbrofi,

gweithgareddau a mentrau llawn hwyl mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys gadael i blant gymryd rhan yn y broses o baratoi a gweini bwyd.
- Incwm isel a thlodi bwyd

**Twf, dysgu a datblygiad cyfannol:** mae'n canolbwyntio ar feithrin pob rhan o ddysgu a datblygiad plentyn, gan gynnwys elfennau corfforol, emosiynol, ysbrydol, deallusol a chreadigol a'r ffordd y gall dysgu gefnogi hyn. Mae'n canolbwyntio ar bob rhan o ddysgu a datblygiad plant yn gynhenid ac nid ar wahân

**Salwch, heintiau/plâu a chlefydau hysbysadwy:**
Afiechyd cyffredin yn ystod plentyndod (clwy' pennau, rwbela, polio, brech yr ieir, y frech goch, llid yr ymennydd, y pas)
Alergeddau/cyflyrau (ecsema, asthma, clwy'r gwair neu alergeddau bwyd)
Mân afiechyd (peswch, annwyd, pigyn clust, dolur gwddf, crŵp, twymyn a gwres, dolur rhydd a chwydu, llosg haul a thrawiad gwres)
Heintiau/plâu (tarwden, llyngyren, llau pen, herpes simplecs, impetigo, llid y gyfbilen, clefyd crafu)

**Nam/cyflwr** - anaf, salwch neu gyflwr genedigol sy'n cael neu sy'n debygol o gael effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngu ar weithrediadau'r plentyn/person ifanc sy'n wahanol i'r cyffredin

Byddai **fframweithiau deddfwriaethol, polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru a modelau presennol o ddylunio a darparu gwasanaethau** yn cynnwys y canlynol:
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan gynnwys hawliau gofalwyr i gael asesiad ac i gael eu hanghenion wedi'u diwallu, hawliau i eiriolaeth
- Budd-daliadau, hawliau a hawliadau plant anabl a'u teuluoedd
- Gallai modelau dylunio a darparu gwasanaethau gynnwys seibiannau preswyl byr, seibiannau cymunedol byr/gwasanaethau dydd, gwasanaethau cymorth cartref, ysgolion preswyl, cynlluniau chwarae, defnyddio taliadau uniongyrchol/cynorthwywyr personol neu gyllid gofal iechyd parhaus.

**Modelau cyfathrebu:** gallent gynnwys:
- Alder a Rudman (2006)
- Linear Model of Communication (Shannon a Weaver 1949)
- Transactional model of communication (Barnlund 1970)
- PCS model (Thompson 1997; 2006)
- Motivational Interviewing (Miller and Rollnick; Amrywiol)
- Makaton
- System cyfathrebu drwy gyfnewid lluniau

**Clefydau hysbysadwy:** fel y nodir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Chwarae, dysgu a datblygiad**: addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli, profiad gwaith, gweithgareddau hamdden, cyfleoedd cymdeithasol, cyfleoedd chwarae

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol:**
- Yn seiliedig ar Gynyddu Gwerth Rolau Cymdeithasol, Dadansoddiad o Ymddygiad Cymhwysol a Gwaith Cynllunio Person-Ganolog

- Yn hyrwyddo dulliau ymyrryd sy'n seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth
- Yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd fel nod canolog
- Yn defnyddio ymyriadau unigoledig sy'n deillio o asesiad swyddogaethol o ymddygiad y plentyn
- Yn pwysleisio dulliau atal sylfaenol fel y prif ddull gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth weithredol, addysgu sgiliau, gwella dulliau cyfathrebu, gwella amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ac ymdrin â sbardunau a swyddogaethau ymddygiad sy'n deillio o'r asesiad swyddogaethol.
- Yn cynnwys strategaethau atal eilaidd er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd ymddygiad yn gwaethygu
- Yn cynnwys strategaethau adweithiol moesegol nad ydynt yn seiliedig ar boen a gynlluniwyd yn benodol i gadw'r plentyn ac eraill yn ddiogel.
- Yn cynnwys strategaethau dadfriffio a bennwyd ar gyfer y plentyn unigol ac eraill sy'n ymwneud â'r broses yn dilyn digwyddiad lle cafwyd ymddygiad heriol
- Yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i werthuso effaith ymyriadau a phryd y dylid adolygu'r cynllun Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.

**Adolygiad ar ôl digwyddiad:** yn cynnwys:

- Myfyrio ar y ffordd roedd yn teimlo cyn y digwyddiad ac yn union cyn y digwyddiad; yr ymddygiad ei hun, canlyniadau'r ymddygiad a sut roedd yn teimlo wedyn
- Beth fyddai wedi eu helpu i sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol
- Cefnogaeth emosiynol
- Myfyrdod personol
- Cyfleoedd i fynegi sut roeddent yn teimlo
- Hyfforddiant ychwanegol
- Newidiadau i gynlluniau cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol

**Cymorth ar ôl Digwyddiad** (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - Sut y dylid cefnogi gweithwyr unigol, gofalwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ar ôl digwyddiad lle ceir ymddygiad heriol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Help i ymdawelu
- Cefnogaeth emosiynol
- Cymorth cyntaf os oes ei angen
- Amser i ffwrdd
- Amser tawel
- Cyfleoedd i fynegi sut roeddent yn teimlo

**Canlyniadau cadarnhaol:** cyrhaeddiad addysgol, annibyniaeth, cydberthnasau sefydlog a diogel â'r teulu a chyfoedion, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, dewisiadau mewn bywyd, dyheadau uchel, gobaith, adnabod talentau a galluoedd

**Amgylcheddau sy'n addas yn seicolegol:** Gwasanaethau sy'n ystyried anghenion emosiynol a seicolegol plant a phobl ifanc, sy'n deall effaith trawma a Phrofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod ac sy'n cynnwys y canlynol:

- Datblygu fframwaith seicolegol,
- Yr amgylchedd ffisegol a mannau cymdeithasol,
- Hyfforddiant a chefnogaeth i staff,
- Rheoli cydberthnasau,
- Gwerthuso canlyniadau

**Cydberthnasau**: rhieni/gofalwr, aelodau eraill o'r teulu, brodyr a chwiorydd, anifeiliaid anwes, cyfoedion, ffrindiau, cymdogion, ymwelwyr annibynnol, eraill

**Arferion cyfyngol** – yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng, neu os bydd rhywun yn mynd i niweidio ei hun yn ddifrifol

**Arferion cyfyngol** – yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng, neu os bydd rhywun yn mynd i niweidio ei hun yn ddifrifol

**Hawliau gofalwyr o ran hawliadau, trefniadau asesu a chefnogaeth:** eiriolaeth, asesiad o'u hanghenion, budd-daliadau, taliadau grant, taliadau uniongyrchol, cefnogaeth gan y trydydd sector, grantiau gwyliau, rhwydweithiau ac adnoddau cymunedol, cynlluniau/cyfleoedd chwarae, grwpiau i ofalwyr ifanc

**Ymdeimlad o'r hunan:** hunan-werth, hunanhyder, ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn, deallusrwydd emosiynol, teimladau a gwydnwch, ymdeimlad o reolaeth, cydberthnasau (ffrindiau, aelodau o'r teulu ehangach a grwpiau cyfoedion)

**Sut y mae datblygiad arafach mewn un maes yn effeithio ar y gallu i gaffael sgiliau mewn meysydd eraill**

- datblygiad iaith a lleferydd
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- sgiliau echddygol manwl a bras

**Pryd a sut y gellir defnyddio ymyriadau cyfyngol:** Os defnyddir ymyriadau cyfyngol mewn argyfwng neu lle y bydd unigolyn yn bwriadu niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol, dylid sicrhau bod amser:

- Na chânt eu defnyddio am ddim mwy o amser na'r hyn sy'n angenrheidiol
- Eu bod yn gymesur â'r risg ac mai dyma'r opsiwn lleiaf cyfyngol
- Eu bod yn gyfiawnadwy yn gyfreithiol ac yn foesegol
- Eu bod wedi cael eu hystyried yn fanwl ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn arall neu lle bo pob opsiwn arall yn anymarferol
- Eu bod yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw i bawb gyda llinellau atebolrwydd clir ar waith
- Eu bod yn cael eu cydnabod yn agored ac na chânt byth eu cuddio
- Eu bod yn cael eu pennu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol
- Eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn briodol
- Eu bod yn cael eu monitro, eu cynllunio a'u hadolygu er mwyn dod o hyd i ddull gweithredu mwy cadarnhaol yn y tymor hwy
- Eu bod yn cynnwys dadfriffio a chefnogaeth i bawb sy'n rhan o'r broses

Dylai ymyriadau cyfyngol, heblaw'r rhai a ddefnyddir mewn argyfwng, bob amser fod wedi'u cynllunio ymlaen llaw, a dylai tîm amlddisgyblaethol fod wedi cytuno arnynt a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r unigolyn fod wedi cytuno arnynt a dylai fod wedi'i gynnwys yn ei gynllun ymddygiad a chefnogaeth

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDHSC0315** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth personol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau*

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Confensiwn yr UN ar hawliau plant 115
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf GIG Cymru 2006
- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)
- Mesur y Gymraeg (2011)
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Deddf Plant a Theuluoedd 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Addysg 1996
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015

## *Adnoddau*

- Plant yng Nghymru **http://www.plantyngnghymru.org.uk/**
- Y Cyngor ar gyfer plant anabl **https://councilfordisabledchildren.org.uk/**
- Snap Cymru http://www.snapcymru.org/
- Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllaw-arfer-da.pdf**
- Canllawiau ymarfer y gweithiwr gofal preswyl i blant**https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/y-gweithiwr-gofal-preswyl-plant---canllawiau-ymarfer**
- Yr adnodd gweithwyr gofal preswyl i blant **https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/plant-syn-derbyn-gofal**
- Gwasanaethau plant SCIE **https://www.scie.org.uk/children/**
- Y Rhwydwaith Maethu **https://www.thefosteringnetwork.org.uk/about/about-us/our-work-in-wales**
- Y sefydliad proffesiynol ar gyfer addysgeg gymdeithasol **https://sppa-uk.org/**
- NSPCC **https://www.nspcc.org.uk/**
- Comisiynydd Plant Cymru **https://www.complantcymru.org.uk/**

# Uned 529 Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 21 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon wedi'i hanelu at y rheini sy'n gyfrifol am arwain a rheoli cefnogaeth ymddygiadol cadarnhaol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion neu blant a phobl ifanc |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n ystyried deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol/lleol sy'n sail i ddulliau gweithredu cadarnhaol er mwyn lleihau arferion cyfyngol a chefnogi ymddygiad cadarnhaol.

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- y diffiniad o'r termau 'ymddygiad heriol'/'ymddygiad sy'n herio'
- sut mae deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol/lleol yn darparu fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol ac **ymyriadau cyfyngol**
- pam bod **dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** yn bwysig mewn perthynas â defnyddio arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

1.2 Sut y gall newid diwylliannol o reoli ymddygiad sy'n herio pan geir argyfwng i ddulliau atal sylfaenol wneud y canlynol:

- Gwella lles unigolion
- Gwella boddhad swydd gweithwyr
- Lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

1.3 Pwysigrwydd sicrhau bod systemau, gweithdrefnau ac ymarfer sefydliadol yn adlewyrchu deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol/lleol ar gyfer defnyddio a lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

1.4 Pwysigrwydd sicrhau bod sefydliadau yn monitro, yn adolygu ac yn gwerthuso'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol er mwyn nodi tueddiadau a llywio strategaethau lleihau

1.5 Sut i ddylanwadu ar ymrwymiad sefydliadol i gefnogi ymdrechion i leihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:

- anelu at leihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

- rhoi **dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** ar waith
- adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau cenedlaethol i oedolion a/neu blant a phobl ifanc

1.7 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran dulliau gweithredu cadarnhaol yng nghyd-destun gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

1.8 Mynd ati i gefnogi ymdrechion gan sefydliadau i fonitro, adolygu a gwerthuso'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol er mwyn llywio strategaethau lleihau

1.9 Rhoi strategaethau y cytunwyd arnynt i leihau arferion cyfyngol/ymyriadau cyfyngol ar waith

## Ystod

**Ymyriadau cyfyngol:** atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd:** ymarfer person/plentyn-ganolog, cynhwysiant, cyfranogiad, dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau/cryfderau, rhwydweithiau a chydberthnasau cryf, dewis, urddas a pharch, pwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol

---

## Deilliant dysgu:

2. Deall modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer defnyddio a lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Fframweithiau a modelau ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a sut y gallant gefnogi'r canlynol:
- y defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
- lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

2.2 Elfennau'r **fframwaith Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol** a sut y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol

## Ystod

**Fframwaith Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol:** dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer datblygu, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- y **model ymddygiadol** a'r **pedair swyddogaeth gyffredin** sy'n gysylltiedig ag ymddygiad heriol
- **elfennau cynllun** sy'n cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- pwysigrwydd sicrhau dulliau gweithredu cadarnhaol ar gyfer datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau i gefnogi ymddygiad cadarnhaol sy'n:

- **foesegol ac yn seiliedig ar werthoedd**
- seiliedig ar hawliau
- hyrwyddo llais a rheolaeth, atal ac ymyriadau cynnar, lles, cyd-gynhyrchu a threfniadau gweithio mewn partneriaeth/gweithio amlasiantaeth
  - pwysigrwydd sicrhau amgylchedd diogel a sefydlog heb elfennau annisgwyl
  - yr amrywiaeth o **strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar** y gellir eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
  - sut i **asesu swyddogaethau ymddygiad** er mwyn nodi'r strategaethau atal sylfaenol a'r ymyriadau cynnar mwyaf priodol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol a lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
  - arbenigwyr cymorth ymddygiad a gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n rhan o'r broses o ddatblygu, adolygu a gwerthuso cynlluniau
  - sut a phryd i ofyn am esboniad gan arbenigwyr ymddygiad i'ch helpu i ddeall data

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Sicrhau bod pob cynllun yn gwneud y canlynol:

- cynnwys gwybodaeth am natur gyd-destunol yr ymddygiad heriol a sut mae'n gweithredu fel swyddogaeth i'r unigolyn
- cefnogi strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cynnwys sawl gwahanol elfen ac yn defnyddio ymyriadau ataliol blaenorol
- ceisio cynnig ymddygiad swyddogaethol amgen i'r unigolyn lle y bo'n briodol
- cynnwys strategaethau atgyfnerthu wedi'u diffinio'n glir
- cynnwys strategaeth gadarn ar gyfer rheoli argyfyngau sy'n seiliedig ar yr opsiynau lleiaf cyfyngol
- sicrhau bod trefniadau cydgysylltu a chyfathrebu effeithiol ar waith gan y tîm

3.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer datblygu, gweithredu, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau er mwyn penderfynu i ba raddau y maent yn gwneud y canlynol:

- cefnogi ymddygiad cadarnhaol
- rhoi **dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** ar waith
- helpu i leihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

3.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol fel mater o drefn:

- monitro ac adolygu'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
- dadansoddi swyddogaethau ymddygiad ac effeithiolrwydd strategaethau ataliol sylfaenol ac ymyriadau cynnar
- diweddaru cynlluniau ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o waith casglu a dadansoddi data
- diweddaru cynlluniau hyfforddi ar gyfer y gweithlu yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o waith casglu a dadansoddi data

3.5 Sicrhau y defnyddir dull gweithredu amlddisgyblaethol ar gyfer datblygu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

## Ystod

**Model ymddygiadol:** Cynllun 4-tymor wrth gefn: cymhelliad, digwyddiadau blaenorol, ymddygiad a chanlyniadau – y rhyngberthynas rhwng unrhyw weithrediadau sefydlu neu gymhellol, ysgogiad gwahaniaethol, ymddygiad a chanlyniad

**Pedair swyddogaeth gyffredin:** sylw cymdeithasol, osgoi/dianc, y gallu i gael gafael ar bethau diriaethol, ysgogi'r synhwyrau

**Elfennau cynllun:** proffil personol, crynodeb o asesiad swyddogaethol, sut i ddiwallu anghenion iechyd allweddol, strategaethau atal sylfaenol ac eilaidd, disgrifiadau clir o'r ymddygiad sy'n gofyn am strategaethau adweithiol a sut a phryd y dylid eu defnyddio, cefnogaeth ar ôl digwyddiad, nodau a chynlluniau ar gyfer lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

**Dull gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd:** ymarfer person/plentyn-ganolog, cynhwysiant, cyfranogiad, dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau/cryfderau, rhwydweithiau a chydberthnasau cryf, dewis, urddas a pharch, pwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol

**Strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar:** newid neu osgoi ffactorau sy'n ysgogi ymddygiad sy'n herio, newid yr amgylchedd lle mae unigolyn yn byw neu'n treulio amser er mwyn diwallu ei anghenion, cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon er mwyn helpu unigolion i gyflawni canlyniadau sy'n bwysig iddynt, newid atgyfnerthiadau sy'n cynnal ymddygiadau sy'n herio, rhoi cefnogaeth ar y lefel gywir er mwyn helpu unigolion i fod yn fwy annibynnol a gallu ymdopi'n well, cynnig tawelwch meddwl a chefnogaeth er mwyn lleihau teimladau o bryder neu ofid

**Asesu swyddogaethau ymddygiad:** dulliau casglu data, rhoi'r model ymddygiadol ar waith, coladu a chyflwyno data sy'n hwyluso trefniadau asesu

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer defnyddio ymyriadau cyfyngol yn ddiogel a'u lleihau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Sicrhau'r canlynol:

- bod gweithwyr yn ymgymryd â **hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol** cyn ymgymryd â hyfforddiant ar ddefnyddio ymyriadau cyfyngol
- bod gweithwyr yn ymgymryd yn rheolaidd â **hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith** yn ddiogel yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
- bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall ystyr y term 'strategaethau adweithiol moesegol'
- bod gweithwyr yn deall pryd a sut y gallant ddefnyddio ymyriadau cyfyngol
- y caiff unrhyw ddefnydd o ymyriadau cyfyngol na chytunwyd arnynt fel rhan o gynllun personol unigolyn ei adolygu ar unwaith
- y caiff canllawiau diogelu eu dilyn wrth ddefnyddio ymyriadau cyfyngol
- y dylid hysbysu'r bobl/cyrff perthnasol am unrhyw ddefnydd o ymyriadau cyfyngol yn unol â chynllun personol unigolyn a gofynion diogelu

4.2 Arsylwi ymarfer gweithwyr a rhoi adborth adeiladol iddynt er mwyn datblygu eu:

- gallu i roi dulliau gweithredu cadarnhaol ar waith
- defnydd moesegol o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

## Ystod

**Hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol:** byddai'n cynnwys dulliau gweithredu moesegol a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd, ystyr ymddygiad heriol a sut y gall weithredu fel swyddogaeth ymhlith unigolion, sut mae swyddogaethau ymddygiad yn berthnasol i bawb, effaith trawma a phrofiadau'r gorffennol ar ymddygiad, ymyriadau rhagweithiol sy'n gwella lles ac yn atal ymddygiad sy'n herio, sut mae eich agweddau a'ch ymddygiad personol yn cyfrannu at agweddau ac ymddygiad unigolion, hawliau dynol a sut maent yn berthnasol i'r defnydd o ymarfer cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol, y model dwysedd amser, pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau mewn ffordd gywir a gwrthrychol a sut y defnyddir y wybodaeth hon i gefnogi ymarfer lleihau

**Hyfforddiant i roi ymyriadau cyfyngol y cytunwyd arnynt ar waith:** defnyddio'r model hyfforddiant 3 cham - cymhwysedd llafar, cymhwysedd chwarae rôl, cymhwysedd yn y sefyllfa benodol honno

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ac eraill yn dilyn digwyddiadau lle cafwyd ymddygiad sy'n herio

## Meini prawf asesu:

Rydych yn deall:

5.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall **prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** a sut i'w rhoi ar waith

5.2 Pwysigrwydd helpu gweithwyr i gydnabod ac i ystyried y canlynol:
- effaith trawma, profiadau negyddol ac anawsterau cyfathrebu yn y gorffennol ar ymateb unigolyn i'r defnydd o ymyriadau cyfyngol
- y straen posibl y gall gweithwyr ei brofi o ganlyniad i roi ymyriadau cyfyngol ar waith

5.3 Sut y gall cefnogaeth ar ôl digwyddiad gael dylanwad cadarnhaol ar ymdrechion i leihau ymyriadau cyfyngol drwy ei rôl wrth adfer cydberthnasau ymddiriedol ac ail-greu teimladau o ddiogelwch

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer ymarfer ar ôl digwyddiad sy'n gwneud y canlynol:
- rhoi **prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** ar waith yn dilyn digwyddiadau lle y ceir ymddygiad sy'n herio
- adolygu digwyddiadau ac yn nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau'r unigolyn neu ymarfer gweithwyr

## Ystod

**Prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad:** Cefnogaeth ôl ddigwyddiad (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - sylw at les corfforol ac emosiynol yr unigolyn ac eraill a oedd yn rhan o'r digwyddiad, rhoddir cefnogaeth bersonol ac emosiynol ar unwaith ac yn y tymor hwy os bydd ei hangen. Adolygiad ar ôl y digwyddiad - er mwyn dysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer, cynhelir hyn ar wahân i'r gefnogaeth ar ôl digwyddiad, nid yw'n ddefnyddiol gofyn i rywun gofio digwyddiad pan fyddant mewn cyflwr gofidus o hyd, a gall achosi trawma

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 529 Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Model Cefnogaeth Weithredol -** Mae Cefnogaeth Weithredol yn cynnig model person-ganolog o sut i ryngweithio ag unigolion er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau mor annibynnol â phosibl, wedi'i gyfuno â system gynllunio ddyddiol i hyrwyddo ffordd weithgar o fyw sy'n gysylltiedig ag ansawdd bywyd da. Mae'n cynnwys system gofnodi syml i asesu effaith a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gynlluniau cefnogaeth.
I gynnwys:

- Cynlluniau dyddiol a lefelau cyfranogiad mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau a threfniadau cefnogaeth ystyrlon
- Cofnodion a gwaith i ddadansoddi cyfranogiad mewn amrywiaeth o weithgareddau nodweddiadol
- Modelau rhyngweithio cadarnhaol, h.y. lefelau cefnogaeth; dadansoddi tasgau ac atgyfnerthu cadarnhaol
- Addysgu sgiliau/cynlluniau cyfleoedd

**Model Ymddygiadol** - Mae'r model ymddygiadol yn esbonio sut mae pob math o ymddygiad yn gweithio ac felly sut y gellir llywio ymddygiad. Y prif elfennau yw: sbardunau (yn ysgogi ymddygiad); yr ymddygiad ei hun; atgyfnerthwyr neu swyddogaethau cynnal neu ganlyniadau (yn atgyfnerthu ymddygiad) a chosb (yn gwanhau ymddygiad). Bydd sbardunau trin, atgyfnerthwyr neu gosbwyr yn newid ymddygiad. Mae hyn yr un fath ar gyfer pawb ac ar gyfer pob math o ymddygiad, nid dim ond ymddygiad sy'n herio. Mae dulliau gweithredu moesegol cyfoes megis PBS yn canolbwyntio ar newid sbardunau ac atgyfnerthwyr ac osgoi unrhyw ddefnydd o gosb.

**Ymddygiad heriol/ymddygiad sy'n herio -** mae'r termau hyn yn cysyniadoli ymddygiad heriol fel canlyniad cymhleth yn deillio o sawl ffactor (ffactorau personol ac amgylcheddol yn rhyngweithio) yn hytrach na dim ond beio'r unigolyn. Maent yn nodi bod y mathau hyn o ymddygiad yn her i wasanaethau a phobl eraill. Os gallwn ddeall diben ymddygiad heriol i'r person, yna gallwn gael gwared ar yr angen iddo ddefnyddio'r ymddygiad heriol er mwyn cael gafael ar yr hyn sydd ei angen arno/mynegi ei deimladau, a gwella ansawdd ei fywyd. Gall ymddygiad heriol gynnwys ymddygiad sy'n:

- Ailadroddus/obsesiynol
- Tawedog
- Ymosodol
- Hunan-niweidiol
- Aflonyddgar
- Gwrthgymdeithasol neu anghyfreithlon
- Difrïol

**Cynlluniau dyddiol a lefelau cyfranogiad.** Mae cynlluniau dyddiol yn nodi arferion dyddiol unigolyn yn fanwl. Maent yn cynnig cyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau drwy gydol y dydd, yn osgoi cyfnodau hir o ymddieithrio ac yn helpu staff i gynllunio eu hamser yn effeithiol. Gellir defnyddio'r cynlluniau mewn ffordd hyblyg i ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol, ac ystyried dewisiadau, rheolaeth, galluoedd ac anghenion unigolion. Caiff lefelau cyfranogiad eu cofnodi a'u dadansoddi er mwyn asesu'r cydbwysedd o ran cyfranogi mewn gwahanol fathau o weithgaredd a pha newidiadau sydd eu hangen o ran cefnogaeth er mwyn hyrwyddo ffordd o fyw nodweddiadol, gwella sgiliau a chynnig cymaint o annibyniaeth â phosibl. Mae Cynlluniau Dyddiol a lefelau cyfranogiad yn rhan o Gefnogaeth Weithredol

**Strategaethau adweithiol moesegol** - ffyrdd o ymateb yn ddiogel ac yn effeithlon i ymddygiad heriol na lwyddwyd i'w atal. Gallant gynnwys ymyriadau corfforol sy'n lleihau anesmwythyd, nad ydynt yn achosi poen ac sy'n cydymffurfio â Safonau Hyfforddi'r Rhwydwaith Lleihau Ataliadau 2019 ar gyfer defnyddio ymyriadau corfforol. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid eu defnyddio er mwyn rheoli sefyllfa lle mae posibilrwydd gwirioneddol o niwed i'r unigolyn neu i eraill oni chymerir camau. Ni ddylid byth eu defnyddio i gosbi, achosi poen, dioddefaint, cywilydd na sicrhau cydymffurfiaeth. Nid yw pob strategaeth adweithiol yn cynnwys ymyriadau corfforol. Weithiau, dim ond ymatebion cynnil sydd eu hangen ar ymddygiad sy'n herio, fel gwneud dim llawer o gwbl ac eithrio arsylwi'n dawel, peidio â chynhyrfu, peidio â rhyngweithio â'r person er mwyn rhoi amser iddo ymdawelu (strategaethau adweithiol cymhellol)

**Fframweithiau a modelau:**

- Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol
- Cefnogaeth Weithredol
- Model Newcastle
- Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia
- Model Adfer
- Dulliau adferol

**Swyddogaethau ymddygiad:**
Beth mae ymddygiad yn ei gyflawni neu ganlyniad uniongyrchol yr ymddygiad i'r person, er enghraifft

- cael sylw cymdeithasol;
- cael gafael ar bethau diriaethol fel bwyd, gweithgareddau, hoff eitemau;
- osgoi neu ddianc rhag rhywbeth nad yw'r person yn ei hoffi
- addasu i ba raddau y caiff y synhwyrau eu hysgogi

**Arweinyddiaeth** - y gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

**Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau cenedlaethol:**

Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau arferion cyfyngol (heb ei gyhoeddi eto)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Cymru 2016, Deddf Galluedd Meddyliol (2005), Amddiffyn a Diogelu Rhyddid

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
Deddf Plant 1989 a 2004
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
Deddf Hawliau Dynol 1998
Y Fframwaith Hawliau Dynol ar atal (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, heb ei gyhoeddi eto)
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006

**Lefelau cymorth (neu gefnogaeth neu help)** - yn cyfeirio at lefelau graddedig o gymorth, o negeseuon atgoffa syml ar lafar sy'n darparu'r lefel isaf o gefnogaeth, drwy anogaeth di-eiriau, ystumiau ac arddangosiadau, i arweiniad corfforol uniongyrchol sy'n darparu'r lefel uchaf o help. Dylid rhoi cymorth mewn ffordd hyblyg, yn ôl angen yr unigolyn am help, a dim ond y lefel isaf o gymorth sydd ei hangen y dylid ei rhoi er mwyn annog cymaint o gyfranogiad ac annibyniaeth â phosibl. Mae lefelau cymorth yn rhan o Gefnogaeth Weithredol

**Rheoli** - y gallu i bennu cyfeiriad gweithredol a threfnu i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

**Model Newcastle -** fframwaith a phroses ar gyfer deall ymddygiad sy'n herio fel anghenion nas diwallwyd, ac sy'n awgrymu strwythur y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n sicrhau bod pobl â dementia yn chwarae rhan greiddiol yn y gofal a gânt

Mae **cynlluniau personol**[3] yn nodi sut y caiff gofal unigolyn ei ddarparu. Maent yn seiliedig ar wybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chefnogaeth a byddant yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau ac anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn.

Bydd cynlluniau personol yn darparu'r canlynol:

- Gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am y gofal a'r gefnogaeth y cytunwyd arnynt a'r ffordd y cânt eu darparu
- Canllaw clir ac adeiladol i staff ar yr unigolyn, ei anghenion gofal a chefnogaeth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni
- Sail ar gyfer adolygu parhaus
- Ffordd i unigolion, eu cynrychiolwyr a staff fesur cynnydd a ph'un a yw eu canlyniadau personol wedi'u cyflawni.

Os bydd risg y caiff unrhyw arferion cyfyngol eu defnyddio ar unigolyn, dylid cynnwys canllawiau cefnogaeth ymddygiad fel rhan o'i gynllun personol. Dylid adolygu'r canllawiau cefnogaeth ymddygiad hyn yn barhaus a dylid eu haddasu wrth i anghenion yr unigolyn ddatblygu neu newid.

[3] Canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safonau gwasanaeth (Llywodraeth Cymru 2017)

Os bydd canllawiau cefnogaeth ymddygiad yn cynnwys ymyriad cyfyngol, dylai'r cynllun personol hefyd gynnwys canllawiau ar gyfer lleihau unrhyw achosion o ddefnyddio ymyriadau o'r fath yn y dyfodol. Dylid monitro ac adolygu'r canllawiau lleihau hyn yn rheolaidd a dylid eu trosglwyddo o wasanaeth i wasanaeth, fel rhan o gynllun personol yr unigolyn.

Dylai pawb sy'n rhan o fywyd yr unigolyn fod yn gyfarwydd â'r canllawiau a nodwyd ar gyfer yr unigolyn y datblygwyd y cynllun ar ei gyfer a'u deall. Dylai'r broses gynllunio sicrhau bod pawb sy'n rhan o fywyd yr unigolyn yn glir ynghylch canllawiau a gynhwysir fel rhan o unrhyw gynllun ar gyfer unigolyn. Dylid rhoi sicrwydd i blant ac unigolion y byddant yn cael ymateb cyson mewn perthynas â chefnogaeth ymddygiad a'r defnydd o ymyriadau cyfyngol.

**Cynlluniau** - cefnogaeth ymddygiadol cadarnhaol, cynlluniau personol, cynlluniau dyddiol, cynlluniau addysgu sgiliau

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol**:

- Yn seiliedig ar Gynyddu Gwerth Rolau Cymdeithasol, Dadansoddiad o Ymddygiad Cymhwysol a Gwaith Cynllunio Person-Ganolog
- Yn hyrwyddo dulliau ymyrryd sy'n seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth
- Yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd fel nod canolog
- Yn defnyddio ymyriadau unigoledig sy'n deillio o asesiad swyddogaethol o ymddygiad y person
- Yn pwysleisio dulliau atal sylfaenol fel y prif ddull gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth weithredol, addysgu sgiliau, gwella dulliau cyfathrebu, gwella amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ac ymdrin â sbardunau a swyddogaethau ymddygiad sy'n deillio o'r asesiad swyddogaethol.
- Yn cynnwys strategaethau atal eilaidd er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd ymddygiad yn gwaethygu
- Yn cynnwys strategaethau adweithiol moesegol nad ydynt yn seiliedig ar boen a gynlluniwyd yn benodol i gadw'r person ac eraill yn ddiogel.
- Yn cynnwys strategaethau dadfriffio a bennwyd ar gyfer yr unigolyn ac eraill sy'n ymwneud â'r broses yn dilyn digwyddiad lle cafwyd ymddygiad heriol
- Yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i werthuso effaith ymyriadau a phryd y dylid adolygu'r cynllun Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.

**Rhyngweithio cadarnhaol** - yn cyfeirio at y model rhyngweithio tri cham ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau. Mae'r model hwn yn cynnwys y canlynol: Y pum lefel o gymorth; dadansoddi tasgau ac atgyfnerthu cadarnhaol. Mae rhyngweithio cadarnhaol yn rhan o Gefnogaeth Weithredol

**Atgyfnerthu cadarnhaol** - yn cyfeirio at yr hyn y mae unigolyn yn ei gael o ganlyniad i ymgymryd â thasg benodol. Gall gynnwys gwobrau sy'n digwydd yn naturiol (e.e. yfed cwpanaid o de y mae'r unigolyn newydd ei wneud) neu bethau eraill y mae'r unigolyn yn eu hoffi (e.e. canmoliaeth a sylw neu hoff weithgaredd) fel anogaeth neu wobr am gymryd rhan mewn gweithgaredd penodedig.

**Mae atgyfnerthu (cadarnhaol a negyddol) yn cryfhau ymddygiad:**

Mae Atgyfnerthu Cadarnhaol yn digwydd pan fydd unigolyn yn cael rhywbeth y mae am ei gael drwy ymddwyn mewn ffordd benodol, er enghraifft drwy gael ymgymryd â hoff weithgaredd neu gael hoff eitem, cael sylw cymdeithasol gan rywun, cael cyfle i ysgogi'r synhwyrau ac ati.

Mae atgyfnerthu negyddol yn digwydd pan fydd unigolyn yn osgoi neu'n dianc rhag rhywbeth nad yw'n ei hoffi, er enghraifft drwy osgoi gorfod ymgymryd â thasg, dianc rhag sylw diangen neu amgylchedd swnllyd, rhyddhad o boen ac ati.

**Adolygiad ar ôl digwyddiad:** mae'n cynnwys:

- Myfyrio ar y ffordd roedd yn teimlo cyn y digwyddiad ac yn union cyn y digwyddiad; yr ymddygiad ei hun, canlyniadau'r ymddygiad a sut roedd yn teimlo wedyn
- Beth fyddai wedi ei helpu i sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol
- Cefnogaeth emosiynol
- Myfyrdod personol
- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo
- Hyfforddiant ychwanegol
- Newidiadau i gynlluniau ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol

**Cymorth ar ôl Digwyddiad** (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - Sut y dylid cefnogi gweithwyr unigol, gofalwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ar ôl digwyddiad lle ceir ymddygiad heriol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Help i ymdawelu
- Cefnogaeth emosiynol
- Cymorth cyntaf os oes ei angen
- Amser i ffwrdd
- Amser tawel
- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo

**Dulliau atal sylfaenol** - Newid agweddau ar amgylcheddau byw, gweithio a hamdden unigolyn er mwyn gwella ei les er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd yn ymddwyn mewn ffordd heriol, gan gynnwys:

- Newid neu osgoi sbardunau sy'n arwain at ymddygiad sy'n herio
- Newid yr amgylchedd lle mae unigolyn yn byw neu'n treulio amser er mwyn diwallu ei anghenion
- Cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon er mwyn helpu unigolion i sicrhau canlyniadau sy'n bwysig iddynt
- Newid atgyfnerthiadau sy'n cynnal ymddygiad sy'n herio
- Rhoi cefnogaeth ar y lefel gywir er mwyn helpu unigolion i fod yn fwy annibynnol a gwella eu gallu i ymdopi
- Cynnig sicrwydd a chefnogaeth i leihau teimladau o orbryder neu ofid
- Meithrin gwydnwch, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc

Byddai **dulliau adferol** yn cynnwys:

- Adfer – prif nod dull adferol yw mynd i'r afael â niwed a'i wella
- Gwirfoddoli – dylai pobl gymryd rhan mewn prosesau adfer o'u gwirfodd ac yn seiliedig ar ddewis hyddysg
- Niwtraliaeth – mae prosesau adferol yn deg ac yn ddiduedd tuag at y rhai sy'n cymryd rhan

- Diogelwch – nod prosesau ac ymarfer yw sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan a chreu man diogel ar gyfer mynegi teimladau a safbwyntiau am y ffordd mae niwed wedi cael ei achosi
- Hygyrchedd – nid yw prosesau adferol yn gwahaniaethu, ac maen nhw ar gael i bawb mae gwrthdaro a niwed wedi effeithio arnynt
- Parch – mae prosesau adferol yn parchu urddas pawb sy'n cymryd rhan a phobl mae'r niwed a achoswyd wedi effeithio arnynt

**Ymyriadau cyfyngol** - (y cyfeirir atynt weithiau fel dulliau atal) maent yn rhan o gontinwwwm o arferion cyfyngol ac, oni bai eu bod yn rhan o gynllun ymddygiad y cytunwyd arno, dim ond fel ymateb uniongyrchol a bwriadol i ymddygiad sy'n herio neu er mwyn rheoli sefyllfa lle mae posibilrwydd gwirioneddol o niwed oni chymerir camau y dylent gael eu defnyddio. Ni ddylid byth ddefnyddio ymyriadau cyfyngol i gosbi, achosi poen, dioddefaint, codi cywilydd na sicrhau cydymffurfiaeth.

Byddai ymyriadau cyfyngol yn cynnwys: atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

**Arferion cyfyngol** - amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud

**Dulliau atal eilaidd** - Strategaethau sy'n berthnasol pan fydd ymddygiad heriol person yn dechrau gwaethygu, i'w helpu i ymdawelu er mwyn atal digwyddiad difrifol.

**Addysgu sgiliau** - yn cyfeirio at y broses o nodi tasg neu weithgaredd i'w gyflawni, dadansoddi tasgau, asesu sgiliau presennol a'r sgiliau y byddai angen eu meithrin, y lefelau o help sydd eu hangen er mwyn meithrin y sgiliau sydd eu hyangen i ymgymryd â'r dasg neu'r gweithgaredd a gwybodaeth am pryd, ble a chan bwy y caiff y sgiliau eu haddysgu a sut y caiff cynnydd ei adolygu a'i werthuso er mwyn llywio unrhyw ymdrechion pellach i addysgu sgiliau.

**Dadansoddi tasgau** - yn cyfeirio at rannu tasgau'n gamau bach, hydrin fel y gwneir yn achos ryseitiau neu ganllawiau DIY. Dylai maint pob cam neu nifer y camau ar gyfer tasg benodol amrywio yn ôl gallu'r unigolyn neu ei angen am gefnogaeth.

**Amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** - yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol

**Pryd a sut y gellir defnyddio ymyriadau cyfyngol** - Os defnyddir ymyriadau cyfyngol mewn argyfwng neu lle y bydd unigolyn yn bwriadu niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol, dylid sicrhau bob amser:

- Na chânt eu defnyddio am ddim mwy o amser na'r hyn sy'n angenrheidiol
- Eu bod yn gymesur â'r risg ac mai dyma'r opsiwn lleiaf cyfyngol
- Eu bod yn gyfiawnadwy yn gyfreithiol ac yn foesegol
- Eu bod wedi cael eu hystyried yn fanwl ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn arall neu lle bo pob opsiwn arall yn anymarferol
- Eu bod yn cael eu gwneud mewn modd tryloyw i bawb gyda llinellau atebolrwydd clir ar waith
- Eu bod yn cael eu cydnabod yn agored ac na chânt byth eu cuddio
- Eu bod yn cael eu pennu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol
- Eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn briodol

- Eu bod yn cael eu monitro, eu cynllunio a'u hadolygu er mwyn dod o hyd i ddull amgen mwy cadarnhaol yn y tymor hwy
- Eu bod yn cynnwys dadfriffio a chefnogaeth i bawb sy'n rhan o'r broses

Dylai ymyriadau cyfyngol, heblaw'r rhai a ddefnyddir mewn argyfwng, bob amser fod wedi'u cynllunio ymlaen llaw, a dylai tîm amlddisgyblaethol fod wedi cytuno arnynt a, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r unigolyn fod wedi cytuno arnynt a dylai fod wedi'i gynnwys yn ei gynllun ymddygiad a chefnogaeth

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMC B8** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy'n cefnogi datblygiad ymddygiad cadarnhaol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau arferion cyfyngol (heb ei gyhoeddi eto)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
- Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Fframwaith Hawliau Dynol ar atal (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, heb ei gyhoeddi eto)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006

## *Adnoddau*


- Comisiynydd Plant Cymru (2017) Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. Ar gael yn: **https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Y-Ffordd-Gywir.pdf**
- Yr Adran Iechyd (2014) Positive and Proactive Care: reducing the need for restrictive interventions, Llundain, Y DU: Yr Adran Iechyd.
- Denne, et al (2015) Putting positive behavioural support into practice: the challenges of workforce training and development, International Journal of Positive Behavioural Support 5,2 43-45
- Gore, et al (2013) Definition and scope for positive behavioural support, International Journal of Positive Behavioural Support 3,2, 14-23
- Hastings , R P, Allen, D, Baker, P, Gore, N J, Hughes, J C, McGill, P, Noone S J a Toogood, S (2013) A conceptual framework for understanding why challenging

behaviours occur in people with developmental disabilities. International Journal of Positive Behavioural Support, 3, 2, 5–13

- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru (2018) Canllaw i Ymarferwyr: Egwyddorion Cyfreithiol Sylfaenol. Ar gael yn: **http://bwrdddiogelu.cymru/2018/12/06/practitioners-guide/?noredirect=cy_GB**
- NICE (2015). Challenging Behaviour and Learning Disabilities: Prevention and Interventions for People with Learning Disabilities whose Behaviour Challenges. Llundain, Y DU: NICE
- **NICE (2018) guideline on learning disabilities and behaviour that challenges: service design and delivery**
- **https://www.nice.org.uk/guidance/NG93**
- PBS Academy (n.d.) Improving the Quality of Positive Behavioural Support (PBS): The Standards for Training. Ar gael yn: **http://pbsacademy.org.uk/standards-for-training/**
- Y Rhwydwaith Lleihau Ataliadau (2019) Ethical Training Standards to Protect Human Rights and Minimise Restrictive Practices. Ar gael yn: **http://restraintreductionnetwork.org/wp-content/uploads/2016/11/RRN_standards_Feb2019_DRAFT.pdf**
- Coleg Brenhinol y Seicolegwyr, Cymdeithas Seicolegol Prydain a Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2007) Challenging behaviour: a unified approach, Clinical and service guidelines for supporting people with learning disabilities who are at risk of receiving abusive or restrictive practices. Adroddiad y Coleg CR144
- Gofal Cymdeithasol Cymru (2016) Dulliau Cadarnhaol: Lleihau Arferion Cyfyngol ym maes Gofal Cymdeithasol https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dulliau-cadarnhaol-lleihau-arferion-cyfyngol-ym-maes-gofal-cymdeithasol
- Skills for Care & Skills for Health (2014). A Positive and Proactive Workforce. A guide to workforce development for commissioners and employers seeking to minimise the use of restrictive practices in social care and health, Llundain: SfH/SfC
- Cyrsiau e-ddysgu am ddim ar Gefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol (PBS):
- **http://www.bild.org.uk/capbs/pbsinformation/introduction-to-pbs/**
- **http://www.bild.org.uk/capbs/pbs-awareness-course/**
- Gwybodaeth am ddim am Gefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol (PBS):
- **http://www.bild.org.uk/capbs/capbs/**
- **http://pbsacademy.org.uk/**

# Unit 530 Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 19 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain |

## Deilliant dysgu:

1. Rheoli tîm gwasgaredig sy'n darparu gofal a chefnogaeth yng nghartrefi'r unigolion eu hunain

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 **Gofynion penodol** ar gyfer gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

1.2 **Heriau, gofynion a sensitifrwyddau** sy'n gysylltiedig â darparu gofal yng nghartrefi unigolion

1.3 Cymhlethdodau monitro a rheoli diogelwch gweithwyr wrth ddarparu gofal a chefnogaeth yn y cartref

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Rhoi diwylliant o urddas a pharch ar waith wrth weithio yng nghartrefi'r unigolion eu hunain

1.5 Sicrhau bod gweithwyr yn deall y canlynol:

- yr heriau sy'n gysylltiedig ag ennyn ymddiriedaeth unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd adnabod a chydnabod y sgiliau a'r arbenigedd sydd gan deuluoedd/gofalwyr mewn perthynas â darparu cefnogaeth barhaus i unigolion
- sut i negodi ffiniau proffesiynol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydberthnasau wrth weithio yng nghartrefi unigolion yn unol â gofynion sefydliadol
- eu lefel o awdurdod o ran gwneud penderfyniadau
- rolau asiantaethau ac unigolion eraill sy'n ymwneud â darparu gofal a chefnogaeth yn y cartref a'r gydberthynas â nhw

1.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol

- sicrhau y caiff unigolion, teuluoedd/gofalwyr eu cynnwys ac y gallant ddylanwadu ar y broses
- pennu disgwyliadau; ffyrdd y gellir cyflawni'r disgwyliadau hyn a sut maent yn berthnasol i rôl gweithwyr

- cefnogi dulliau cyfathrebu, ffiniau a'r cydberthnasau rhwng unigolion, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr
- paru gweithwyr ag unigolion

1.7 Sicrhau bod gweithwyr yn deall sut i ymateb pan fydd yr unigolyn neu ei deulu/gofalwr yn gwrthod gofal a chefnogaeth

1.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch eu rôl mewn perthynas â rhoi a rheoli meddyginiaeth

1.9 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i godi pryderon ynghylch diogelwch, galluedd meddyliol a rheoli meddyginiaethau

1.10 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer bodloni gofynion penodol mewn ffyrdd sy'n ystyried sefyllfaoedd sensitif

### Ystod

**Gofynion penodol** – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cofrestredig) (Cymru) 2017 a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolio Cyfrifol ar Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth ar gyfer: Lleoliadau Cartrefi Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Llety Diogel a Gwasanaethau Gofal Teulu Preswyl, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol, strwythur sefydliadau/rolau a chyfrifoldebau

**Heriau, gofynion a sensitifrwyddau** - gweithio yng nghartref yr unigolyn, gweithio yng nghartref y gofalwr a'r teulu; deall disgwyliadau'r unigolion a'r teuluoedd/gofalwyr; diogelwch, cyfrinachedd a hygyrchedd meddyginiaeth a chofnodion/gwybodaeth yr unigolyn, ymdrin ag arian, peidio â barnu amgylchiadau'r unigolyn

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith –** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer gweithlu gwasgaredig

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 **Heriau** posibl a wynebir gan weithwyr wrth ddarparu gofal a chefnogaeth yn y cartref

2.2 Effaith bosibl heriau ar les gweithwyr

2.3 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:
- datblygu gwydnwch
- cael gafael ar gefnogaeth er mwyn ymdopi ag unrhyw effaith a gaiff heriau
- ymdrin ag achosion cysylltiedig o straen

2.4 Ffyrdd o ddatblygu eich gwydnwch eich hun a sut y mae hyn yn helpu i gefnogi gweithwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 Hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi parhad ac sy'n cymell gweithwyr drwy ethos o gydgynhyrchu a galluogi

2.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i gefnogi trefniadau da ar gyfer cyfnewid gwybodaeth â gweithlu gwasgaredig a rhwng aelodau'r gweithlu hwnnw

2.7 Adnabod arwyddion, symptomau ac achosion posibl straen yn y gweithlu

2.8 Rheoli tensiynau a datrys problemau mewn timau er mwyn lleihau'r effaith a gânt ar unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
2.9 Helpu gweithwyr i fyfyrio ar eu hymarfer wrth ddatrys problemau ac i fod yn atebol am yr ymarfer hwnnw
2.10 Cynnig cyfleoedd i weithwyr gefnogi ei gilydd
2.11 Sicrhau y gall gweithwyr gael gafael ar gefnogaeth amserol wrth wneud y canlynol:
- cynnal sgyrsiau anodd
- ymdrin â gwrthdaro

2.12 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i fyfyrio ar y canlynol:
- teimladau eu bod yn agored i niwed neu deimladau annifyr wrth ddarparu gofal a chefnogaeth yng nghartrefi unigolion
- digwyddiadau difrifol neu ddigwyddiadau a allai fod wedi bod yn ddifrifol

2.13 Sicrhau bod gweithwyr yn cael cefnogaeth emosiynol a chyfleoedd i ddadfriffio a dysgu

## Ystod

**Heriau** - gweithio ar eich pen eich hun, cefnogi unigolion sy'n byw mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau (e.e. cyflyrau iechyd, darparu gofal lliniarol a gofal diwedd oes, dementia, anabledd dysgu, cyflyrau iechyd meddwl, anaf a gafwyd i'r ymennydd, defnyddio/camddefnyddio sylweddau, namau corfforol), deinameg y teulu, celcio ac hunanesgeuluso, effaith bosibl profiadau/amgylchiadau bywyd personol y gweithiwr ar ei rôl yn y gwaith

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gydbwyso hawliau, risgiau a chyfrifoldebau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Hwyluso dealltwriaeth gyffredin o sut i gydbwyso hawliau, risgiau a chyfrifoldebau wrth weithio gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain a sut y mae'r canlynol yn effeithio ar y broses:
- diffyg cydbwysedd pŵer wrth ddarparu a derbyn gofal a chefnogaeth
- cyd-destun gweithio yng nghartrefi personol unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

3.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n helpu gweithwyr i gydbwyso hawliau, risgiau a chyfrifoldebau wrth weithio ar eu pen eu hunain ac wrth wneud penderfyniadau fel rhan o'u hymarfer beunyddiol
3.3 Sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth i gynnal asesiadau risg amgylcheddol a dynamig fel rhan o'u hymarfer beunyddiol
3.4 Sicrhau bod gweithwyr yn gallu gweithio o fewn asesiadau risg mewnol ac allanol sy'n berthnasol i unigolion

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi gofal a chefnogaeth hyblyg ac ymatebol yn y cartref

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Pwysigrwydd sicrhau dulliau gweithredu hyblyg o ddarparu gwasanaethau a all wneud y canlynol:
- addasu i newidiadau i'r weledigaeth y cytunwyd arni neu'r disgwyliad y cytunwyd arno ar gyfer y gwasanaeth
- ymateb ac addasu i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol
- helpu gweithwyr i ddeall anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol
- esblygu i gynnwys ymarfer sy'n dod i'r amlwg wedi'i lywio gan dystiolaeth
- adlewyrchu polisïau a chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 Rhoi'r weledigaeth a'r disgwyliadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y gwasanaeth ar waith

4.3 Pennu disgwyliadau clir i weithwyr o ran eu rôl, hyblygrwydd, atebolrwydd ac annibyniaeth i wneud penderfyniadau

4.4 Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo dull gweithredu galluogol ac ailalluogol wrth weithio gydag unigolion a theuluoedd/gofalwyr

4.5 Helpu gweithwyr i ddeall sut a pham y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn newid

4.6 Sicrhau bod unigolion a theuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall sut a pham y bydd y gwasanaethau a ddarperir yn newid

4.7 Defnyddio ymarfer, damcaniaethau a modelau wedi'u llywio gan dystiolaeth er mwyn helpu gweithwyr i addasu i newid a'i reoli

Deilliant dysgu:

5. Cynnal safonau ansawdd o fewn gweithlu gwasgaredig

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal safonau ansawdd cyson o fewn gweithlu gwasgaredig

5.2 Y dulliau gweithredu i'w defnyddio a fydd yn cefnogi ymarfer ansawdd gorau o fewn gweithlu gwasgaredig

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.3 Meithrin dealltwriaeth gyffredin o arfer da

5.4 Defnyddio trefniadau arsylwi, goruchwylio a chyfarfodydd tîm i ddylanwadu ar ansawdd yr ymarfer

5.5 Monitro, adolygu a gwerthuso'r wybodaeth a gofnodir mewn systemau cyfathrebu

5.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer gwirio, gwerthuso a gwella ymarfer tîm gwasgaredig

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

6. Gweithio ar y cyd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i ymdrin â rolau, cyfrifoldebau, agweddau, disgwyliadau a modelau gweithio er mwyn darparu gofal a chefnogaeth ddi-dor ac effeithiol i'r unigolyn

6.2 Sut gall gofal a chefnogaeth a ddarperir gan deuluoedd/gofalwyr a chymunedau ategu gofal a chefnogaeth a roddir yn y cartref neu fod yn gydnaws â'r gofal a'r gefnogaeth honno

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.3 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo parch ac eglurder ynghylch rolau gydag eraill er mwyn darparu gofal a chefnogaeth ddi-dor i'r unigolyn

6.4 Sicrhau dulliau gweithio ar y cyd sy'n cynnwys unigolion, teuluoedd/gofalwyr ac eraill wrth wneud y canlynol:
- datblygu cynlluniau personol
- adolygu cynlluniau personol yn ffurfiol ac yn anffurfiol

6.5 Defnyddio adborth gan unigolion, teuluoedd/gofalwyr, gweithwyr ac eraill i fonitro, diweddaru, teilwra a herio dulliau ymarfer presennol

---

Deilliant dysgu:

7. Parhad busnes

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Yr opsiynau cyllid sydd ar gael mewn perthynas â gofal a chefnogaeth yn y cartref a sut y gellir cael gafael arnynt

7.2 Sut i werthuso gwasanaethau posibl y gellir eu darparu yn seiliedig ar adnoddau a chyllid

7.3 Rôl contractau ag unigolion a sefydliadau eraill

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.4 Cyfrannu at y broses o ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau sydd wedi gwerthuso'r hyn y gellir ei gyflawni gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael

7.5 Datblygu strategaethau a dulliau gweithredu er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr medrus ar gael i allu darparu gofal a chefnogaeth i unigolion:
- yn y byrdymor drwy oriau gwaith ac argaeledd, gan ystyried amseroedd teithio posibl a natur wledig yr ardal
- yn y tymor hwy drwy recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu

7.6 Sicrhau y caiff ceisiadau a disgwyliadau gweithwyr eu cydbwyso â gofynion y gwasanaeth

7.7 Arwain a rheoli'r trefniadau cynllunio wrth gefn ar gyfer argyfyngau, sefyllfaoedd lle na fydd gweithwyr ar gael a chyfarpar neu dechnoleg yn methu

7.8 Rhoi prosesau ar waith ar gyfer ymdrin ag argyfyngau

7.9 Sicrhau bod gweithwyr yn deall y prosesau ar gyfer ymdrin ag argyfyngau a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau i allu ymateb

7.10 Gweithio o fewn gofynion sefydliadol er mwyn codi tâl am wasanaethau a rheoli cyllidebau

---

## Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli technoleg ym maes gofal a chefnogaeth yn y cartref

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Sut y gall technoleg gefnogi'r canlynol:
- systemau cyfathrebu
- datblygu trefniadau dysgu
- darparu gwasanaethau

8.2 Adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer dysgu a datblygiad yn seiliedig ar dechnoleg

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.3 Arwain a rheoli ymarfer sy'n croesawu ymdrechion i ddefnyddio technoleg

8.4 Myfyrio ar fuddiannau, risgiau a heriau defnyddio
- technoleg i gyfathrebu
- technoleg i ddysgu a datblygu
- cyfryngau cymdeithasol i gefnogi gweithwyr

8.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo defnydd timau o dechnoleg i gefnogi'r canlynol
- cyfathrebu priodol
- datblygu'r dysgu

8.6 Sicrhau bod gweithwyr yn gallu defnyddio technoleg fel sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl

8.7 Sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar y sgiliau, yr amser, y cyfleoedd a'r cyfarpar i gefnogi dysgu a datblygu yn seiliedig ar dechnoleg

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Unit 530 Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Cymhlethdodau monitro a rheoli diogelwch gweithwyr** - Dylai hyn gynnwys rheoli a monitro diogelwch gweithwyr. Er enghraifft, gall rheoli cymhlethdodau gynnwys agweddau fel deinameg y teulu, ymddygiad ac amgylchiadau cyfnewidiol; ond gall monitro ymwneud mwy â logisteg, fel gweithio ar eich pen eich hun neu heriau lleoliadau daearyddol.

**Argyfyngau** - gallai gynnwys argyfyngau meddygol i'r unigolyn neu ofalwyr/teuluoedd, tywydd garw, unigolion yn cwympo, achosion o ddwyn, torri i mewn i eiddo, argyfwng sy'n effeithio ar weithwyr, car yn torri lawr

**Arweinyddiaeth** - y gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

**Rheoli** - y gallu i bennu cyfeiriad gweithredol a threfnu i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

**Eraill** - gallai gynnwys eiriolwyr, ffrindiau, cymdogion, ysgolion, asiantaethau gofal a chefnogaeth, gweithwyr iechyd proffesiynol, therapyddion, nyrsys ardal, nyrsys seiciatrig cymunedol, nyrsys arbenigol, gweithwyr cymdeithasol, cymdeithasau tai, asiantaethau gwirfoddol, swyddogion prawf, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol

**Amrywiaeth o adnoddau** - gallai'r rhain gynnwys mentora, hyfforddi, cyfryngu

**Sefyllfaoedd sensitif** - pan fydd unigolyn neu ei ofalwr/teulu yn wynebu cyfnod anodd yn emosiynol, er enghraifft pan fydd unigolyn wedi marw a bod angen i'r gwasanaeth gael gafael ar ei nodiadau

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDHSC0446** Rheoli gweithlu gwasgaredig i fodloni anghenion a dewisiadau unigolion gartref
- **SCDLMCE3** Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal i ateb gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol, cofrestru ac arolygu
- **SCDLMCE5** Datblygu cynlluniau gweithredol a rheoli adnoddau i ateb gofynion ar y ddarpariaeth gwasanaethau gofal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
- Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018

## *Adnoddau*

- Y rheolwr gofal cymdeithasol – canllawiau ymarfer
  **https://gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codau-ymarfer-a-chanllawiau**
- Y gweithiwr gofal cartref: canllawiau ymarfer
  **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/y-gweithiwr-gofal-cartref**
- Home Care in Wales: views and experiences of older people. Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Adroddiad i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012
- Gofal a Chymorth yn y Cartref yng Nghymru: Cynllun Strategol Pum Mlynedd 2017-2022, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref - Adolygiad o lenyddiaeth
  **https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Care-and-support-at-home-in-Wales-Literature-review.pdf**
- Factors that affect the recruitment and retention of domiciliary care workers and the extent to which these factors impact upon the quality of domiciliary care: interim findings summary, GSR, Llywodraeth Cymru, 2016
- Uwchben a thu hwnt: Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru 2015-16, AGGCC 2016
- Career Progression in Care Project: End of Project Report, Skills for Care 2016
- Gofal yn y Cartref: heriau, posibiliadau a goblygiadau ar gyfer y gweithlu yng Nghymru, Cyngor Gofal Cymru 2010
- Time to Care: A UNISON Report into Home Care, UNSAIN 2013
- Risg gadarnhaol a phenderfynu ar y cyd
  **https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/risg-cadarnhaol-a-phenderfynu-ar-y-cyd---gan-imogen-blood-a-shani-wardle**
- Tudalennau canlyniadau personol Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys sut i ddefnyddio dull canlyniadau ym maes gofal cartref, gan gydbwyso hawliau a

chyfrifoldebau a sut i ddefnyddio dull canlyniadau wrth weithio gyda gofalwyr: **https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/canlyniadau-personol**

- Y Sefydliad Iechyd Meddwl: How to manage and reduce stress: **https://www.mentalhealth.org.uk/publications/how-manage-and-reduce-stress**
- Adnoddau Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru: **https://info.copronet.cymru/**
- Adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru – Anatomi cydnerthedd: Pecyn Cymorth: **https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Anatomi-cydnerthedd-Pecyn-cymorth.pdf**

# Uned 531 Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 30 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion rheoleiddiol penodol, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol i gartrefi gofal.

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 **Gofynion penodol** ar gyfer cartrefi gofal

1.2 Rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn wrth bennu gofynion i gartrefi gofal

1.3 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau'r rheini sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal

1.4 **Gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol** sy'n dylanwadu ar y gofynion ar gyfer cartrefi gofal ac yn cefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodol ar gyfer cartrefi gofal

1.6 Defnyddio gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol i lywio a datblygu ymarfer

## Ystod

**Gofynion penodol** – Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cofrestredig) (Cymru) 2017 a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolio Cyfrifol ar Fodloni'r Rheoliadau Safonau Gwasanaeth ar gyfer: Lleoliadau Cartrefi Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Llety Diogel a Gwasanaethau Gofal Teulu Preswyl, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol, gofynion a bennir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol** - ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, pwysigrwydd cydberthnasau i bobl hŷn a gofal yn seiliedig ar gydberthnasau, cydberthnasau rhwng y cenedlaethau, cyfranogiad a chysylltiadau cymunedol, effaith unigedd ac unigrwydd ar les pobl hŷn, cyfnodau trosglwyddo, gwahanu a cholli, pwysigrwydd rolau gwerthfawr a chymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, y canlyniadau corfforol a

seicolegol i unigolion os cânt eu gadael am gyfnodau hir heb symud neu heb gael eu hysgogi, diymadferthwch dysgedig, y Fframwaith Synhwyrau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain y broses o ddylunio a darparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n cefnogi ymarfer person-ganolog a lles unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2

2.1 Effaith **dylunio a darparu gwasanaethau** ar y canlynol:

- Ymarfer person-ganolog
- Cynhwysiant cymdeithasol
- Cefnogaeth i unigolion gyflawni canlyniadau cadarnhaol
- Cefnogaeth i unigolion fyw bywydau llawn a gwerthfawr

2.2 Pwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau personol yn adlewyrchu uchelgeisiau unigolion ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'u hanghenion gofal a chefnogaeth presennol

2.3 Pwysigrwydd yr **amgylchedd ffisegol** wrth gefnogi lles

2.4 Sut y gall arferion a threfn helpu unigolion i ragweld digwyddiadau ac i deimlo'n ddiogel a bod ganddynt reolaeth, ond y gallant hefyd fynd yn groes i'r egwyddor o gynnig dewis a rheolaeth os byddant yn gaeth ac yn anhyblyg

2.5 Deddfwriaeth a chanllawiau polisi ar ddefnyddio arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

2.6 Pwysigrwydd sicrhau bod strategaethau ar waith i fonitro, adolygu a lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

2.7 Pwysigrwydd mabwysiadu dulliau gweithredu cadarnhaol er mwyn lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.8 Rhoi diwylliant o urddas a pharch ar waith yn y cartref

2.9 Arwain y broses o ddatblygu **amgylchedd ffisegol** sy'n cefnogi lles unigolion

2.10 Sicrhau bod cynlluniau personol yn adlewyrchu uchelgeisiau unigolion ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'u hanghenion gofal a chefnogaeth presennol

2.11 Monitro, adolygu a gwerthuso effaith y broses o ddylunio a darparu'r gwasanaeth ar ymarfer person-ganolog, cynhwysiant a'r ffordd y caiff unigolion eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

2.12 Arwain gwaith parhaus i adolygu a datblygu'r broses o ddylunio a darparu'r gwasanaeth er mwyn gwella ymarfer a chefnogi ymdrechion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

2.13 Sicrhau bod unrhyw ddefnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol yn bodloni gofynion deddfwriaethol a chanllawiau polisi

2.14 Monitro, adolygu a gwerthuso'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol a rhoi strategaethau ar waith i'w lleihau

## Ystod

**Dylunio a darparu gwasanaethau** - Staffio, arferion, lefelau hyblygrwydd, strwythur, yr amgylchedd, lleoliad ffisegol (agosrwydd at gyfleusterau cymunedol), cysylltiadau cymunedol

**Yr amgylchedd ffisegol** - amgylchedd dan do ac awyr agored, yn adlewyrchu cefndiroedd, dewisiadau ac anghenion unigolion, yn galluogi unigolion i bersonoleiddio eu gofod personol a chadw eu heiddo yn ddiogel, yn helpu unigolion i gynnal ymdeimlad o sicrwydd, parhad a pherthyn, yn ysgogol ac yn annog ymdrechion i ymgysylltu, cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau ystyrlon, yn darparu mannau tawel, yn helpu unigolion i symud ond gan eu cadw'n ddiogel ar yr un pryd, yn cefnogi symudedd a'r gallu i symud o gwmpas, yn lleihau'r risg o gwympo, yn groesawgar, wedi'i ddodrefnu a'i gynnal a'i gadw i safon uchel, yn cefnogi profiad bwyta cadarnhaol, yn helpu i gynnwys teuluoedd

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion a theuluoedd i ymdopi â newid a chyfnodau trosglwyddo

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Diben a chynnwys pecyn croeso i unigolion a'u teuluoedd
3.2 Sut i gefnogi cyfnodau trosglwyddo didrafferth i unigolion sy'n symud i gartref gofal
3.3 Strategaethau ar gyfer rheoli cyfnodau trosglwyddo yn y cartref a/neu rhwng y cartref a **mannau eraill**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.4 Arwain y broses o ddefnyddio a datblygu strategaethau i helpu unigolion a'u teuluoedd i ymdopi â newid a chyfnodau trosglwyddo

## Ystod

**Mannau eraill** - gan gynnwys ysbytai, adeg derbyn ac adeg rhyddhau

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo iechyd a lles unigolion

Rydych yn deall:

4.1 Yr amrywiaeth o archwiliadau iechyd sydd eu hangen ar unigolion a sut i gael gafael ar gefnogaeth i'w cynnal
4.2 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud y canlynol:
   - cefnogi unigolion i ddiwallu eu **hanghenion iechyd a lles**
   - cydnabod pan fydd angen rhoi gwybod am bryderon am anghenion iechyd a lles unigolyn
4.3 Sut i roi strategaethau ar waith sy'n helpu unigolion i **reoli eu hymataliaeth**
4.4 **Rolau a chyfrifoldebau** wrth helpu unigolion i ofalu am ardaloedd pwyso
4.5 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisi a safonau cenedlaethol ar ddefnyddio meddyginiaeth mewn cartrefi gofal
4.6 Systemau a phrosesau ar gyfer defnyddio meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel a moesegol
4.7 Defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig ac ymyriadau seicogymdeithasol er mwyn lleihau'r defnydd ohoni

4.8 Pwysigrwydd sicrhau y caiff meddyginiaethau eu hadolygu'n rheolaidd a phwy y dylid eu cynnwys yn yr adolygiadau hyn
4.9 Cyfrifoldebau dros roi gwybod am wallau a materion diogelwch mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth a thros ymchwilio iddynt
4.10 Pwysigrwydd sicrhau bod protocolau llywodraethu clir y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer dirprwyo tasgau a gweithgareddau gofal iechyd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.11 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu **hanghenion iechyd a lles**

### Ystod

**Anghenion iechyd a lles** - gofal traed, gofal y geg, rheoli ymataliaeth, gofalu am ardaloedd pwyso, defnyddio meddyginiaeth, maeth a hydradu, atal unigolion rhag cwympo, symudedd, rheoli poen ac anesmwythyd, cyflyrau iechyd sy'n gyffredinol yn gysylltiedig â heneiddio, cyflyrau iechyd penodol a allai fod gan unigolion

**Rheoli eu hymataliaeth** - asesu ymataliaeth, ffactorau a all effeithio ar ymataliaeth, ymyriadau i wella ymataliaeth, cyfarpar ac adnoddau ar gyfer rheoli ymataliaeth

**Rolau a chyfrifoldebau** - eich cyfrifoldebau chi eich hun a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys asesu, diogelu, monitro a rhoi gwybod am dueddiadau

---

### Deilliant Dysgu

5. Arwain a rheoli cefnogaeth at y Gymraeg yn y cartref gofal

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5

5.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' mewn cartrefi gofal
5.2 Nodweddion gwasanaethau sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol
5.3 Sut i ddarparu gwybodaeth ar ffurf ddwyieithog
5.4 Ffyrdd ymarferol o ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.5 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

### Ystod

**Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith:** o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant Dysgu

6. Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes mewn cartrefi gofal

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6

6.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisïau a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes i unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo cefnogaeth o ran gofal lliniarol a gofal diwedd oes i unigolion

### Ystod

**Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith:** o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 531 Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Nodweddion gwasanaethau** h.y.

Ansawdd bywyd:

- Mae asesiad cyn-derbyn yn cynnwys asesiad iaith
- Cynhelir asesiadau parhaus o ran sut y bydd y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion ieithyddol
- Gwelir enghreifftiau o ofal yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae'r cynllun gofal unigol ar gael yn Gymraeg
- Gwelir aelodau o staff yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Caiff diwylliant Cymru ei adlewyrchu ym mywyd y cartref drwy ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon, dyddiadau pwysig a phenblwyddi, bwyd a cherddoriaeth
- Cynigir gweithgareddau yn rheolaidd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Ceir cysylltiadau â'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo profiadau diwylliannol ac ieithyddol

Staffio:

- Cedwir cofrestr o staff sy'n siarad Cymraeg
- Mae'r system gweithwyr allweddol yn sicrhau y caiff aelodau penodol o staff eu paru â phobl sy'n siarad Cymraeg
- Mae'r grŵp staff yn cynnwys siaradwyr Cymraeg. Lle nad yw hyn yn wir, caiff gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg eu recriwtio
- Mae sgiliau/galluoedd Cymraeg yn chwarae rhan allweddol o fewn proses recriwtio a dethol y gwasanaeth
- Caiff y staff eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith beunyddiol
- Ceir diwylliant 'dysgu' Cymraeg amlwg o fewn y grŵp staff
- Caiff hyfforddiant Cymraeg ei hyrwyddo a'i gynnig
- Mae'n hawdd adnabod staff sy'n siarad Cymraeg
- Caiff sgiliau Cymraeg eu hystyried mewn perthynas â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau sy'n ymweld (er enghraifft: ymweliadau gan nyrsys ardal, y gwasanaeth trin traed neu drin gwallt).

Arwain a rheoli

- Mae systemau mewnol yn adlewyrchu'r Gymraeg ac yn rhoi ystyriaeth benodol i'r iaith. Gwelir rheolwyr ac uwch aelodau o staff yn siarad Cymraeg neu'n defnyddio ymadroddion Cymraeg
- Mae'r uwch-reolwyr yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaeth
- Cofnodir cydymffurfiaeth â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o ystyriaethau sicrwydd ansawdd

- Caiff fersiynau Cymraeg eu llunio o ddogfennau allweddol (datganiad o ddiben, canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth, polisïau/gweithdrefnau allweddol, y model asesu, rheoli ac adolygu) ac mae'r fersiynau hyn ar gael.

Yr amgylchedd:
- Mae'r amgylchedd ffisegol yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Mae arwyddion yn y gwasanaeth yn helpu i gyfeirio defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg
- Mae digon o gyfarpar clyweledol ar gael i'w ddefnyddio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae llyfrau, papurau newydd a chylchgronau Cymraeg ar gael i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, neu gellir cael gafael arnynt
- Mae lluniau/ffotograffau ar gael i'w defnyddio fel rhan o weithgareddau a gwaith hel atgofion
- Caiff hysbysiadau, taflenni a gwybodaeth arall eu harddangos a'u darparu'n ddwyieithog.

Byddai'r **amgylchedd** yn cynnwys:
- Trefn a chynllun ffisegol y cartref
- Gofod personol ac ardaloedd cymunedol
- Amgylchedd cartrefol, croesawgar a chyfforddus
- Mannau yn yr awyr agored

**Bywyd llawn a gwerthfawr**, gan gynnwys:
- Dewis a rheolaeth dros fanylion bach dyddiol a materion pwysig mewn bywyd
- Lles cymdeithasol ac economaidd
- Ymgysylltu a chymryd rhan mewn **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau a phrofiadau ystyrlon**
- Gofal iechyd corfforol a meddyliol
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cynhwysiant cymdeithasol
- Cydberthnasau a chyfeillgarwch
- Cysylltiadau cymunedol
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Cefnogaeth ar gyfer cysylltiadau ac arferion sy'n gysylltiedig â ffydd a diwylliant
- Rheoli arian

Gallai **uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol** gynnwys:
- Adfer symudedd a sgiliau annibyniaeth
- Dysgu sgiliau newydd
- Gweithgareddau a phrofiadau beunyddiol
- Cadw mewn cysylltiad â ffrindiau/teulu/rhwydweithiau
- Defnyddio cyfleusterau cymunedol
- Dychwelyd adref

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

**Galluoedd corfforol a/neu wybyddol cyfyngedig**, gan gynnwys:

- Problemau symudedd sylweddol
- Colli synhwyrau
- Colli'r cof, a hynny'n ddifrifol
- Dryswch
- Anabledd dysgu
- Iechyd meddwl
- Ymddygiad y gellid ystyried ei fod yn heriol

Ystyr **rheolaeth** yw'r gallu i bennu'r cyfeiriad gweithredol a threfnu i redeg y gwasanaeth yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth, gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

Mae **dulliau gweithredu cadarnhaol**[4] yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog:

- Dod i adnabod unigolyn
- Parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir a deall:
  – Ei hoff bethau a'i gas bethau
  – Ei sgiliau a'i alluoedd
  – Yr hyn sy'n well ganddo o ran dull cyfathrebu a strwythurau cefnogi
- Deall effaith ei amgylchedd arno a defnyddio hyn i nodi sut y gellir cefnogi pobl yn gyson ym mhob agwedd ar y gofal y maent yn ei gael.

Mae'n hanfodol meithrin perthnasoedd da, a dylid defnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol drwy'r amser. Maen nhw'n hanfodol pan fydd rhywun dan bwysau; yn ofidus; ag ofn; yn orbryderus neu'n ddig ac mewn perygl o ymddwyn mewn ffordd sy'n heriol i'w ddiogelwch ei hun a / neu ddiogelwch eraill.

Mae dulliau gweithredu cadarnhaol yn cynnwys gweithio gydag unigolyn a'i systemau cefnogaeth er mwyn:

- Ceisio deall beth mae rhywun yn ei deimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae
- Lle bo modd, gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen ac ymyrryd ar gam cynnar er mwyn ceisio atal sefyllfaoedd anodd yn y lle cyntaf
- Deall beth sydd angen ei gynllunio a'i gyflwyno er mwyn cynorthwyo'r unigolyn i reoli gofid a dicter mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i ymddwyn mewn ffordd sy'n herio unrhyw gyfyngiadau.

**Profiad bwyta cadarnhaol** - gan gynnwys:

- Yr amgylchedd – croesawgar, hygyrch
- Y dewis o fwyd
- Sut y caiff bwyd ei gyflwyno
- Maint y pryd bwyd
- Prydau bwyd cytbwys, blasus a maethlon

---

[4] Dulliau Cadarnhaol: Lleihau Arferion Cyfyngol ym maes Gofal Cymdeithasol (cyhoeddiad Gofal Cymdeithasol Cymru)

- Cymryd rhan wrth baratoi bwyd, dewis bwydlenni, gosod y bwrdd ac ati

**Ffyrdd ymarferol** gan gynnwys:
- Dysgwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn dysgu ac yn defnyddio ymadroddion syml
- Mae'r amgylchedd ffisegol yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Mae arwyddion yn y gwasanaeth yn helpu i gyfeirio defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg
- Mae digon o setiau teledu a radio i sicrhau y gall pobl wylio/gwrando drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae llyfrau, papurau newydd a chylchgronau Cymraeg ar gael i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, neu gellir cael gafael arnynt
- Mae lluniau/ffotograffau ar gael i'w defnyddio fel rhan o weithgareddau a gwaith hel atgofion
- Caiff hysbysiadau, taflenni a gwybodaeth arall eu harddangos a'u darparu'n ddwyieithog.

**Ymyriadau seicogymdeithasol:** anelu at helpu unigolion i lunio strategaethau ymdopi, lleihau gofid, darparu cysylltiadau rhyngbersonol a gwella galluoedd. Gallent gynnwys y canlynol:
- Gwaith stori bywyd
- Damcaniaeth hel atgofion
- Therapi cerddoriaeth
- Dulliau rhyngweithio a chyfathrebu
- Addasu amgylcheddol
- Synnwyr o realiti

Gellir defnyddio'r fframwaith Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol i gefnogi ymyriadau seicogymdeithasol

**Ymyriadau cyfyngol** - (y cyfeirir atynt weithiau fel dulliau atal) maent yn rhan o gontinwwwm o arferion cyfyngol ac, oni bai eu bod yn rhan o gynllun ymddygiad y cytunwyd arno, dim ond fel ymateb uniongyrchol a bwriadol i ymddygiad sy'n herio neu er mwyn rheoli sefyllfa lle mae posibilrwydd gwirioneddol o niwed oni chymerir camau y dylent gael eu defnyddio. Ni ddylid byth ddefnyddio ymyriadau cyfyngol i gosbi, achosi poen, dioddefaint, codi cywilydd na sicrhau cydymffurfiaeth.
Byddai ymyriadau cyfyngol yn cynnwys: atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol

Mae **arferion cyfyngol** yn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud

**Cefnogi cyfnodau trosglwyddo didrafferth i unigolion sy'n symud i'w gartref newydd**, gan gynnwys:
- Helpu unigolion a'u teuluoedd i wybod beth i'w ddisgwyl
- Cynnig y cyfle i ofyn cwestiynau a mynegi eu teimladau
- Bod yn gynnes a chyfeillgar
- Cyflwyniadau i weithwyr a phobl eraill sy'n byw yn y cartref a dod i adnabod ei gilydd
- Annog ymweliadau gan deuluoedd a ffrindiau
- Helpu'r unigolyn i chwarae rhan weithredol ym mywyd y cartref

- Sicrhau bod gan yr unigolyn eiddo personol o'i gwmpas

**Y rheini sy'n gysylltiedig â chartrefi gofal:** gweithwyr gofal a chymorth / gweithwyr cymorth gofal iechyd, cydlynwyr gweithgareddau, nyrsys cofrestredig, rheolwr cofrestredig, unigolyn cyfrifol, gweithwyr gofal iechyd sylfaenol proffesiynol, rheoleiddwyr gwasanaethau, aelodau o deuluoedd, staff cymorth/gweithwyr ategol e.e. cogyddion, glanhawyr, garddwyr ac ati.

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

**Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol, darperir yr ystod ganlynol ar gyfer y term 'Mannau eraill' yn neilliant dysgu 3:**

**Mannau eraill** - Trosglwyddo i gartref gofal newydd

**Mae'r canllawiau cyflwyno canlynol ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol:**

Mae **cartrefi gofal** yn cyfeirio at feysydd adsefydlu clinigol ar gyfer cleifion sy'n ymgymryd ag arhosiad hir neu gleifion mewnol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau*

- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau arferion cyfyngol (heb ei gyhoeddi eto)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Fframwaith Hawliau Dynol ar atal (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, heb ei gyhoeddi eto)
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018

## *Adnoddau*

- Lle i’w alw’n gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy’n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru **http://www.olderpeoplewales.com/wl/reviews/residential_care_review.aspx**
- Maeth mewn Lleoliadau Cymunedol: Llwybr a Phecyn Adnoddau ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol ym meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Trydydd Sector, Staff Cartrefi Gofal, Perthnasau a Gofalwyr (Llywodraeth Cymru 2011)
- AgingwellinWales.com

- Cymdeithas Therapyddion Galwedigaethol Prydain a Choleg y Therapyddion Gweledigaethol (2011). Pecyn Cymorth 'Activity Matters'
- Gofal Cymdeithasol Cymru (2016) Dulliau Cadarnhaol: Lleihau Arferion Cyfyngol ym maes Gofal Cymdeithasol https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dulliau-cadarnhaol-lleihau-arferion-cyfyngol-ym-maes-gofal-cymdeithasol
- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau arferion cyfyngol
- Cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes 2017
- Safonau Gofal Lliniarol Cymru Gyfan
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym Maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
- Dying Matters: **http://www.dyingmatters.org/page/legal-and-ethical-issues**
- McCulloch a Lane (2010) Supporting the Bereaved: An introductory workbook for health & social care staff involved in End of Life Care Cyhoeddwyd gan GIG Swydd Gaerloyw
- The best practice guide to end-of-life care for people with a learning disability **http://www.mencap.org.uk**
- Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) - **https://www.nice.org.uk/guidance/service-delivery--organisation-and-staffing/end-of-life-care**
- Canllawiau NICE - Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc **https://www.nice.org.uk/guidance/ng6**
- Faith perspective: supporting Jewish people with life limiting conditions, and at the end of life 2015
- End of Life Care Symptoms: **https://www.verywell.com/common-symptoms-at-the-end-of-life-1132515**
- MUST - **http://www.bapen.org.uk/pdfs/must/must_full.pdf**
- Graddfa boen Abbey - **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/862/FOI-286f-13.pdf**
- **http://www.dimensionsofculture.com/2010/11/cultural-aspects-of-death-and-dying/**
- **http://www.nhs.uk/conditions/Euthanasiaandassistedsuicide/Pages/Introduction.aspx**
- **http://www.endoflifecare.nhs.uk/assets/downloads/pubs_Advance_Care_Planning_guide.pdf**
- Sgôr Waterlow - **http://www.judy-waterlow.co.uk/waterlow_score.htm**
- Hospice UK **https://www.hospiceuk.org/?gclid=EAIaIQobChMI4Kus5Oqj3AIVR_lRCh1fcQnlEAAYBCAAEgInafD_BwE**
- Noder: dylid cyfeirio at Ganllawiau Dirprwyo Cymru Gyfan hefyd

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMC E2** Arwain a rheoli darpariaeth byw mewn grŵp o fewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E3** Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal i ateb gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol, cofrestru ac arolygu

# Uned 532 Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 31 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda dementia.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud â phobl sy'n byw gyda dementia |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n rhoi deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol ar waith er mwyn cefnogi hawliau unigolion sy'n byw gyda dementia

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol a all lywio cefnogaeth i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n byw gyda dementia

1.2 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:

- Pwysigrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol i unigolion sy'n byw gyda dementia a sut y caiff y rhain eu gwarchod gan ddeddfwriaeth
- Fframweithiau deddfwriaethol, polisïau Llywodraeth Cymru a modelau darparu gwasanaethau presennol sy'n anelu at helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr a'u heffaith ar y canlynol:
  - bywyd llawn a gwerthfawr
  - hawliau
  - cydraddoldeb
  - llais a rheolaeth
  - atal ac ymyrryd yn gynnar
  - lles
  - cydgynhyrchu
  - cynhwysiant a chyfranogiad
  - dewisiadau bywyd
  - cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol/beth sy'n bwysig
  - canfyddiad cymdeithasol
  - mynediad at gyfleusterau cymunedol
  - mynediad at ofal iechyd

1.3 Pwysigrwydd arwain diwylliant sy'n datblygu canfyddiadau a gwerthoedd cadarnhaol mewn perthynas â dementia

1.4 Sut i arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau unigolion

- i gymryd risgiau

- i ymateb i heriau y gall unigolion eu hwynebu wrth arfer eu hawliau

1.5 Sut i helpu gweithwyr i ddeall ystyr 'osgoi risg' a sut i'w hatal rhag gwneud hynny wrth ymarfer

1.6 Sut y gall gweithwyr helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd gorau
- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â fframweithiau deddfwriaethol a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia

1.8 Arwain ymdrechion i gymhwyso egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau

1.9 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:

1.10 byw bywydau llawn a gwerthfawr

1.11 rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u lles

1.12 Arwain ymarfer sy'n mynd ati i herio sefyllfaoedd lle na chaiff hawliau unigolion eu parchu

1.13 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo **diwylliant, canfyddiadau a gwerthoedd cadarnhaol** mewn perthynas â dementia

1.14 Sicrhau bod unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall goblygiadau galluedd a phenderfyniadau budd gorau

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Diwylliant, canfyddiadau a gwerthoedd cadarnhaol** - Gweld y person yn gyntaf, nid y dementia, cyfathrebu, yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio dementia, dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, cydnabyddiaeth, ymddiriedaeth a pharch

---

### Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymdrechion i gefnogi iechyd a lles unigolion sy'n byw gyda dementia

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:
- mathau o ddementia, eu hachosion posibl a'r amrywiaeth o wahanol effeithiau sy'n gysylltiedig â phrognosis unigolyn, ei alluoedd a'i iechyd a'i les cyffredinol
- y gwahaniaethau a'r nodweddion tebyg rhwng y prif fathau o ddementia a brofir yng Nghymru
- **nam ar y cof** a'i effaith ar ddementia
- buddiannau helpu unigolion i ddefnyddio'r rhannau o'r ymennydd sy'n gysylltiedig â chreadigrwydd ac emosiynau y mae dementia'n effeithio arnynt leiaf
- symptomau seicotig cyffredin a all weithiau ymddangos o ganlyniad i ddementia
- sut y gall rhai mathau o ddementia gael effaith dros dro neu effaith barhaol ar alluoedd corfforol a lles

2.2 Nifer yr achosion o ddementia a demograffeg dementia ar draws gwahanol grwpiau oedran a'r goblygiadau cysylltiedig o ran dylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau yng Nghymru.
2.3 Y risg uwch y bydd unigolion ag anabledd dysgu yn datblygu dementia, a'r anawsterau ychwanegol y gall hyn eu cyflwyno o ran asesu, rheoli, cefnogi a darparu gwasanaethau
2.4 Y cysyniad o allu gwybyddol a'r gallu i weithredu a'r ffordd y mae'n llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau
2.5 Sut y gellir cefnogi gweithwyr i wybod y canlynol:
- sut y gall **ffactorau ffordd o fyw** effeithio ar y risg y bydd unigolyn yn datblygu dementia
- sut y gall **ffactorau ffordd o fyw** effeithio ar ohirio dechreuad dementia
- sut y gall dementia guddio problemau iechyd corfforol sylfaenol
- y gall fod cysylltiad rhwng iechyd corfforol, salwch a symptomau dementia unigolyn
- na fydd unigolion o bosibl yn gallu cyfleu poen neu ofid
- sut i liniaru ffactorau risg cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal lles corfforol ar gyfer **meysydd gofal corfforol**
- sut i gefnogi gweithgareddau hybu iechyd
- sut y gall gweithgareddau hybu iechyd effeithio ar **brofiad pobl sy'n byw gyda dementia**

2.6 Y meddyginiaethau a ddefnyddir mewn perthynas â dementia a'r effaith bosibl y gallant ei chael ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ac ymddygiad, gan gynnwys sgil-effeithiau
2.7 Defnyddio meddyginiaeth wrthseicotig, cyffuriau gwrthiselder, cyffuriau gwrthfwsgarinig a chyffuriau llonyddu ac ymyriadau seicogymdeithasol er mwyn lleihau'r defnydd ohonynt
2.8 Sut a ble i gael gafael ar wybodaeth a chefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â defnyddio ymyriadau seicogymdeithasol
2.9 Cyfyngiadau a natur broblemus gorddefnyddio meddyginiaeth wrthseicotig, cyffuriau gwrthiselder, cyffuriau gwrthfwsgarinig neu gyffuriau llonyddu
2.10 Pwysigrwydd sicrhau y caiff meddyginiaethau eu hadolygu'n rheolaidd a phwy y dylid eu cynnwys yn yr adolygiadau hyn
2.11 Egwyddorion galluedd a chydsyniad mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau a ragnodwyd i unigolyn â diagnosis o ddementia
2.12 Systemau a phrosesau ar gyfer defnyddio meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel a moesegol
2.13 Cyfrifoldebau dros roi gwybod am wallau a materion diogelwch mewn perthynas â defnyddio meddyginiaeth a thros ymchwilio iddynt

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.14 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol
- hyrwyddo'r defnydd o ddulliau sy'n ymateb yn effeithiol ac yn sensitif i symptomau ac arwyddion dementia
- ystyried **profiad unigolyn o ddementia** gan gydnabod ei gryfderau a'i alluoedd ar yr un pryd
- sicrhau cefnogaeth i unigolion mewn perthynas â **meysydd gofal corfforol** y cytunwyd arnynt
- hyrwyddo dewisiadau iach i unigolion

2.15 Sicrhau bod unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau a chefnogaeth i'w helpu i fyw bywyd iach

2.16 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau y caiff meddyginiaeth i unigolion ei defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol

### Ystod

**Ffactorau ffordd o fyw** - Deiet; Pwysau; Ymarfer corff; Lefelau yfed alcohol; Smygu; Pwysedd gwaed.

**Meysydd gofal corfforol:** rheoli heintiau, maeth - deiet a hylif, symudedd a throsglwyddo'n ddiogel, hyrwyddo ymataliaeth, gofal croen a hyfywedd meinweoedd, iechyd y geg, iechyd o ran y golwg a'r clyw, iechyd rhywiol, asesu cwsg a rheoli poen

**Nam ar y cof -** arwyddocâd y cof byrdymor wrth nodi gwybodaeth a'r tri phrif gategori sy'n gysylltiedig â'r cof hirdymor, sef Cof semanteg (sy'n eich galluogi i gofio ffeithiau), Cof episodig (cofio digwyddiadau a phrofiadau ac emosiynau) a Chof gweithdrefnol (cof ymhlyg sy'n gysylltiedig â gweithrediad echddygol fel llofnodi ein henw, gyrru car ac ati)

**Symptomau a chyflwyniad dementia** - cof, barn, iaith a chyfeiriadedd, beth bynnag yw'r achos

**Profiad o ddementia** - Tom Kitwood, mae profiad o ddementia yn dibynnu ar - nam niwrolegol yr unigolyn, ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl ac unrhyw feddyginiaethau, ei fywgraffiad (hanes ei fywyd), eu personoliaeth, sut y caiff ei ganfod a'i drin gan eraill, h.y. seicoleg gymdeithasol.

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli cefnogaeth i gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion sy'n byw gyda dementia

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Gwaith ymchwil sy'n llywio dulliau gweithredu a dulliau cyfathrebu i unigolion

3.2 Sut i helpu gweithwyr i gydnabod y canlynol:
- y gall unigolyn sy'n byw gyda dementia ei chael hi'n anodd addasu ei ddulliau cyfathrebu
- y gall ymddygiad fod yn ffordd o gyfathrebu
- effaith yr amgylchedd ar gyfathrebu effeithiol
- y rôl bwysig y gall cyffyrddiad ei chwarae wrth gyfathrebu

3.3 Sut i helpu gweithwyr i addasu eu dulliau cyfathrebu er mwyn ymateb i synnwyr pob unigolyn o realiti, ei anghenion a'i ddewisiadau

3.4 Pwysigrwydd mamiaith yr unigolyn a'r gofynion penodol o ran cefnogi'r Gymraeg drwy'r Cynnig Rhagweithiol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.5 Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer defnyddio ac addasu dulliau cyfathrebu sy'n ymateb i synnwyr pob unigolyn o realiti, ei anghenion a'i ddewisiadau

3.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

3.7 Defnyddio gwaith ymchwil ac ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth i ddatblygu strategaethau sy'n cefnogi dulliau cyfathrebu effeithiol

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i addasu i ddiagnosis a byw gyda dementia

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 **Effeithiau posibl diagnosis** a'r ffordd y byddant yn amrywio rhwng unigolion a theuluoedd/gofalwyr

4.2 Arwain y broses o roi dulliau gweithredu ar waith y gall gwasanaethau eu defnyddio i helpu unigolion a theuluoedd/gofalwyr adeg diagnosis a thrwy gydol eu taith ddementia:

- cefnogi sgyrsiau sensitif, agored ac onest am deimladau unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- rhoi gwybodaeth a chyngor amserol i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
- cael gafael ar gefnogaeth gan asiantaethau eraill, gweithwyr proffesiynol, cymunedau a rhwydweithiau
- sicrhau defnydd amserol o ymyriadau ac addasiadau sy'n cefnogi annibyniaeth barhaus
- cynllunio ar gyfer y dyfodol
- cynllunio ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

4.3 Rôl gwaith ymchwil a sut y gall lywio'r broses o ddatblygu dulliau gweithredu i'w defnyddio i gefnogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

4.4 Pwysigrwydd parhau i adolygu ac addasu'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan y gwasanaeth i gefnogi unigolion a theuluoedd/gofalwyr wrth i'w dementia ddatblygu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer defnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu sy'n cefnogi unigolion a theuluoedd/gofalwyr adeg diagnosis a thrwy gydol eu taith ddementia

4.6 Sicrhau bod unigolion a theuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ystyried effeithiau diagnosis ac i ystyried ffyrdd o addasu i fyw gyda dementia

4.7 Arwain a rheoi'r defnydd o'r Fframwaith Synhwyrau er mwyn cefnogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

## Ystod

**Effeithiau posibl diagnosis** - risgiau i iechyd meddwl a lles - cudd (unigedd cymdeithasol, problemau â chydberthnasau, y colledion personol a brofir, methu ag addasu i'r diagnosis, ofn) - agored (arwyddion a symptomau clinigol problemau iechyd meddwl), yn grymuso unigolion a theuluoedd/gofalwyr drwy ddealltwriaeth

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia gyflawni canlyniadau cadarnhaol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Eich rôl eich hun yn y **broses gynllunio** gydag unigolion

5.2 Sut i helpu gweithwyr i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n tynnu sylw at gryfderau a dyheadau unigolyn yn hytrach na'i anghenion yn unig
5.3 Pwysigrwydd sicrhau bod cynlluniau personol yn adlewyrchu uchelgeisiau unigolion ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'u hanghenion gofal a chefnogaeth presennol
5.4 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- **Defnyddio gwaith hanes bywyd**
- pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol sy'n ymateb i synnwyr pob unigolyn o realiti, ei anghenion a'i ddewisiadau
- y cysyniadau o 'niwed tawel', 'diymadferthwch dysgedig' a'r goblygiadau i les unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd yr **amgylchedd ffisegol**
- yr effaith gadarnhaol y gall parhau i chwarae rôl werthfawr ei chael ar les unigolyn a'r ffordd y caiff ei ganfod a'i drin gan bobl eraill mewn cymdeithas
- cyflawni'r 'pethau bach sy'n bwysig' yn ogystal â'r canlyniadau mawr
- rôl bwysig teuluoedd/gofalwyr, cymunedau a rhwydweithiau
- pwysigrwydd cyfranogiad cymunedol a chydberthnasau dwyochrog cadarnhaol o ran lles
- sut y gall unigolion gyfrannu at eu cymuned a chyfoethogi bywydau pobl eraill
- **sut y gellir ystyried, defnyddio a monitro technoleg gynorthwyol yn effeithiol** i wella annibyniaeth, diogelwch a lles unigolion

5.5 Pwysigrwydd helpu gweithwyr i gydnabod y canlynol:
- y gall hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol newid dros amser, a'r cymhlethdodau a all ddeillio o ddementia
- hawliau unigolion i barhau i fynegi eu rhywedd, eu hunaniaeth a'u cyfeiriadedd rhywiol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.6 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cynnwys dull gweithredu cydgynhyrchiol gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod y **broses gynllunio**
5.7 Helpu gweithwyr i gadarnhau disgwyliadau gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr a'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
5.8 Arwain a rheoli'r broses o roi cynlluniau y cytunwyd arnynt ar waith
5.9 Arwain a rheoli'r **defnydd o waith hanes bywyd** ac asesiadau gwybyddol a gweithredol er mwyn llywio'r ffordd y caiff gofal a chefnogaeth eu datblygu a'u darparu gan y gwasanaethau a ddarperir
5.10 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer defnyddio **dulliau gweithio** sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:
- cael llais a rheolaeth dros eu bywydau
- cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon
- cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol sy'n adeiladu ar gryfderau a diddordebau
- cynnal a meithrin cydberthnasau dwyochrog cadarnhaol
- cymryd rhan yn eu cymunedau
- byw bywydau llawn a gwerthfawr

5.11 Sicrhau y caiff teuluoedd/gofalwyr eu hannog i ymgysylltu ag agweddau priodol ar ofal a chefnogaeth

## Ystod

Byddai **proses gynllunio** yn cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

**Defnyddio gwaith hanes bywyd** - helpu i atgyfnerthu rolau gwerthfawr unigolion, helpu unigolion fel proc i'r cof ac adnodd cyfathrebu, helpu unigolion i gynllunio ar gyfer y dyfodol gan nodi beth sy'n bwysig iddynt, helpu i ddylunio a darparu gofal a chefnogaeth sydd wedi'u teilwra'n unigol, personoleiddio mannau byw a gweithgareddau, helpu i ddehongli ac ymateb i ymddygiad y gellid ei ystyried yn heriol

**Amgylchedd ffisegol** - Dylunio a threfnu gofod, lliwiau, golau a phatrymau, labelu – arwyddion er mwyn annog annibyniaeth, hygyrchedd, golau a sain, addasu er mwyn ymateb i ganfyddiad yr unigolyn ohono'i hun, mannau tawel, ysgogi'r synhwyrau, yr amgylchedd awyr agored a'r amgylchedd naturiol

**Dulliau gweithio -** ystyried hanes bywyd unigolyn, dull gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau, ailalluogi, yn seiliedig ar gryfderau, ystyried gallu gwybyddol a gweithredol, manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio'r rhannau o'r ymennydd yr effeithiwyd arnynt leiaf gan ddementia, addasu'n barhaus i newid a'r daith ddementia, yn seiliedig ar gydberthnasau, cefnogi cyfranogiad mewn gweithgareddau ystyrlon, defnyddio gwrthrychau a gweithgareddau synhwyraidd, defnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol i leihau arferion cyfyngol

**Sut y gellir ystyried, defnyddio a monitro technoleg gynorthwyol electronig yn effeithiol** - sicrhau bod penderfyniadau ynghylch defnyddio technoleg gynorthwyol yn seiliedig ar ganlyniadau, yn gynhwysol, yn agored ac yn dryloyw, cyfyngiadau a therfynau technoleg gynorthwyol, y cysyniad o'r opsiwn 'lleiaf cyfyngol' mewn perthynas â defnyddio dyfeisiau monitro ac olrhain electronig a'r goblygiadau o ran ymarfer, sicrhau y caiff pob penderfyniad a wneir mewn perthynas â defnyddio technoleg monitro ac olrhain electronig ei gofnodi'n llawn a'i adolygu'n rheolaidd

---

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli'r broses o gynllunio cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes o'r adeg y gwneir diagnosis
- anghenion penodol o ran gofal lliniarol a phrotocolau diwedd oes ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia
- cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd Blaengyfarwyddebau a'r defnydd ohonynt
- cyfyngiadau 'dirprwy gyfarwyddebau' neu 'gyfarwyddebau gwerthoedd cyffredinol' lle na cheir Blaengyfarwyddebau sy'n gyfreithiol gyfrwymol
- y cysyniad o Atwrneiaeth Barhaus a'r defnydd ohoni
- sut i reoli unrhyw achos o wrthdaro a all godi â theuluoedd/gofalwyr, unigolion a/neu weithwyr proffesiynol lle na wnaed trefniadau ymlaen llaw mewn modd sensitif
- yr angen i ddiwallu anghenion ffisegol (gan gynnwys yr amgylchedd), cymdeithasol, seicolegol ac ysbrydol unigolion a theuluoedd/gofalwyr yn ystod gofal lliniarol a gofal diwedd oes

## Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 Helpu gweithwyr i wneud y canlynol

- hwyluso sgyrsiau onest ac agored ynghylch gofal lliniarol/diwedd oes
- helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall Blaengyfarwyddebau a beth y maent yn ei olygu o ran dewisiadau diwedd oes
- cyfeirio unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr at wybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

---

## Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli dulliau gweithredu cadarnhaol er mwyn lleihau'r defnydd o arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.

7.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- ystyr y termau 'ymddygiad heriol' ac 'ymddygiad sy'n herio'
- sut y gall dementia beri i unigolion ymddwyn mewn ffyrdd sy'n herio, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth
- effaith newidiadau mewn ymddygiad ar unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd adnabod achosion lle mae arferion cyfyngol ac **ymyriadau cyfyngol** yn cael eu defnyddio neu wedi cael eu defnyddio
- sut mae deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau cenedlaethol darparu fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
- pam mae **dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** yn bwysig mewn perthynas â defnyddio arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
- elfennau'r fframwaith **Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol** a sut y caiff y fframwaith ei ddefnyddio ar gyfer unigolion sydd ag ymddygiadau sy'n herio

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.2 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n defnyddio **dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd** i leihau'r defnydd o aferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol wrth ddarparu'r gwasanaeth

7.3 Helpu gweithwyr i ddeall ymddygiadau sy'n herio a'u heffaith ar unigolion a theuluoedd/gofalwyr

## Ystod

**Ymyriadau cyfyngol**: atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol
Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith: o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol
**Dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd**: ymarfer person/plentyn-ganolog, cynhwysiant, cyfranogiad, dull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau/cryfderau, rhwydweithiau a chydberthnasau cryf, dewis, urddas a pharch, pwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf cyfyngol
**Fframwaith Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol:** dulliau gweithredu moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol

# Uned 532 Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Technoleg gynorthwyol:** manteision cyflwyno technoleg gynorthwyol yn gynnar, ei chyfyngiadau, sut i sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â thechnoleg gynorthwyol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn gynhwysol ac yn dryloyw.

Gallai technoleg gynorthwyol electronig gynnwys: dyfeisiau pob dydd (ffonau symudol, dyfeisiau rheoli byw'n glyfar, ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, consolau gemau, cyfrifiaduron), dyfeisiau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol (larymau personol a larymau gweithgarwch, dyfeisiau lleoli, negeseuon atgoffa ac ysgogi electronig, clociau siarad, cymhorthion cyfathrebu, larymau mwg, larymau teleofal, teclynnau synhwyro cwympo, dyfeisiau GPS, offer monitro iechyd, offer monitro ffitiau).

Gallai mathau eraill o dechnoleg ar gyfer pobl â dementia gynnwys llyfrau cof, calendrau, dyddiaduron neu fapiau.

**Deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol:**
Deddf Hawliau Dynol 1998
Deddf Cydraddoldeb 2010
Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Gallai **bywyd llawn a gwerthfawr** gynnwys:

- Dewis a rheolaeth dros fanylion bach dyddiol a materion pwysig mewn bywyd
- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Lles cymdeithasol ac economaidd
- Cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Bod yn rhiant
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cefnogaeth ar gyfer cysylltiadau ffydd a diwylliant
- Cynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol
- Cydberthnasau a chyfeillgarwch

Gallai **sut y gall dementia beri i unigolion ymddwyn mewn ffyrdd sy'n herio** gynnwys:

nam ar y synhwyrau, achosion corfforol neu ymateb i boen neu salwch, anawsterau cyfathrebu, ymatebion anghyson neu amhriodol i ymddygiad, disgwyliadau ystrydebol mewn perthynas â phobl eraill, disgwyliadau anghyraeddadwy mewn perthynas â phobl eraill, yr amgylchedd, ymateb i amgylchiadau, digwyddiadau a theimladau gan gynnwys ofn a phryder, trosglwyddo, colled, cam-drin, gofal amhriodol, gofynion i wneud rhywbeth nad yw'r unigolyn am ei wneud, cael ei anwybyddu

**Y gydberthynas rhwng cyflyrau corfforol a chyflyrau iechyd meddwl a symptomau dementia:** deliriwm, iselder, seicosis, heintiad y llwybr wrinol, dadhydradu, gorludded, anhwylder gorfodaeth obsesiynol.

**Termau cyfreithiol a ffurfiol:**

- Y gwahaniaeth rhwng penderfyniadau ymlaen llaw a datganiadau ymlaen llaw.
- Atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a lles ac atwrneiaeth arhosol ar gyfer eiddo/materion ariannol.
- Y gwahaniaeth rhwng atwrneiaeth arhosol a phenderfyniad ymlaen llaw.
- Y broses o Flaengynllunio Gofal.
- Penderfyniadau ymlaen llaw a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Rôl Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
- Rôl y Llys Gwarchod.
- Rôl y Dirprwy Lles Personol a'r Dirprwy Eiddo a Materion Ariannol.
- Rôl yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol

**Meddyginiaeth**
Mae amrywiaeth o feddyginiaethau ar gael sy'n gallu cael eu rhagnodi i reoli dementia neu gyflyrau cysylltiedig fel problemau ar y galon neu strôc. Gall fod adweithiau corfforol andwyol i feddyginiaethau neu gyfuniadau o feddyginiaethau (amlfferylliaeth).

Cyffuriau gwrthseicotig – mae risperidone wedi'i drwyddedu i'w roi i bobl â dementia. Ymhlith y cyffuriau gwrthseicotig eraill a ddefnyddir yn gyffredin mae aripiprazole, olanzapine, quetiapine a haloperidol.

Mae canllawiau NICE ar gael yn **https://www.nice.org.uk/advice/ktt7**

**Tîm amlddisgyblaethol –** nyrsys cofrestredig ac anghofrestredig, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, seicolegwyr, fferyllwyr, gweithwyr cymorth, gweithwyr cymorth gan gymheiriaid

**Partneriaid** – gwasanaethau statudol, y trydydd sector/y sector gwirfoddol, y sector preifat/annibynnol, gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, teuluoedd/gofalwyr

**Cyflyrau corfforol a chyflyrau iechyd meddwl –** deliriwm, iselder, seicosis, heintiad y llwybr wrinol, dadhydradu, gorludded, anhwylder gorfodaeth obsesiynol, colli clyw.

**Egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol:**
Egwyddor 1: Tybio galluedd – mae gan berson hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni phrofir fel arall. Golyga hyn na allwch dybio na all person wneud penderfyniad drosto'i hun dim ond am fod ganddo gyflwr meddygol neu anabledd penodol, e.e. dementia.

Egwyddor 2: Rhaid i bobl gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain – rhaid i berson gael pob cymorth ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel na bai'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun. Golyga hyn y dylech wneud pob ymdrech i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Os penderfynir bod diffyg galluedd, mae'n dal i fod yn bwysig eich bod yn cynnwys y person cymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau.

Egwyddor 3: Penderfyniadau annoeth – mae gan bobl hawl i wneud penderfyniadau y gallai pobl eraill ystyried eu bod yn annoeth neu'n ecsentrig. Ni allwch drin person fel na bai ganddo alluedd am y rheswm hwn. Mae gan bawb eu gwerthoedd, eu credoau a'u dewisiadau eu hunain na fyddant o reidrwydd yr un peth â rhai pobl eraill.

Egwyddor 4: Budd pennaf – rhaid i unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person heb alluedd meddyliol gael ei wneud er ei fudd pennaf – ac nid er mwyn diogelu'r asiantaeth na buddiannau eraill ar draul y person.

Egwyddor 5: Opsiwn llai cyfyngol – rhaid i rywun sy'n gwneud penderfyniad neu'n gweithredu ar ran person heb alluedd ystyried a oes modd penderfynu neu weithredu mewn ffordd a fyddai'n ymyrryd llai â hawliau a rhyddid gweithredu'r person, neu a oes angen penderfynu neu weithredu o gwbl. Dylid pwyso a mesur unrhyw ymyriad yn ôl amgylchiadau penodol yr achos.

**Ymyriadau seicogymdeithasol (gan gynnwys ymyriadau therapiwtig) –** anelu at helpu unigolion i lunio strategaethau ymdopi, lleihau gofid, darparu cysylltiadau rhyngbersonol a gwella galluoedd. Gallent gynnwys y canlynol:

- Gwaith stori bywyd
- Damcaniaeth hel atgofion
- Therapi cerddoriaeth
- Dulliau rhyngweithio a chyfathrebu
- Addasu amgylcheddol
- Synnwyr o realiti

Gellir defnyddio'r fframwaith Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol i gefnogi ymyriadau seicogymdeithasol

**Ymyriadau cyfyngol –** atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol.

**Arferion cyfyngol –** ystod eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud. Gallan nhw fod yn amlwg iawn neu'r mymryn lleiaf. Dylid eu deall fel rhan o gontinwwm, o gyfyngu ar ddewis, i ymateb adweithiol i ddigwyddiad neu argyfwng neu os yw rhywun yn mynd i niweidio ei hun neu eraill yn ddifrifol.

**Osgoi risg –** Gall pobl â dementia wynebu 'niwed tawel' (Clarke et al, 2011), pan fydd y bobl sy'n eu cefnogi'n osgoi risg ac yn canolbwyntio'n ormodol ar ddiogelwch corfforol yn hytrach na sicrhau ansawdd bywyd ystyrlon. Gall hyn arwain at ddiymadferthwch dysgedig, pan fydd pobl yn teimlo nad oes dim y gallant ei wneud i osgoi sefyllfaoedd negyddol am fod profiad blaenorol wedi dangos iddynt nad oes ganddynt reolaeth. Mae hyn yn arwain at gylch negyddol lle y bydd gan yr unigolyn a phobl eraill ddisgwyliadau isel mewn perthynas â'r unigolyn a gaiff eu hatgyfnerthu pan fydd yr unigolyn yn gwireddu'r disgwyliadau isel hyn, gan arwain at ddibyniaeth, hunan-barch isel a diffyg hunan-gred.

**Cefnogaeth** – grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid, gwasanaethau cyfryngu i deuluoedd, rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid, sefydliadau cymunedol, seibiannau byr a gofal seibiant, gwybodaeth ar-lein, gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth

Gallai **symptomau a chyflwyniad dementia** gynnwys cof, barn, iaith a chyfeiriadedd, newidiadau mewn ymddygiad, problemau cysgu, iselder neu orbryder, rhithweledigaethau.

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Fframwaith Hawliau Dynol ar atal (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, heb ei gyhoeddi eto)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993: Mesur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013)

## *Adnoddau*

- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gwaith-da-fframwaith-dysgu-a-datblygu-dementia-i-gymru
- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/gweledigaeth-genedlaethol-cymru-ar-ddementia
- https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/dementia-mwy-na-dim-ond-collir-cof
- http://dementia-wellbeing.org/adi-conference/what-do-we-about-the-efficacy-of-a-social-movement-like-dementia-friends/
- https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/pobl-â-dementia
- https://www.alzheimers.org.uk/
- https://www.nice.org.uk/guidance/conditions-and-diseases/mental-health-and-behavioural-conditions/dementia
- https://www.publicguardian.qld.gov.au/guardianship-and-decision-making/understanding-capacity
- https://www.dementiavoices.org.uk/
- http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/mh-dementia
- http://www.innovationsindementia.org.uk/

# Uned 533 Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 31 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud ag oedolion sy'n byw gyda salwch meddwl. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu llesiant mewn gwasanaethau iechyd meddwl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Nifer yr achosion o salwch meddwl a demograffeg salwch meddwl yn y boblogaeth a'r goblygiadau i'r gwasanaethau a ddarperir

1.2 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- mathau o **broblemau iechyd meddwl** y gall unigolion eu hwynebu
- pwysigrwydd edrych ar salwch meddwl mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar y person ac nid ar ei symptomau yn unig
- ystyr y termau 'trallod meddwl' a 'salwch meddwl'
- gwahanol ffyrdd y gall unigolion brofi a chyfleu trallod meddwl a salwch meddwl
- **effeithiau posibl** cael diagnosis o salwch meddwl ar unigolion a theuluoedd/gofalwyr a sut y caiff diagnosis ei wneud
- **ffactorau** a all ddylanwadu ac effeithio ar lesiant unigolyn ac arwain at gyfnod o salwch meddwl
- **newid a throsglwyddo** i unigolion

1.3 Y **continwwm a'r ystod o ymatebion** sydd ar gael i unigolyn a sut y gall gweithwyr helpu pobl i fanteisio ar y rhain

1.4 Yr ystod o adnoddau lleol a all gefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl a sut i helpu gweithwyr i gyfeirio unigolion yn briodol

1.5 Ystyriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion

1.6 Rôl **ystyriaethau cyllido** a **chontractau** pan fydd angen i unigolyn gael gofal a chefnogaeth wedi'u comisiynu

**Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:**

1.7 Cefnogi eraill i ddeall effaith bosibl salwch meddwl

1.8 Helpu gweithwyr i adnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd a ffactorau demograffig salwch meddwl yng Nghymru ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu
1.9 Rheoli arferion a gweithdrefnau sy'n cefnogi trosglwyddo didrafferth rhwng gwahanol dimau, lleoliadau a gwasanaethau
1.10 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i feithrin gwydnwch

## Ystod

**Problemau iechyd meddwl –** gan gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, seicosis, anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia, anhwylderau personoliaeth, anhwylderau bwyta, anhwylder straen wedi trawma, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

**Effeithiau posibl –** cadarnhaol a negyddol

**Ffactorau** – Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, mathau eraill o drawma/digwyddiadau niweidiol mewn bywyd a brofir yn ystod plentyndod, gwahaniaethu, tlodi, salwch corfforol

**Newid a throsglwyddo –** i mewn i wasanaethau ac oddi mewn iddynt; i mewn i'r ystad ddiogel ac allan ohoni; o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion

**Y continwwm ac ystod o ymatebion** – gwybodaeth a chyngor ar-lein, grwpiau cymunedol mynediad agored; technoleg gynorthwyol electronig, gwasanaethau lefel sylfaenol gan gynnwys hybu iechyd, meddyg teulu, canolfannau llesiant cymunedol, gwasanaethau cyswllt ysgol a llesiant disgyblion, cefnogaeth gan y trydydd sector; gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol gan gynnwys CAMHS a seicoaddysg; gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, gan gynnwys CAMHS a gwasanaethau arbenigol; gwasanaethau trydyddol gan gynnwys gwasanaethau fforensig

**Ystyriaethau cyllido** – systemau lleol gan gynnwys broceriaeth, Gofal Iechyd Parhaus, asesu a chymhwysedd, y Ddeddf Iechyd Meddwl adran 117 ôl-ofal

**Contractau** – contractau ag unigolion ac awdurdodau lleol/byrddau iechyd

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n herio stigma, gwahaniaethu a gwahaniaethau pŵer

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut i adnabod eich sylfaen gwerthoedd eich hun a herio unrhyw wahaniaethu rydych yn ei wneud
2.2 Sut i helpu gweithwyr i gydnabod y canlynol:
- stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl
- **effeithiau posibl** agweddau a gwerthoedd cymdeithas ar unigolion
- gwahaniaethau pŵer sy'n bodoli mewn cymdeithas ac o fewn gwasanaethau a ddefnyddir gan unigolion
- sut mae agweddau a gwasanaethau wedi newid dros amser o ganlyniad i bolisi cymdeithasol a deddfwriaeth
- sut y gall unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl brofi **gormesoedd lluosog** ac anghydraddoldeb o ran triniaeth mewn cymdeithas ehangach ac o fewn gwasanaethau

2.3 Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.4 Arwain a rheoli ymarfer sy'n adnabod ac yn herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
2.5 Herio stigma, gwahaniaethu a gwahaniaethau pŵer

2.6 Hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o unigolion ac agweddau tuag atynt

### Ystod

**Effeithiau posibl** – ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan waethygu'r anawsterau y mae'r unigolyn yn eu profi (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

**Gormesoedd lluosog** – gan gynnwys gormes a brofir gan bobl mewn perthynas ag anabledd, rhywedd, rhywioldeb, oedran, crefydd, statws economaidd-gymdeithasol a chydnabod bod pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn aml wedi'u gorgynrychioli mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac y gallant brofi canlyniadau llai cadarnhaol

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain, rheoli a hybu ymarfer sy'n defnyddio deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau i gefnogi hawliau unigolion

#### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:
- pwysigrwydd cydraddoldeb a hawliau dynol i unigolion a sut y caiff y rhain eu gwarchod gan ddeddfwriaeth
- heriau y gall unigolion eu hwynebu wrth arfer eu hawliau

3.2 **Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau** a safonau cenedlaethol sy'n sail i'r gwaith o ddarparu gofal a chefnogaeth iechyd meddwl, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr

3.3 Sut y gall y **Ddeddf Iechyd Meddwl** a'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol** effeithio ar ryddid rhai unigolion

3.4 Sut y gall gweithwyr helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol:
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd gorau
- y mathau o **eiriolaeth** sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

3.5 Pwysigrwydd mamiaith yr unigolyn a'r gofynion penodol o ran cefnogi'r Gymraeg drwy'r Cynnig Rhagweithiol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer** ar waith sy'n gwneud y canlynol:
- cydymffurfio â **deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau** a safonau ar gyfer iechyd meddwl
- sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli
- sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i ddefnyddio **eu dewis iaith/dull cyfathrebu**
- sicrhau bod arwyddocâd treftadaeth a diwylliant unigolyn yn cael ei gydnabod
- cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

### Ystod

**Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau** – y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005), Codau Ymarfer cysylltiedig, y Ddeddf Hawliau Dynol (1998), y Ddeddf Plant (2004), Deddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia (2018), Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2012)

**Eiriolaeth –** Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol, Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol

**Y Ddeddf Iechyd Meddwl** – adran 2, adran 3, adran 17 absenoldeb, adran 117 ôl-ofal, adran 135, adran 136; Gorchmynion Triniaeth Gymunedol; Gwarcheidiaeth; Gorchmynion Cyfyngu a Rhyddhad Amodol; rôl y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl

**Y Ddeddf Galluedd Meddyliol** – pum egwyddor, y cysyniad o amddifadu o ryddid, rôl y Llys Gwarchod, Atwrneiaeth Arhosol, diben Cyfarfod Budd Pennaf

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Dewis iaith/dull cyfathrebu –** dewis iaith ar lafar, Iaith Arwyddion Prydain, defnyddio cyfieithwyr ar y pryd/dehonglwyr lle bo angen

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cymhwyso damcaniaethau, modelau a dulliau ar gyfer cefnogi unigolion sy'n byw gydag afiechyd meddwl a'u helpu i wella

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i gymhwyso **damcaniaethau, modelau a dulliau gweithredu** sy'n sail i gefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

4.2 Effaith tensiynau rhwng gwahanol fodelau, yn enwedig y modelau meddygol a chymdeithasol

4.3 Sut i helpu gweithwyr i wybod am y canlynol:

- yr amrywiaeth o **driniaethau, therapïau ac adnoddau cymdeithasol ac adnoddau iechyd a lles** sydd ar gael i gefnogi triniaeth unigolion a'u helpu i wella
- sgil effeithiau posibl **meddyginiaeth**, gan gynnwys yr effaith ar ddisgwyliad oes
- y gwaith goruchwylio a monitro ychwanegol sydd ei angen ar gyfer meddyginiaethau iechyd meddwl penodol
- systemau a phrosesau ar gyfer defnyddio meddyginiaeth mewn ffordd ddiogel a moesegol
- effaith bosibl smygu, alcohol a sylweddau eraill ar effeithiolrwydd meddyginiaethau iechyd meddwl a ragnodir
- pwysigrwydd **monitro iechyd corfforol** i unigolion
- yr hyn sydd angen ei ystyried wrth helpu unigolion i gael gafael ar ofal iechyd neu driniaeth feddygol gan gynnwys eu cymhwysedd i gydsynio

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.4 Arwain y broses o gymhwyso a defnyddio damcaniaethau, modelau a dulliau gweithredu

4.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gweithio'n gynhyrchiol gyda modelau a dulliau gweithredu gwahanol

4.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer** ar waith sy'n gwneud y canlynol:

- **hybu a chefnogi gwellhad**
- helpu unigolion i gael triniaeth, therapïau ac adnoddau
- helpu unigolion i ddefnyddio gwasanaethau monitro iechyd corfforol

## Ystod

**Damcaniaethau, modelau a dulliau gweithredu** – Damcaniaeth ymlyniad, damcaniaeth systemau, model meddygol, model cymdeithasol, model bioseicogymdeithasol, dull gwellhad, dull gweithredu seiliedig ar gryfderau, dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, dull ataliol, model gwendid dan straen

**Meddyginiaeth** – gwrth-iselyddion, meddyginiaeth wrthseicotig (gan gynnwys Clozapine), sefydlogyddion hwyliau (gan gynnwys lithiwm), cyffuriau hypnotig, gwrthfiotigau, methylffenidad

Triniaethau, therapïau ac adnoddau cymdeithasol ac adnoddau iechyd a lles – Therapi Ymddygiadol Gwybyddol, Therapi Ymddygiadol Dialectig, cwnsela, rheoli emosiynau, hunangymorth, ymwybyddiaeth ofalgar, seicoaddysg, cyfweliadau cymhellol, gweithgareddau creadigol/ystyrlon, gweithgareddau ffordd iach o fyw

**Monitro iechyd corfforol** - Gwaed (gan gynnwys monitro meddyginiaeth unigol), pwysedd gwaed, monitro pwysau, ECG

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** – o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

**Hybu a chefnogi gwellhad** – drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon, defnyddio dulliau cydgynhyrchiol gydag unigolion a theuluoedd, annog unigolion i fyfyrio, defnyddio'r continwwm a'r ystod o ymatebion

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli cefnogaeth barhaus i unigolion sy'n byw gydag afiechyd meddwl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- buddiannau posibl adsefydlu ac ailalluogi cefnogaeth barhaus
- pwysigrwydd cynnwys teuluoedd a gofalwyr yn y broses adsefydlu
- pwysigrwydd defnyddio dull gweithredu seiliedig ar gryfderau er mwyn meithrin sgiliau, hyder a hunan-barch
- cysyniad 'diymadferthwch dysgedig' a'r angen i gynnal cymhelliant a dathlu llwyddiannau unigol
- dulliau gweithredu sy'n helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i feithrin gwydnwch
- arwyddocâd cydberthnasau, rhwydweithiau a chymunedau o ran cefnogi **iechyd a lles unigolion**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol:

- ymgorffori dull gweithredu galluogi ac ailalluogi
- cynorthwyo unigolion i gymryd cymaint o gyfrifoldeb â phosibl am y defnydd o'u sgiliau presennol; ailennill sgiliau blaenorol; meithrin sgiliau newydd

5.3 Arwain ymarfer sy'n helpu unigolion i ymwneud â chydberthnasau, rhwydweithiau a chymunedau

## Ystod

**Iechyd a lles unigolion** – yn ystod cyfnodau o argyfwng, wrth wella ac ar gyfer meithrin gwydnwch

---

Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi unigolion â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- y term 'diagnosis deuol' a'i gyfeiriad at unigolion â salwch meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd
- nifer yr achosion o **gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd** a'r goblygiadau i'r gwasanaethau a ddarperir
- y ffaith bod gan rai unigolion salwch meddwl cymhleth gyda mwy nag un diagnosis iechyd meddwl
- y problemau sy'n wynebu unigolion â diagnosis deuol neu gyflwr sy'n cyd-ddigwydd
- sut i gefnogi unigolion â diagnosis deuol neu gyflwr sy'n cyd-ddigwydd
- pwysigrwydd **gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth** i unigolion â diagnosis deuol neu gyflwr sy'n cyd-ddigwydd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 Ystyried cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, diagnosis deuol a salwch meddwl cymhleth wrth ddylunio a darparu gwasanaethau i gefnogi unigolion

6.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n galluogi gwaith effeithiol mewn partneriaeth i gefnogi unigolion â diagnosis deuol neu gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd

**Ystod**

**Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd** – salwch meddwl gydag anabledd dysgu, salwch meddwl gyda chyflwr niwrolegol/dementia, salwch meddwl gydag awtistiaeth

**Partneriaeth effeithiol** – sefydliadau camddefnyddio sylweddau yn y trydydd sector, Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

7. Arwain, rheoli a hybu ymarfer sy'n sicrhau gwaith effeithiol mewn partneriaeth

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:
- gwerth a rôl **partneriaid** a **thimau amlddisgyblaethol** yn cydweithio â'i gilydd er mwyn helpu unigolion â salwch meddwl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol
- pwysigrwydd sicrhau bod yr holl waith mewn partneriaeth yn cynnwys unigolion a theuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd cydgynhyrchu ac adolygu cynlluniau gydag unigolion
- pwysigrwydd cynnwys gofalwyr a theuluoedd wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau

- pwysigrwydd cynnwys unigolion, gofalwyr ac asiantaethau eraill wrth ddatblygu ac adolygu asesiadau risg/cynlluniau diogelwch a rhannu gwybodaeth yn briodol
- pwysigrwydd adlewyrchu llais yr unigolyn wrth gofnodi gwybodaeth a pharatoi adroddiadau
- rôl y cydlynydd gofal

7.2 **Protocolau** ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.3 Sicrhau bod **trefniadau llywodraethu** ar waith y caiff agweddau ar ofal a chefnogaeth eu pennu gan weithwyr proffesiynol eraill

7.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sefydlu diwylliant o weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth lle y bo'n briodol

7.5 Rheoli gwaith mewn partneriaeth rhwng asiantaethau mewnol ac allanol

7.6 Rheoli gwaith rhyngasiantaethol effeithiol gyda'r trydydd sector

7.7 Sicrhau cyfranogiad pobl â phrofiad o salwch meddwl yn broses o gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau

7.8 Cydweithio â phartneriaid wrth gynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau

## Ystod

**Tîm amlddisgyblaethol –** nyrsys cofrestredig ac anghofrestredig, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, seicolegwyr, fferyllwyr, gweithwyr cymorth, gweithwyr cymorth gan gymheiriaid

**Partneriaid** – Trydydd sector/sector gwirfoddol, statudol gan gynnwys gwasanaethau tai a digartrefedd, sector preifat/annibynnol, yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder troseddol, addysg, cyngor ar les, gwasanaethau i blant, gofal sylfaenol

**Protocolau** – Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion

**Trefniadau llywodraethu –** diben y tasgau sydd wedi cael eu pennu, rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau a'r hyfforddiant/cefnogaeth sydd ar gael, sut y caiff y gwaith ei fonitro, a'i gofnodi a sut y caiff adroddiadau eu paratoi arno; rhannu gwybodaeth; uwchgyfeirio pryderon

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** – o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r gwaith o gydbwyso hawliau, cyfrifoldebau a risgiau wrth weithio gydag unigolion sy'n byw gydag afiechyd meddwl

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.

8.1 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:

- pwysigrwydd dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau a chymryd risgiau cadarnhaol ar gyfer unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl
- effaith ymarfer sy'n osgoi risgiau ar lesiant unigolyn
- defnyddio asesiadau risg/cynlluniau diogelwch er mwyn galluogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl i wella

- pwysigrwydd adolygu a diweddaru asesiadau risg/cynlluniau diogelwch yn rheolaidd mewn partneriaeth ag unigolion
- pwysigrwydd sicrhau bod unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a bod ganddynt berchenogaeth dros y penderfyniadau hynny

8.2 Sut y gellir cefnogi unigolion i wneud y canlynol:
- disgrifio ac adnabod eu dangosyddion ailwaelu
- nodi'r hyn a all ysgogi anawsterau neu argyfyngau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.3 Modelu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau

8.4 Herio ymarfer yn briodol pan nad yw hawliau unigolyn yn cael eu parchu

8.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer** ar waith sy'n gwneud y canlynol:
- cefnogi'r defnydd o asesiadau risg/cynlluniau diogelwch er mwyn helpu unigolion â salwch meddwl i gymryd risgiau cadarnhaol
- hybu diwylliant o gymryd risgiau cadarnhaol
- sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau i gynnal asesiadau risg amgylcheddol a dynamig fel rhan o'u hymarfer beunyddiol

8.6 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn gofyn am gefnogaeth ar eu rhan pan fo hynny'n briodol

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

9. Arwain a rheoli ymarfer sy'n lleihau'r risg o ddigwyddiadau andwyol cymaint â phosibl ac yn rheoli sefyllfaoedd o argyfwng yn effeithiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9.

9.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- mathau o **sefyllfaoedd o argyfwng** a digwyddiadau andwyol
- elfennau'r fframwaith Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol a sut y gall hyn helpu i leihau'r risg o sefyllfaoedd o argyfwng
- pryd a sut y gellir defnyddio ymyriadau cyfyngol
- pwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar a strategaethau er mwyn helpu i atal sefyllfaoedd o argyfwng
- sut y gellir helpu unigolion i ddatblygu Cynllun Argyfwng hygyrch sydd wedi'i deilwra'n bersonol
- sut y gall unigolion gael gafael ar gefnogaeth briodol mewn argyfwng yn ystod oriau gwaith a'r tu allan iddynt
- sut i isgyfeirio sefyllfa os bydd rhywun yn cynhyrfu neu'n ymddwyn yn ymosodol
- sut i gefnogi unigolion sy'n profi syniadau hunanladdol a/neu'n hunan-niweidio'n fwriadol

9.2 Pwysigrwydd sicrhau bod systemau, gweithdrefnau ac ymarfer sefydliadol yn adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau cenedlaethol ar gyfer defnyddio a lleihau arferion cyfyngol ac ymyriadau cyfyngol
9.3 Sut i arwain a helpu eraill i reoli sefyllfaoedd o argyfwng os byddant yn codi
9.4 Cefnogaeth ar ôl digwyddiad y dylid ei rhoi i staff ac unigolion
9.5 Sut i fyfyrio ar effaith sefyllfaoedd anodd ac adnabod y ffordd rydych yn ymateb i straen
9.6 Sut i gynnal asesiadau risg o straen i'r tîm
9.7 Rôl Adroddiadau ar Ymchwiliadau a sut i roi argymhellion ar waith
9.8 Rôl y Crwner a'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â pharatoi adroddiadau ar gyfer y Crwner

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
9.9 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:
- lleihau'r tebygolrwydd y bydd sefyllfa o argyfwng yn codi
- hybu diwylliant o atal ac ymyrraeth gynnar wrth weithio gydag unigolion
- helpu staff i reoli sefyllfaoedd o argyfwng os byddant yn codi
- sicrhau y caiff pob adroddiad/cofnod ei ddiweddaru'n unol â gweithdrefnau sefydliadol

9.10 Arwain y gwaith o ddarparu cymorth ar ôl digwyddiad i staff ac unigolion os bydd sefyllfa o argyfwng yn codi
9.11 Rhoi argymhellion sy'n deillio o asesiadau risg o straen i'r tîm ar waith yn unol â chytundebau sefydliadol
9.12 Gweithredu fel model rôl cadarnhaol wrth ddefnyddio sgiliau a strategaethau i reoli straen

## Ystod

**Sefyllfaoedd o argyfwng** – risg i chi eich hun, i bobl eraill neu i iechyd gan gynnwys: ymddygiad bygythiol, ymosodol, amhriodol neu dreisgar, gorddos damweiniol, hunan-niwed sylweddol (gan gynnwys gorddos), trallod meddwl difrifol, hunanladdoldeb, hunanesgeuluso sylweddol, crwydro, perygl o dân
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

10. Arwain gwelliant yn eich lleoliad a chefnogi dysgu a datblygu parhaus

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
10.
10.1 Gwerth dysgu gan unigolion sydd â phrofiad o salwch meddwl a'u teuluoedd
10.2 Y gwaith ymchwil a'r datblygiadau arloesol presennol ym maes gofal a chefnogaeth iechyd meddwl
10.3 Dulliau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gofal a chefnogaeth iechyd meddwl

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
10.4 Arwain ymarfer sy'n hybu dysgu gan/o'r canlynol:

- unigolion â phrofiad o salwch meddwl
- ymchwil, tystiolaeth ac arloesedd mewn ymarfer iechyd meddwl

# Uned 533 Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Eiriolaeth** – Gall fod angen i rai unigolion gael cefnogaeth gan eiriolwr i gynrychioli eu barn. Lle bo modd, dylid gweithio gyda'r unigolyn i benderfynu ar y dull gorau o weithredu gan fod gwahanol fathau o eiriolaeth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gwasanaethau eirioli fel 'gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth'. Mae eiriolaeth yn cynorthwyo ac yn galluogi pobl sy'n ei chael yn anodd cynrychioli eu buddiannau i arfer eu hawliau, mynegi eu barn, archwilio a gwneud dewisiadau hyddysg a gallai gynnwys:

- Hunaneiriolaeth
- Eiriolaeth anffurfiol
- Eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol
- Eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol
- Cydeiriolaeth
- Eiriolaeth cymheiriaid
- Eiriolaeth dinasyddion
- Eiriolaeth gwirfoddolwyr annibynnol
- Eiriolaeth ffurfiol
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol

Mae Rhan 4 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 hefyd yn darparu ar gyfer eiriolaeth ar ffurf Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol, fel y gwna'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a gyflwynodd rôl statudol yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Os oes gan yr unigolyn alluedd i roi cydsyniad, dylid cael ei gydsyniad i wneud atgyfeiriad a rhannu gwybodaeth â gwasanaethau eirioli annibynnol. Os nad oes gan unigolyn alluedd i gytuno i atgyfeiriad, dylid dilyn protocolau y cytunwyd arnynt.

Cefnogaeth Eiriolaeth Cymru: **https://www.ascymru.org.uk/cym**

Advocacy Matters Wales: **http://www.advocacymatterswales.co.uk/cymraeg/**

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol: **https://www.nyas.net/services/our-services-in-wales/**

Mind: **https://www.mind.org.uk/information-support/guides-to-support-and-services/advocacy/types-of-advocacy/#.W1WkINJKiUk**

**Damcaniaeth ymlyniad** – Mae damcaniaeth ymlyniad yn ategu llawer o ymarfer plentyn-ganolog ac yn sail i egwyddorion Ymarfer Datblyiadol Dyadig a Rhianta PACE.

**https://ddpnetwork.org/about-ddp/dyadic-developmental-practice/**

**https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/sut-mae-plant-yn-ffurfio-ymlyniadau**

**Awtistiaeth** – Mae bod yn awtistig yn golygu bod unigolyn yn profi'r byd yn wahanol am ei fod yn effeithio ar y ffordd y mae'n meddwl ac yn teimlo. Mae'r term awtistiaeth yn disgrifio gwahaniaethau ansoddol a namau ar ryngweithio cymdeithasol a chyfathrebu cymdeithasol, wedi'u cyfuno â diddordebau cyfyngedig ac ymddygiadau anhyblyg ac ailadroddus. Rhoddir diagnosis o anhwylderau ar y sbectrwm awtistig i blant, pobl ifanc ac oedolion os yw'r ymddygiadau hyn yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig (ICD-10) a'r Llawlyfr Diagnostig ac Ystadegol o Anhwylderau Meddwl, Pedwerydd Argraffiad (DSM-IV) ac yn cael effaith sylweddol ar weithrediad. Y term cyffredinol a ddefnyddir yn y diffiniadau hyn yw anhwylder datblygiadol treiddiol, ond bellach caiff y term anhwylder ar y sbectrwm awtistig ei ddefnyddio weithiau i olygu'r un peth. Caiff y term Asperger (neu Syndrom Asperger) ei ddefnyddio weithiau i ddisgrifio unigolyn ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig sydd â deallusrwydd cyfartalog neu uwch na'r cyfartaledd. **https://www.autism.org.uk/about/what-is/asd.aspx**

Bydd pobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn profi rhai mathau o broblemau iechyd meddwl yn amlach, fel gorbryder: **https://www.autism.org.uk/about/health/mental-health.aspx**

**Meddyginiaethau iechyd meddwl penodol** – Mae angen monitro ychwanegol ar gyfer rhai meddyginiaethau, e.e. Lithiwm, Clozapine, Methylffenidad.

**Y continwwm ac ystod o ymatebion –** Mae amrywiaeth o gefnogaeth ar gael a all fod yn briodol i rywun sy'n profi trallod neu salwch meddwl. Mae'n hollbwysig gwrando ar yr unigolyn a'i gyfeirio ar bob cam o'r daith.

- trafod â theulu neu ffrindiau, swyddog cyswllt ysgol, gwasanaeth llesiant disgyblion neu raglen Cymorth i Fyfyrwyr yn y gweithlu, a chefnogaeth ganddynt
- mynd at y meddyg teulu, gwybodaeth ar-lein, mynychu grwpiau mynediad agored yn y gymuned, gweithgareddau iechyd a lles, cyngor a chymorth gyda chyllid neu lety
- Sefydliadau'r trydydd sector yn rhoi cymorth ymarferol, fel help i reoli dyledion neu ddod o hyd i lety mwy addas. Gallant hefyd gyfrannu at roi hunangymorth dan arweiniad a chynnig gwasanaethau cwnsela
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol, seicoaddysg, hunangymorth dan arweiniad, grwpiau sy'n addysgu a helpu unigolion i reoli trallod a deall emosiynau, Therapi Ymddygiadol Gwybyddol, Therapi Ymddygiadol Dialectig, therapi seicolegol, therapi teulu, cwnsela, therapi sy'n canolbwyntio ar drawma, ymwybyddiaeth ofalgar a therapïau siarad eraill
- Gall gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd hefyd gynnig amrywiaeth o therapïau, gofal a chefnogaeth gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol, cyngor ar feddyginiaethau cymhleth a ffyrdd o'u rheoli, cynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt.
- Weithiau, bydd angen i unigolyn gael ei dderbyn i'r ysbyty yn ffurfiol neu'n anffurfiol er mwyn ei gadw'n ddiogel a/neu ei alluogi i gael y gofal, triniaeth a chefnogaeth sydd eu hangen arno. Yn y lleoliad hwn, gellir rhoi trinieth fel meddyginiaethau cymhleth sy'n gofyn am lefelau uchel o fonitro.

- Llety â chymorth, lleoliadau preswyl neu gefnogaeth arbenigol yn y cartref er mwyn galluogi unigolyn i gael cyfnodau o ailalluogi ac adsefydlu.

**Technoleg Gynorthwyol Electronig** – gan gynnwys sut i sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â thechnoleg gynorthwyol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn gynhwysol. Gall technoleg gynorthwyol electronig gynnwys dyfeisiau pob dydd fel ffonau symudol, dyfeisiau rheoli byw'n glyfar, ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, consolau gemau, cyfrifiaduron; dyfeisiau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol fel larymau personol a gweithgarwch, negeseuon atgoffa ac ysgogi electronig, clociau siarad, cymhorthion cyfathrebu, larymau mwg, larymau teleofal, teclynnau synhwyro cwympo, dyfeisiau GPS, offer monitro iechyd a ffitiau.

**Ffactorau a all beri i unigolion brofi cyfnod o salwch meddwl –**

Gall dewisiadau ffordd o fyw yn cynnwys gwaith, deiet, cyffuriau a diffyg cwsg i gyd effeithio ar iechyd meddwl, ond os bydd unigolyn yn profi salwch meddwl, bydd ffactorau eraill yn gyfrifol am hynny hefyd fel arfer. Gellir rhannu'r ffactorau yn dri phrif gategori – biolegol, seicolegol ac amgylcheddol/cymdeithasol a gallant gynnwys:

- profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys cam-drin emosiynol, corfforol a rhywiol, trawma neu esgeulustod
- trais domestig
- profiadau o fwlio yn ystod plentyndod/fel oedolyn
- ynysu cymdeithasol neu unigrwydd
- profiadau o wahaniaethu a stigma
- anfantais gymdeithasol, tlodi neu ddyled
- profedigaeth
- straen difrifol neu hirdymor
- cyflwr iechyd corfforol hirdymor
- diweithdra neu golli swydd
- digartrefedd, sefyllfa ansefydlog o ran cartref neu gartref o ansawdd gwael
- bod yn ofalwr hirdymor i rywun
- bod yn ffoadur/ceisiwr lloches
- camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- trawma sylweddol, er enghraifft: bod mewn digwyddiad difrifol, dioddef trosedd dreisgar, ymladd yn y fyddin, trawma sy'n gysylltiedig â rhyfel (gan gynnwys dadleoli a gwahanu teuluoedd)
- achosion corfforol – er enghraifft, gall anaf i'r pen neu gyflwr niwrolegol fel epilepsi effeithio ar ymddygiad a hwyliau. (Mae'n bwysig sicrhau y gellir diystyru achosion corfforol posibl cyn ceisio triniaeth bellach).
- Beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol
- hunaniaeth o ran rhywedd

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE) Cymru' yn 2015, a ddangosodd fod pobl sydd wedi cael pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn llawer mwy tebygol o ddatblygu iselder, gorbryder a seicosis pan fyddant yn oedolion na'r boblogaeth gyffredinol. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddigwyddiadau niweidiol fel dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol neu dyfu i fyny mewn cartref lle ceir trais domestig, iechyd meddwl gwael neu weithgarwch troseddol.

**http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/7700ce4590e6161b80257fdc003b147b/$FILE/ACE%20&%20Mental%20Well-being%20Report%20W.pdf**

**Diymadferthwch dysgedig –** Pan fydd pobl yn teimlo nad oes dim y gallant ei wneud i osgoi sefyllfaoedd negyddol am fod profiad blaenorol wedi dangos iddynt nad oes ganddynt reolaeth. Mae hyn yn arwain at gylch negyddol lle y bydd gan yr unigolyn a phobl eraill ddisgwyliadau isel mewn perthynas â'r unigolyn a gaiff eu hatgyfnerthu pan fydd yr unigolyn yn gwireddu'r disgwyliadau isel hyn, gan arwain at ddibyniaeth, hunan-barch isel a diffyg hunan-gred

**Y Ddeddf Iechyd Meddwl** – Mae'r egwyddorion arweiniol y dylid eu hystyried bob amser wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer Cymru:

- Urddas a pharch
- Yr opsiwn lleiaf cyfyngol a sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl
- Tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder
- Grymuso a chynnwys
- Cadw pobl yn ddiogel
- Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

**Problemau iechyd meddwl** – Ar unrhyw adeg benodol, bydd un o bob pedwar person yn y DU yn profi salwch meddwl. Nid oes gan bob unigolyn sy'n profi salwch meddwl ddiagnosis o anhwylder meddwl. Ceir amrywiaeth eang o ddiagnosisau, ac mae gan bob un ei feini prawf diagnostig ei hun sydd wedi cael eu dosbarthu gan Sefydliad Iechyd y Byd: **https://www.who.int/classifications/icd/icdonlineversions/en/**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Caethiwed, gan gynnwys bod yn gaeth i hapchwarae
- ADCG
- Anhwylderau gorbryder gan gynnwys anhwylder gorfodaeth obsesiynol
- Anhwylder deubegynol
- Dysmorffia'r corff
- Hunan-niwed bwriadol
- Iselder
- Anhwylderau datgysylltiol
- Anhwylderau bwyta
- Anhwylderau panig
- Anhwylderau personoliaeth gan gynnwys anhwylder ansefydlogrwydd emosiynol/personoliaeth ffiniol
- Ffobiâu
- Iselder ôl-enedigol
- Seicosis ôl-enedigol
- Anhwylder straen wedi trawma
- Seicosis
- Anhwylder sgitsoaffeithiol
- Sgitsoffrenia
- Anhwylder affeithiol tymhorol

Nid yw pawb yn cytuno ei bod yn fuddiol defnyddio diagnosisau i ddeall neu ddisgrifio trallod a salwch meddwl. Mae safbwyntiau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Cymdeithas Seicolegol Prydain: Power, Threat Meaning Framework **https://www.bps.org.uk/news-and-policy/introducing-power-threat-meaning-framework**
- Y Ganolfan Ragoriaeth mewn Iechyd Meddwl Rhyngddisgyblaethol: Safbwyntiau Cymdeithasol ar Drallod Meddwl **https://www.birmingham.ac.uk/research/activity/social-policy/ceimh/film-resources/social-perspectives-mental-distress.aspx**
- *Shaping Our Lives:* Social Model of Madness and Distress **https://www.shapingourlives.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/FROM-MENTAL-ILLNESS-PDF-2.pdf**

**Y Ddeddf Galluedd Meddyliol** – Mae gan y Ddeddf bum egwyddor arweiniol:

Egwyddor 1: Tybio galluedd – mae gan berson hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni phrofir fel arall. Golyga hyn na allwch dybio na all person wneud penderfyniad drosto'i hun dim ond am fod ganddo gyflwr meddygol neu anabledd penodol, e.e. dementia.

Egwyddor 2: Rhaid i bobl gael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain – rhaid i berson gael pob cymorth ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel na bai'n gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun. Golyga hyn y dylech wneud pob ymdrech i annog a chefnogi pobl i wneud y penderfyniad drostynt eu hunain. Os penderfynir bod diffyg galluedd, mae'n dal i fod yn bwysig eich bod yn cynnwys y person cymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau.

Egwyddor 3: Penderfyniadau annoeth – mae gan bobl hawl i wneud penderfyniadau y gallai pobl eraill ystyried eu bod yn annoeth neu'n ecsentrig. Ni allwch drin person fel na bai ganddo alluedd am y rheswm hwn. Mae gan bawb eu gwerthoedd, eu credoau a'u dewisiadau eu hunain na fyddant o reidrwydd yr un peth â rhai pobl eraill.

Egwyddor 4: Budd pennaf – rhaid i unrhyw beth a wneir ar gyfer neu ar ran person heb alluedd meddyliol gael ei wneud er ei fudd pennaf – ac nid er mwyn diogelu'r asiantaeth na buddiannau eraill ar draul y person.

Egwyddor 5: Opsiwn llai cyfyngol – rhaid i rywun sy'n gwneud penderfyniad neu'n gweithredu ar ran person heb alluedd ystyried a oes modd penderfynu neu weithredu mewn ffordd a fyddai'n ymyrryd llai â hawliau a rhyddid gweithredu'r person, neu a oes angen penderfynu neu weithredu o gwbl. Dylid pwyso a mesur unrhyw ymyriad yn ôl amgylchiadau penodol yr achos.

**https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents**

Os oes asesiad wedi canfod nad oes gan unigolyn alluedd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â maes penodol, rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir ar ei ran fod er ei fudd pennaf: **https://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/mental-capacity-act-2005/overview/#.XO0DdsHQZPw**

O dan amgylchiadau penodol, gall fod angen i unigolyn gael ei amddifadu o'i ryddid er mwyn iddo allu aros yn ddiogel a chael y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arno:

**https://1f2ca7mxjow42e65q49871m1-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2019/04/Mental-Capacity-Guidance-Note-Best-Interests-April-2019.pdf**

**Y Mesur Iechyd Meddwl** – Mae'r egwyddorion arweiniol sy'n sail i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2011 wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhannau 2 a 3: **http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD8880%20-%20Code%20of%20Practice%20to%20Parts%202%20and%203%20of%20the%20Mental%20Health%20%28Wales%29%20Measure%202010-23042012-232786/gen-ld8880-e-Cymraeg.pdf**

Mae chwe rhan i'r Mesur ond ceir pedair prif ran sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i unigolion:
**http://www.iechydmeddwlcymru.net/mesur-iechyd-meddwl/**

**Y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl** – Mae'r Cod Ymarfer (Cymru, 2016) ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yn esbonio rôl Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru sy'n cynnig amddiffyniad sylweddol i bobl o dan gyfyngiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
**https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentalacten.pdf**

**Salwch meddwl** – Nid oes consensws ynglŷn â'r ffordd orau o ddisgrifio salwch meddwl. Efallai y byddwch yn clywed y termau: problemau iechyd meddwl, salwch meddwl, trallod meddwl, anhwylder meddwl ac eraill. Fel arfer, mae'n well gofyn i'r unigolyn sy'n profi salwch meddwl ddisgrifio'r ffordd y mae'n teimlo a sut yr hoffai i hynny gael ei ddisgrifio.

Caiff trallod a salwch meddwl eu profi gan unigolion mewn ffyrdd unigryw ac, felly, gwrando ar yr unigolyn a'i hanes a'i amgylchiadau mewn bywyd ar y pryd yw'r pwysigrwydd pennaf.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall diwylliant a threftadaeth unigolyn olygu ei fod yn mynegi trallod mewn gwahanol ffyrdd, yn ogystal ag ystyried profiadau unigolyn mewn bywyd, credoau crefyddol/ysbrydol, oedran, rhywedd, rhywioldeb ac ati.

**Methylffenidad –** Mae hwn yn un o grŵp o adfywolion a ragnodir weithiau ar gyfer trin ADCG. Gall atal archwaeth unigolion, felly mae angen monitro pwysau'n agosach, yn enwedig pan gaiff ei ragnodi ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes rhaid i rai adfywolion a ragnodir gael eu cymryd bob dydd, felly gellir eu defnyddio ar ddiwrnodau penodol yn unig, fel diwrnodau ysgol.

**Gormesoedd lluosog –** Er nad oes digon o waith ymchwil wedi'i wneud i'r maes hwn o hyd, derbynnir yn eang bod pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli mewn gwasanaethau iechyd meddwl a bod gwahaniaethau o ran cyfraddau cadw gorfodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, opsiynau/canlyniadau triniaeth a diagnosisau. Ceir problemau gorgynrychioli mewn perthynas â rhywedd a nodweddion gwarchodedig eraill hefyd.

**https://lankellychase.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/Ethnic-Inequality-in-Mental-Health-Confluence-Full-Report-March2014.pdf**

**https://www.thelancet.com/journals/lanpsy/article/PIIS2215-0366(19)30027-6/fulltext**

**https://www.who.int/mental_health/prevention/genderwomen/en/**

**Anhwylderau niwroddatblygiadol –** gall y rhain gynnwys:
- Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig

- Anhwylderau tic (fel syndrom Tourette)
- Anaf trawmatig i'r pen

**Monitro iechyd corfforol –** Dengys ymchwil fod cydberthynas rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn aml. Gwelir bod cyfraddau uchel o salwch meddwl ymhlith pobl â phroblemau iechyd corfforol hirdymor a hefyd ddisgwyliad oes byrrach i bobl â salwch meddwl difrifol, sy'n aml yn gysylltiedig ag iechyd corfforol gwael.

**https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/field/field_publication_file/Bringing-together-Kings-Fund-March-2016_1.pdf**

**https://www.nice.org.uk/sharedlearning/improving-the-physical-health-of-people-with-serious-mental-illness-a-quality-improvement-approach**

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol**:

- Yn seiliedig ar Gynyddu Gwerth Rolau Cymdeithasol, Dadansoddiad o Ymddygiad Cymhwysol a Gwaith Cynllunio Person-Ganolog
- Yn hyrwyddo dulliau ymyrryd sy'n seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth
- Yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd fel nod canolog
- Yn defnyddio ymyriadau unigoledig sy'n deillio o asesiad swyddogaethol o ymddygiad y person
- Yn pwysleisio dulliau atal sylfaenol fel y prif ddull gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth weithredol, addysgu sgiliau, gwella dulliau cyfathrebu, gwella amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ac ymdrin â sbardunau a swyddogaethau ymddygiad sy'n deillio o'r asesiad swyddogaethol.
- Yn cynnwys strategaethau atal eilaidd er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd ymddygiad yn gwaethygu
- Yn cynnwys strategaethau adweithiol moesegol nad ydynt yn seiliedig ar boen a gynlluniwyd yn benodol i gadw'r person ac eraill yn ddiogel.
- Yn cynnwys strategaethau dadfriffio a bennwyd ar gyfer yr unigolyn ac eraill sy'n ymwneud â'r broses yn dilyn digwyddiad lle cafwyd ymddygiad heriol
- Yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i werthuso effaith ymyriadau a phryd y dylid adolygu'r cynllun Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.

**https://www.gov.uk/government/publications/positive-and-proactive-care-reducing-restrictive-interventions**

**https://www.nice.org.uk/search?q=violence+and+aggression**

**Adolygiad ar ôl** digwyddiad – Mae hyn yn cynnwys:

- Myfyrio ar y ffordd roedd yn teimlo cyn y digwyddiad ac yn union cyn y digwyddiad; yr ymddygiad ei hun, canlyniadau'r ymddygiad a sut roedd yn teimlo wedyn
- Beth fyddai wedi ei helpu i sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol
- Cefnogaeth emosiynol
- Myfyrdod personol
- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo
- Hyfforddiant ychwanegol
- Newidiadau i gynlluniau ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol

**Cefnogaeth ar ôl digwyddiad** – Cyfeirir at hyn weithiau fel dadfriffio ac mae'n ymwneud â'r ffordd y dylid cefnogi gweithwyr unigol, gofalwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ar ôl digwyddiad lle ceir ymddygiad heriol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Help i ymdawelu
- Cefnogaeth emosiynol
- Cymorth cyntaf os oes ei angen
- Amser i ffwrdd
- Amser tawel
- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo

**Effeithiau posibl** – ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan waethygu'r anawsterau y mae'r unigolyn yn eu profi (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

**Dull gwellhad –** Caiff y Dull Gwellhad ei alw weithiau'n Fodel Gwellhad neu'n Ethos Gwellhad. Gellir meddwl am wellhad fel proses, agwedd, gweledigaeth, fframwaith cysyniadol neu egwyddor arweiniol. Dull gwellhad:

- mae'n edrych ar salwch meddwl mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar y person ac nid ar ei symptomau yn unig
- mae'n credu bod modd gwella o salwch meddwl
- taith yn hytrach na chyrchfan
- nid yw o reidrwydd yn golygu cyrraedd yn ôl i ble oeddech chi o'r blaen
- mae'n digwydd 'mewn pyliau' ac, fel bywyd, mae llawer o droeon yn y ffordd
- mae'n galw am optimistiaeth ac ymroddiad gan bawb dan sylw
- mae disgwyliadau ac agweddau pobl yn cael dylanwad dwys arno
- mae angen system drefnus o gefnogaeth gan deulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol
- mae angen i wasanaethau groesawu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio

Mae dull gwellhad yn anelu at helpu unigolion â phroblemau iechyd meddwl i edrych y tu hwnt i oroesi a bodoli yn unig. Mae'n eu hannog i symud ymlaen, i bennu nodau newydd a gwneud pethau ac i feithrin cydberthnasau sy'n rhoi ystyr i'w bywydau.

Mae gwellhad yn pwysleisio, er na fydd gan bobl reolaeth lawn dros eu symptomau o bosibl, y gallant gael rheolaeth lawn dros eu bywydau. Nid yw gwellhad yn golygu 'cael gwared' ar broblemau. Mae'n golygu gweld problemau iechyd meddwl person, adnabod a meithrin ei alluoedd, ei ddiddordebau a'i freuddwydion.

Bydd salwch meddwl ac agweddau cymdeithas at salwch meddwl yn aml yn gosod cyfyngiadau ar bobl sy'n profi salwch meddwl. Gall gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, teulu a ffrindiau fod yn rhy amddiffynnol neu besimistaidd ynglŷn â'r hyn y bydd rhywun â phroblem iechyd meddwl yn gallu ei gyflawni. Mae gwellhad yn golygu edrych y tu hwnt i'r cyfyngiadau hynny er mwyn helpu pobl i gyflawni eu nodau a'u dyheadau eu hunain.

Gall gwellhad fod yn broses o hunanddarganfod a thwf personol. Gall profiadau o salwch meddwl gynnig cyfleoedd i newid, myfyrio a darganfod gwerthoedd, sgiliau a diddordebau newydd.

Mae ymchwil wedi canfod bod y ffactorau pwysig ar y daith tuag at wellhad yn cynnwys:

- cydberthnasau da
- sicrwydd ariannol

- gwaith sy'n llawn boddhad
- twf personol
- amgylchedd byw/llety addas
- datblygu eich safbwyntiau diwylliannol neu ysbrydol eich hun
- meithrin gwydnwch yn wyneb trallod neu straen posibl yn y dyfodol.

Ymhlith y ffactorau eraill y mae pobl wedi nodi eu bod yn eu cefnogi ar hyd eu taith tuag at wellhad mae:

- pobl yn dangos ffydd ynddynt
- pobl yn gwrando arnynt ac yn eu deall
- cael eglurhad o broblemau neu brofiadau
- cael y cyfle i ildio cyfrifoldeb dros dro yn ystod cyfnodau o argyfwng
- hawl i gael y driniaeth a'r gefnogaeth gywir

Hefyd, mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n cefnogi rhywun yn ystod y broses wella yn ei annog i feithrin ei sgiliau ac yn ei helpu i gyflawni ei nodau.
Mae cysylltiad cryf rhwng y broses wella a chynhwysiant cymdeithasol. Un rôl allweddol i wasanaethau yw helpu pobl i adennill eu lle yn y cymunedau lle maent yn byw ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd prif ffrwd ynghyd â phawb arall. Ceir tystiolaeth gynyddol sy'n dangos y gall cymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol, cyfleoedd i hyfforddi a gwirfoddoli a chyfleoedd cyflogaeth gefnogi proses wella'r unigolyn.

**https://www.scottishrecovery.net/**

**Arferion/ymyriadau cyfyngol** – Amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n atal unigolion rhag gwneud pethau y maent am eu gwneud neu sy'n eu hannog i wneud pethau nad ydynt am eu gwneud yw arferion cyfyngol.

Mae ymyriadau cyfyngol (a elwir weithiau'n ddulliau atal) yn rhan o gontinwwm o arferion cyfyngol ac, oni bai eu bod yn rhan o gynllun ymddygiad y cytunwyd arno, dim ond fel ymateb uniongyrchol a bwriadol i ymddygiad sy'n herio neu er mwyn rheoli sefyllfa lle mae posibilrwydd gwirioneddol o niwed oni chymerir camau y dylent gael eu defnyddio. Ni ddylid byth ddefnyddio ymyriadau cyfyngol i gosbi, achosi poen, dioddefaint, codi cywilydd na sicrhau cydymffurfiaeth. Byddai ymyriadau cyfyngol yn cynnwys: atal corfforol, atal mecanyddol, defnyddio meddyginiaeth, atal seicogymdeithasol (sancsiynau), amser tawelu neu amser i ffwrdd, ymyriadau amgylcheddol.

**Asesiadau risg/Cynlluniau diogelwch** – Nid un digwyddiad yw'r gwaith o ffurfio asesiad risg a dylid ei weld fel proses a gyflawnir ar y cyd â'r unigolyn gan gynnwys ei ofalwr/teulu lle bynnag y bo modd. Nid rhestr wirio yw asesiad risg. Yn hytrach, dylai fod wedi'i bersonoli gyda'r nod o feithrin cydberthynas â'r unigolyn. Mae angen i weithwyr gael hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus er mwyn eu helpu i feithrin cydberthnasau a gwneud penderfyniadau doeth mewn perthynas ag ystyried a rheoli risg.

**https://sites.manchester.ac.uk/ncish/reports/the-assessment-of-clinical-risk-in-mental-health-services/**

**Cyfeirio a rhagnodi cymdeithasol** – Gall meddygon, meddygon teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill atgyfeirio pobl at amrywiaeth o wasanaethau lleol anghlinigol e.e. dosbarthiadau ymarfer corff neu ddysgu mewn grŵp, a gelwir hyn yn rhagnodi cymdeithasol. Y nod yw mynd i'r afael ag anghenion pobl mewn modd cyfannol – gan gydnabod amrywiaeth o

ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Yn yr un modd, gall cyfeirio gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol, gweithwyr yn y trydydd sector ac ati helpu'r broses wella a helpu i feithrin gwydnwch personol a chymunedol.

**https://www.alliance-scotland.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/ALLIANCE-Developing-a-Culture-of-Health.pdf**

**Dull gweithredu seiliedig ar gryfderau** – Ystyrir bod datblygu dull gweithredu seiliedig ar gryfderau yn agwedd allweddol ar gydweithio rhwng unigolyn a gweithiwr – byddant yn cydweithio â'i gilydd i bennu canlyniadau sy'n seiliedig ar gryfderau ac asedau'r unigolyn.Felly, nid problemau na gwendidau canfyddedig yr unigolyn yw'r prif ffocws, ond yn hytrach datblygu adnoddau ac asedau unigolyn, gan ganolbwyntio ar ei gryfderau a'i alluoedd, a chryfderau a galluoedd ei deulu/rhwydwaith a'i gymuned. Mae dull gweithredu seiliedig ar gryfderau yn canolbwyntio ar ganlyniadau – helpu'r unigolyn i nodi'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni yn ei fywyd ac yna weithio gydag ef i gyflawni'r canlyniadau hynny.

**Therapi** – Hefyd yn cynnwys Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (ESMR), therapi sgema, therapi sy'n canolbwyntio ar drawma, therapi teulu, seicotherapi seicodynamig.

**Amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** –mae hyn yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *SGC cysylltiedig*

- **SFHMH90** Cefnogi eraill i hyrwyddo dealltwriaeth a helpu i wella iechyd meddwl pobl
- **SFHMH14** Nodi anghenion iechyd meddwl posibl a materion cysylltiedig
- **SFHMH62** Nodi pryderon, blaenoriaethau a gwerthoedd pobl a phobl bwysig eraill mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u hanghenion iechyd meddwl
- **SFHMH38** Galluogi pobl ag anghenion iechyd meddwl i ddewis gweithgareddau sy'n ystyrlon iddynt a chymryd rhan ynddynt
- **SDCHSC 0452** Arwain ymarfer sy'n hyrwyddo hawliau, cyfrifoldebau, cydraddoldeb ac amrywiaeth unigolion

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
  **http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents/enacted/welsh**
- Gofyn a Gweithredu: Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod
  **https://llyw.cymru/byw-heb-ofn**
- Concordat Gofal mewn Argyfwng: Gwella gofal a chefnogaeth i bobl a gedwir o dan adran 135/136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl
  **https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/161109concordatcy.pdf**
- Diagnosis Deuol (Canllawiau NICE)
  **https://www.nice.org.uk/search?q=dual+diagnosis**
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
  **http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents**
  Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
  **http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/pdfs/wsi_20111064_mi.pdf**
- Canllaw ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

**https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/711097/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr-1-0.pdf**

- Deddf Hawliau Dynol (1998)
  **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents**
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
  **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents**
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
  **https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/index1b1b.html?force=cy**
- **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**
  **https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/7/contents/enacted/welsh**
- Iechyd Meddwl yng Nghymru: Ffeithiau Sylfaenol 2016
  **https://www.mentalhealth.org.uk/sites/default/files/FF16%20Wales%20WELSH.pdf**
- Prevent (Diogelu pobl a chymunedau rhag bygythiad terfysgaeth)
  **https://www.ltai.info/what-is-prevent/**
- Egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus
  **http://www.bevancommission.org/cy/prudent-healthcare.htm**
- Y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
  **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents**
- Fframwaith Gwasanaeth i drin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd
  **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/fframwaith-gwasanaeth-i-drin-pobl-sydd-a-phroblemau-iechyd-meddwl-a-phroblemau-oherwydd-camddefnyddio-sylweddau-syn-cyd-ddigwydd.pdf**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
  **http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf**
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  **https://gweddill.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/index1b1b.html?force=cy**
- Adran 117 Ôl-ofal yng Nghymru a Lloegr
  **https://www.mind.org.uk/media/5544543/leaving-hospital-2-pdf.pdf**
- Fframwaith Gwasanaeth i drin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd
  **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/fframwaith-gwasanaeth-i-drin-pobl-sydd-a-phroblemau-iechyd-meddwl-a-phroblemau-oherwydd-camddefnyddio-sylweddau-syn-cyd-ddigwydd.pdf**
- Nerth mewn Partneriaeth – cydgynhyrchu ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl
  **http://www.wales.nhs.uk/documents/strongerpartner2w[1].pdf**
- Siarad â fi 2: Strategaeth Atal Hunanladdiad Cymru
  **https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/reports/talk2/index1b1b.html?force=cy**
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru
  **https://gweddill.llyw.cymru/topics/health/nhswales/mental-health-services/policy/strategy/index1b1b.html?force=cy**
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
  **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh**
  **https://www.un.org/development/desa/disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities/convention-on-the-rights-of-persons-with-disabilities-2.html**
- Ymddygiadau Treisgar ac Ymosodol ymhlith pobl â phroblemau iechyd meddwl (Canllawiau NICE)
  **https://www.nice.org.uk/guidance/qs154**
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh**

- **Deddf yr Iaith Gymraeg (1993)**
  **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents**
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**
  **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted/welsh**

# Uned 534 Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 34 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion awtistig a/neu oedoldion ag anableddau dysgu |

## Deilliant dysgu:

1. Canfyddiadau a persbectifau mewn perthynas ag anableddau dysgu ac awtistiaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 **Nifer yr achosion o anabledd dysgu ac awtistiaeth** a'i oblygiadau i'r gwasanaethau a ddarperir

1.2 Gwahanol fathau o anableddau dysgu a'u hachosion posibl

1.3 **Damcaniaethau ynghylch awtistiaeth** a'r dystiolaeth gyfyngedig am ei hachosion

1.4 **Prif nodweddion awtistiaeth** ac ystyr y 'triawd namau'

1.5 Pam ei bod yn bwysig cydnabod galluoedd, anghenion, cryfderau, doniau a thalentau pob unigolyn sydd ag anabledd dysgu neu sydd ar y sbectrwm awtistig, a sut i adlewyrchu hyn wrth ddarparu gwasanaethau

1.6 Safbwyntiau cymdeithasol a meddygol ynghylch anabledd dysgu ac awtistiaeth, sut mae'r rhain wedi datblygu a newid dros amser a chefnogi'r ethos ar gyfer darparu gwasanaethau

1.7 **Effeithiau posibl** agweddau a gwerthoedd cymdeithas ar unigolion a'r gwasanaethau a ddarperir

1.8 Sut mae agweddau a gwasanaethau'n parhau i newid dros amser o ganlyniad i bolisi cymdeithasol a deddfwriaeth

1.9 Sut i helpu gweithwyr i archwilio effeithiau (cadarnhaol a negyddol) cael eich labelu fel unigolyn ag anabledd dysgu/awtistiaeth

1.10 Sut i helpu gweithwyr i archwilio effaith y ffaith bod awtistiaeth weithiau'n cael ei gweld fel anabledd cudd

1.11 Fframweithiau deddfwriaethol, polisïau Llywodraeth Cymru a modelau presennol ar gyfer dylunio a darparu gwasanaethau sy'n anelu at gefnogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr a'u heffaith ar y canlynol:

- ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol
- dewisiadau bywyd
- cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol/beth sy'n bwysig
- canfyddiad cymdeithasol
- mynediad at gyfleusterau cymunedol

- cynhwysiant a chyfranogiad
- hawliau
- cydraddoldeb
- llais a rheolaeth
- atal ac ymyrryd yn gynnar
- lles
- cydgynhyrchu
- dulliau gweithredu amlasiantaethol/mewn partneriaeth
- mynediad at dai a gofal iechyd

1.12 Pwysigrwydd hyblygrwydd cefnogaeth i unigolion er mwyn ystyried newidiadau mewn anghenion ac amgylchiadau

1.13 Sut y gall rhywedd ac ethnigrwydd, ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r cymorth a gânt

1.14 Rôl gwaith dylunio a darparu gwasanaethau, asiantaethau allanol ac eraill o ran newid agweddau, polisïau ac ymarfer yn barhaus

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.15 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo'r defnydd o ffyrdd o gefnogi unigolion sy'n ystyried:

- nodweddion yr anabledd
- unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
- eu hunigoliaeth a'u hoff ddewisiadau

1.16 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol ac agweddau cadarnhaol mewn perthynas ag unigolion ag anabledd dysgu/awtistiaeth

1.17 Arwain y gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r broses o ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion ac yn herio ymarfer sefydliadol

1.18 Arwain a rheoli ymarfer sy'n herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion ag anabledd dysgu/awtistiaeth

## Ystod

**Nifer yr achosion o anableddau dysgu ac awtistiaeth:** unigolion ag anabledd dysgu sy'n awtistig, unigolion awtistig sydd ag anabledd dysgu, unigolion awtistig heb unrhyw anabledd dysgu, unigolion ag anabledd dysgu nad ydynt yn awtistig

**Damcaniaethau ynghylch awtistiaeth:** biolegol, seicolegol, niwrolegol

**Prif nodweddion awtistiaeth:** anawsterau gyda; cyfathrebu ar lafar a heb eiriau, deall eraill ac ymgysylltu â nhw, deall rheolau cymdeithasol a sut y disgwylir i bobl ryngweithio'n gymdeithasol, dychymyg cymdeithasol a hyblygrwydd meddwl, ffyrdd o ymddwyn ailadroddus, diddordebau arbennig / cyfyngedig, ymaddasu i newidiadau, datrys problemau, ysgogi'r synhwyrau, gorbryder

**Effeithiau posibl:** ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan waethygu'r anawsterau y mae'r unigolyn yn eu profi (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer dulliau person-ganolog, dulliau sy'n seiliedig ar hawliau, llesiant, perthnasoedd cadarnhaol a chyfranogiad cymunedol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.

2.1 Rhoi modelau a fframweithiau damcaniaethol ar waith ar gyfer:

- Cynyddu Gwerth/Normaleiddio Rolau Cymdeithasol
- anabledd a nam
- dinasyddiaeth
- cydgynhyrchu
- ymarfer person-ganolog
- dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau
- perthnasoedd

2.2 Sut i helpu eraill i ddeall y canlynol:

- pwysigrwydd y Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol i ansawdd bywyd unigolion
- sut y gellir helpu unigolion i gyfrannu at eu cymunedau, cyfoethogi bywydau pobl eraill a dangos eu rôl werthfawr mewn cymdeithas
- ystyr 'cylch cefnogaeth' a sut y gellir ei hybu i gefnogi cydberthnasau dwyochrog a llesiant unigolion

2.3 Sut i arwain y gwaith o ddatblygu a defnyddio strategaethau i fynd i'r afael â rhwystrau posibl sy'n rhwystro:

- cyfranogiad cymunedol
- cydberthnasau dwyochrog cadarnhaol
- cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol

2.4 Sut i helpu eraill i gydnabod y canlynol

- y gydberthynas rhwng cymryd risgiau cadarnhaol a chyfrifoldebau, llais a rheolaeth, a chynhwysiant cymdeithasol
- pwysigrwydd cymryd risgiau fel rhan o fywyd pob dydd i unigolion
- yr effaith ar unigolion os cânt eu hanghymell neu eu hatal rhag cymryd risgiau

2.5 Rôl gwahanol fathau o eiriolaeth a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi hawliau unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.6 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo dull gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:

- cael llais a rheolaeth dros eu bywydau
- cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon
- cynnal a meithrin cydberthnasau dwyochrog cadarnhaol
- cymryd rhan yn eu cymunedau
- byw bywydau llawn a gwerthfawr
- rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u llesiant

2.7 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu unigolion i gymryd risgiau ar sail gwybodaeth

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi cyfathrebu effeithiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.

3.1 Modelau cyfathrebu

3.2 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:
- yr amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi unigolion
- ffactorau y mae angen eu hystyried wrth nodi dulliau a ffyrdd o gyfathrebu
- ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer meithrin sgiliau cyfathrebu
- pwysigrwydd defnyddio dulliau a ffyrdd priodol o gyfathrebu ag unigolion
- pwysigrwydd defnyddio ac addasu iaith a dulliau cyfathrebu sy'n briodol o ran oedran a gallu
- sut y gall profiadau blaenorol, cyflyrau ychwanegol ac iaith gyntaf ddylanwadu ar barodrwydd a gallu unigolyn i gyfathrebu
- sut y gall anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol effeithio ar unigolion
- sut i gadarnhau pan gaiff ymddygiad ei ddefnyddio fel ffordd o gyfathrebu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio ac yn addasu amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu ag unigolion

3.4 Arwain a rheoli'r broses o ddatblygu a defnyddio cynlluniau cyfathrebu ar gyfer unigolion

3.5 Arwain a rheoli'r broses o werthuso dulliau a ddefnyddir i gefnogi cyfathrebu effeithiol

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau rheoliadol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r defnydd o waith cynllunio person-ganolog a Chefnogaeth Weithredol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.

4.1 Sut i helpu eraill i wybod y canlynol:
- diben ac elfennau gwaith cynllunio person-ganolog
- sut i ddefnyddio gwaith cynllunio person-ganolog er mwyn helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt ac i fyw bywydau llawn a werthfawrogir
- pwysigrwydd cynnwys teuluoedd, gofalwyr, ffrindiau a brodyr a chwiorydd mewn gwaith cynllunio person-ganolog
- **Elfennau Cefnogaeth Weithredol**, a sut mae'r model yn troi gwerthoedd yn ymarfer person-ganolog, ac yn sicrhau llesiant

4.2 Rôl hyfforddiant rhyngweithiol o ran dylanwadu ar ymarfer

4.3 Tystiolaeth ymchwil o'r canlyniadau seicolegol i unigolion os cânt eu gadael am gyfnodau hir heb unrhyw ysgogiad neu ymgysylltiad
4.4 Tystiolaeth ymchwil o fanteision gwaith cynllunio unigolyn-ganolog a Chefnogaeth Weithredol
4.5 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:
  - sut y gellir helpu unigolion awtistig i gydbwyso'r angen am arferion cyson â chyfleoedd i brofi gwahanol weithgareddau a meithrin cydberthnasau
  - sut i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar gryfderau i feithrin sgiliau, hyder, hunan-barch a chydberthnasau
  - sut i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig yn effeithiol i ategu annibyniaeth, diogelwch a llesiant unigolion
4.6 Sut i arwain a rheoli'r broses o gyflawni a gwerthuso gwaith cynllunio person-ganolog a Chefnogaeth Weithredol i ganfod yr effaith ar y canlynol:
  - cyflawni canlyniadau cadarnhaol a'r hyn sy'n bwysig i unigolion
  - cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon
  - datblygu a chynnal cydberthnasau dwyochrog
  - cyfranogiad
  - meithrin sgiliau
  - lefelau annibyniaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
4.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer defnyddio dull cydgynhyrchiol sy'n helpu unigolion i gymryd rhan yn y broses gynllunio person-ganolog
4.8 Arwain a rheoli'r broses o roi'r canlynol ar waith:
  - y Model Cefnogaeth Weithredol
  - hyfforddiant rhyngweithiol
  - cynlluniau personol ar gyfer unigolion
4.9 Sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu monitro, eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd

## Ystod

**Elfennau Cefnogaeth Weithredol** – cynlluniau dyddiol a lefelau cyfranogiad, lefelau o help neu gefnogaeth a chymorth, rhyngweithio cadarnhaol, atgyfnerthu cadarnhaol, amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

5. Deall pwysigrwydd rhywioldeb, mynegiant rhywiol ac iechyd rhywiol

## Meini prawf asesu:

Rydych yn deall:

5.

5.1 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:
  - Pwysigrwydd rhywioldeb, hunaniaeth rywiol ac iechyd rhywiol i unigolion
  - Ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad rhywiol unigolion a'u gallu i fynegi eu rhywioldeb

- Sut y gellir cefnogi unigolion i wneud y canlynol:
    - deall a mynegi eu hunaniaeth rywiol
    - deall pwysigrwydd cydberthnasau ystyrlon mewn perthynas â'u rhywioldeb
    - aros yn ddiogel yn rhywiol
- Sut i gael gafael ar ffynonellau cefnogaeth ychwanegol i unigolion mewn perthynas â rhywioldeb, mynegiant rhywiol ac iechyd rhywiol

---

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer hybu iechyd, atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r risg o afiechyd

## Meini prawf asesu:

Rydych yn deall:

6.

6.1 Sut i helpu eraill i wybod y canlynol:

- **cyflyrau iechyd** a gysylltir ag anabledd dysgu fel arfer a'r heriau sy'n gysylltiedig â'u hadnabod
- **ffactorau** sy'n amlygu unigolion i anghydraddoldebau iechyd
- Pam mae gan unigolion hawl i fynediad cyfartal at ofal iechyd a gofal diwedd oes
- pwysigrwydd hybu iechyd ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r risg o salwch
- gofynion ar gyfer archwiliadau blynyddol a pham eu bod yn bwysig
- cyfrifoldebau am drefnu, cynnal ac adolygu canlyniadau archwiliadau iechyd blynyddol
- sut y gellir cefnogi unigolion ac eraill i ddeall pwysigrwydd archwiliad iechyd blynyddol
- yr heriau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar ofal iechyd a gofal diwedd oes priodol i unigolion

6.2 Yr hyn y mae angen ei ystyried pan fydd angen i unigolion gael gofal iechyd neu driniaeth feddygol, gan gynnwys:

- sut y cânt eu cefnogi
- eu gallu i gydsynio
- sut i weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- dyletswydd gwasanaethau iechyd cyffredinol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion
- sut i weithredu ar sail canlyniadau a'u gwerthuso

6.3 Sut i fynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar ofal iechyd a gofal diwedd oes priodol i unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n mynd ati i gefnogi gwaith hybu iechyd ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lleihau'r risgiau o salwch

6.5 Sicrhau yr ymchwilir i newidiadau mewn ymddygiad, hwyliau a lefelau gweithgarwch er mwyn lleihau'r risgiau o salwch

6.6 Arwain a rheoli'r gwaith o fonitro, adolygu a gwerthuso gallu unigolion i gael y canlynol a'u defnydd ohonynt:

- archwiliadau gofal iechyd
- gofal iechyd a nodir er mwyn diwallu anghenion

6.7 Arwain a rheoli'r gwaith o fonitro, adolygu a gwerthuso'r canlynol:
- camau gweithredu a nodir mewn archwiliadau gofal iechyd
- canlyniadau ymyriadau gofal iechyd

## Ystod

**Cyflyrau iechyd** – Epilepsi, nam ar y synhwyrau, salwch meddwl, demetia cynnar ac iechyd corfforol cyffredinol

**Ffactorau** – lefelau uwch o amddifadedd materol, cyflyrau ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd gwael sy'n aml yn cael eu cysylltu ag achosion anabledd dysgu, llai o ddealltwriaeth o newidiadau corfforol a phroblemau sy'n arwydd o salwch neu gyflyrau y gellid eu trin, llai o ddealltwriaeth o'r ffordd o gael cefnogaeth gan wasanaethau iechyd

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

7. Deall Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

## Meini prawf asesu:

Rydych yn deall:

7.

7.1 Sut i helpu eraill i wybod y canlynol
- beth yw ystyr '**cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol**'
- elfennau Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol
- pam mae dull a arweinir gan werthoedd yn bwysig ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol
- pam ei bod yn bwysig deall swyddogaethau ymddygiad
- y gwahaniaeth rhwng ffurf (yr ymddygiad) a gweithrediad (y rheswm dros yr ymddygiad hwnnw)
- **pedair swyddogaeth gyffredin** ymddygiad heriol/ynddygiad sy'n herio
- elfennau cynllun cymorth ymddygiad
- **prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** a pham ei fod yn bwysig

## Ystod

**Cefnogaeth Ymddygiadol Cadarnhaol –** dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar werthoedd, sail ddamcaniaeth a thystiolaeth, dadansoddi swyddogaethol, atal sylfaenol, atal eilaidd, strategaethau adweithiol

**Pedair swyddogaeth gyffredin –** sylw cymdeithasol, osgoi/dianc, y gallu i gael gafael ar bethau diriaethol, ysgogi'r synhwyrau

**Prif elfennau ymarfer ar ôl digwyddiad** - Cefnogaeth ôl ddigwyddiad (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - sylw at les corfforol ac emosiynol yr unigolyn ac eraill a oedd yn rhan o'r digwyddiad, rhoddir cefnogaeth bersonol ac emosiynol ar unwaith ac yn y tymor hwy os bydd ei hangen. Adolygiad ar ôl y digwyddiad - er mwyn dysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer, cynhelir hyn ar wahân i'r gefnogaeth ar ôl digwyddiad, nid yw'n ddefnyddiol gofyn i rywun gofio digwyddiad pan fyddant mewn cyflwr gofidus o hyd, a gall achosi trawma

# Uned 534 Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Model Cefnogaeth Weithredol:- –** Mae Cefnogaeth Weithredol yn cynnig model person-ganolog o sut i ryngweithio ag unigolion er mwyn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau mor annibynnol â phosibl, wedi'i gyfuno â system gynllunio ddyddiol i hyrwyddo ffordd weithgar o fyw sy'n gysylltiedig ag ansawdd bywyd da. Mae'n cynnwys system gofnodi syml i asesu effaith a chefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gynlluniau cefnogaeth.

I gynnwys:

- Cynlluniau dyddiol a lefelau cyfranogiad mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau a threfniadau cefnogaeth ystyrlon
- Cofnodion a gwaith i ddadansoddi cyfranogiad mewn amrywiaeth o weithgareddau nodweddiadol
- Modelau rhyngweithio cadarnhaol, h.y. lefelau cefnogaeth; dadansoddi tasgau ac atgyfnerthu cadarnhaol
- Addysgu sgiliau/cynlluniau cyfleoedd

**Archwiliad iechyd blynyddol –** byddai'n cynnwys archwiliadau iechyd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu a gynhelir gan feddygon teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar broblemau iechyd hysbys i unigolion ag anableddau dysgu e.e. cŵyr clustiau cywasgedig, archwiliadau golwg/clyw, a bwriedir iddynt fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

**Awtistiaeth** – Mae'r term awtistiaeth yn disgrifio gwahaniaethau ansoddol a namau ar ryngweithio cymdeithasol a chyfathrebu cymdeithasol dwyochrog, wedi'u cyfuno â diddordebau cyfyngedig ac ymddygiadau anhyblyg ac ailadroddus. Rhoddir diagnosis o anhwylderau ar y sbectrwm awtistig i blant, pobl ifanc ac oedolion os yw'r ymddygiadau hyn yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Dosbarthiad Ystadegol Rhyngwladol o Glefydau a Phroblemau Iechyd Cysylltiedig (ICD-10) a'r Llawlyfr Diagnostig ac Ystadegol o Anhwylderau Meddwl, Pedwerydd Argraffiad (DSM-IV) ac yn cael effaith sylweddol ar weithrediad. Y term cyffredinol a ddefnyddir yn ICD-10 a DSM-IV yw anhwylder datblygiadol treiddiol, sef term a ddefnyddir bellach i olygu'r un peth ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig (heb gynnwys syndrom Rett); grŵp o anhwylderau a ddiffinnir ar sail ymddygiad ydyw, ac mae'n heterogenaidd o ran achos ac ymddangosiad

**Heriau a all godi wrth gefnogi cyfranogiad cymunedol:**

- y gefnogaeth sydd ar gael
- cost
- mynediad
- gweithgareddau ar wahân
- agweddau, credoau, syniadau rhagdybiedig ac ymddygiad pobl eraill

- galluoedd cyfathrebu
- ymddangosiad personol
- gallu
- diffyg dealltwriaeth o'r cysyniad o gyfeillgarwch

**Cynlluniau cyfathrebu** – byddent yn cynnwys canllawiau wedi'u personoli a gallant gael eu galw'n gynlluniau, proffiliau neu basbortau cyfathrebu

Effaith **dylunio a darparu gwasanaethau ar y canlynol:**
- Mentrau cydweithredol / cymdeithasol
- Trefniadau byw â chymorth
- Cysylltu bywydau / lleoli oedolion
- Seibiannau byr
- Ymyrryd dwys byrdymor
- Cyflogaeth â chymorth
- Gwasanaethau dydd
- Gofal yn y cartref
- Gofal preswyl

**Cynlluniau dyddiol a lefelau cyfranogiad** – Mae cynlluniau dyddiol yn nodi arferion dyddiol unigolyn yn fanwl. Maent yn cynnig cyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau drwy gydol y dydd, yn osgoi cyfnodau hir o ymddieithrio ac yn helpu staff i gynllunio eu hamser yn effeithiol. Gellir defnyddio'r cynlluniau mewn ffordd hyblyg i ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol, ac ystyried dewisiadau, rheolaeth, galluoedd ac anghenion unigolion. Caiff lefelau cyfranogiad eu cofnodi a'u dadansoddi er mwyn asesu'r cydbwysedd o ran cyfranogi mewn gwahanol fathau o weithgaredd a pha newidiadau sydd eu hangen o ran cefnogaeth er mwyn hyrwyddo ffordd o fyw nodweddiadol, gwella sgiliau a chynnig cymaint o annibyniaeth â phosibl. Mae Cynlluniau Dyddiol a lefelau cyfranogiad yn rhan o Gefnogaeth Weithredol

**Technoleg gynorthwyol electronig** – gan gynnwys sut i sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â thechnoleg gynorthwyol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn gynhwysol ac yn dryloyw.

Gallai technoleg gynorthwyol electronig gynnwys: dyfeisiau pob dydd (ffonau symudol, dyfeisiau rheoli byw'n glyfar, ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, consolau gemau, cyfrifiaduron), dyfeisiau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol (larymau personol a larymau gweithgarwch, negeseuon atgoffa ac ysgogi electronig, clociau siarad, cymhorthion cyfathrebu, larymau mwg, larymau teleofal, teclynnau synhwyro cwympo, dyfeisiau GPS, offer monitro iechyd, offer monitro ffitiau)

**Ffactorau a all effeithio** ar ddatblygiad rhywiol unigolion a'u gallu i fynegi eu rhywioldeb: dylanwadau diwylliannol-gymdeithasol, agweddau a chredoau, tybiaethau ystrydebol, gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol yn osgoi risgiau, materion yn ymwneud â diogelu, galluedd meddyliol, addysg rhyw, geneteg

**Ffactorau y mae angen eu hystyried wrth nodi dulliau a ffyrdd o gyfathrebu** – nodweddion anabledd, galluoedd gwybyddol, datblygu iaith, nam ar y synhwyrau, ysgogi'r synhwyrau, yr amgylchedd, sbardunau ymddygiadol, lefelau pryder

Gallai **bywyd llawn a gwerthfawr** gynnwys:

- Dewis a rheolaeth dros fanylion bach dyddiol a materion pwysig mewn bywyd
- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth
- Lles cymdeithasol ac economaidd
- Ymgysylltu a chymryd rhan mewn **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon**
- Gofal iechyd corfforol a meddyliol
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Bod yn rhiant
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cefnogaeth ar gyfer cysylltiadau ac arferion sy'n gysylltiedig â ffydd a diwylliant
- Tai a llety
- Cynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol
- Cydberthnasau a chyfeillgarwch

Caiff **hyfforddiant rhyngweithiol** (a elwir hefyd yn hyfforddiant yn y fan a'r lle neu hyfforddiant seiliedig ar ymarfer) fel arfer ei gynnal yn yr amgylchedd gwaith arferol lle mae gwir angen i'r staff berfformio fel y dymunir. Bwriedir iddo addysgu staff sut i gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol at sgiliau ymarferol. Fel rhan o'r broses, mae'r hyfforddwr yn gweithio ochr yn ochr â staff wrth iddynt gefnogi rhywun: gan arsylwi, rhoi adborth, modelu rôl a hyfforddi. (Stancliffe, R. Jones, E. Mansell, J. a Lowe, K. 2008; Jones, E., Felce, D. a Lowe, K. 2001)

**Arweinyddiaeth** – y gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad y maent yn eu hyrwyddo. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

**Diymadferthwch dysgedig –** pan fydd pobl yn teimlo nad oes dim y gallant ei wneud i osgoi sefyllfaoedd negyddol am fod profiad blaenorol wedi dangos iddynt nad oes ganddynt reolaeth. Mae hyn yn arwain at gylch negyddol lle y bydd gan yr unigolyn a phobl eraill ddisgwyliadau isel mewn perthynas â'r unigolyn a gaiff eu hatgyfnerthu pan fydd yr unigolyn yn gwireddu'r disgwyliadau isel hyn, gan arwain at ddibyniaeth, hunan-barch isel a diffyg hunan-gred

Mae **Lefelau cymorth (neu gefnogaeth neu help)** yn cyfeirio at lefelau graddedig o gymorth, o negeseuon atgoffa syml ar lafar sy'n darparu'r lefel isaf o gefnogaeth, drwy anogaeth di-eiriau, ystumiau ac arddangosiadau, i arweiniad corfforol uniongyrchol sy'n darparu'r lefel uchaf o help. Dylid rhoi cymorth mewn ffordd hyblyg, yn ôl angen yr unigolyn am help, a dim ond y lefel isaf o gymorth sydd ei hangen y dylid ei rhoi er mwyn annog cymaint o gyfranogiad ac annibyniaeth â phosibl. Mae lefelau cymorth yn rhan o Gefnogaeth Weithredol

**Rheoli** - y gallu i bennu cyfeiriad gweithredol a threfnu i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl gan eraill, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

Gallai **modelau cyfathrebu** gynnwys:

- Alder a Rudman (2006)
- Model cyfathrebu llinol (Shannon a Weaver 1949)
- Model cyfathrebu trafodaethol (Barnlund 1970)
- PCS model (Thompson 1997; 2006)

**Canlyniadau llesiant cenedlaethol:**

| Meysydd Llesiant Cenedlaethol | Datganiadau canlyniadau llesiant (o'r Datganiad Llesiant Cenedlaethol)<br>Mae'r fersiwn lawn o'r Datganiad Llesiant i'w chael yn: **http://gov.wales/docs/dhss/publications/150722well - beingen.pdf** |
|---|---|
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau<br>Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd | • Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles<br>• Gallaf gael gafael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles<br>• Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd<br>• Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno<br>• Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried<br>• Rwy'n siarad drosof fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny drosof |
| Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol | • Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach<br>• Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus<br>• Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl<br>• Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>• Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon |
| Addysg, hyfforddiant a hamdden | • Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial<br>• Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi |
| Cydberthnasau domestig, teuluol a phersonol | • Rwy'n perthyn<br>• Rwy'n cyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau<br>• Cyfraniad a wneir i gymdeithas · Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati |

| | |
|---|---|
| | • Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas |
| Lles cymdeithasol ac economaidd | • Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf<br>• Nid wyf yn byw mewn tlodi<br>• Caf gymorth i weithio<br>• Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol<br>• Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf |
| Addasrwydd llety | • Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu i sicrhau fy lles yn y ffordd orau |

**Proses gynllunio person-ganolog** – gan gynnwys sut y gellir helpu unigolion i wneud y canlynol

- mynegi eu barn
- nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn yr hoffent ei gyflawni, gan gynnwys:
    - sut i gydbwyso'r hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
    - sut yr hoffent wneud hyn
    - sut y byddant yn gwybod a ydynt wedi cyflawni eu nodau
- nodi pwy yr hoffent ei gynnwys ac ar ba gam
- nodi sut, ble a phryd y dylai'r gwaith cynllunio person-ganolog ddigwydd
- nodi sut y dylid cofnodi'r gwaith cynllunio person-ganolog

Mae **cynlluniau personol**[5] yn nodi sut y caiff gofal unigolyn ei ddarparu. Maent yn seiliedig ar wybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chefnogaeth a byddant yn ystyried dymuniadau personol, dyheadau ac anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn.

Bydd **cynlluniau personol** yn darparu'r canlynol:

- Gwybodaeth i unigolion a'u cynrychiolwyr am y gofal a'r gefnogaeth y cytunwyd arnynt a'r ffordd y cânt eu darparu
- Canllaw clir ac adeiladol i staff ar yr unigolyn, ei anghenion gofal a chefnogaeth a'r canlyniadau yr hoffai eu cyflawni
- Sail ar gyfer adolygu parhaus
- Ffordd i unigolion, eu cynrychiolwyr a staff fesur cynnydd a ph'un a yw eu canlyniadau personol wedi'u cyflawni.

Byddai **proses gynllunio** yn cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau.

**Cynlluniau** - cefnogaeth ymddygiadol cadarnhaol, cynlluniau personol, cynlluniau dyddiol, cynlluniau addysgu sgiliau

[5] Canllawiau statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safonau gwasanaeth (Llywodraeth Cymru 2017)

**Rhyngweithio cadarnhaol** – mae'n cyfeirio at ryngweithio cefnogol gan ddenfyddio'r lefelau cymorth, y gwaith dadansoddi tasgau a'r atgyfnerthu cadarnhaol sy'n helpu unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd adeiladol.

**Cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol**:

- Yn seiliedig ar Gynyddu Gwerth Rolau Cymdeithasol, Dadansoddiad o Ymddygiad Cymhwysol a Gwaith Cynllunio Person-Ganolog
- Yn hyrwyddo dulliau ymyrryd sy'n seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth
- Yn canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd fel nod canolog
- Yn defnyddio ymyriadau unigoledig sy'n deillio o asesiad swyddogaethol o ymddygiad y person
- Yn pwysleisio dulliau atal sylfaenol fel y prif ddull gweithredu, gan gynnwys cefnogaeth weithredol, addysgu sgiliau, gwella dulliau cyfathrebu, gwella amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ac ymdrin â sbardunau a swyddogaethau ymddygiad sy'n deillio o'r asesiad swyddogaethol.
- Yn cynnwys strategaethau atal eilaidd er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd ymddygiad yn gwaethygu
- Yn cynnwys strategaethau adweithiol moesegol nad ydynt yn seiliedig ar boen a gynlluniwyd yn benodol i gadw'r person ac eraill yn ddiogel.
- Yn cynnwys strategaethau dadfriffio a bennwyd ar gyfer yr unigolyn ac eraill sy'n ymwneud â'r broses yn dilyn digwyddiad lle cafwyd ymddygiad heriol
- Yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i werthuso effaith ymyriadau a phryd y dylid adolygu'r cynllun Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol.

**Atgyfnerthu cadarnhaol** - yn cyfeirio at yr hyn y mae unigolyn yn ei gael o ganlyniad i ymgymryd â thasg benodol. Gall gynnwys gwobrau sy'n digwydd yn naturiol (e.e. yfed cwpanaid o de y mae'r unigolyn newydd ei wneud) neu bethau eraill y mae'r unigolyn yn eu hoffi (e.e. canmoliaeth a sylw neu hoff weithgaredd) fel anogaeth neu wobr am gymryd rhan mewn gweithgaredd penodedig.

Mae atgyfnerthu (cadarnhaol a negyddol) yn cryfhau ymddygiad:
Mae Atgyfnerthu Cadarnhaol yn digwydd pan fydd unigolyn yn cael rhywbeth y mae am ei gael drwy ymddwyn mewn ffordd benodol, er enghraifft drwy gael ymgymryd â hoff weithgaredd neu gael hoff eitem, cael sylw cymdeithasol gan rywun, cael cyfle i ysgogi'r synhwyrau ac ati.

Mae atgyfnerthu negyddol yn digwydd pan fydd unigolyn yn osgoi neu'n dianc rhag rhywbeth nad yw'n ei hoffi, er enghraifft drwy osgoi gorfod ymgymryd â thasg, dianc rhag sylw diangen neu amgylchedd swnllyd, rhyddhad o boen ac ati.

**Canlyniadau seicolegol**, h.y:

- Diffyg egni a diflastod
- Iselder a syrthni
- Dryswch
- Colli cysylltiad â'r amgylchedd
- Colli hyder a sgiliau

**Amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu** – gallent gynnwys: ffotograffau, lluniau, arwyddion, ystumiau, gwrthrychau cyfeirio, PECS, Makaton, BSL, cardiau fflach, geiriau allweddol a'u hystyron, cynllunwyr gweledol

**Addasiadau rhesymol:**

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan bob person anabl hawl i gael addasiadau rhesymol wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gofal iechyd. Mae'r addasiadau hyn yn chwalu rhwystrau y byddai pobl anabl yn eu hwynebu fel arall wrth gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Mae gwneud addasiadau rhesymol yn golygu sicrhau bod gan bobl anabl fynediad cyfartal at ofal iechyd o ansawdd da.

Mae pobl ag anabledd dysgu yn wynebu anghydraddoldebau gofal iechyd difrifol. Bydd 1,200 o bobl ag anabledd dysgu'n marw'n ddiangen bob blwyddyn, pan allai gofal iechyd da fod wedi achub eu bywydau. Ar gyfartaledd, bydd pobl ag anabledd dysgu'n marw 17 mlynedd yn iau na'r boblogaeth gyffredinol. Dyna pam y mae mor bwysig gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yn yr ysbyty.

Gall addasiadau rhesymol fod yn newidiadau syml a wneir gan un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu gallant fod yn fwy cymhleth a golygu bod angen i nifer o dimau weithio gyda'i gilydd. Gall gwneud addasiadau rhesymol olygu chwalu rhwystrau y bydd pobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu, neu ddarparu rhywbeth ychwanegol ar gyfer rhywun ag anabledd dysgu er mwyn ei alluogi i gael y gofal iechyd sydd ei angen arno.

(Mencap: Treat me well: Reasonable adjustments for people with a learning disability in hospital)

**Ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol drwy gydol oes** (Llywodraeth Cymru, Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau – Mehefin 2018)

| **Cyfnod** | **Ffactorau risg** | **Ffactorau amddiffynnol** |
|---|---|---|
| Y blynyddoedd cynnar (cyn geni – 7 oed) | Asesu a diagnosis, rhieni yn methu ag ymdopi, diweithdra rhieni | Cymorth cyn geni, amenedigol ac ôl-enedigol; cymorth teuluol a chymorth rhianta - gan gynnwys dewisiadau gofal plant, gwasanaethau gofal seibiant byr a phlant yn derbyn gofal; therapi ymddygiad cadarnhaol i leihau'r risg o ymddygiad heriol; strategaethau ehangach i leihau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| Y glasoed (14 – 25 oed) | Prinder dewisiadau tai ac addysg yn aml y tu allan i'r ardal, ymddygiad heriol posibl, eisiau annibyniaeth a chyfleoedd, risg o fwlio a cham-drin, diffyg addysg am berthnasoedd personol a rhywiol | Eiriolaeth, hawliau, dewisiadau a grymuso, cyfeirio at wasanaethau a dysgu eu defnyddio – gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg ar y cyd, archwiliadau iechyd a lles blynyddol i ddechrau yn 14 oed, cyfleoedd cyflogaeth – hyfforddiaethau â chymorth |

| | | |
|---|---|---|
| Oedolyn ifanc (19 oed ymlaen) | Colli gwasanaethau plant yn 18 oed, colli addysg yn 19 oed ac efallai na fydd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer y gwasanaethau i oedolion, gwasanaethau amrywiol i oedolion, drws ffrynt eich hunan â chymorth | Codi ymwybyddiaeth ac addysg, hybu iechyd a lles – gan gynnwys addasiadau gofal eilaidd rhesymol, cyfleoedd gwaith/gweithgareddau yn ystod y dydd, dewisiadau byw â chymorth |
| Canol bywyd (30 oed a hŷn) | Anghenion iechyd yn newid, dim i'w wneud yn ystod y dydd, anghenion tai yn newid | Cael gafael ar ofal iechyd, gwaith/gweithgaredd ystyrlon, modelau tai/iechyd/gofal cymdeithasol integredig |
| Yn ddiweddar mewn bywyd (50 oed a hŷn) | Risg o eiddiledd cynharach a marw cyn pryd, teulu a gofalwyr yn heneiddio/marw, rhoi mewn cartrefi gofal preswyl gan nad oes dewis arall, diffyg cynllunio diwedd oes | Gofal cymorth yn newid – gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, dewisiadau tai, gofal lliniarol, gofal diwedd oes a phrofedigaeth |
| Drwy gydol oes | Diffiniadau ac anghenion data i'w diwallu, cyfathrebu a gwaith tîm, gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda a'i ysgogi, codi ymwybyddiaeth ac addysg, defnyddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol, cyllido mwy hyblyg | Gwelliannau o ran comisiynu, diogelu drwy alluogi pobl i amddiffyn eu hunain, monitro safonau, sicrwydd, rheoleiddio ac arolygu, y gallu i ddefnyddio gwasanaethau a chael cyfleoedd – cludiant |

**Sensitifrwydd y synhwyrau** – golwg, clyw, arogl, blas, cyffyrddiad, cydbwysedd, ymwybyddiaeth o'r corff, synesthesia

**Addysgu sgiliau** - yn cyfeirio at y broses o nodi tasg neu weithgaredd i'w gyflawni, dadansoddi tasgau, asesu sgiliau presennol a'r sgiliau y byddai angen eu meithrin, y lefelau o help sydd eu hangen er mwyn meithrin y sgiliau sydd eu hyangen i ymgymryd â'r dasg neu'r gweithgaredd a gwybodaeth am pryd, ble a chan bwy y caiff y sgiliau eu haddysgu a sut y caiff cynnydd ei adolygu a'i werthuso er mwyn llywio unrhyw ymdrechion pellach i addysgu sgiliau.

**Dadansoddi tasgau** - yn cyfeirio at rannu tasgau'n gamau bach, hydrin fel y gwneir yn achos ryseitiau neu ganllawiau DIY. Dylai maint pob cam neu nifer y camau ar gyfer tasg benodol amrywio yn ôl gallu'r unigolyn neu ei angen am gefnogaeth.

**Triad o namau** – anawsterau parhaus gyda chyfathrebu cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol, patrymau cyfyngedig neu ailadroddus o ymddygiadau, gweithgareddau neu ddiddordebau sy'n cyfyngu neu'n amharu ar weithrediad o ddydd i ddydd a sensitifrwydd y synhwyrau

**Mathau o eiriolaeth** gan gynnwys:

- Hunaneiriolaeth
- Eiriolaeth anffurfiol
- Cydeiriolaeth
- Eiriolaeth cymheiriaid
- Eiriolaeth dinasyddion
- Eiriolaeth gwirfoddolwyr annibynnol
- Eiriolaeth ffurfiol
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

**Rolau gwerthfawr** e.e.

- Gofalwr
- Cyflogai
- Deiliad cartref
- Rhiant
- Myfyriwr
- Gwirfoddol

**Pam y gall awtistiaeth weithiau fod yn anabledd:** yn achos rhai pobl ar y sbectrwm awtistig nad oes ganddynt nodweddion gweladwy amlwg

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig; Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Y Fframwaith Hawliau Dynol ar atal (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, heb ei gyhoeddi eto)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid;
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993: Mesur y Gymraeg (2011) a Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2013)
- Llywodraeth Cymru: Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau (Mehefin 2018)
- Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol: Commissioning Services for people with learning disabilities Good Practice Guidance (Tachwedd 2017)
- Datganiad Llesiant Cenedlaethol
  **http://gov.wales/docs/dhss/publications/150722well - beingen.pdf**

- **Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Datblygu Gwasanaethau i Bobl ag Anfantais Feddyliol** (1983)
- "Fulfilling the Promises" Proposals for a framework for services for people with learning disabilities (2001)

## *Adnoddau*

- Cynyddu Gwerth/Normaleiddio Rolau Cymdeithasol (Wolfensberger, W (1972) Normalization: The principle of normalization in human services. Toronto: National Institute of Mental Retardation, Leonard Crainford); (Wolfensberger, W (1983)Social Role Valorization: A Proposed New Term for the Principle of Normalization. **Mental Retardation**, **Vol. 21(6 )** 234)
  - Anabledd a nam
  - Dinasyddiaeth
  - Cydgynhyrchu
  - Ymarfer person-ganolog
  - Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau
  - Cydberthnasau

- **www.ASDinfoWales.co.uk** (gwefan Cymru gyfan sy'n gynnwys gwybodaeth, adnoddau a deunyddiau hyfforddi AM DDIM)
- Canllaw NICE CG142: Autism in adults: diagnosis and management [**http://www.nice.org.uk/guidance/cg142**]
- Canllaw NICE CG128, Autism in under 19s: recognition, referral and diagnosis. [www.nice.org.uk/guidance/cg12]
- Stancliffe, R., Jones, E., Mansell, J. a Lowe, K. (2008) Active Support: A Critical Review and Commentary. Journal of Intellectual Developmental Disabilities, 33(3), 196-214.
- Jones E, Felce D, Lowe K, Bowley C, Pagler J, Strong G, Gallagher B, Roper A a Kurowska K (2001) Evaluation of the Dissemination of Active Support training and training trainers. Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities 14: 79-99
- Mencap: Treat me well: Reasonable adjustments for people with a learning disability in hospital - **https://www.mencap.org.uk/sites/default/files/2018-06/Treat%20me%20well%20top%2010%20reasonable%20adjustments.pdf**

# Uned 535 Arwain gwaith gydag unigolion sydd â nam ar y synhwyrau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer ar gyfer unigolion â nam ar y synhwyrau. |

## Deilliant dysgu:

1. Mathau o 'nam ar y synhwyrau', eu cyd-destunau a chanfyddiadau ohonynt

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Effaith bosibl **gwahanol fathau o 'nam ar y synhwyrau' ar** unigolion
1.2 Y termau a ddefnyddir i ddisgrifio nam ar y synhwyrau
1.3 Ystyr y termau 'nam difrifol ar y golwg (dall)' a 'nam ar y golwg (rhannol ddall)'
1.4 Ystyr y term 'Diwylliannol Fyddar'
1.5 Y gwahaniaeth rhwng 'Diwylliannol Fyddar' a 'byddar'
1.6 Pam y caiff unigolion 'Diwylliannol Fyddar' eu cynnwys mewn gwasanaethau a ddarperir ar gyfer nam ar y synhwyrau, a'r tensiynau y gall hyn eu hachosi
1.7 Ystyr y term 'sgyrsiau diwylliannol' a pham ei bod yn bwysig i weithwyr gymryd rhan yn y rhain ag unigolion Byddar
1.8 Effeithiau cadarnhaol a negyddol terminoleg a ddefnyddir ar ymdeimlad unigolion o lesiant
1.9 Pwysigrwydd trafod ag unigolion er mwyn canfod y derminoleg y mae'n well ganddynt ei defnyddio a chydnabod y gall hyn newid dros amser
1.10 Pwysigrwydd cydnabod nad yw pob unigolyn â 'nam ar y synhwyrau' yr un peth â'i gilydd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.11 Sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:
- Canfod, hyrwyddo a defnyddio'r derminoleg y mae'n well gan unigolion ei defnyddio ar gyfer 'nam ar y synhwyrau'
- cydnabod a hyrwyddo'r ffaith nad yw pob unigolyn â 'nam ar y synhwyrau' yr un peth â'i gilydd, ac adlewyrchu hyn yn eu hymarfer

## Ystod

**Mathau gwahanol o 'nam ar y synhwyrau'** – Nam ar y synhwyrau o adeg geni, nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol (nam ar y golwg, colli clyw, nam ar un synnwyr (arogl, blas,

cyffyrddiad, dim synnwyr o boen), nam festibwlar a propriodderbyniol, bod yn ddall ac yn fyddar, nam ar sawl synnwyr, nam ar ddau synnwyr)

---

## Deilliant dysgu:

2. Deall deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau sy'n sail i'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau i unigolion â ‘nam ar y synhwyrau’

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2

2.1 **Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau** penodol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i unigolion â ‘nam ar y synhwyrau’

2.2 Bwriad deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau o ran gwella ansawdd bywyd unigolion â ‘nam ar y synhwyrau’

2.3 Pwysigrwydd helpu gweithwyr i wneud y canlynol:
- hyrwyddo hawliau unigolion
- herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol

2.4 Effaith deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau ar y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau

2.5 **Ystyriaethau** y dylid eu gwneud wrth ddylunio, darparu, adolygu a datblygu gwasanaethau ar gyfer **gwahanol fathau o ‘nam ar y synhwyrau’**

2.6 Sut i sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i fod yn rhan o'r broses asesu a'r **broses gynllunio** cymaint â phosibl

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.7 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau

2.8 Sicrhau bod ystyriaethau ar gyfer gwahanol fathau o ‘nam ar y synhwyrau’ yn cael sylw wrth ddylunio a darparu gwasanaethau

2.9 Monitro a gwerthuso effaith y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu ar ansawdd bywyd unigolion â ‘nam ar y synhwyrau’ a chymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodir gan gynnwys mynediad corfforol ac amgylcheddol

2.10 Arwain a rheoli ymarfer nad yw'n gwahaniaethu sy'n cefnogi canfyddiadau cadarnhaol o unigolion â nam ar y synhwyrau ac agweddau cadarnhaol tuag atynt

## Ystod

**Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau** - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Rhan 1, Rhan 2, Rhan 3, Rhan 4), Addasiadau rhesymol, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

**Ystyriaethau** – Addasiadau rhesymol a dyletswyddau rhagweledol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mynediad corfforol ac amgylcheddol, cymhorthion ac adnoddau, mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth (gan gynnwys ar unwaith), pwysigrwydd peidio â cheisio darparu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli i unigolion heb wneud addasiadau rhesymol a dyletswyddau rhagweledol

**Mathau gwahanol o ‘nam ar y synhwyrau’** – Nam ar y synhwyrau o adeg geni, nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol (nam ar y golwg, colli clyw, nam ar un synnwyr (arogl, blas, cyffyrddiad, dim synnwyr o boen), nam festibwlar a propriodderbyniol, bod yn ddall ac yn fyddar, nam ar sawl synnwyr, nam ar ddau synnwyr)

---

**Proses gynllunio** – pennu nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl cymryd rhan mewn gweithgareddau, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

---

Deilliant dysgu:

3. Defnyddio modelau i hybu cydraddoldeb a chynhwysiant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3

3.1 Rhoi **modelau** ar waith yn ymarferol

3.2 Y ffactorau sy'n dylanwadu ar y modelau a ddewisir ar gyfer darparu gwasanaethau

3.3 Effaith defnyddio modelau gwahanol gydag unigolion â 'nam ar y synhwyrau' a thensiynau a all fodoli rhyngddynt

3.4 Sut y caiff egwyddorion a gwerthoedd model cymdeithasol anabledd eu hyrwyddo yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.5 Arwain ymarfer sy'n sicrhau bod y defnydd o fodelau yn seiliedig ar **egwyddorion a gwerthoedd** iechyd a gofal cymdeithasol

**Ystod**

**Modelau** – Model cymdeithasol anabledd, Model meddygol anabledd, Model bioseicogymdeithasol

**Egwyddorion a gwerthoedd** – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

---

Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i unigolion â nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4

4.1 Sut i helpu gweithwyr i gydnabod y canlynol:
- dangosyddion 'nam ar y synhwyrau'
- sut y gall **amgylchiadau** eraill guddio 'nam ar y synhwyrau'

4.2 Pwysigrwydd sicrhau yr ymdrinnir yn sensitif ag unigolion a all fod yn profi nam ar y synhwyrau

4.3 Sut y rhoddir diagnosis o nam ar y synhwyrau i unigolion

4.4 Y gwahaniaeth rhwng prosesau ardystio (meddygol) a chofrestru (gofal cymdeithasol) ar gyfer nam ar y golwg, amserlenni a buddiannau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Helpu gweithwyr i ystyried effaith bosibl nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol ar y canlynol:
- llesiant emosiynol a chorfforol

- llais a rheolaeth
- dewis
- hyder, hunan-barch ac ymdeimlad o'r hunan
- byw'n annibynnol
- cyflogaeth, hyfforddiant
- cydberthnasau
- rhyngweithio cymdeithasol
- cyfranogiad cymunedol
- y gallu i ryngweithio'n gorfforol ag amgylchedd – boed yn gyfarwydd neu'n anghyfarwydd

4.6 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n gwneud y canlynol:

- cydnabod newidiadau sy'n arwydd o nam ar y synhwyrau
- helpu i ymdrin yn sensitif ag unigolion a all fod yn profi nam ar y synhwyrau a/neu sydd wedi cael diagnosis o nam ar y synhwyrau
- helpu gweithwyr i gydnabod effaith nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol
- helpu gweithwyr i ddefnyddio dull cydgynhyrchiol gydag unigolion er mwyn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddatrys effeithiau a nodir

4.7 Sicrhau y caiff gweithwyr eu helpu i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i **gefnogi unigolion â nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol**

## Ystod

**Amgylchiadau** – Anabledd dysgu, dementia, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, nam corfforol, oedran, iaith, gwadu bod newidiadau'n digwydd

**Cefnogi unigolion â nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol** – cael gafael ar gefnogaeth ac offer arbenigol, meithrin sgiliau newydd, addasu'r amgylchedd, addasu dulliau cyfathrebu, meithrin gwydnwch emosiynol

---

## Deilliant dysgu:

5. Datblygu darpariaeth gwasanaethau i unigolion sy'n ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain diwylliannol Fyddar a Dall

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5

5.1 Sut y gall y gwaith o ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau naill ai gefnogi cynhwysiant neu gyflwyno rhwystrau i unigolion Byddar/byddar

5.2 Sut i helpu gweithwyr i ddeall **Iaith Arwyddion Prydain**

5.3 Adnoddau a gwasanaethau ar gyfer unigolion Byddar/byddar

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.4 Nodi sut y gellir dylunio a datblygu darpariaeth gwasanaethau gynhwysol ar gyfer unigolion Byddar/byddar

5.5 Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i unigolion Byddar/byddar mewn darpariaeth gwasanaethau

## Ystod

**Iaith Arwyddion Prydain** – fel iaith, nid fel dull cyfathrebu

Deilliant dysgu:

6. Deall rôl gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6

6.1 Pam ei bod yn bwysig defnyddio gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith

6.2 Ystyriaethau moesegol mewn perthynas â defnyddio teuluoedd, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol anghofrestredig ym maes cyfathrebu ac iaith

6.3 Sut i helpu gweithwyr i wybod pa rolau a gwasanaethau a gynigir gan y canlynol:

- Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain/Saesneg
- Siaradwyr Gwefusau
- Dehonglwyr ar gyfer pobl F/fyddar a dall
- Cymerwr nodiadau/palanteipydd
- Cyfieithwyr

6.4 Arfer gorau wrth ddefnyddio gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith

6.5 Pwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith wedi'u cofrestru

Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer defnyddio technoleg gynorthwyol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7

7.1 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:

- yr amrywiaeth o gymhorthion a thechnoleg sydd ar gael i bobl â nam ar y synhwyrau, a'u diben
- manteision posibl **technoleg gynorthwyol**
- yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a all helpu pobl i ddefnyddio technoleg gynorthwyol a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt
- prosesau atgyfeirio ar gyfer cefnogi'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol
- pwysigrwydd sicrhau bod technoleg gynorthwyol yn addas i'r unigolyn
- sut i weithio gydag unigolion er mwyn canfod a oes angen gwneud rhagor o addasiadau rhesymol ochr yn ochr â defnyddio technoleg gynorthwyol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer adnabod a defnyddio technoleg gynorthwyol yn effeithiol gydag unigolion

7.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu helpu i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r defnydd o **dechnoleg gynorthwyol** a'u diweddaru'n rheolaidd

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Technoleg**

---

## Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu effeithiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8

8.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall **dulliau cyfathrebu** a **dewis fformatau** ar gyfer **gwahanol fathau o nam ar y synhwyrau**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.2 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:

- canfod pa ddulliau cyfathrebu a fformatau a ffefrir gan unigolion
- rhoi'r dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt ar waith
- gwerthuso dulliau cyfathrebu yn barhaus gydag unigolion
- cael gafael ar gefnogaeth unigol ar gyfer dulliau cyfathrebu

## Ystod

**Dulliau cyfathrebu** – Saesneg â Chymorth Arwyddion, Llefaru Awgrymol, siarad gwefusau, ystumiau Systemau Cyfathrebu â Lluniau (PECS), Makaton

**Dewis fformat –** Braille, print bras, Moon, fideos ag isdeitlau, fideos Iaith Arwyddion Prydain, sain ddisgrifiad, fersiwn sain, e-bost, neges destun, Gwasanaeth Trosglwyddo Fideo

**Mathau gwahanol o 'nam ar y synhwyrau'** – Nam ar y synhwyrau o adeg geni, nam ar y synhwyrau nad yw'n enedigol (nam ar y golwg, colli clyw, nam ar un synnwyr (arogl, blas, cyffyrddiad, dim synnwyr o boen), nam festibwlar a propriodderbyniol, bod yn ddall ac yn fyddar, nam ar sawl synnwyr, nam ar ddau synnwyr)

# Uned 535 Arwain gwaith gydag unigolion sydd â nam ar y synhwyrau

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Technoleg gynorthwyol:** gallai gynnwys

- Mewnblaniadau yn y cochlea
- Ffyn
- Teclynnau clyw
- iPad/meddalwedd arbenigol
- Rhybudd gweledol/clywedol (mae hyn hefyd yn berthnasol i bobl na allant arogleuo, h.y. larwm tân clywedol neu weledol)
- Chwyddaduron/darllenwyr sgrin
- Technoleg gynorthwyol electronig (er enghraifft ffonau symudol, dyfeisiau rheoli byw'n glyfar, ffonau clyfar, setiau teledu clyfar, consolau gemau, cyfrifiaduron a dyfeisiau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol penodol fel larymau personol a larymau gweithgarwch, negeseuon atgoffa ac ysgogi electronig, clociau siarad, cymhorthion cyfathrebu, larymau mwg, larymau teleofal, teclynnau synhwyro cwympo, dyfeisiau GPS, offer monitro iechyd, offer monitro ffitiau)

**Rhwystrau:**

Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r canlynol:

- Sut y gall technoleg **glywedol** greu rhwystrau i unigolion Byddar a byddar ac unigolion sy'n colli clyw
- Sut y gall technoleg **weledol** greu rhwystrau i unigolion â nam ar y golwg

**Amgylchiadau**: Er enghraifft, gall dementia guddio nam ar un o synhwyrau unigolyn oherwydd gall gweithiwr dybio bod yr unigolyn yn colli'r synnwyr o ganlyniad i ddementia yn hytrach na nam.

**Ystyriaethau**

- **Dyletswydd ragweledol**. Mae hyn yn golygu na all darparwr/sefydliad aros nes bod person anabl am ddefnyddio ei wasanaethau. Yn hytrach, rhaid iddo feddwl ymlaen llaw (ac yn barhaus) am yr hyn a allai fod ei angen yn rhesymol ar bobl anabl ag amrywiaeth o namau.
- Y gallu i gael gwybodaeth – mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gall unigolion neu deuluoedd gysylltu â'r darparwr gwasanaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau, nid dros y ffôn yn unig.

**Gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith**

Byddai arfer gorau yn cynnwys:

- Gofyn i unigolyn a oes gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith y byddai'n well ganddo weithio gyda nhw
- Cadarnhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith wedi cofrestru â'r corff rheoleiddio angenrheidiol e.e. Y Gofrestr Genedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Byddar a Dall (NRCPD)

- Edrych i weld a yw gweithwyr proffesiynol ym maes cyfathrebu ac iaith yn gymwysedig gan fod cyfyngiadau ar yr hyn y gall hyfforddeion ei wneud ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Dyrannu cyllid er mwyn i weithwyr cyfathrebu ac iaith weithio gydag unigolion neu eu teuluoedd, yn unol â dyletswyddau rhagweledol

**Sgyrsiau diwylliannol**

Mae hyn yn golygu achosion lle bo gweithiwr yn cymryd rhan mewn sgyrsiau penodol ag unigolion sy'n ddiwylliannol Fyddar - er enghraifft trafod pa wledydd sy'n gwneud yn dda yn y Gemau Olympaidd i Bobl Fyddar neu ba wlad a ddewiswyd i gynnal Cyngres Ffederasiwn Pobl Fyddar y Byd.

Enghreifftiau o Ddigwyddiadau:

- Gŵyl Ffilmiau i Bobl Fyddar
- Gemau Olympaidd i Bobl Fyddar
- Cyngres Ffederasiwn Pobl Fyddar y Byd (bob pedair blynedd)
- Personoliaeth Chwaraeon Byddar y Flwyddyn (DSPY)
- Chwaraeon pobl Fyddar
- Clybiau/tafarndai i bobl Fyddar

Enghreifftiau o faterion gwleidyddol sy'n ymwneud â phobl Fyddar

- Cydnabod Iaith Arwyddion Prydain
- Addysg i bobl Fyddar
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain

Enghreifftiau o faterion hanesyddol sy'n ymwneud â phobl Fyddar

- Milan 1880
- Gorymdeithiau Iaith Arwyddion Prydain
- Y Dywysoges Diana yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (1990)
- Ymgyrch 'Deaf President Now!' (Prifysgol Gallaudet, Washington, UDA)

**Mathau gwahanol o 'nam ar y synhwyrau'**

Yn ogystal â'r prif fathau o nam ar y synhwyrau a restrir yn yr ystod, gellid cynnwys y canlynol hefyd:

- Gwasgedd
- Cosi
- Tymheredd
- Poen
- Syched
- Chwant bwyd
- Cyfeiriad
- Amser
- Tyndra yn y cyhyrau
- Propriodderbyniaeth (y gallu i wybod ble mae rhannau o'ch corff mewn perthynas â rhannau eraill o'r corff)
- Ecwilibriodderbyniaeth (y gallu i gadw eich cydbwysedd a synhwyro symudiad y corff o ran cyflymu a newid cyfeiriad)
- Derbynyddion Ymestynnedd (mae'r rhain i'w cael mewn mannau fel yr ysgyfaint, y bledren, y stumog, y pibellau gwaed a'r llwybr gastroberfeddol)
- Cemodderbynyddion (mae'r rhain yn ysgogi rhan o'r medwla yn yr ymennydd sy'n rhan o'r broses o ganfod cyffuriau a hormonau a gludir yn y gwaed. Maent hefyd yn rhan o'r atgyrch chwydu)

**Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau**

Dylech ystyried

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Cyfraith achosion

**Mynediad corfforol ac amgylcheddol**:

- Cynllun y safle
- Dŵr a man cysur i gi cymorth
- Lliwiau addas ar gyfer nam ar y golwg, gan gynnwys arwyddion
- Systemau intercom/mynediad
- Goleuadau/ffenestri
- Iechyd a diogelwch – symud dodrefn/rhwystrau
- Risg o orddibyniaeth ar y ffôn i rannu data. Derbyn bod negeseuon testun a/neu e-bost hefyd yn addas

**Dewis derminoleg**

Gall dewisiadau person o ran y derminoleg a ddefnyddir newid dros amser, yn enwedig os oes angen amser arno i dderbyn y newidiadau i'w fywyd ac addasu iddynt.

**Gallai'r gefnogaeth a'r offer arbenigol gynnwys:**

- Gwasanaethau Cymdeithasol (gan gynnwys technoleg gynorthwyol a gomisiynwyd gan daliadau uniongyrchol)
- Awdioleg
- Eiriolaeth
- Cefnogaeth deuluol (nam ar y golwg neu'r clyw)

Swyddogion Adsefydlu/Swyddogion Cymhwyso ar gyfer:

- Hyfforddiant ar sgiliau bywyd beunyddiol
- Hyfforddiant symudedd (hyfforddiant i dywysyddion sy'n gweld, hyfforddiant ffon hir)
- Sgiliau cyfathrebu (addysgu Braille/Mood, TG)
- Archwiliadau mynediad
- Cefnogaeth a hyfforddiant emosiynol.
- Ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch (gadael bagiau yn llwybr pobl ac ati)

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDSS11** Cefnogi sgiliau byw'n annibynnol pobl Fyddar a dall
- **SCDSS1** Datblygu eich ymarfer proffesiynol eich hun a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â nam ar y golwg

- **SCDSS2** Datblygu eich ymarfer proffesiynol eich hun a chodi ymwybyddiaeth o nam ar y clyw, materion sy'n ymwneud â phobl Fyddar ac anghenion cyfathrebu diwylliannol
- **SCDSS3** Datblygu eich ymarfer proffesiynol eich hun a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â phobl Fyddar a dall

## Deddfwriaeth *a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Cymru 2016, Deddf Galluedd Meddyliol (2005), Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010

## *Adnoddau*

- Action on Hearing Loss Cymru
- **https://www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/wales.aspx**
- Action on Hearing Loss Cymru, RNIB Cymru a Sense Cymru – *Population Needs Assessments – Sensory Loss* https://www.sense.org.uk/sites/default/files/Population%20Needs%20Assessments%20-%20Sensory%20Loss.docx
- ADASS (2016) *Position statement on vision rehabilitation* http://www.vision2020uk.org.uk/adass-updates-position-statement-on-vision-rehabilitation-in-collaboration-with-vision-2020-uk-and-rnib/
- Undeb Cenedlaethol y Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain **https://nubsli.com/guidance/interpreter-awareness-guide/**
- Prifysgol Caerdydd (2016) *Depression* in Visual Impairment Trial (DEPVIT) https://orca.cf.ac.uk/93372/10/i1552-5783-57-10-4247%20%281%29.pdf
- Llywodraeth Cymru (2017) Iechyd Synhwyraidd: Ystadegau Gofal Llygaid a Chlyw **http://gov.wales/statistics-and-research/eye-care/?lang=cy**
- RNIB Cymru **https://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1**
- Adnodd Data Colli Golwg RNIB **http://www.rnib.org.uk/knowledge-and-research-hub-key-information-and-statistics/sight-loss-data-tool**
- RNIB (2016) *10 Principles of Good Practice in Vision Rehabilitation* **http://www.rnib.org.uk/professionals-social-care-professionals-complex-needs-social-care/rehabilitation-workers**
- *People with sight loss in later life-* 2015http://www.rnib.org.uk/sites/default/files/Evidence-based%20review%20later%20life%20FINAL.pdf
- Sense Cymru
- **https://www.sense.org.uk/publications-categories/sense-cymru**
- Sense – *Regional Data of Future Deafblind Population* https://www.sense.org.uk/content/regional-data-future-deafblind-population

- Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru – Gweithio gyda Phobl Fyddar a Dall (adnodd a ddatblygwyd gan SENSE Cymru) **https://socialcare.wales/hub/hub-resource-sub-categories/working-with-deafblind-people**

- Llywodraeth Cymru – Gwasanaeth Gofal Llygaid ar gyfer Disgyblion Ysgol yng Nghymru ar gyfer CLlLC, Action on Hearing Loss Cymru, RNIB Cymru a Sense Cymru (2012) *Sensory Loss in the adult population in Wales 2012* http://www.wlga.gov.uk/equalities-publications/wlga-publication-sensory-loss-in-the-adult-population-in-wales
- Scie.org.uk Urddas mewn gofal/rheoli poen
- Safonau Cymru Gyfan:**http://www.equalityhumanrights.wales.nhs.uk/all-wales-standards-for-accessible-commu**
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
    - **https://bda.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/BDA_EDDJ_Report_On_Access_to_Health_Services_2014.pdf**
    - **https://bda.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/AccessLocalHealthBoards_FINAL.pdf**
    - **https://bda.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/BDA_Access_to_local_services_in_Newport_and_Monmouthshire_for_Deaf_and_hard_of_hearing_people_12-2014.pdf**
    - **https://bda.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/BDA_EDDJ_Report_On_Council_Services_2014.pdf**
    - **https://bda.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/BDA_BSL_Charter-Ver-3-January-2014-1.pdf**
- *Making the Law Work for Deaf people* - https://www.lawcentres.org.uk/policy-and-media/papers-and-publications/law-centre-publications

# Uned 536 Arwain a rheoli gwaith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 19 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned hon yn helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith gydag unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n ymgorffori deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau cenedlaethol penodol sy'n sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i gefnogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys teuluoedd/gofalwyr

1.2 Ethos ac egwyddorion gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

1.3 Sut i sicrhau bod gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn adlewyrchu tueddiadau a datblygiadau presennol ym maes camddefnyddio sylweddau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

1.5 Helpu gweithwyr i ddeall:

- **deddfwriaeth**, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau penodol sy'n sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol
- y mathau o sylweddau y gall unigolion eu defnyddio
- dosbarthiadau clinigol sylweddau
- ystyr y term 'camddefnyddio sylweddau'
- categorïau gwahanol o gamddefnyddio sylweddau
- pwysigrwydd diweddaru gwybodaeth ac ymarfer er mwyn adlewyrchu'r tueddiadau a'r datblygiadau presennol ym maes camddefnyddio sylweddau

1.6 Helpu gweithwyr i gynnal ethos ac egwyddorion gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

1.7 Ystyried deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau penodol wrth ddylunio, darparu, adolygu a datblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

1.8 Sicrhau bod unigolion yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio, adolygu a datblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

1.9 Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau a chanllawiau mewnol sy'n llywio'r broses o ddylunio a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
1.10 Gwerthuso'n feirniadol effaith deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a safonau ar ansawdd bywyd unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau

### Ystod

**Deddfwriaeth** – Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1973, Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007, Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig, Amddiffyn a Diogelu Rhyddid (LiPS), Rheoliadau Ail-lenwi Tanwyr Sigaréts (Diogelwch) 1999

---

### Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli'r broses gynllunio ar gyfer unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Yr amrywiaeth o asiantaethau, gweithwyr proffesiynol, rhwydweithiau cefnogaeth ac adnoddau a all gefnogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau
2.2 **Prosesau** y mae angen eu rhoi ar waith ar gyfer cael ac adolygu atgyfeiriadau
2.3 Eich rôl eich hun a rôl pobl eraill yn y **broses gynllunio** gydag unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer cael ac adolygu atgyfeiriadau
2.5 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso **cynlluniau** gydag unigolion sy'n ystyried y canlynol:
- natur y camddefnyddio sylweddau
- unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
- eu hunigoliaeth a'u hoff ddewisiadau
- dulliau hunanwella

2.6 Arwain a rheoli dulliau cynllunio sy'n seiliedig ar egwyddorion dinasyddiaeth, cydgynhyrchu, gwaith cynllunio person-ganolog a dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau
2.7 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:
- cyfrannu at y broses gynllunio yn unol â'r safonau disgwyliedig
- ymdrin â gwrthdaro rhwng safbwyntiau a dewisiadau unigolion a theuluoedd/gofalwyr

2.8 Datblygu a sefydlu protocolau ar gyfer cael a chadarnhau cydsyniad gan unigolion ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r canlynol:
- asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill
- teuluoedd/gofalwyr

2.9 Mynd ati i gynnwys asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a rhwydweithiau cefnogaeth perthnasol yn y broses gynllunio

### Ystod

**Prosesau** – priodoldeb atgyfeirio, cymysgedd sgiliau'r gweithlu, gallu ac adnoddau'r gwasanaeth, anghenion cefnogaeth arbenigol, cefnogaeth amlasiantaethol
**Proses gynllunio** - nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; triniaeth a monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cynlluniau –** gofal a chefnogaeth, cynllun personol, asesiadau risg, cynlluniau triniaeth

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain, rheoli a hybu gwasanaethau sy'n cefnogi dulliau moesegol sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n berson-ganolog gydag unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau.

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- y canlyniadau gwahanol y gellir eu cael drwy ganolbwyntio ar gryfderau a dyheadau unigolyn yn hytrach na'i anghenion yn unig
- sut i helpu gweithwyr i herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau
- gwahanol fathau o eiriolaeth a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi hawliau unigolion
- y defnydd o asesiadau risg/cynlluniau diogelwch er mwyn galluogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau i wella
- pwysigrwydd y Canlyniadau Llesiant Cenedlaethol i ansawdd bywyd unigolion
- sut y gall rhywedd, ethnigrwydd ac amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol effeithio ar unigolion a'r gefnogaeth a gânt

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo **egwyddorion** dull gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau, sy'n berson-ganolog ac sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:

- cael llais, dewis a rheolaeth yn y broses o wneud penderfyniadau
- defnyddio eu dewis iaith gan ddefnyddio dehonglwyr a chyfieithwyr lle bo angen
- cael gafael ar gymorth erioli
- cymryd rhan mewn amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon sy'n hybu annibyniaeth a gwellhad
- cynnal a meithrin cydberthnasau cadarnhaol
- byw bywydau llawn a gwerthfawr
- meithrin gwydnwch
- rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u lles

3.3 Arwain ymarfer sy'n gwneud y canlynol:

- hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau ac agweddau cadarnhaol tuag atynt
- herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau
- helpu gweithwyr i herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau

3.4 Hybu presenoldeb cadarnhaol gyda **phartneriaid** gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol i godi ymwybyddiaeth a'u cynnal

3.5 Hyrwyddo gwerth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Egwyddorion** – llais a rheolaeth; atal ac ymyrryd yn gynnar; llesiant; cydweithio/gwaith amlasiantaethol.

**Partneriaid** – y trydydd sector/y sector gwirfoddol; statudol gan gynnwys gwasanaethau tai a digartrefedd; y sector preifat/annibynnol; yr heddlu; y gwasanaeth prawf; timau troseddau ieuenctid; gwasanaeth ieuenctid; rhaglenni cyflogaeth; ysgolion a cholegau

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i unigolion ac eraill yn dilyn sefyllfaoedd heriol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- yr amrywiaeth o **sefyllfaoedd heriol a all godi wrth ddarparu gwasanaethau**
- yr amrywiaeth o **sefyllfaoedd a all fod yn heriol i weithwyr**

4.2 Sut i ddatblygu amgylchedd sy'n lleihau'r risg o sefyllfaoedd heriol cymaint â phosibl

4.3 Sut i gydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau wrth weithio gydag unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau mewn grŵp a/neu wrth weithio ar eich pen eich hun

4.4 Sut y gall dynameg pŵer effeithio ar gydberthnasau a chyfrannu at sefyllfaoedd heriol

4.5 Camau gweithredu i'w cymryd os ceir sefyllfa heriol

4.6 Yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi gweithwyr os ceir sefyllfaoedd heriol

4.7 Sut mae ymddygiad a lefelau straen gweithwyr yn effeithio ar y tîm, ar yr unigolyn ac ar deuluoedd/gofalwyr

4.8 Sut i feithrin eich gwydnwch eich hunan a gwydnwch gweithwyr

4.9 Pwysigrwydd cofnodi digwyddiadau sy'n rhan o sefyllfaoedd heriol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.10 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:
- nodi'r hyn a all ysgogi sefyllfaoedd heriol
- meithrin y sgiliau a'r adnoddau i ymateb yn briodol i sefyllfaoedd heriol
- cynnal asesiadau risg amgylcheddol a dynamig fel rhan o'u hymarfer beunyddiol
- cydbwyso risg, hawliau a chyfrifoldebau
- myfyrio ar deimlo'n agored i niwed neu'n anghyfforddus wrth ddarparu gwasanaethau
- cadw eu hunain yn ddiogel
- defnyddio technegau isgyfeirio i reoli sefyllfaoedd heriol
- codi pryderon ynglŷn â sefyllfaoedd sy'n herio
- cael gafael ar gefnogaeth ychwanegol pan fo angen

4.11 Meithrin eich gwydnwch eich hun a gwydnwch gweithwyr

4.12 Arwain a rheoli **ymarfer ar ôl digwyddiad** ar gyfer gweithwyr, unigolion ac eraill

4.13 Sicrhau y caiff pob digwyddiad sy'n rhan o sefyllfaoedd heriol eu cofnodi, ac y rhoddir gwybod amdanynt, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

### Ystod

**Sefyllfaoedd heriol a all godi wrth ddarparu gwasanaethau** – hunan-niwed sylweddol; hunanladdoldeb; hunanesgeulustod sylweddol; Effeithiau diddyfnu, gorddos, anafiadau gan nodwyddau; seicosis a achosir gan gyffuriau; ymddygiad ymosodol, amhriodol neu dreisgar;
**Sefyllfaoedd a all fod yn heriol i weithwyr** – sbardunau personol; trawma; marwolaeth unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau; datgeliad; methiant cynlluniau cefnogaeth.
**Ymarfer ar ôl digwyddiad -** Cefnogaeth ôl ddigwyddiad (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - sylw at les corfforol ac emosiynol yr unigolyn ac eraill a oedd yn rhan o'r digwyddiad, rhoddir cefnogaeth bersonol ac emosiynol ar unwaith ac yn y tymor hwy os bydd ei hangen. Adolygiad ar ôl y digwyddiad - er mwyn dysgu o'r digwyddiad a myfyrio ar ymarfer, cynhelir hyn ar wahân i'r gefnogaeth ar ôl digwyddiad, nid yw'n ddefnyddiol gofyn i rywun gofio digwyddiad pan fyddant mewn cyflwr gofidus o hyd, a gall achosi trawma

## Uned 536 Arwain a rheoli gwaith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Eiriolaeth** – Gall fod angen i rai unigolion gael cefnogaeth gan eiriolwr i gynrychioli eu barn. Lle bo modd, dylid gweithio gyda'r unigolyn i benderfynu ar y dull gorau o weithredu gan fod gwahanol fathau o eiriolaeth.
Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gwasanaethau eirioli fel 'gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bersonau at ddibenion sy'n ymwneud â'u gofal a chymorth'. Mae eiriolaeth yn helpu ac yn galluogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd cynrychioli eu diddordebau i arfer eu hawliau, mynegi eu barn, ystyried a gwneud dewisiadau hyddysg a gallai gynnwys:

- Hunaneiriolaeth
- Eiriolaeth anffurfiol
- Eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol

- Eiriolaeth galluedd meddyliol annibynnol
- Cydeiriolaeth
- Eiriolaeth cymheiriaid
- Eiriolaeth dinasyddion
- Eiriolaeth gwirfoddolwyr annibynnol
- Eiriolaeth ffurfiol
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol

Gallai'r **rhwystrau** gynnwys: cymhelliant yr unigolyn, lefelau'r sylweddau a ddefnyddir, galluedd meddyliol, iechyd meddwl gan gynnwys straen, gorbryder, symudedd, iechyd corfforol, amharodrwydd i newid, ymdrechion blaenorol i newid yn aflwyddiannus, prinder cyfleusterau i gynorthwyo gwellhad, rhwydweithiau cymdeithasol a allai atal newid gan gynnwys dylanwadau teuluol, sefyllfa ariannol

Gallai **bywyd llawn a gwerthfawr** gynnwys:

- Dewis a rheolaeth dros fanylion bach dyddiol a materion pwysig mewn bywyd
- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth
- Lles cymdeithasol ac economaidd
- Ymgysylltu a chymryd rhan mewn **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon**
- Gofal iechyd corfforol a meddyliol
- Mynediad at ofal iechyd sylfaenol ac arbenigol
- Bod yn rhiant
- Perthnasoedd rhywiol
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- Cefnogaeth ar gyfer cysylltiadau ac arferion sy'n gysylltiedig â ffydd a diwylliant
- Tai a llety
- Cynhwysiant cymdeithasol a chysylltiadau cymunedol
- Cydberthnasau a chyfeillgarwch

**Dehonglwyr a chyfieithwyr:** iaith gyntaf; iaith arwyddion; deunyddiau ysgrifenedig.

Mae'r **adolygiad ar ôl digwyddiad** yn cynnwys:

- Myfyrio ar y ffordd roedd yn teimlo cyn y digwyddiad ac yn union cyn y digwyddiad; yr ymddygiad ei hun, canlyniadau'r ymddygiad a sut roedd yn teimlo wedyn
- Beth fyddai wedi ei helpu i sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol
- Cefnogaeth emosiynol
- Myfyrdod personol
- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo
- Hyfforddiant ychwanegol
- Newidiadau i gynlluniau ar gyfer cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol

**Cymorth ar ôl Digwyddiad** (y cyfeirir ato weithiau fel dadfriffio) - Sut y dylid cefnogi gweithwyr unigol, gofalwyr ac eraill sy'n rhan o'r broses ar ôl digwyddiad lle ceir ymddygiad heriol, ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Help i ymdawelu
- Cefnogaeth emosiynol
- Cymorth cyntaf os oes ei angen
- Amser i ffwrdd
- Amser tawel

- Cyfleoedd i fynegi sut mae'n teimlo

**Amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** – mae hyn yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971
- Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 1973
- Rheoliadau Ail-lenwi Tanwyr Sigaréts (Diogelwch) 1999.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016,
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig

# Uned 537 Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 11 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Diben yr uned hon yw asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r dysgwr mewn perthynas ag arwain a rheoli gwasanaeth sy'n darparu gofal diwedd oes. Bydd y dysgwr yn dadansoddi amrywiaeth o adnoddau a damcaniaethau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer unigolion mewn perthynas â gwasanaethau diwedd oes ac yn helpu staff ac eraill i ddarparu gwasanaethau rhagorol i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. |

## Deilliant dysgu:

1. Effaith deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau ar wasanaethau gofal diwedd oes yng Nghymru

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i helpu pobl eraill i ddeall effaith deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer ar ansawdd bywyd unigolion mewn gwasanaethau gofal diwedd oes

1.2 Y materion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar ddiwedd oes, ac effaith y materion hyn ar yr unigolyn a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli

1.3 Effaith y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar ofal diwedd oes

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Rhoi polisi deddfwriaeth presennol ar waith mewn perthynas â gofal diwedd oes er mwyn datblygu gwasanaethau gofal diwedd oes

1.5 Rhoi canllawiau polisi lleol a chenedlaethol ar waith ar gyfer gofal diwedd oes yn y lleoliad rydych yn gweithio ynddo

1.6 Myfyrio ar y ffordd y gall eich gwasanaeth ymgorffori canlyniadau ymchwil genedlaethol sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth mewn arferion yn y gweithle

## Deilliant dysgu:

2. Y theori ac ymarfer presennol sy'n sail i ofal diwedd oes

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2

2.1 Sut i helpu eraill i ddysgu effaith galar, colled a phrofedigaeth

2.2 Sut i helpu eraill i ddeall yr Adnodd Cymru Gyfan presennol ar gyfer gofal diwedd oes a all gefnogi'r unigolyn ac eraill
2.3 Y materion moesegol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ar ddiwedd oes, ac effaith y materion hyn ar yr unigolyn a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
2.4 Defnyddio'r Adnodd Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Diwedd Oes
2.5 Arwain a rheoli eraill sy'n defnyddio'r Adnodd Cymru Gyfan presennol ar gyfer Gofal Diwedd Oes

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli gwasanaethau gofal diwedd oes effeithiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
3
3.1 Rhinweddau arweinydd effeithiol mewn gofal diwedd oes
3.2 Rôl bosibl eiriolwyr mewn gofal diwedd oes

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
3.3 Arwain a rheoli'r defnydd o gyfathrebu effeithiol i gefnogi unigolion ar ddiwedd eu hoes ac eraill o fewn eich gwasanaeth
3.4 Rheoli taith gofal lliniarol unigolyn yn unol â'i ddymuniadau a'i ddewisiadau
3.5 Sicrhau darpariaeth **gofal ar ôl marwolaeth** effeithiol a'i rhoi ar waith
3.6 Rheoli eich teimladau a'ch emosiynau eich hun mewn perthynas â gofal diwedd oes

**Ystod**
**Gofal ar ôl marwolaeth** – cefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr, cefnogaeth i staff, hwyluso trefniadau, asiantaethau allanol

---

## Deilliant dysgu:

4. Sefydlu a chynnal cydberthnasau allweddol er mwyn arwain a rheoli gofal diwedd oes

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4
4.1 Rhoi strategaethau gwneud penderfyniadau ar y cyd ar waith wrth weithio gydag unigolion ar ddiwedd eu hoes ac eraill
4.2 Dadansoddi elfennau tîm amlddisgyblaethol sy'n cefnogi Gofal Diwedd Oes yn eich lleoliad
4.3 Sut i ddadansoddi'r defnydd o waith mewn partneriaeth i asesu effaith canlyniadau cadarnhaol i unigolion
4.4 Goresgyn unrhyw rwystrau rhag gweithio mewn partneriaeth
4.5 Dangos pryd i atgyfeirio am gyngor arbenigol

4.6 Dadansoddi'r defnydd o waith mewn partneriaeth i asesu ei effaith ar hybu canlyniadau cadarnhaol i unigolion wrth ddarparu'r gwasanaeth

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli staff ac eraill wrth ddarparu gwasanaeth gofal diwedd oes rhagorol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5

5.1 Pwysigrwydd goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol i gefnogi staff a gwirfoddolwyr sy'n darparu gofal diwedd oes

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer cefnogi gweithwyr ac eraill i wneud y canlynol:

5.3 Adnabod pryd y gallai rhywun fod yn marw

5.4 Defnyddio amrywiaeth o adnoddau fel y bo'n briodol i reoli eich teimladau eich hun wrth weithio ym maes gofal diwedd oes

5.5 Paratoi teuluoedd a ffrindiau ar gyfer marwolaeth yr unigolyn

5.6 Adnabod achosion pan fo galluedd meddyliol wedi lleihau a bod angen penderfyniadau budd pennaf

5.7 Achub ar gyfleoedd dysgu a datblygu priodol i baratoi staff a phobl eraill rydych yn gyfrifol amdanynt

5.8 Rhoi strategaethau ar waith i rymuso staff sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gofal diwedd oes er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i unigolion ac eraill

5.9 Rhoi adborth i staff ar eu harferion mewn perthynas â gofal diwedd oes

---

## Deilliant dysgu:

6. Gwella ansawdd y gwasanaeth gofal diwedd oes yn barhaus

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6

6.1 Sut y gall ymarfer myfyriol wella ansawdd gofal diwedd oes

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n gwneud y canlynol:

6.3 Defnyddio canlyniadau ymarfer myfyriol i wella agweddau ar y gwasanaeth gofal diwedd oes

6.4 Defnyddio amrywiaeth o adnoddau ar gyfer gofal diwedd oes er mwyn mesur safonau drwy waith archwilio a dadansoddi ar ôl marwolaeth

## Uned 537 Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes

# Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Gellir cael yr adnoddau dysgu ar gyfer yr uned hon gan y Tîm Gofal Lliniarol lleol
Dylent gynnwys ymatebion i Achosion Brys ym maes Gofal Lliniarol. Dylid eu cyflwyno mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar bum egwyddor Gofal Diwedd Oes a amlinellir gan *One Chance to Get it Right* ac Adnodd Penderfyniadau Gofal Cymru Gyfan ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

1. Adnabod bod unigolyn yn marw
2. Cyfathrebu'n effeithiol
3. Penderfyniadau blaengynllunio gofal
4. Anghenion teulu/gofalwyr
5. Asesu trefniadau rheoli symptomau – corfforol, seicolegol, cymdeithasol, ysbrydol ac ati

**Gwasanaethau gofal diwedd oes** – gallant gynnwys y gwasanaethau hynny a ddarperir ar adeg diagnosis, yn ystod y driniaeth neu'r gofal lliniarol, gan gynnwys y cyfnod marw, neu ar ôl marwolaeth

**Unigolyn** – y sawl sy'n cael cefnogaeth neu ofal yn y lleoliad gwaith

Gall **eraill** gynnwys:

- staff gofal neu gefnogaeth
- cydweithiwr
- rheolwr
- staff gofal neu gefnogaeth anuniongyrchol
- gofalwyr
- teuluoedd
- ymwelwyr
- gwirfoddolwyr
- gweithwyr iechyd proffesiynol
- sefydliadau eraill
- gweithiwr cymdeithasol
- therapydd galwedigaethol
- meddyg teulu
- therapydd lleferydd ac iaith
- ffisiotherapydd
- fferyllydd
- nyrs
- Nyrs gofal lliniarol arbenigol amlddisgyblaethol
- eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol
- arbenigwyr nyrsio clinigol.
- Timau'r Trydydd Sector
- Gwasanaethau Statudol

Mae **'cyfathrebu'n effeithiol'** yn cyfeirio at y systemau, prosesau a gweithdrefnau a ddefnyddir i'ch helpu chi eich hun i gyfathrebu, yn ogystal â helpu gweithwyr ac eraill i gyfathrebu, sy'n adlewyrchu natur sensitif Gofal Diwedd Oes

**Adnodd ar gyfer gofal diwedd oes**

- Adnodd Penderfyniadau Gofal Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Diwedd Oes
- Dewis flaenoriaethau gofal
- Dulliau blaengynllunio gofal

Gall **amrywiaeth o adnoddau** gynnwys:

- dadfriffio
- mentora
- goruchwylio
- gwasanaethau cwnsela

**Galluedd meddyliol** – gallu gwybyddol unigolyn i wneud penderfyniadau a all arwain at ganlyniadau cyfreithiol iddo ef ei hun a/neu i bobl eraill y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt. Yn benodol, mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â'u gofal iechyd, eu lles a'u materion ariannol. Rhaid cwblhau asesiad i ganfod galluedd meddyliol

## *SGC cysylltiedig*

- **EOL 501** Arwain a rheoli gwasanaethau gofal
- **EOL 201** Deall Sut i Weithio mewn Gofal Diwedd Oes
- **SCDHSC0385** Cefnogi unigolion ar ddiwedd eu hoes
- **SCDHSC0384** Cefnogi unigolion drwy brofedigaeth
- **SCDHSC0239** Cyfrannu at ofal person marw
- **SCDHSC0224** Monitro cyflwr unigolion
- **SCDHSC0216** Helpu i fynd i'r afael ag anghenion cysur corfforol unigolion
- **T/601/9495** Y gefnogaeth sydd ar gael ar ddiwedd oes

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Galluedd Meddyliol 2005
- Dying Matters: http://www.dyingmatters.org/page/legal-and-ethical-issues
- Kübler-Ross: 5 Stages of Grief Model (1969)
- Worden (1989) 4 tasks of Mourning
- Stroebe a Schute (1999). Dual Process Model of Grief
- http://www.nhs.uk/conditions/Euthanasiaandassistedsuicide/Pages/Introduction.aspx
- Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes 2017 dolen i'r wefan
- Safonau Gofal Lliniarol Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym Maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol
- End of Life Care – Core skills Education and Training Framework: Skills for Health ; Skills for Care; NHS Health Education England 2017 dolen i'r wefan
- The best practice guide to end-of-life care for people with a learning disability http://www.mencap.org.uk
- Advance Care Planning.org
- Law yn Llaw at Iechyd (2013 a diweddariad 2017)
- NICE: Diwedd Oes

# Uned 538 Arwain a rheoli maes clinigol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 30 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i reoli ac arwain maes clinigol. Yng nghyd-destun yr uned hon byddai hyn yn cynnwys Nyrsys Ardal a gwasanaethau cymunedol eraill y GIG. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol penodol, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol i feysydd clinigol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

1.1 **Gofynion penodol** ar gyfer meysydd clinigol

1.2 **Fframweithiau deddfwriaethol,** polisïau Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gefnogi unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr a'u heffaith ar y canlynol:
- bywyd llawn a gwerthfawr
- hawliau
- cydraddoldeb
- llais a rheolaeth
- lles
- cydgynhyrchu
- cynhwysiant a chyfranogiad
- dewisiadau bywyd
- cyfleoedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol/beth sy'n bwysig

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.3 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodol ar gyfer meysydd clinigol

1.4 Defnyddio gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol i lywio a datblygu ymarfer

1.5 Cefnogi gweithwyr i ddeall sut y gall y Ddeddf Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol effeithio ar ryddid rhai unigolion gan gynnwys:
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd gorau
- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

1.6 Sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli

1.7 Sicrhau bod arwyddocâd treftadaeth a diwylliant unigolyn yn cael ei gydnabod

**Ystod**

**Gofynion penodol:** Safonau Gofal Iechyd (2015), Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2018),

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2019)

Deddf Iechyd Meddwl (2007), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) gan gynnwys Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Safonau Proffesiynol,

**Fframweithiau deddfwriaethol:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n ymgorffori gwerthoedd sefydliadol yn y maes clinigol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

2.1 Gwerthoedd y sefydliad a'r ffordd y maent yn gysylltiedig â llesiant staff.

2.2 Pwysigrwydd Arweinyddiaeth Dosturiol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.3 Adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol

2.4 Arwain mewn ffordd dosturiol

2.5 Hyfforddi staff yn eich tîm mewn ffordd gadarnhaol

2.6 Galluogi staff i roi gwerthoedd a ffyrdd o ymddwyn y sefydliad ar waith

2.7 Galluogi staff i fynegi pryderon o fewn diwylliant "di-fai"

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli cefnogaeth barhaus er mwyn diwallu anghenion gofal corfforol unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- anghenion gofal corfforol unigolion
- buddiannau posibl adsefydlu ac ailalluogi cefnogaeth barhaus
- pwysigrwydd dechrau / parhau'r broses adsefydlu yn y maes clinigol
- pwysigrwydd cynnwys teuluoedd/gofalwyr yn y broses adsefydlu
- pwysigrwydd defnyddio dull seiliedig ar gryfderau er mwyn meithrin sgiliau, hyder a hunan-barch
- cysyniad **'diymadferthwch dysgedig'** a'r angen i gynnal cymhelliant a dathlu llwyddiannau unigol
- pwysigrwydd cydberthnasau, rhwydweithiau a chymunedau wrth gefnogi iechyd a llesiant unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol:
- sicrhau bod anghenion gofal corfforol yn cael eu diwallu
- ymgorffori dull gweithredu galluogi ac ailalluogi
- cynorthwyo unigolion i gymryd cymaint o gyfrifoldeb â phosibl am y defnydd o'u sgiliau presennol; ailennill sgiliau blaenorol; meithrin sgiliau newydd

**Ystod**

**Diymadferthwch dysgedig** - i gynnwys effaith ar wydnwch ac ymreolaeth

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion mewn modd cyfannol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Pwysigrwydd dechrau cynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion o'r adeg y derbynnir unigolyn i'r maes clinigol
4.2 Rôl y tîm amlddisgyblaethol wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion
4.3 Dull rheoli achos y tîm amlddisgyblaethol o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion
4.4 Goblygiadau dull gwael o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion o ran:
- **Hyd yr Arhosiad**
- aildderbyn
- oedi o ran cludiant
- newid a throsglwyddo i unigolion
- llesiant unigolion

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Arwain a rheoli'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer rhyddhau unigolion cyfannol ar y cyd â'r unigolyn / teuluoedd / gofalwyr er mwyn cytuno ar ganlyniadau cadarnhaol
4.6 Arwain a rheoli'r gwaith o gwblhau asesiadau o angen ar y cyd â'r unigolyn / teuluoedd / gofalwyr
4.7 Arwain a rheoli'r gwaith o ryddhau unigolion yn ddiogel, gan sicrhau bod pob atgyfeiriad a phenderfyniad yn cael ei rannu â'r rhai sy'n gyfrifol am ofal unigolyn ar ôl ei ryddhau mewn modd amserol.
4.8 Arwain a rheoli arferion a gweithdrefnau sy'n cefnogi trosglwyddiadau llyfn rhwng gwahanol dimau, lleoliadau a gwasanaethau

**Ystod**

**Hyd yr Arhosiad** - Ystyriaethau cyllido (asesiadau CHC/FNC), atgyfeiriadau cynnar i wasanaethau yn y gymuned

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli gofal y claf sy'n gwaethygu

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

5.1 Rolau a chyfrifoldebau pob gweithiwr o ran cydnabod y claf sy'n gwaethygu
5.2 Eich rôl chi a rôl y tîm ehangach o ran penderfyniadau Peidiwch â Dadebru
5.3 Pwysigrwydd parchu Penderfyniadau Blaengynllunio Gofal unigolyn

5.4 Eich rôl wrth reoli gwrthdaro ag unigolion / teuluoedd a'r angen i weithredu fel eiriolwr ar ran yr unigolyn.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.5 Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf er mwyn ymateb i:
- sepsis
- dadebru
- Penderfyniadau Blaengynllunio Gofal

5.6 Arwain a rheoli ymateb i'r claf sy'n gwaethygu

5.7 Arwain a rheoli'r maes clinigol fel bod dewisiadau Blaengynllunio unigolyn yn cael eu parchu

5.8 Cefnogi teuluoedd / gofalwyr i ddeall a pharchu penderfyniad yr unigolyn

5.9 Sicrhau bod anghenion emosiynol teuluoedd/gofalwyr yn cael eu cydnabod a bod cefnogaeth ar gael

5.10 Cefnogi staff i ddeall a pharchu penderfyniad yr unigolyn

---

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli ymwybyddiaeth o gwympiadau a'u hatal yn y maes clinigol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

6.1 Y broses o **asesu cwympiadau**

6.2 Yr angen i gydbwyso risg ag angen unigolyn i fod yn annibynnol/i symud

6.3 Camau i'w cymryd os bydd claf yn cwympo

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo'r asesiad parhaus o'r canlynol:
- yr amgylchedd clinigol
- risg unigolyn o gwympo

6.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** os bydd unigolyn yn cwympo

6.6 Arwain a rheoli staff i ddilyn y broses o asesu cwympiadau

6.7 Arwain a rheoli staff i archwilio cwympiadau yn eich maes clinigol

6.8 Arwain a rheoli'r gwaith o adolygu a gweithredu argymhellion archwilio cwympiadau

6.9 Sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael yr hyfforddiant asesu cwympiadau ac ymwybyddiaeth o gwympiadau diweddaraf

6.10 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** o fewn cyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol, gan gynnwys unrhyw driniaeth / camau gweithredu sydd eu hangen, hysbysu'r teulu/gofalwyr, a chofnodi a rhoi gwybod am gwympiadau mewn modd amserol

**Ystod**

**Asesu cwympiadau** - i gynnwys atal cwympiadau, asesu ffactorau risg yr unigolyn a'r amgylchedd

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith -** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli llwyth gwaith ac adnoddau'r maes clinigol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

7.1 Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd
7.2 Dyrannu amser a chyfleoedd datblygu i bob aelod o'r staff yn deg
7.3 Y broses o ddirprwyo ar draws a rhwng y tîm clinigol
7.4 Sut mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig
7.5 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith ar staff i gynnwys:

- diwallu anghenion gofal corfforol unigolion
- iechyd a llesiant staff
- diwylliant di-fai mewn perthynas â chamgymeriadau
- dysgu o gamgymeriadau, cwynion, a chanmoliaeth
- polisi prydau bwyd a hydradu
- gofynion y gyfarwyddeb oriau gwaith

7.6 Sut a ble i uwchgyfeirio pryderon ynghylch **adnoddau** annigonol o ran llwyth gwaith

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.7 Arwain a rheoli'r tîm i sicrhau bod lefelau staffio yn adlewyrchu'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar y maes clinigol
7.8 Arwain a rheoli'r tîm i ddiwallu anghenion gofal corfforol unigolion fel y'u rhagnodir yn eu cynlluniau gofal
7.9 Arwain a rheoli'r defnydd o adnoddau craffter llwyth gwaith cyfredol

**Ystod**

**Adnoddau** - yn cynnwys staff

## Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi'r gwaith o edrych ar iechyd unigolion mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda dementia

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol a all lywio cefnogaeth i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n byw gyda dementia
8.2 Sut i gefnogi eraill i ddeall y canlynol:

- cyffredinrwydd a demograffeg dementia ar draws grwpiau oedran gwahanol
- mathau o ddementia, eu hachosion posibl a'r amrywiaeth o wahanol effeithiau sy'n gysylltiedig â phrognosis unigolyn, ei alluoedd a'i iechyd a'i les cyffredinol
- gwahaniaethau a phethau tebyg rhwng y prif fathau o ddementia a brofir yng Nghymru
- nam ar y cof a'i effaith ar ddementia
- symptomau seicotig cyffredin sydd weithiau'n ymddangos o ganlyniad i ddementia

- sut y gall dementia guddio problemau iechyd corfforol sylfaenol
- y cysylltiad rhwng iechyd corfforol, salwch a symptomau dementia y gall unigolyn eu profi
- na fydd unigolion o bosibl yn gallu cyfleu poen neu ofid
- lliniaru ffactorau risg cynyddol sy'n gysylltiedig â chynnal lles corfforol ar gyfer meysydd gofal corfforol

8.3 Sut i arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau unigolion
- i gymryd risgiau cadarnhaol
- i ymateb i heriau y gall unigolion eu hwynebu wrth arfer eu hawliau

8.4 Sut y gall gweithwyr helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd gorau
- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

8.5 Cyfyngiadau a natur broblemus gorddefnyddio meddyginiaeth wrthseicotig, cyffuriau gwrthiselder, cyffuriau gwrthfwsgarinig neu gyffuriau llonyddu

8.6 Egwyddorion galluedd a chydsyniad mewn perthynas â rhoi meddyginiaethau a ragnodwyd i unigolyn â diagnosis o ddementia

8.7 Strategaethau i gynnal diogelwch unigolyn heb ddefnyddio arferion cyfyngol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â fframweithiau deddfwriaethol a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion sy'n byw gyda dementia

8.9 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:
- rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u lles

8.10 Arwain ymarfer sy'n mynd ati i herio sefyllfaoedd lle na chaiff hawliau unigolion eu parchu

8.11 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cynnwys dull gweithredu cydgynhyrchiol gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod y **broses gynllunio**

8.12 Sicrhau bod unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall goblygiadau galluedd a phenderfyniadau budd gorau

8.13 Sicrhau y caiff teuluoedd a gofalwyr eu hannog i gymryd rhan mewn gofal a chefnogaeth

8.14 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol
- hyrwyddo'r defnydd o ddulliau sy'n ymateb yn effeithiol ac yn sensitif i symptomau dementia
- ystyried profiad unigolyn o ddementia gan gydnabod ei gryfderau a'i alluoedd ar yr un pryd
- Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau y caiff meddyginiaeth ei rhoi i unigolion mewn ffordd ddiogel a moesegol

8.15 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau y caiff arferion cyfyngol eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol

8.16 Arwain a rheoli Amgylchedd sy'n Ystyriol o Ddementia i bob unigolyn

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Proses gynllunio** - nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau, trosglwyddo gofal

### Deilliant dysgu:

9. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi'r gwaith o edrych ar iechyd unigolion mewn modd cyfannol, gan gynnwys y rhai â chyflyrau iechyd meddwl

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

9.1 Cyffredinrwydd a demograffeg salwch meddwl ymhlith y boblogaeth a'r goblygiadau i'r maes clinigol

9.2 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- gwahanol broblemau iechyd meddwl y gall unigolion eu profi
- pwysigrwydd edrych ar iechyd unigolyn mewn modd cyfannol gan gynnwys ei salwch meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid dim ond ei symptomau
- ystyr y termau trallod meddwl a salwch meddwl
- y ffyrdd gwahanol y gall unigolion brofi a chyfleu trallod meddwl a salwch meddwl

9.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael gafael arnynt er mwyn cefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.4 Cefnogi eraill i ddeall effaith bosibl salwch meddwl

9.5 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd a ffactorau demograffig salwch meddwl yng Nghymru ar y maes clinigol

9.6 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob unigolyn

9.7 Arwain a rheoli'r gwaith o gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi unigolion

---

### Deilliant dysgu:

10. Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu i edrych ar iechyd unigolion mewn modd cyfannol gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag anabledd dysgu ac awtistiaeth

### Meini prawf asesu

Rydych yn cefnogi eraill i ddeall:

10.1 **Cyffredinrwydd anabledd dysgu ac awtistiaeth** a'u goblygiadau i'r maes clinigol

10.2 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:
- gwahanol anableddau dysgu ac awtistiaeth y gall unigolion eu profi a'u hachosion posibl
- pwysigrwydd edrych ar iechyd unigolyn mewn modd cyfannol gan ystyried eu hanabledd dysgu a'u hawtistiaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nid dim ond eu symptomau wrth ddarparu gofal

10.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael gafael arnynt er mwyn cefnogi unigolion sy'n byw gydag anabledd dysgu ac awtistiaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

10.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo'r defnydd o ffyrdd o gefnogi unigolion sy'n ystyried:

- nodweddion yr anabledd
- unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
- eu hunigoliaeth a'u hoff ddewisiadau

10.5 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd anabledd dysgu ac awtistiaeth yng Nghymru ar y maes clinigol
10.6 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob unigolyn
10.7 Arwain a rheoli'r gwaith o gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi unigolion

**Ystod**
**cyffredinrwydd anabledd dysgu ac awtistiaeth** - unigolion ag anabledd dysgu sy'n awtistig, unigolion awtistig sydd ag anabledd dysgu, unigolion awtistig heb unrhyw anabledd dysgu, unigolion ag anabledd dysgu nad ydynt yn awtistig
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith -** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu

11. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi'r gwaith o edrych ar iechyd unigolion mewn modd cyfannol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag anabledd

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
11.1 Cyffredinrwydd a demograffeg **gwahanol fathau o anabledd** ymhlith y boblogaeth a'r goblygiadau i'r maes clinigol
11.2 Sut i gefnogi gweithwyr i ddeall y canlynol:
- sut mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cefnogi dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer unigolion anabl
- beth yw ystyr y termau ‘nam’ ac ‘anabl’ a phwysigrwydd gweld yr unigolyn yn gyntaf, nid y nam
- natur a nodweddion **mathau gwahanol o anabledd**
- nodweddion allweddol amgylchedd hygyrch

11.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael gafael arnynt er mwyn cefnogi unigolion sy'n byw gyda gwahanol fathau o anabledd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
11.4 Cefnogi eraill i ddeall effaith bosibl gwahanol fathau o anabledd
11.5 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd a ffactorau demograffig gwahanol fathau o anabledd yng Nghymru ar y maes clinigol
11.6 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol a hygyrch i bob unigolyn
11.7 Arwain a rheoli'r gwaith o gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi unigolion

**Ystod**
**Gwahanol fathau o anabledd –** i gynnwys anaf a gafwyd i'r ymennydd, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), nam corfforol, nam ar y synhwyrau

Deilliant dysgu

12. Arwain a rheoli'r broses o gynllunio cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

12.1 Pwysigrwydd egwyddorion Gofal Diwedd Oes a hyfforddiant cysylltiedig

12.2 Pwysigrwydd defnyddio Adnodd Gofal Diwedd Oes Cymru Gyfan

12.3 Sut i helpu gweithwyr i ddeall y canlynol:

- pwysigrwydd gwaith cynllunio cynnar ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes
- cefnogaeth ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes sydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr
- pwysigrwydd Blaengyfarwyddebau a'r defnydd ohonynt
- cyfyngiadau 'dirprwy gyfarwyddebau' neu 'gyfarwyddebau gwerthoedd cyffredinol' lle na cheir Blaengyfarwyddebau sy'n gyfreithiol gyfrwymol
- y cysyniad o Atwrneiaeth Barhaus a'r defnydd ohoni
- sut i reoli unrhyw achos o wrthdaro a all godi â theuluoedd/gofalwyr, unigolion a/neu weithwyr proffesiynol lle na wnaed trefniadau ymlaen llaw mewn modd sensitif
- yr angen i ddiwallu anghenion ffisegol (gan gynnwys yr amgylchedd), cymdeithasol, seicolegol ac ysbrydol unigolion a theuluoedd/gofalwyr yn ystod gofal lliniarol a gofal diwedd oes

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

12.4 Cefnogi gweithwyr i

- hwyluso sgyrsiau onest ac agored ynghylch gofal lliniarol/diwedd oes
- helpu unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall Blaengyfarwyddebau a beth y maent yn ei olygu o ran dewisiadau diwedd oes
- cyfeirio unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr, a gweithio ar y cyd â thimau arbenigol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a chefnogaeth ar gael ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes
- cwblhau modiwl e-ddysgu Gofal Lliniarol Cymru Gyfan

Deilliant dysgu

13. Arwain a rheoli cefnogaeth i'r agenda rheoli meddyginiaeth yn y maes clinigol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

13.1 Y polisi rheoli meddyginiaeth cenedlaethol a lleol cyfredol

13.2 Y goblygiadau cyfreithiol a'r gweithdrefnau/camau i'w cymryd pan fo staff:

- yn gwneud camgymeriad o ran meddyginiaeth
- yn camddefnyddio cyffuriau/ meddyginiaeth
- yn defnyddio cyffuriau/meddyginiaeth yn amhriodol

13.3 Y goblygiadau cyfreithiol a'r gweithdrefnau/camau i'w cymryd pan fo adwaith andwyol i gyffur.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

13.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i sicrhau bod pob aelod o staff yn glynu wrth y polisi rheoli meddyginiaeth cyfredol

13.5 Sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael yr hyfforddiant rheoli meddyginiaeth cyfredol i gynnwys:

- storio meddyginiaethau yn ddiogel
- rhoi meddyginiaeth mewn ffordd gudd

Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu

14. Arwain a rheoli cefnogaeth i'r Gymraeg yn y maes clinigol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

14.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol, polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' a Safonau'r Gymraeg yn y maes clinigol

14.2 Nodweddion gwasanaethau sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol a Safonau'r Gymraeg

14.3 Sut i ddarparu gwybodaeth ar ffurf ddwyieithog

14.4 Ffyrdd ymarferol o ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle

Rydych yn gweithio mewn
ffyrdd sy'n:

14.5 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol', a Safonau'r Gymraeg a datblygu Cymraeg yn y gweithle

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

15. Arwain a Rheoli cyfarfodydd

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall ac yn cefnogi eraill i ddeall:

15.1 Diben, amcanion a chylch gorchwyl y cyfarfod

15.2 Diben a strwythur agenda

15.3 Sut i ddewis a gwahodd y bobl gywir i fynychu'r cyfarfod mewn modd amserol

15.4 Sut i benodi cadeirydd

15.5 Rolau a chyfrifoldebau'r cadeirydd, yr ysgrifennydd ac unigolion yn y cyfarfod

15.6 Dilyn protocol a gweithdrefnau, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda

15.7 Yr angen i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn cael y cyfle i gyfrannu
15.8 Dibenion cofnodion a chynlluniau gweithredu
15.9 Dosbarthu **papurau** mewn modd amserol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
15.10 Sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfle i gyfrannu
15.11 Sicrhau bod papurau yn cael eu dosbarthu'n amserol cyn ac ar ôl y cyfarfod

**Ystod**
**Papurau** - agendâu, cofnodion, pwyntiau gweithredu, dogfennau trafod a chyflwyniadau

# Uned 538 Arwain a rheoli maes clinigol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Dylid nodi y dylai Meini Prawf Asesu 8.3, i 8.5, ac 8.9 i 8.14 yn Neilliant Dysgu 8 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu i edrych ar iechyd unigolion mewn modd cyfannol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gyda dementia, gael eu hystyried wrth gyflwyno ac asesu Deilliannau Dysgu 9, 10 ac 11.

Argymhellir y dylai rheolwyr sy'n cwblhau'r modiwl hwn hefyd gwblhau Gofal Diwedd Oes.

Mae angen i **Blaengynllunio Gofal a Phenderfyniadau Budd Pennaf** gynnwys:
Yr angen i drafod (cael sgyrsiau anodd) gyda'r unigolyn, teuluoedd/ gofalwyr am ddewisiadau'r unigolyn os bydd yn gwaethygu, Marwolaeth ddisgwyliedig ac annisgwyl, Rhoi'r gorau i driniaeth a beth mae hyn yn ei olygu gan gynnwys trafod y goblygiadau moesegol, Atwrneiaeth Barhaus

**Adrodd ar adwaith andwyol i gyffuriau.** Cyfrifoldeb pob ymarferydd i gwblhau a chyflwyno'r "cerdyn melyn" os bydd adwaith. Gellir dod o hyd i'r ffurflen hon yn y BNF.

**Meysydd gofal corfforol:** rheoli heintiau, maeth - deiet a hylif, symudedd a throsglwyddo'n ddiogel, hyrwyddo ymataliaeth, gofal croen a hyfywedd meinweoedd, iechyd y geg, iechyd o ran y golwg a'r clyw, iechyd rhywiol, asesu cwsg a rheoli poen

**Gofalu am y claf sy'n gwaethygu:** byddai cydnabod y claf sy'n gwaethygu yn cynnwys arsylwadau ffisiolegol a'r defnydd o Sgorau Rhybudd Cynnar fel "NEWS"

**Contractau:** contractau ag unigolion ac awdurdodau lleol/byrddau iechyd/sefydliadau yn y Trydydd Sector

**Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Unigolion** - mae hyn yn cynnwys pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolyn mewn modd cydgynhyrchiol er mwyn hwyluso'r broses o'i ryddhau'n ddiogel. Yn ogystal â'r unigolyn gall hyn gynnwys gofalwyr, staff y GIG, staff ALl, asiantaethau, y trydydd sector, gwirfoddolwyr ac eraill.
Y rheini sy'n gysylltiedig â gofalu am unigolyn ar ôl ei ryddhau; unigolyn, teulu/gofalwyr, timau cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, asiantaethau gofal, cartrefi gofal, gwasanaeth ambiwlans

**Ymwybyddiaeth o gwympiadau, asesu cwympiadau a'u hatal:** yn cynnwys ymateb ar unwaith a chamau gweithredu dilynol pan fydd unigolyn yn cwympo

**Canllawiau pellach oddi wrth:**

1000 o fywydau
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/How%20to%20%289%29%20falls%20%28Feb%202011%29%20Web.pdf**
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/FRATtool.pdf**
E-lawlyfr Llywodraethu'r GIG

**http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards-supporting-gui-17\\cgli.int\dfs\G Drive\Product Development (Shared)\Qualifications\8040_8041 QW HSC_CCPLD Content\8040-10 - Level 5 H&SC - L&M Practice\Final documents\Qualification Handbook\ HYPERLINK**

**Ystyriaethau cyllido:** systemau lleol gan gynnwys broceriaeth, Gofal Iechyd Parhaus, gwaith asesu a chymhwysedd, y Ddeddf Iechyd Meddwl adran 117 ôl-ofal

**Prif nodweddion awtistiaeth:** anawsterau gyda; cyfathrebu ar lafar a heb eiriau, deall eraill ac ymgysylltu â nhw, deall rheolau cymdeithasol a sut y disgwylir i bobl ryngweithio'n gymdeithasol, dychymyg cymdeithasol a hyblygrwydd meddwl, ffyrdd o ymddwyn ailadroddus, diddordebau arbennig / cyfyngedig, ymaddasu i newidiadau, datrys problemau, ysgogi'r synhwyrau, gorbryder

**Hyfforddiant rheoli meddyginiaeth:** Gall hyn hefyd gynnwys meddyginiaeth fewnwythiennol a chyffuriau rheoledig

**Nam ar y cof:** arwyddocâd y cof byrdymor wrth nodi gwybodaeth a'r tri phrif gategori sy'n gysylltiedig â'r cof hirdymor, sef Cof semanteg (sy'n eich galluogi i gofio ffeithiau), Cof episodig (cofio digwyddiadau a phrofiadau ac emosiynau) a Chof gweithdrefnol (cof ymhlyg sy'n gysylltiedig â gweithrediad echddygol fel llofnodi ein henw, gyrru car ac ati)

**Problemau iechyd meddwl**: gall gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, seicosis, anhwylder deubegynol, sgitsoffrenia, anhwylderau personoliaeth, anhwylderau bwyta, anhwylder straen ar ôl trawma, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd

**Effeithiau posibl byw gydag anabledd dysgu neu awtistiaeth:** ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan waethygu'r anawsterau mae'r unigolyn yn eu profi (allgáu, economaidd-gymdeithasol, addysg, cyflogaeth, annibyniaeth, llesiant emosiynol a chorfforol, dewisiadau bywyd)

**Safonau Proffesiynol:** dyletswydd foesegol neu gyfreithiol gweithiwr proffesiynol i arfer y lefel o ofal, diwydrwydd a sgil a ragnodir yn y cod ymarfer/ymddygiad ar gyfer ei broffesiwn, fel y nodir gan reoleiddiwr y proffesiwn. H.y. Cod Ymddygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae **Amgylchedd Cefnogol** yn un sy'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol i gydnabod a herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, achosion o wahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion

**Symptomau a chyflwyniad dementia:** cof, barn, iaith a chyfeiriadedd, beth bynnag yw'r achos

**Damcaniaethau ynghylch awtistiaeth:** biolegol, seicolegol, niwrolegol

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDHSC0415** Arwain y broses o gynllunio darpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau i unigolion
- **SFHGEN28** Rhyddhau a throsglwyddo unigolion o wasanaeth neu'ch gofal
- **SFHCHS163** Rheoli Argyfyngau
- **SFHCHS98** Trefnu gwasanaethau a chymorth gyda darparwyr gofal iechyd eraill
- **SFHCHS122** Paratoi cynllun rhyddhau gydag unigolion

- **CFASAA411** Cynllunio a threfnu eich cyfarfodydd eich hun
- **SCDLDSS408** Datblygu diwylliant a systemau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth
- **SFHGEN42** Darparu cymorth seicolegol i aelodau o'r tîm
- **SCDHSC0385** Cefnogi unigolion ar ddiwedd eu hoes
- **SFHMH90** Cefnogi eraill i hyrwyddo dealltwriaeth a helpu i wella iechyd meddwl pobl

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2018 dogfen gan Lywodraeth Cymru
- Cymru Gyfan Canllawiau ar gyfer Dirprwyo (2010) NLIAH **https://weds.heiw.wales/assets/Uploads/41636a0b88/Cymru-Gyfan-Canllawiau-ar-Gyfer-Dirprwyo.pdf**
- Polisi Rhoi Cofnodi Adolygu Storio a Gwaredu Meddyginiaeth Cymru Gyfan (2014) **http://www.awmsg.org/awmsgonline/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Policy%20for%20Medicines%20Administration,%20Recording,%20Review,%20Storage%20and%20Disposal.pdf**
- **Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)** (Mehefin 2019), **https://llyw.cymru/bil-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-crynodeb**
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation,
- Safonau Iechyd a Gofal (2015) **http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards**
- Deddf Galluedd Meddyliol (2005) - Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: **https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=744&pid=34352**
- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal: **www.nice.org.uk/guidance**
- Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad GIG Cymru: **http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/fframwaith-gwerthoedd-a-safonau-ymddygia**
- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: **https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf**
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) http://www.waspi.org/hafan
- Safonau'r Gymraeg 2018 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh

## *Adnoddau:*

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl fodiwlau sydd ar gael.

**Pecynnau e-ddysgu Dysgu@Cymru:**

- 000 GIG Cymru - Rheoli Absenoldebau
- 000 GIG Cymru - Blaengynllunio Gofal Sylfaen
- 000 GIG Cymru - Blaengynllunio Gofal Canolradd

- 000 GIG Cymru - Adnodd Penderfyniadau Gofal Cymru Gyfan ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd
- **000** GIG Cymru - Ymwybyddiaeth o Ddementia
- 000 GIG Cymru - Ymyriadau Byr o ran Cwympiadau
- 000 GIG Cymru - Siart Cofnodi Bwyd
- 000 GIG Cymru - Rhoi, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaeth
- 000 GIG Cymru - Nam ar y Synhwyrau
- 000 GIG Cymru - Y Gymraeg
- 000 GIG Cymru - Cathetrau Wrinol a Gofalu am Gathetrau ymhlith Oedolion
- 000 GIG Cymru - Poen, Aflonyddwch Meddwl a Deliriwm
- 000 GIG Cymru - Rheoli Newid

# Uned 539 Arwain a rheoli gwasanaethau lleoli oedolion/cysylltu bywydau

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar y rhai sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n ymgorffori ethos Cysylltu Bywydau ac yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol ar gyfer gwasanaethau Lleoli Oedolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr ac eraill o ethos Cysylltu Bywydau

1.2 **Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol** ar gyfer gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

1.3 Sut mae **dull gweithredu seiliedig ar werthoedd** wedi cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth, polisi ac ymarfer ar gyfer cefnogi unigolion mewn Lleoliad Oedolion/sy'n destun trefniant Cysylltu Bywydau

1.4 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd **y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau**, yn enwedig y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol

1.5 **Mathau o wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau** a'r goblygiadau o ran eu darparu

## Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.6 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n hyrwyddo ethos Cysylltu Bywydau ac yn cydymffurfio â **gofynion deddfwriaethol a rheoliadol**

## Ystod

**Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion

**Dull gweithredu seiliedig ar werthoedd:** egwyddorion a gwerthoedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (llais a rheolaeth, atal ac ymyrryd yn gynnar, llesiant, cydgynhyrchu, gweithio mewn partneriaeth/gwaith amlasiantaethol), cynhwysiant cymunedol a chefnogaeth i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ystyrlon a werthfawrogir

**Y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau:** gofalwr lleoli oedolion/cysylltu bywydau, gweithiwr, rheolwr cofrestredig, unigolyn cyfrifol a gweithwyr proffesiynol eraill
**Mathau o wasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau:** Cefnogaeth hirdymor gyda llety, seibiannau preswyl byr, cefnogaeth yn ystod y dydd, cefnogaeth gan berthynas

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yng nghyd-destun cyd-destunau deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli'r gwaith o recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol ar gyfer **recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr**
2.2 Sut i gefnogi gweithwyr ac eraill i ddeall dulliau o asesu pa mor addas yw ymgeiswyr
2.3 Sut i gefnogi gweithwyr ac eraill i ddeall cyfrifoldebau a'r broses o recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr
2.4 Gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol ar gyfer **sefydlu gofalwyr**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** ar gyfer recriwtio, asesu, cymeradwyo a sefydlu gofalwyr yn unol â gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol
2.6 Meithrin cydberthnasau â chomisiynwyr sy'n meithrin dealltwriaeth o fuddiannau gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau i unigolion
2.7 Sicrhau bod unigolion a/neu ofalwyr yn cael cyfleoedd i weithredu fel cenhadon Cysylltu Bywydau

## Ystod

**Recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr:** addasrwydd ymgeisydd ac eraill sy'n rhannu'r safle, addasrwydd y safle, cyfleusterau a lleoliad, cefnogi ymgeiswyr i ddeall pob agwedd ar gytundeb gofalwr

**Deddfwriaethol, rheoliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion

**Sefydlu gofalwyr:** gofynion deddfwriaethol, rheoliadol a sefydliadol, cytundeb gofalwr, rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau, y broses leoli/trefnu, safle, cyfleusterau a chyfarpar, diogelu, hyfforddiant cyffredinol a phenodol, arfer gorau ar gyfer sefydlu a bennwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli cefnogaeth i'r lleoliad/trefniant rhwng unigolion a gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i reoli'r **broses asesu** ar gyfer unigolion sy'n chwilio am leoliad/trefniant Cysylltu Bywydau
3.2 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio dulliau cytûn o bennu a yw'r unigolyn a'r gofalwr yn cydweddu, ynghyd ag addasrwydd y lleoliad/trefniant arfaethedig
3.3 Pwysigrwydd sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu er mwyn nodi'r risgiau posibl ym maes diogelu a'u lleihau cymaint â phosibl
3.4 Gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol ar gyfer ymweliadau cychwynnol/treial â chartrefi gofalwyr
3.5 Sut i sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio **dulliau gweithredu** cytûn pan na fydd y lleoliad/trefniant arfaethedig yn addas
3.6 Gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu cynllun personol ar gyfer yr unigolyn

## Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau bod gweithwyr:

- **yn cefnogi lleoliadau/trefniadau rhwng unigolion a gofalwyr** yn unol â gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol
- cefnogi unigolion a'u gofalwyr i ddeall a rheoli effaith newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo ar lesiant

3.8 Sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio cynlluniau gofal a chefnogaeth a chynlluniau personol i nodi:

- unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen ar ofalwyr
- addasiadau i'r amgylchedd
- darparu cyfleusterau neu gyfarpar

y gall fod eu hangen i gefnogi'r unigolyn

## Ystod

**Y broses asesu:** cyfrifoldebau am ddatblygu cynllun gofal a chefnogaeth fel rhan o leoliad wedi'i gynllunio neu dderbyniad brys, hunanasesiad lle caiff ei ariannu'n annibynnol, amgylchiadau lle na chaiff gwasanaeth ei ddarparu

**Deddfwriaethol, rheoliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

**Dulliau gweithredu:** cyfathrebu, cefnogi'r unigolyn a'r gofalwr, defnyddio profiadau cyflwyno i lywio trefniant mwy addas

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cefnogi lleoliadau/trefniadau rhwng unigolion a gofalwyr:** datblygu cynllun personol gydag unigolion a gofalwyr, ymweliadau cychwynnol/treial sy'n gymesur â'r lleoliad/trefniant arfaethedig, cydnawsedd ac addasrwydd lleoliad/trefniant, nodi risgiau posibl i'r unigolyn, gofalwr ac aelodau eraill o'r cartref a sut y cânt eu lliniaru, darparu cytundeb lleoliad/trefniant unigol, gweithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i ofalwyr er mwyn darparu lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol ar gyfer **monitro ac adolygu** lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau

4.2 Rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y rheini sy'n gysylltiedig â monitro ac adolygu lleoliadau/trefniadau Cysylltu Bywydau

4.3 Heriau posibl a sut y gall gweithwyr gefnogi gofalwyr i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r rhain

4.4 Sut a phryd i gefnogi gweithwyr i gael gafael ar gefnogaeth ychwanegol pan fo heriau i'r lleoliad/trefniant

4.5 Sut y dylai gweithwyr gefnogi unigolion a gofalwyr pan na fydd y lleoliad/trefniant yn addas mwyach

## Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.6 Cyflawni eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun am **fonitro ac adolygu'r** lleoliad/trefniant Cysylltu Bywydau yn unol â gofynion **deddfwriaethol, rheoliadol** a sefydliadol

4.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer** ar waith sy'n gwneud y canlynol:

- cefnogi gofalwyr i achub ar gyfleoedd datblygu sy'n eu helpu i feithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i weithio gydag unigolion er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
- sicrhau bod gweithwyr yn rhoi adborth adeiladol i ofalwyr ar y lleoliad/ trefniant Cysylltu Bywydau a'u hymarfer mewn modd amserol
- cefnogi gweithwyr i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar atebion er mwyn cefnogi gofalwyr i fynd i'r afael â heriau

4.8 Cefnogi atgyfeiriadau i weithwyr proffesiynol/gwasanaethau eraill lle mae angen cefnogaeth ychwanegol

4.9 Sicrhau bod unigolion:

- yn gallu cael gafael ar gofnodion ac adroddiadau sy'n berthnasol iddynt mewn fformatau hygyrch
- yn cael cyfleoedd i gyflwyno sylwadau, mynegi pryderon, herio neu gwyno am gynnwys cofnodion ac adroddiadau sy'n berthnasol iddynt

## Ystod

**Monitro ac adolygu:** yn erbyn y cytundeb gofalwr a chyflawni cynllun personol yr unigolyn

**Deddfwriaethol, rheoliadol:** Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 539 Arwain a rheoli gwasanaethau lleoli oedolion/cysylltu bywydau

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Lleoli Oedolion:** Fe'i hadwaenir fel Cysylltu Bywydau yn gyffredinol ac mae'n cynnwys darparu llety, gofal a chefnogaeth o dan gytundeb Lleoli Oedolion

**Gwasanaeth Lleoli Oedolion:** Fe'i hadwaenir fel 'Gwasanaeth Cysylltu Bywydau' yn gyffredinol a gall gael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, y trydydd sector neu ddarparwyr preifat. Mae'r rheoliadau yn ei ddisgrifio fel a ganlyn: 'gwasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwylio unigolion o'r fath)'. Byddai gwasanaethau Cysylltu Bywydau yn cyfeirio at baru oedolion ag unigolion yn hytrach na'u 'gosod' gyda

**Cytundeb gofalwr** cytundeb rhwng y darparwr gwasanaeth a'r gofalwr Lleoli Oedolion, sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- briod rolau a chyfrifoldebau'r darparwr gwasanaeth a'r gofalwyr lleoli oedolion;
- y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ofalwr lleoli oedolion weithredu yn unol â nhw
- y trefniadau y bydd y darparwr gwasanaeth yn eu gwneud er mwyn asesu ac adolygu'r safle, cyfleusterau a chyfarpar a ddefnyddir gan y gofalwr lleoli oedolion wrth ddarparu gofal a chefnogaeth mewn lleoliad posibl i oedolion
- unrhyw ofynion i gefnogi unigolyn i gael triniaeth, cyngor neu unrhyw wasanaethau eraill gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol
- y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel (lle y bo'n gymwys)
- y trefniadau ar gyfer cefnogi unigolion i reoli eu harian
- gwybodaeth am y costau sy'n daladwy gan y darparwr gwasanaeth i Ofalwyr Lleoli Oedolion; a
- gwybodaeth am derfynu cytundeb gofalwr

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddi, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau grŵp cyfoedion

**Cytundeb Lleoli Unigol:** cytundeb rhwng darparwr gwasanaeth, Gofalwr Lleoli Oedolion ac unigolyn i Ofalwr Lleoli Oedolion ddarparu llety a gofal a chefnogaeth i'r unigolyn hwnnw. Byddai'r cytundeb hefyd yn cynnwys comisiynwyr y gwasanaeth

**Gofynion deddfwriaethol a rheoliadol ar gyfer gwasanaethau Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau;** byddai'n cynnwys Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2019; Canllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

**Cynllun personol:** yn seiliedig ar y cynllun gofal a chefnogaeth ac yn cynnwys: y camau gweithredu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llesiant, gofal a chefnogaeth yr unigolyn o ddydd i ddydd, ei hoff ddewisiadau a'r drefn ar gyfer darparu hyn, sut y caiff yr unigolyn ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol, sut y caiff dymuniadau, dyheadau a chredoau crefyddol yr unigolyn eu cefnogi, camau i nodi risgiau i lesiant yr unigolyn a sut y caiff hyn ei reoli, camau i gefnogi cymryd risgiau cadarnhaol, camau i gynnal, ailalluogi a/neu gyflawni annibyniaeth

**Heriau posibl:** gallent gynnwys:

- Dynameg yn y cartref
- Ymddygiadol
- Materion sy'n gysylltiedig â chydnawsedd
- Anghenion newidiol unigolion
- Amgylchiadau newidiol gofalwyr
- Materion diogelu

Byddai **cyfrifoldebau am ddatblygu cynllun gofal a chefnogaeth** yn cynnwys comisiynwyr y gwasanaeth e.e. gofal cymdeithasol, y GIG. Gwasanaeth prawf

Mae **amrywiaeth werthfawr o weithgareddau ystyrlon** yn cyfeirio at y cydbwysedd rhwng gweithgareddau sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd da i unigolion, gan ymgorffori gweithgareddau galwedigaethol, domestig, personol, hamdden, addysgol a chymdeithasol.

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016; Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol (Cymru) 2019; Canllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion Ebrill 2019

## *Adnoddau*

- Shared Lives Plus: https://sharedlivesplus.org.uk/what-were-doing/growing-shared-lives/wales/
- Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru: Adnoddau dysgu ar gyfer Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/adnoddau

# Uned 540 Arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 24 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol |

## Deilliant dysgu:

1. Meithrin dealltwriaeth o eiriolaeth annibynnol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Yr **egwyddorion allweddol** sy'n sail i eiriolaeth annibynnol
1.2 Y diffiniad o eiriolaeth annibynnol a'i rôl
1.3 **Modelau** a **dulliau gweithredu** eiriolaeth annibynnol
1.4 **Datblygiad** eiriolaeth annibynnol
1.5 Ffactorau sy'n rhwystro unigolion rhag cael gafael ar eiriolaeth annibynnol
1.6 Materion cyffredin sy'n golygu bod angen i unigolion gael cefnogaeth eirioli
1.7 Hawliau unigolion i gael cefnogaeth eirioli
1.8 Strategaethau i wneud eiriolaeth annibynnol yn hygyrch ac yn gynhwysol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.9 Sicrhau bod eiriolwyr yn deall:
- ffiniau a therfynau eiriolaeth
- hawliau cyfreithiol i eiriolaeth

1.10 Ymgorffori egwyddorion allweddol eiriolaeth yn y gwasanaeth
1.11 Datblygu a gweithredu strategaethau sy'n mynd i'r afael â ffactorau sy'n rhwystro unigolion rhag cael gafael ar eiriolaeth annibynnol

## Ystod

**Egwyddorion allweddol** - y rhai yn y Siarter Eirioli/Safonau Cenedlaethol a'r Fframwaith Canlyniadau

**Modelau** - cymheiriaid, hunan, cyfreithiol, dinesydd, seiliedig ar faterion, ffurfiol, anffurfiol, proffesiynol annibynnol, ar y cyd, eiriolaeth wirfoddol, â chyfarwyddyd a heb gyfarwyddyd.

**Dulliau gweithredu** - eiriolaeth â chyfarwyddyd a heb gyfarwyddyd

**Datblygiad** - hanes a datblygiad eiriolaeth yn y DU, Ewrop ac UDA

Deilliant dysgu:

2. Gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau eirioli annibynnol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Gofynion deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a safonau ar gyfer y gwasanaeth eirioli
2.2 Effaith gofynion deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a safonau ar ddarparu a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol yng Nghymru
2.3 Sut mae deddfwriaeth yn gosod ac yn galluogi hawliau unigolion i eiriolaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, polisïau cenedlaethol a safonau ar gyfer gwasanaethau eirioli

**Ystod**

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r broses eirioli

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Cysyniad ymarfer a arweinir gan yr unigolyn mewn perthynas â gwasanaethau eirioli annibynnol
3.2 Pwysigrwydd gwybodaeth glir a hygyrch am y gwasanaeth
3.3 Y defnydd o brosesau atgyfeirio hygyrch
3.4 Adroddiadau y mae'n rhaid iddynt gael eu llunio gan eiriolwyr er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol
3.5 Gwahanol rolau a sefydliadau y gall y gwasanaethau eirioli ddod i gysylltiad â nhw
3.6 Sut y gall heriau i ymarfer godi rhwng dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar lais a rheolaeth, gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn mabwysiadu dull gweithredu budd pennaf
3.7 Strategaethau a all gael eu defnyddio i gefnogi eiriolwyr i reoli heriau i ymarfer sy'n codi rhwng dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar lais a rheolaeth a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n mabwysiadu dull gweithredu budd pennaf
3.8 Buddiannau cynnwys unigolion yn y gwaith o ddylunio, darparu, adolygu a datblygu'r gwasanaeth eirioli annibynnol
3.9 Dulliau gweithredu y gellir eu defnyddio i gynnwys unigolion yn y gwaith o ddylunio, darparu, adolygu a datblygu'r gwasanaeth eirioli annibynnol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.10 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cynhwysol i hyrwyddo gwasanaethau eirioli annibynnol
3.11 Sefydlu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol â gweithwyr proffesiynol eraill
3.12 Sicrhau bod ymarfer eirioli yn cael ei arwain gan ddymuniadau a safbwyntiau'r unigolyn
3.13 Sicrhau bod eiriolwyr annibynnol yn cael eu cefnogi i wneud y canlynol:

- sefydlu a chau cydberthnasau eirioli

- myfyrio ar heriau i ymarfer eirioli a defnyddio strategaethau i fynd i'r afael â'r rhain
- darparu adborth a her mewn modd rhagweithiol
- gweithio mewn ffordd hyderus â chyfarwyddyd a heb gyfarwyddyd

3.14 Sicrhau bod eiriolwyr annibynnol yn llunio adroddiadau ysgrifenedig yn unol â gofynion deddfwriaethol

3.15 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cynnwys unigolion yn y gwaith o ddylunio, darparu, adolygu a datblygu'r gwasanaeth eirioli

### Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** - yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

4. Defnyddio eiriolaeth systemig i sbarduno newid

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Diben, dulliau gweithredu a mecanweithiau **eiriolaeth systemig**

4.2 Sut y gall eiriolaeth systemig gael ei defnyddio i sbarduno newid

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.3 Defnyddio data i nodi materion sy'n cael eu codi
- gan unigolion sy'n defnyddio eiriolaeth
- gan eiriolwyr

4.4 Dadansoddi materion er mwyn nodi **themâu** a thueddiadau sy'n ymddangos yn lleol

4.5 Defnyddio eiriolaeth systemig i wella systemau a sbarduno newid

4.6 Codi ymwybyddiaeth o brofiadau unigolion o wasanaethau ymhlith y sawl sy'n gwneud penderfyniadau

4.7 Mesur canlyniadau ac effeithiau eiriolaeth systemig

### Ystod

**Eiriolaeth systemig** - yn ceisio defnyddio data a gwybodaeth i newid 'system' fel deddfwriaeth, polisi neu ddylunio a darparu gwasanaethau

**Themâu** - lle caiff materion unigol eu codi'n fynych drwy eiriolaeth seiliedig ar faterion neu drwy gwynion

---

### Deilliant dysgu:

5. Datblygu perthnasoedd comisiynu sy'n cynnal egwyddorion eirioli allweddol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Rolau comisiynwyr a chyrff comisiynu

5.2 Sut y gall y gydberthynas â chyrff comisiynu ddylanwadu ar allu gwasanaethau eirioli annibynnol i ddarparu adborth a her

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.3 Sefydlu, gweithredu ac adolygu trefniadau comisiynu sy'n cynnal egwyddorion eirioli allweddol ag arianwyr neu gomisiynwyr

5.4 Cydnabod y gwrthdaro buddiannau posibl o fod yn wasanaeth annibynnol a'r gydberthynas gomisiynu

5.5 Darparu adborth a herio comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth lle mae pryder

5.6 Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl neu heriau a all godi yng nghyd-destun bod yn wasanaeth Eirioli Annibynnol wedi'i gomisiynu

5.7 Gweithredu systemau i nodi ac ymateb i anghenion heb eu diwallu

# Uned 540 Arwain a rheoli gwasanaethau eirioli annibynnol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Gallai **cytundebau comisiynu** gynnwys - Cytundebau Lefel Gwasanaeth, Grantiau, Contractau

Gallai **ffactorau sy'n rhwystro** gynnwys - diffyg gwybodaeth hygyrch, diffyg cyfleoedd, cydraddoldebau, cyllid, daearyddiaeth, diwylliant; pŵer, gwahaniaethu a chymdeithas, allgáu cymdeithasol.

**Eiriolaeth â chyfarwyddyd** - lle caiff eiriolwyr eu cyfarwyddo gan yr unigolyn; a lle gallant sefydlu cydberthynas a nodi'r materion o ran eiriolaeth, y nodau a'r canlyniadau bwriadedig yn unol â dymuniadau, hoff ddewisiadau a chydsyniad yr unigolyn.

**A arweinir gan ddymuniadau a safbwyntiau** - cydnabod bod yn rhaid i eiriolwr na chaiff gyfarwyddyd hefyd wneud ei orau i gael ei arwain gan ddymuniadau a theimladau'r unigolyn.

**Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a safonau:**

- Siarter eirioli
- Safonau cenedlaethol a fframwaith canlyniadau i blant a phobl ifanc
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Chod Ymarfer Cymru 2016, Deddf Galluedd Meddyliol (2005), Amddiffyn a Diogelu Rhyddid

**Modelau eirioli:**

- Hunan-eiriolaeth - pan fydd unigolion yn cynrychioli eu hunain ac yn siarad dros eu hunain.
- Eiriolaeth anffurfiol - pan fydd teulu, ffrindiau neu gymdogion yn cefnogi unigolyn i gael eu dymuniadau, safbwyntiau a theimladau wedi'u clywed, a all gynnwys siarad ar eu rhan.
- Eiriolaeth ar y cyd - yn cynnwys grwpiau o unigolion â phrofiadau cyffredin, a gaiff eu grymuso i gael llais a sbarduno newid a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.
- Eiriolaeth cymheiriaid - un unigolyn sy'n gweithredu fel eiriolwr ar ran unigolyn arall sy'n rhannu profiad neu gefndir cyffredin.
- Eiriolaeth dinasyddion - yn cynnwys partneriaeth hirdymor un i un rhwng eiriolwr dinasyddion hyfforddedig neu wirfoddol a gefnogir ac unigolyn.
- Eiriolaeth wirfoddol annibynnol - yn cynnwys eiriolwr annibynnol na chaiff ei dalu sy'n gweithio'n fyrdymor, neu ar sail materion, gydag un neu fwy o unigolion.
- Eiriolaeth ffurfiol - gall gyfeirio at rôl eirioli gweithwyr mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol a lleoliadau eraill lle mae angen i weithwyr proffesiynol fel rhan o'u rôl

ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn a helpu i sicrhau yr ymdrinnir â nhw'n briodol.
- Eiriolaeth broffesiynol annibynnol – yn cynnwys eiriolwr hyfforddedig, proffesiynol sy'n gweithio mewn partneriaeth un i un ag unigolyn er mwyn sicrhau bod ei safbwyntiau yn cael eu cyfleu'n gywir a bod ei hawliau yn cael eu cynnal.  Gall hyn fod ar gyfer un mater neu sawl mater.

**Eiriolaeth heb gyfarwyddyd** - gall fod ei hangen pan fydd materion cyfathrebu a gallu yn golygu na roddir cyfarwyddyd ac na fynegir dewisiadau na phryderon. Fe'i disgrifiwyd fel a ganlyn:
Cymryd camau cadarnhaol gyda neu ar ran unigolyn na all gyfleu'n glir ei safbwyntiau na'i ddymuniadau mewn sefyllfa benodol. Bydd yr eiriolwr heb gyfarwyddyd yn ceisio cynnal hawliau'r unigolyn; sicrhau triniaeth deg a chyfartal a mynediad at wasanaethau; a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu cymryd gan roi sylw priodol i'w hoff ddewisiadau a'i safbwyntiau unigryw (Henderson 2006)

Gall eiriolwyr heb gyfarwyddyd fabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol i gynrychioli'r unigolyn yn seiliedig ar hawliau dynol, gan weithredu mewn modd person-ganolog, cynnal goruchwyliaeth neu weithredu fel tyst ac arsylwr.

**Gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gwirfoddol** - byddai hyn yn cynnwys Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, sefydliadau gwirfoddol lleol/cenedlaethol

**Strategaethau i wneud eiriolaeth yn hygyrch ac yn gynhwysol -** Polisïau ac ymarfer sy'n hyrwyddo cyfathrebu effeithiol gan gydnabod ac ymateb i anghenion iaith a chyfathrebu; gwasanaethau hyblyg, hawdd mynd atynt, nad ydynt yn gwahaniaethu, a gaiff eu hyrwyddo ymhlith cymunedau ac sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i hygyrchedd a chynhwysiant.

**Eiriolaeth systemig** - Mae'r cysyniad hwn yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n gysylltiedig â chymryd amrywiaeth o themâu a thueddiadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth eirioli; a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r themâu a'r tueddiadau hyn.

**Hawliau unigolion i gael cefnogaeth eirioli** - Mae hyn yn gysylltiedig â hawliau'r unigolyn i gael eiriolaeth.

Gallai **anghenion heb eu diwallu** gynnwys - rhestrau aros, anghymhwysedd.

## *SGC cysylltiedig*

- **SDCHSC0410** Eirioli gyda ac ar ran unigolion
- **SCDHSC0046** Eirioli gyda ac ar ran plant a phobl ifanc

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Siarter eirioli
- Safonau cenedlaethol a fframwaith canlyniadau i blant a phobl ifanc
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)

- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer cysylltiedig
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018=8
- Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant (Comisiynydd Plant Cymru 2017)
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn 1991
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 2006
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010

## *Adnoddau*

- Gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/eiriolaeth**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Hyb Gwybodaeth a Dysgu http://www.ccwales.org.uk/the-act/Advocacy Support Cymru https://www.ascymru.org.uk/
- Advocacy Matters Wales http://www.advocacymatterswales.co.uk/
- Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol https://www.nyas.net/services/our-services-in-wales/
- Mind https://www.mind.org.uk/information-support/guides-to-support-and-services/advocacy/types-of-advocacy/#.W1WkINJKiUk

# Uned 541 Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 11 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr ifanc a/neu ofalwyr sy'n oedolion. Mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud ag oedolion a/neu blant |

## Deilliant dysgu:

1. Cyd-destun gofalwyr yng Nghymru

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Diffiniad deddfwriaethol o ofalwyr

1.2 Demograffeg gofalwyr

1.3 Y cyfraniad mae gofalwyr yn ei wneud:
- at ansawdd bywyd unigolion
- at agenda polisi gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar

1.4 Y gydberthynas rhwng cefnogi gofalwyr a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chefnogaeth

1.5 Pwysigrwydd hyrwyddo cefnogaeth i lesiant gofalwyr, cynhwysiant cymdeithasol, addysg a chyflogaeth drwy ddylunio a darparu gwasanaethau

## Deilliant dysgu:

2. Deall sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer asesu a chefnogi gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn deddfu ar gyfer **asesu a chefnogi gofalwyr**

2.2 Bwriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cefnogi canlyniadau cadarnhaol i unigolion a gofalwyr

### Ystod

**Asesu a chefnogi gofalwyr** - dyletswyddau gwasanaethau iechyd ac awdurdod lleol statudol, hawliau gofalwyr, gan gynnwys eiriolaeth; cefnogi cynlluniau gofalwyr

## Deilliant dysgu:

3. Arwain ymarfer sy'n hybu cyfraniad gofalwyr at y broses asesu a chynllunio gydag unigolion

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Pwysigrwydd cyfraniad gweithredol gofalwyr at y **broses** asesu a **chynllunio** gydag unigolion

3.2 Yr heriau a'r materion sensitif a all godi rhwng gofalwyr ac unigolion mewn perthynas â:

- dynameg teulu
- anghydbwysedd pŵer
- gwahaniaeth barn
- cymryd risgiau cadarnhaol yn erbyn osgoi risg
- cymhlethdod diwallu anghenion yr unigolyn a'r gofalwr

3.3 Strategaethau a all gael eu defnyddio i reoli heriau a materion sensitif

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.4 Sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyfrannu at y broses asesu a chynllunio gydag unigolion

3.5 Cefnogi'r defnydd o strategaethau i reoli heriau a materion sensitif a all godi rhwng y gofalwr a'r unigolyn

## Ystod

**Prosesau cynllunio** - byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain ymarfer sy'n cefnogi prosesau asesu a chynllunio ar gyfer gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i archwilio rôl gofalwyr mewn modd sensitif, a sut y gallant ddymuno cael cefnogaeth gyda hyn

4.2 Ffactorau a all effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol gofalwyr

4.3 Yr opsiynau asesu sydd ar gael i'r gofalwr gan gynnwys asesiadau ar y cyd â'r unigolyn

4.4 Rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r **broses** asesu a **chynllunio**

4.5 Pwysigrwydd cydnabod na fydd pawb sy'n darparu gofal di-dâl am gael eu labelu neu eu hystyried yn ofalwyr

4.6 Effaith bosibl **newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo** ar ofalwyr

4.7 Pryd a sut i herio systemau a phrosesau sy'n peri rhwystrau i ofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.8 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau'r canlynol:

- bod gweithwyr yn deall ac yn cyflawni eu rôl mewn perthynas â'r broses asesu a chynllunio
- bod gofalwyr yn cael eu hasesu

- bod gofalwyr yn cael eu cefnogi gan fod yn sensitif o ran:
  - nodi'r rôl y maent yn ei chwarae wrth ofalu am yr unigolyn
  - gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch graddau eu rôl ofalu
  - penderfynu sut yr hoffent gael cefnogaeth yn hyn o beth
  - ystyried 'beth sy'n bwysig' iddynt
  - deall yr **amrywiaeth o gefnogaeth** sydd ar gael a all eu helpu yn eu rôl ac i gyflawni eu canlyniadau personol
- bod cynlluniau yn cael eu hadolygu a'u gwerthuso fel mater o drefn er mwyn pennu p'un a gaiff canlyniadau a nodwyd eu cyflawni
- bod y gefnogaeth sydd ar gael gan weithwyr proffesiynol, gwasanaethau a grwpiau cymunedol/rhwydweithiau eraill yn cael ei defnyddio cymaint â phosibl
- bod gofalwyr yn cael eu cefnogi drwy unrhyw newid a chyfnod o drosglwyddo

### Ystod

**Proses gynllunio -** byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau.

**Newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo** - yn ymwneud â'r unigolyn, y gofalwyr neu pan fo'r rôl ofalu yn gorffen

**Amrywiaeth o gefnogaeth** - yn cynnwys gwasanaethau gofalwyr arbenigol a chyngor ar hawliau a chyfarwyddebau cyfreithiol

---

### Deilliant dysgu:

5. Casglu data er mwyn sbarduno newid

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i gasglu a defnyddio data er mwyn nodi'r materion sy'n cael eu codi:
- gan ofalwyr
- gan weithwyr am anghenion gofalwyr nas diwellir

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Dadansoddi data er mwyn nodi **themâu** a thueddiadau ar lefel leol

5.3 Codi ymwybyddiaeth o brofiadau gofalwyr o wasanaethau i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau

### Ystod

**Themâu** - lle caiff materion unigol eu codi'n fynych drwy asesiadau, eiriolaeth, gofal a chefnogaeth neu drwy gwynion

# Uned 541 Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr

Gwybodaeth ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Gofalwyr/gofalwyr ifanc** - Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn diffinio gofalwr fel "person sy’n darparu neu’n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl”.

Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gofalwyr sy'n rhieni (sy'n gofalu am blentyn anabl) a gofalwyr y cyfeirir atynt fel gofalwyr rhyngosod ('sandwich carers' yn Saesneg) (sef pobl sy'n gofalu am berson/perthynas hŷn yn ogystal â magu teulu).

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr sydd o dan 18 oed. Er y gellir ystyried unigolyn o dan 18 oed yn ofalwr, bydd ei hawliau fel gofalwr ifanc yn wahanol ar adegau i hawliau oedolyn.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel unigolion rhwng 16 a 25 oed.

Nid yw person yn ofalwr o dan y Ddeddf os yw'r person yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

**Asesiad ar y cyd** - Mae gan ofalwyr hawl i gael asesiad ar wahân i'r person maent yn gofalu amdano o'u hanghenion penodol. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol gyfuno asesiadau o'r gofalwr a'r person mae'n gofalu amdano os bydd y ddau barti'n dymuno hyn. Mae'n dal i fod yn bwysig mynd i'r afael ag anghenion penodol a gwahanol y gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal.

**Gwasanaethau gofalwyr arbenigol/gofalwyr ifanc** - Gwasanaethau yw'r rhain sydd wedi'u dylunio'n benodol i ofalwyr a/neu ofalwyr ifanc.

**Strategaethau a all gael eu defnyddio i reoli heriau a materion sensitif** - gallai hyn gynnwys cyfryngu, eiriolaeth, cynadleddau grŵp teuluol

**Sgwrs yr hyn sy'n bwysig** - Mae sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" yn sgwrs fedrus, a gynhelir fel rhan o'r broses asesu. Mae'n cyfeirio at *ffordd fedrus o weithio* gyda'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal er mwyn pennu'r sefyllfa, eu llesiant cyfredol, beth y gellir ei wneud i gefnogi'r gofalwr yn ei rôl ofalu a beth y gellir ei wneud i hyrwyddo eu llesiant a'u gwydnwch er gwell. *Nid* asesiad mohono ynddo'i hun - mae'n ffordd o gynnal yr asesiad, cynnal y *math cywir o sgwrs* gyda gofalwyr a theuluoedd er mwyn nodi sut y gallwch weithio gyda nhw er mwyn eu cefnogi mewn ffyrdd da ac ystyrlon. Mae sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" yn fath o ryngweithio ar y cyd rhwng y gofalwr a'r ymarferwr/ymarferwyr er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r sefyllfa ar y cyd.

## *Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig*

- Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chodau cysylltiedig
- Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Rhan 3 Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion)
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion)

- Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)
- Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)
- Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac adnoddau cysylltiedig
- Canllawiau Gofal Iechyd Parhaus
- Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDHSC 0387 -** Gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr er mwyn cefnogi unigolion
- **SCDHSC 0389** - Gweithio gyda gofalwyr, teuluoedd a phobl allweddol er mwyn cadw mewn cysylltiad ag unigolion

## *Adnoddau*

- Gweithio gyda gofalwyr: **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf**
- Adnoddau ar gefnogi gofalwyr: **https://www.scie.org.uk/carers/**

# Uned 542 Arwain cefnogaeth i ofalwyr

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 8 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i arwain cefnogaeth i ofalwyr<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'gofalwyr' yn cyfeirio at ofalwyr ifanc a/neu ofalwyr sy'n oedolion. Mae'r term 'unigolyn' yn ymwneud ag oedolion a/neu blant |

## Deilliant dysgu:

1. Cyd-destun gofalwyr yng Nghymru

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Diffiniad deddfwriaethol o ofalwyr

1.2 Demograffeg gofalwyr

1.3 Y cyfraniad mae gofalwyr yn ei wneud:
- at ansawdd bywyd unigolion
- at agenda polisi gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar

1.4 Y gydberthynas rhwng cefnogi gofalwyr a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chefnogaeth

1.5 Pwysigrwydd hyrwyddo cefnogaeth i lesiant gofalwyr, cynhwysiant cymdeithasol, addysg a chyflogaeth drwy ddylunio a darparu gwasanaethau

## Deilliant dysgu:

2. Deall sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer asesu a chefnogi gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn deddfu ar gyfer **asesu a chefnogi gofalwyr**

2.2 Bwriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran cefnogi canlyniadau cadarnhaol i unigolion a gofalwyr

### Ystod

**Asesu a chefnogi gofalwyr** - dyletswyddau gwasanaethau iechyd ac awdurdod lleol statudol, hawliau gofalwyr, gan gynnwys eiriolaeth; cefnogi cynlluniau gofalwyr

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain ymarfer sy'n hybu cyfraniad gofalwyr at y broses asesu a chynllunio gydag unigolion

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Pwysigrwydd cyfraniad gweithredol gofalwyr at y **broses** asesu a **chynllunio** gydag unigolion

3.2 Yr heriau a'r materion sensitif a all godi rhwng gofalwyr ac unigolion mewn perthynas â:
- dynameg teulu
- anghydbwysedd pŵer
- gwahaniaeth barn
- cymryd risgiau cadarnhaol yn erbyn osgoi risg
- cymhlethdod diwallu anghenion yr unigolyn a'r gofalwr

3.3 Strategaethau a all gael eu defnyddio i reoli heriau a materion sensitif

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.4 Sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyfrannu at y broses asesu a chynllunio gydag unigolion

3.5 Cefnogi'r defnydd o strategaethau i reoli heriau a materion sensitif a all godi rhwng y gofalwr a'r unigolyn

### Ystod

**Prosesau cynllunio** - byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain ymarfer sy'n cefnogi prosesau asesu a chynllunio ar gyfer gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i helpu gweithwyr i wybod y canlynol:
- sut i archwilio rôl gofalwyr mewn modd sensitif, a sut y gallant ddymuno cael cefnogaeth gyda hyn
- ffactorau a all effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol gofalwyr
- yr opsiynau asesu sydd ar gael i'r gofalwr a'r gofalwr ifanc gan gynnwys asesiadau ar y cyd â'r unigolyn
- rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r **broses** asesu a chynllunio
- pwysigrwydd cydnabod na fydd pawb sy'n darparu gofal di-dâl am gael eu labelu neu eu hystyried yn ofalwyr
- effaith bosibl **newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo** ar ofalwyr
- pryd a sut i herio systemau a phrosesau sy'n peri rhwystrau i ofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr am:

- eu hawliau i gael asesiad
- yr opsiynau asesu sydd ar gael iddynt
- prosesau atgyfeirio

## Ystod

**Proses gynllunio** - byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a'i gwneud yn bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau.

**Newidiadau a chyfnodau o drosglwyddo** - yn ymwneud â'r unigolyn, y gofalwyr neu pan fo'r rôl ofalu yn gorffen

# Uned 542 Arwain cefnogaeth i ofalwyr

Gwybodaeth ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Gofalwyr/gofalwyr ifanc** - Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y Ddeddf) yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl".

Mae'r diffiniad yn eang ac yn cynnwys gofalwyr sy'n oedolion, gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gofalwyr sy'n rhieni (sy'n gofalu am blentyn anabl) a gofalwyr y cyfeirir atynt fel gofalwyr rhyngosod ('sandwich carers' yn Saesneg) (sef pobl sy'n gofalu am berson/perthynas hŷn yn ogystal â magu teulu).

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr sydd o dan 18 oed. Er y gellir ystyried unigolyn o dan 18 oed yn ofalwr, bydd ei hawliau fel gofalwr ifanc yn wahanol ar adegau i hawliau oedolyn.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 o'r Ddeddf yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel unigolion rhwng 16 a 25 oed.

Nid yw person yn ofalwr o dan y Ddeddf os yw'r person yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

**Asesiad ar y cyd** - Mae gan ofalwyr hawl i gael asesiad ar wahân i'r person maent yn gofalu amdano o'u hanghenion penodol. Fodd bynnag, gall awdurdod lleol gyfuno asesiadau o'r gofalwr a'r person mae'n gofalu amdano os bydd y ddau barti'n dymuno hyn. Mae'n dal i fod yn bwysig mynd i'r afael ag anghenion penodol a gwahanol y gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal.

**Gwasanaethau gofalwyr arbenigol/gofalwyr ifanc** - Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer gofalwyr a / neu ofalwyr ifanc.

**Strategaethau a all gael eu defnyddio i reoli heriau a materion sensitif** - gallai hyn gynnwys cyfryngu, eiriolaeth, cynadleddau grŵp teuluol

**Sgwrs yr hyn sy'n bwysig** - Mae sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" yn sgwrs fedrus, a gynhelir fel rhan o'r broses asesu. Mae'n cyfeirio at *ffordd fedrus o weithio* gyda'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal er mwyn pennu'r sefyllfa, eu llesiant cyfredol, beth y gellir ei wneud i gefnogi'r gofalwr yn ei rôl ofalu a beth y gellir ei wneud i hyrwyddo eu llesiant a'u gwydnwch er gwell. *Nid* asesiad mohono ynddo'i hun - mae'n ffordd o gynnal yr asesiad, cynnal y *math cywir o sgwrs* gyda gofalwyr a theuluoedd er mwyn nodi sut y gallwch weithio gyda nhw er mwyn eu cefnogi mewn ffyrdd da ac ystyrlon. Mae sgwrs "yr hyn sy'n bwysig" yn fath o ryngweithio ar y cyd rhwng y gofalwr a'r ymarferwr/ymarferwyr er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r sefyllfa ar y cyd.

## *Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig*

- Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chodau cysylltiedig

- Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)
- Rhan 3 Cod Ymarfer (Asesu Anghenion Unigolion)
- Rhan 4 Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion)
- Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol)
- Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)

- Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac adnoddau cysylltiedig
- Canllawiau Gofal Iechyd Parhaus
- Blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDHSC 0387 -** Gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr er mwyn cefnogi unigolion
- **SCDHSC 0389** - Gweithio gyda gofalwyr, teuluoedd a phobl allweddol er mwyn cadw mewn cysylltiad ag unigolion

## *Adnoddau*

- Gweithio gyda gofalwyr: **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gofalwyr-ar-ddeddf**
- Adnoddau ar gefnogi gofalwyr: **https://www.scie.org.uk/carers/**

# Uned 543 Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 10 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant.<br>Mae timau rhyngbroffesiynol yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol sy'n cydweithio i wneud asesiadau a phenderfyniadau |

## Deilliant dysgu:

1. Deall pwrpas ac egwyddorion trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Rôl trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol i unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr

1.2 Sut y mae fframweithiau deddfwriaethol, rheoliadau, polisïau cenedlaethol a lleol, codau ymddygiad proffesiynol a safonau ymarfer/proffesiynol ac amcanion gwasanaeth yn effeithio ar drefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

1.3 Cymhlethdodau a chyfyngiadau trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

1.4 **Trefniadau llywodraethu** a **phrotocolau** sydd angen bod ar waith ar gyfer trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol effeithiol

1.5 Pwysigrwydd cefnogi aelodau tîm i gydnabod a pharchu:
- Y codau ymddygiad proffesiynol a'r safonau ymarfer/proffesiynol sy'n gymwys i aelodau timau rhyngbroffesiynol
- Gwahanol sgiliau ac arbenigedd aelodau tîm

## Ystod

**Trefniadau llywodraethu:** rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pob aelod o'r tîm, llinellau cyfathrebu, goruchwyliaeth broffesiynol, goruchwyliaeth weithredol, adolygiadau o berfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus, mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad

**Protocolau:** cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion, dyrannu adnoddau, mynd i'r afael â phryderon a chwynion

Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli'r defnydd o drefniadau gweithio rhyngbroffesiynol i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod aelodau tîm yn cael eu cefnogi i gyfrannu at bennu a gwerthuso diben ac amcanion y tîm rhyngbroffesiynol

2.2 Sicrhau bod aelodau tîm yn deall sut mae eu gwaith, yn unigol ac ar y cyd, yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwasanaeth

2.3 Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu **trefniadau** a **phrotocolau llywodraethu** o fewn trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

2.4 Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer:
- Gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth ryngbroffesiynol
- **Goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol**
- Mynd i'r afael â chyfyng-gyngor neu wrthdaro sy'n deillio o weithio rhyngbroffesiynol

## Ystod

**Trefniadau llywodraethu:** rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pob aelod o'r tîm, llinellau cyfathrebu, goruchwyliaeth broffesiynol, goruchwyliaeth weithredol, adolygiadau o berfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus, mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad

**Protocolau:** cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion, dyrannu adnoddau, mynd i'r afael â phryderon a chwynion

**Goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol:** y ffiniau rhwng goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol, llinellau cyfathrebu clir, sut i ddatrys cyfyng-gyngor proffesiynol neu foesegol, problemau o ran ffiniau neu wrthdaro lle maent yn dod i law ar wahân

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r gwaith o gyflwyno cynlluniau a gytunwyd

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Cefnogi aelodau tîm i nodi'r ymarferwyr arweiniol ar gyfer datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

3.2 Cefnogi aelodau tîm i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n ymwneud â gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

3.3 Sicrhau bod unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall rôl a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'u cynlluniau

3.4 Sicrhau y cymerir camau cydgynhyrchiol gydag unigolion a/neu eu teuluoedd/gofalwyr ym mhob agwedd ar eu cynlluniau

3.5 Rheoli'r broses o gyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i weithredu cynlluniau rhwng y rhai dan sylw

Deilliant dysgu:

4. Gwerthuso'n feirniadol pa mor effeithiol yw gwaith tîm rhyngbroffesiynol

Meini prawf asesu

4.1 Monitro, cofnodi ac adrodd ar gyflawni canlyniadau gwasanaeth a nodwyd a sut y mae'r rhain wedi cael eu cefnogi gan:
- Trefniadau llywodraethu
- Protocolau
- Aelodau'r tîm rhyngbroffesiynol
- Trefniadau goruchwylio

4.2 Dadansoddi effeithiolrwydd canlyniadau gwasanaeth a nodwyd

4.3 Gwneud argymhellion i lywio a gwella ymarfer a darpariaeth gwasanaeth y tîm rhyngbroffesiynol yn y dyfodol

# Uned 543 Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth ryngbroffesiynol:** fframweithiau, fforymau, trafodaethau gwaith achos, cyfarfodydd amlddisgyblaethol, rhannu arfer gorau

**Timau rhyngbroffesiynol** lle mae aelodau'r tîm yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol (y byddent yn gweithio gyda nhw fel arfer) a phobl sy'n cydweithio fel tîm er mwyn gwneud asesiadau a phenderfyniadau

**Cynlluniau:** gallai gynnwys cynlluniau gofal a chefnogaeth, cynlluniau personol, cynlluniau cefnogaeth ymddygiad

### *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCD3** Arwain a rheoli timau rhyngbroffesiynol

### *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Integrated and Inter-professional Working: A review of the evidence. **https://gov.wales/topics/health/socialcare/working/ifst/ifsspublications/tools/?lang=en**

# Uned 544 Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 9 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr ym maes darparu gwasanaethau |

## Deilliant dysgu:

1. Deall rôl gwirfoddoli wrth ddarparu gwasanaethau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Rôl gwirfoddolwyr a gwerth ychwanegol posibl defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau
1.2 Pwysigrwydd deall y rhesymau pam mae pobl yn dewis gwirfoddoli
1.3 Buddiannau posibl darparu gwasanaeth i wirfoddolwyr
1.4 Sut i gyfrifo cost gwirfoddolwyr a'u cydbwyso yn erbyn y gwerth ychwanegol a nodwyd
1.5 Pwysigrwydd defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi gweithwyr, ac nid yn lle gweithwyr
1.6 Sut y gellir defnyddio'r Cod Ymarfer i Wirfoddolwyr i gefnogi ac arwain y defnydd o wirfoddolwyr
1.7 Diben a chynnwys polisi ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y lleoliad gwasanaeth
1.8 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y lleoliad gwasanaeth

## Deilliant dysgu:

2. Paratoi i ddefnyddio gwirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaethau

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Nodi'r gofyn am wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth
2.2 Nodi rolau sy'n addas i wirfoddolwyr ag ystod eang o alluoedd, dulliau o weithio a chymhelliant
2.3 Cefnogaeth ychwanegol y gall fod ei hangen ar wirfoddolwyr a all fod yn agored i niwed ynddynt eu hunain
2.4 Datblygu disgrifyddion rôl ar gyfer gwirfoddolwyr sydd:

- yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol, a pholisi'r sefydliad ar gyfer gwirfoddolwyr

- yn nodi diben, cyfrifoldebau, cyfyngiadau a chydberthnasau gwaith y rôl

2.5 Sicrhau nad yw rolau gwirfoddolwyr yn tanseilio gwaith gweithwyr â thâl nac yn cymryd ei le
2.6 Nodi'r sgiliau personol a'r agweddau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr ar gyfer y rôl
2.7 Sicrhau'r canlynol:
- asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer rolau gwirfoddoli
- diogelwch gwirfoddolwyr wedi cael ei ystyried
- unrhyw ofynion o ran yswiriant ar waith
- y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer gwirfoddolwyr wedi'i chyfrifo a'i sicrhau
- y cyfarpar a'r adnoddau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni eu rôl ar gael
- trefniadau yn cael eu gwneud i sefydlu, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r broses o recriwtio a dethol gwirfoddolwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Arfer da ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr
3.2 **Dulliau** a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr
3.3 Pwysigrwydd datblygu disgrifyddion rôl ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n nodi disgwyliadau'n glir
3.4 Diben a chynnwys cytundeb gwirfoddolwr
3.5 Pwysigrwydd cyflawni **cyfrifoldebau cyfreithiol** wrth recriwtio gwirfoddolwyr
3.6 Pam mae amrywiaeth yn bwysig a sut i gynyddu hyn wrth recriwtio
3.7 Y rhesymau pam na fydd gwirfoddolwyr yn cael eu hystyried yn addas efallai a sut i ddarparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel
3.9 Sicrhau yr eir ati i ddenu gwirfoddolwyr o ystod eang o gefndiroedd a galluoedd
3.10 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn dod yn ymwybodol o'r canlynol:
- y rolau gwirfoddoli rydych yn recriwtio ar eu cyfer a'r gweithgareddau dan sylw
- y ffordd mae'r rolau gwirfoddoli yn cyfrannu at weledigaeth strategol y gwaith o ddarparu gwasanaethau
- y wybodaeth, y sgiliau, y profiad, y rhinweddau personol a'r argaeledd sy'n ofynnol
- y gofynion hyfforddi
- geirdaon neu wiriadau swyddogol y bydd eu hangen ar ymgeiswyr ar gyfer y rôl
- ffactorau a fyddai'n eu hatal rhag cael eu hystyried ar gyfer rhai rolau gwirfoddoli
- yr ymrwymiad y byddai angen iddynt ei wneud
- buddiannau posibl gwirfoddoli i'r unigolyn
- cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus
- sut y gallant gael cefnogaeth ychwanegol

3.11 Helpu darpar wirfoddolwyr i gyfleu eu rhesymau dros wirfoddoli a deall sut y gallai rolau gwirfoddoli ddiwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau

3.12 Darparu digon o wybodaeth i ddarpar wirfoddolwyr er mwyn iddynt allu asesu eu haddasrwydd i gyflawni rolau gwirfoddoli penodol, p'un a fydd y rolau yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu disgwyliadau, a pha gefnogaeth y gall fod ei hangen

3.13 Rhoi gwirfoddolwyr mewn rolau sy'n cydweddu'n dda â'r canlynol:
- eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad
- rhinweddau personol
- argaeledd
- eu hanghenion a'u disgwyliadau

3.14 Sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cytundebau gwirfoddoli ac yn eu deall

## Ystod

**Dulliau:** targedu cynulleidfa allweddol, canolfannau gwirfoddoli, gwefannau, ar lafar gwlad, taflenni/posteri, cyfarfodydd agored, ystyried yr angen am amrywiaeth

**Cyfrifoldebau cyfreithiol:** sgrinio ymgeiswyr (datgeliad DBS os yw'n gymwys, geirdaon), cydymffurfio â GDPR, cyllid (treuliau, buddiannau, treth), gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol darparu gwasanaethau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i wirfoddolwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Y **gefnogaeth** sydd ei hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni eu rolau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i **gefnogi** gwirfoddolwyr

4.3 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi i ddeall:
- eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau
- y camau y dylent eu cymryd os gofynnir iddynt weithio y tu allan i gyfrifoldebau neu ddisgwyliadau cytûn
- llinellau cyfathrebu
- trefniadau diogelu
- ffiniau proffesiynol

4.4 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu rôl, profiadau a'r ffordd y maent yn cael eu cefnogi

4.5 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod am eu rolau a pha mor werthfawr ydynt o ran darparu gwasanaethau

## Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cefnogaeth:** sefydlu, hyfforddi, mentora, adborth adeiladol, cydnabod eu gwerth o ran darparu gwasanaethau, goruchwylio

# Uned 544 Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Cynnwys cytundeb gwirfoddolwr:** y rôl wirfoddoli, y gweithgareddau dan sylw, ffiniau'r rôl, safonau perfformiad a'r ymddygiad a ddisgwylir, y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth y gall y gwirfoddolwr eu disgwyl, asesiadau risg ar gyfer y rôl a thelerau unrhyw yswiriant, y treuliau a ad-delir gan y gwasanaeth, polisïau sefydliadol sy'n berthnasol i'r rôl wirfoddoli

**Rhesymau pam mae pobl yn cynnig gwirfoddoli:**

- dangos ymrwymiad i achos neu grŵp o gleientiaid; sbarduno newid; bod yn eiriolwr neu'n gorff gwarchod
- helpu pobl; er budd rhywun maent yn ei adnabod; traddodiad teuluol; gosod esiampl dda
- rhannu sgiliau proffesiynol neu brofiad; meithrin neu gynnal sgiliau
- ystyried gyrfa bosibl; ennill achrediad neu brofiad
- teimlo'n dda; ennill bri; meithrin gwybodaeth fewnol neu gael mynediad at wasanaethau
- gwneud ffrindiau; gweithio fel tîm; mwynhau; bod gyda grŵp gwahanol o bobl; dod i adnabod eu cymuned; gwneud rhywbeth gyda ffrind neu aelod o'r teulu
- dyletswydd; ad-dalu dyled
- gwneud rhywbeth heblaw gwaith beunyddiol arferol; esgus i wneud rhywbeth pleserus; byw bywyd iachach; therapi
- gadael y tŷ; cael strwythur a threfn arferol; cael ystyr neu ddiben; dianc; cadw'n brysur
- am ei fod yn gyfleus; am fod rhywun wedi gofyn iddynt; oherwydd y sawl a wnaeth ofyn; am eu bod yn y man iawn ar yr adeg iawn; am nad oedd neb arall i'w wneud

**Rhesymau pam y gall ymgeiswyr / gwirfoddolwyr fod yn amhriodol ar gyfer y rôl:**

- Gwiriad DBS yn nodi nad ydynt yn addas ar gyfer y rôl - yn unol â pholisi'r sefydliad.
- Methu â darparu geirdaon (os oes angen geirdaon)
- Angen cefnogaeth na all y sefydliad ei darparu
- Cael cefnogaeth bersonol barhaus a allai ddynodi nad yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y rôl
- Methu ag ymgysylltu â'r hyfforddiant sydd ei angen, neu gyrraedd safonau wedi'u hasesu, neu wirfoddoli o fewn polisïau gwirfoddoli'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys anallu i fodloni gofynion polisi allweddol e.e. ymddygiad neu agweddau sy'n groes i'r polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth.
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd sy'n:

- cael ei gyflawni'n rhydd, drwy ddewis
- cael ei gyflawni mewn ffordd sydd o fudd i'r cyhoedd/ y gymuned
- cael ei gyflawni mewn ffordd nad yw er budd ariannol

**Cod Ymarfer Gwirfoddolwyr:** CGGC
**https://www.wcva.org.uk/media/58792/wcva_volunteering_code_of_practice_a2_poster_4_final_proof.pdf**

**Gwirfoddolwyr a all fod yn agored i niwed eu hunain:** er enghraifft, oedolion ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol neu eu hanghenion gofal a chefnogaeth eu hunain

## *SGC cysylltiedig*

- SFTMVC1 Rheoli'r gwaith o recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr
- SFTMVD1 Cynllunio, trefnu a monitro gweithgareddau gwirfoddoli
- SFTMVC3 Recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr

## *Adnoddau*

**DBS – making barring referrals: https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs**

**CGGC Recriwtio Gwirfoddolwyr: Llawlyfr ymarfer da**
**https://www.wcva.org.uk/media/627518/finalrecruiting_volunteers_manual_e__5_.pdf**

**Taflenni gwybodaeth CGGC**
Meddwl am wirfoddoli
Datblygu strategaeth gwirfoddolwyr
Creu polisi gwirfoddoli
Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr
Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn gwirfoddoli
Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth i wirfoddolwyr
Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr
Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel
Asesiadau risg - gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'u cartrefi
Arferion diogelu a rheoli da
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Gwirfoddolwyr a'r gyfraith
Gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles
Treuliau gwirfoddolwyr
Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr
Cefnogi gwirfoddolwyr anodd eu lleoli
Cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr
Deall iechyd meddwl a gwirfoddoli
Gyrwyr Gwirfoddol
Gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr
Gwirfoddoli a chymorth cyflogwr
Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud yng Nghymru?
Rheoli ymadawiadau gwirfoddolwyr
Gwirfoddolwyr ac yswiriant

Cynnwys gwirfoddolwyr o dramor
Iaith gwirfoddoli - termau cyffredin
Rheoli pryderon yn ymwneud â gwirfoddolwyr
Hyrwyddo'r Gymraeg drwy Wirfoddoli
Croesawu gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid
Gofalwyr a gwirfoddoli
Cefnogi Gwirfoddolwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
**https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/volunteers?seq.lang=cy-GB**

# Uned 545 Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith cynllunio a phrosesau busnes<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a /neu blant |

## Deilliant dysgu:

1. Cymhwyso egwyddorion cynllunio busnes

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Diben cynllunio busnes

1.2 Pwysigrwydd cael gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bwriedir ei gyflawni

1.3 Rôl **gwybodaeth am y farchnad** wrth gynllunio busnes

Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Nodi gweledigaeth gyffredinol darparu gwasanaeth a'r system **lywodraethu** y mae'n gweithredu ynddi

1.5 Nodi prif ddiben, nodau ac amcanion darparu gwasanaeth

1.6 Gwerthuso'r ffordd mae gweledigaeth darparu gwasanaeth, ei ddiben, a'i nodau a'i amcanion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr

1.7 Dadansoddi **gwybodaeth am y farchnad** er mwyn nodi risgiau, marchnadoedd posibl a chyfleoedd busnes ar gyfer datblygiad parhaus a **hyfywdra** darparu gwasanaeth yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor

1.8 Dadansoddi goblygiadau **anghenion mewnol newidiol** i ddatblygiad parhaus a hyfywdra darparu gwasanaeth yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor

1.9 Nodi agweddau unigryw ar ddarparu gwasanaeth

## Ystod

**Llywodraethu:** y ffordd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei llywodraethu a'i chyfarwyddo fel sy'n ofynnol gan y sefydliad, deddfwriaeth, rheoliadau, safonau, a pholisïau cenedlaethol a lleol

**Gwybodaeth am y farchnad**: tueddiadau mewn galw, marchnad/cynulleidfa darged, demograffeg, cystadleuaeth, rhagamcanion twf, technoleg, dulliau newidiol o brynu a darparu

gwasanaethau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaeth, gofynion a chyfyngiadau deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi

**Hyfywdra:** gallu'r ddarpariaeth i gynnal ei gweithgareddau o ran gofynion a gwasanaethau ariannol, dynol ffisegol ac amgylcheddol mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ac sydd wedi'u cynllunio

**Anghenion mewnol newidiol:** anghenion newidiol unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ad-drefnu sefydliadol, cyfansoddiad staff

---

## Deilliant dysgu:

2. Meithrin, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Diben gwaith cynllunio strategol a gweithredol

2.2 Sut i bennu nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor yng nghyd-destun costau, risgiau a buddiannau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.3 Arfarnu opsiynau ar gyfer cynlluniau strategol a gweithredol o ran costau, risgiau, buddiannau a chanlyniadau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor

2.4 Blaenoriaethu amcanion strategol ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n gyson â'i ddiben a'i weledigaeth a chefnogi ei ddatblygiad parhaus a'i **hyfywdra**

2.5 Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darparu gwasanaeth

2.6 Sicrhau bod eraill yn deall yn glir y cysylltiad rhwng cynlluniau gweithredol a gweledigaeth gyffredinol darparu gwasanaeth a'r system lywodraethu y mae'n gweithredu ynddi

2.7 Sicrhau bod cynlluniau gweithredol yn hyblyg ac yn agored i newid

2.8 Cydbwyso syniadau newydd ag atebion hirsefydledig ar gyfer gwaith cynllunio gweithredol

2.9 Dyrannu adnoddau i gyflawni amcanion ar gyfer cynlluniau strategol a gweithredol, a chymryd camau lle na chaiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon

2.10 Datblygu a defnyddio mesurau a dulliau o fonitro a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithredol

2.11 Datblygu cynlluniau wrth gefn er mwyn rheoli unrhyw risgiau a nodwyd i hyfywdra darparu gwasanaeth

## Ystod

**Hyfywdra:** gallu'r ddarpariaeth i gynnal ei gweithgareddau o ran gofynion a gwasanaethau ariannol, dynol ffisegol ac amgylcheddol mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ac sydd wedi'u cynllunio

# Uned 545 Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Cynlluniau strategol a chynlluniau gweithredol:**
Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys sawl cam. Defnyddir cynllun strategol i amlinellu amcanion y gwasanaeth a nodi'r dulliau o gyflawni'r amcanion hynny. Cynllun gweithredol yw'r ffordd gynhwysfawr y bydd y gwasanaeth neu'r tîm yn defnyddio ei adnoddau i gyflawni nodau'r cwmni. Mae angen cysylltiadau cryf rhwng y cynllun strategol a'r cynllun gweithredol er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n effeithlon.

**Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol, darperir y canllawiau canlynol ar gyfer ystod term 'Gwybodaeth am y farchnad' yn neilliant dysgu 1:**

**Cystadleuaeth** byddai'n cyfeirio at achos o orgyffwrdd neu ddyblygu posibl mewn perthynas â gwasanaethau lleol
**Dulliau prynu** byddai'n cyfeirio at rôl Cydwasanaethau a'u protocolau

### *SGC cysylltiedig*

- SCDLMCE5 Datblygu cynlluniau gweithredol a rheoli adnoddau i ateb gofynion ar y ddarpariaeth gwasanaethau gofal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- SCDLMCE7 Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau busnes strategol sy'n cefnogi datblygiad parhaus a hyfywdra darparu gwasanaethau gofal

### *Adnoddau*

Mind Tools ‘The planning cycle’: https://www.mindtools.com/pages/article/newPPM_05.htm

## Uned 546 Arwain a rheoli tîm therapi

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 80 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain tîm therapi, neu is-arbenigedd<br>Bydd y gwasanaeth yn ymdrin yn uniongyrchol â chleifion, a bydd yr unigolyn yn gyfrifol am dîm sy'n darparu gofal.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, gall cleifion gynnwys plant a/neu oedolion gan ddibynnu ar ffocws y tîm therapi |

Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol penodol, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol ar gyfer proffesiynau therapi

Meini prawf asesu

**Rydych yn deall:**

1.1 **Gofynion penodol** ar gyfer ymarfer therapi

1.2 **Fframweithiau deddfwriaethol,** polisïau Llywodraeth Cymru sy'n annog unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i wireddu'r canlynol:

- Bywyd llawn a gwerthfawr
- Eu hawliau
- Cydraddoldeb
- Llais a rheolaeth
- Llesiant
- Cydgynhyrchu
- Cynhwysiant a chyfranogiad
- Dewisiadau bywyd
- Canlyniadau sy'n adlewyrchu 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn

1.3 **Cwmpas** y gwasanaeth a gaiff ei ariannu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodol ar gyfer ymarfer therapi

1.5 Cefnogi staff i ddeall sut i wneud y canlynol:

- defnyddio gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol i lywio a datblygu ymarfer
- sut y gall y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol effeithio ar ryddid rhai unigolion
- Y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

1.6 Sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar gefnogaeth eirioli

1.7 Sicrhau bod arwyddocâd treftadaeth a diwylliant unigolyn yn cael ei gydnabod

**Ystod:**

**Gofynion penodol:** Canllawiau NICE, Llwybrau Cleifion, Safonau Cenedlaethol, Safonau Gofal Iechyd (2015), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2018), y Ddeddf Iechyd (2007), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) gan gynnwys y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Safonau Proffesiynol, Cynlluniau Cyflawni Lleol

**Fframweithiau deddfwriaethol:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, **Rheoliad yr UE ar Ddyfeisiau Meddygol 2017/745**

1.8 **Cwmpas**, gan gynnwys demograffeg a chyffredinrwydd clefydau mewn perthynas â'r maes gwasanaeth penodol

1.9 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

2 Arwain a rheoli'r broses o gynnwys gwerthoedd ac ymddygiadau sefydliadol o fewn ymarfer y tîm therapi

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Gwerthoedd y sefydliad a'r ffordd y maent yn gysylltiedig â llesiant staff.

2.2 Pwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol

2.3 Goblygiadau ymddygiad amhroffesiynol yn y gweithle a'r tu allan i'r gweithle

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.4 Cefnogi eraill i ddeall gwerthoedd y sefydliad a sut y maent yn berthnasol i lesiant staff

2.5 Adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol

2.6 Modelu arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol

2.7 Modelu ymddygiadau proffesiynol a sicrhau bod staff yn arddangos yr ymddygiadau hyn wrth ymarfer

2.8 Hyfforddi staff yn eich tîm mewn ffordd gadarnhaol

2.9 Galluogi staff i fodelu gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad

2.10 Galluogi aelodau o'r staff i fynegi pryderon o fewn diwylliant "di-fai"

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli taith unigolyn drwy'r gwasanaeth

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1

2

3

3.1 Sut i arwain a rheoli'r canlynol:

- **atgyfeiriadau** a gaiff eu derbyn gan eich gwasanaeth
- y broses o bennu anghenion clinigol drwy ddefnyddio protocol asesu priodol

- y broses o ddatblygu cynlluniau triniaeth unigol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol fel y cytunwyd arnynt â'r claf
- Rhoi'r cynllun triniaeth ar waith a chynnal gwerthusiadau parhaus ohono
- Trefniadau dilynol a threfniadau ar gyfer rhyddhau'r claf

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cynnwys dull gweithredu cydgynhyrchiol gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod y **broses gynllunio**

3.3 Arwain a rheoli'r gwaith o ddatblygu cynlluniau triniaeth ar y cyd â'r unigolyn er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol y cytunwyd arnynt

3.4 Arwain a rheoli'r gwaith o gwblhau asesiadau o angen ar y cyd â'r unigolyn / teuluoedd / gofalwyr

3.5 Arwain a rheoli trosglwyddiadau gofal llyfn rhwng gwahanol dimau, lleoliadau a gwasanaethau

3.6 Cefnogi staff/unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol

- Yr angen i gael cydsyniad penodol a'i oblygiadau
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd gorau
- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael gafael arnynt a'u defnyddio

3.7 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau sy'n helpu unigolion i wneud y canlynol:

- Rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u lles

3.8 Arwain ymarfer sy'n mynd ati i herio sefyllfaoedd lle na chaiff hawliau unigolion eu parchu

3.9 Gwerthuso llwybr y claf er mwyn asesu effeithiolrwydd wrth gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt

**Ystod**

**Atgyfeiriadau:** gan gynnwys rheoli rhestrau aros, effaith targedau perfformiad, gallu'r gwasanaeth, defnyddio llwybrau cleifion

**Proses gynllunio:** byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a galluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

4 Arwain a rheoli gofynion gweithredol y gwasanaeth

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Yr angen i gydbwyso cyllideb y gwasanaeth, gan fodloni gofynion clinigol ar yr un pryd

4.2 Y broses gwerthuso swyddi fel y mae'n berthnasol i ddatblygu rolau newydd a newidiol

4.3 Y broses caffael a thendro ar gyfer archebu cyfarpar

4.4 Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y gwasanaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Cefnogi eraill i ddeall yr angen i gydbwyso cyllideb y gwasanaeth gan fodloni gofynion clinigol ar yr un pryd

4.6 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer **defnyddio cyfarpar a dyfeisiau yn ddiogel,** gan gydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol

4.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r broses o gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol eich gwasanaeth

Ystod

**Defnyddio cyfarpar yn ddiogel**, gan gynnwys rheoli stoc, Stocrestr, storio a chynnal a chadw, gofynion o ran rheoli heintiau a diheintio, Gwaredu, Hygyrchedd cyfarpar a dyfeisiau, Rôl peirianneg glinigol, defnyddio "llyfrgelloedd" cyfarpar

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

5 Arwain a rheoli llwyth gwaith y tîm therapi

Meini prawf asesu

Rydych yn deall

5.1 Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd

5.2 Y broses o ddirprwyo'n effeithiol

5.3 Sut y mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig

5.4 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith er mwyn cydbwyso'r canlynol:

- Dyletswydd Gofal
- Gofynion llwythi achosion
- Blaenoriaethu anghenion clinigol
- Y gallu i ddarparu'r gwasanaeth
- Amseroedd rhwng atgyfeirio achosion a darparu triniaeth
- Rhestrau aros

5.5 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith ar staff, gan gynnwys:

- Diwallu anghenion therapi unigolion
- Iechyd a llesiant staff
- Diwylliant di-fai mewn perthynas â chamgymeriadau
- Dysgu o gamgymeriadau, cwynion, a chanmoliaeth
- Polisi Seibiannau Bwyd a Hydradu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.6 Cefnogi eraill i ddeall

- Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd
- sut y mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig

5.7 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn adlewyrchu'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer y llwyth gwaith

5.8 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn diwallu anghenion therapi unigolion fel y'u rhagnodir yn eu cynlluniau gofal

5.9 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hybu ac yn cefnogi iechyd a lles staff

Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith**: yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

6 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff iechyd unigolyn ei ystyried mewn ffordd gyfannol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Yr angen i gymryd cyfrifoldeb am roi gwybod am/atgyfeirio unrhyw gyflyrau a nodir sy'n effeithio ar unigolyn sydd y tu hwnt i gwmpas eich ymarfer

6.2 Bod y canlynol yn hanfodol er mwyn cynllunio a darparu gofal cyfannol i glaf:

- Trefniadau cydgynhyrchu â'r unigolyn, teulu/gofalwyr
- dull seiliedig ar gryfderau

- canlyniadau cadarnhaol y cytunwyd arnynt sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, teulu/gofalwr
- trafodaethau ag unigolion o ran dewisiadau ffordd o fyw iach a hunanreolaeth

6.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael gafael arnynt er mwyn cefnogi unigolion
6.4 Sut i liniaru unrhyw ffactorau risg a all effeithio ar lesiant unigolyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:
6.5 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob unigolyn, gan gyfeirio at wasanaethau eraill lle y bo angen
6.6 Arwain a rheoli'r gwaith o gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi unigolion
6.7 Sut i arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau unigolion

- i gymryd risgiau cadarnhaol
- i ymateb i heriau y gall unigolion eu hwynebu wrth arfer eu hawliau

---

Deilliant dysgu:
7 Arwain a rheoli cefnogaeth i'r Gymraeg yn y gwasanaeth therapi

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:
7.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn y maes therapi
7.2 Nodweddion gwasanaethau sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol a Safonau'r Gymraeg
7.3 Sut i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog
7.4 Ffyrdd ymarferol o ddatblygu a hybu'r Gymraeg yn y gweithle

Rydych yn gweithio mewn
ffyrdd sy'n:
7.5 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol', Safonau'r Gymraeg ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

---

Deilliant dysgu:
8 Arwain a rheoli cyfarfodydd

---

Meini prawf asesu

Rydych yn deall

8.1 Diben, amcanion a chylch gorchwyl y cyfarfod
8.2 Diben a strwythur agenda
8.3 sut i ddewis a gwahodd y bobl gywir i fynychu'r cyfarfod mewn modd amserol
8.4 sut i benodi cadeirydd

8.5 rolau a chyfrifoldebau'r cadeirydd, yr ysgrifennydd ac unigolion yn y cyfarfod
8.6 dilyn protocol a gweithdrefnau, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda
8.7 yr angen i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn cael y cyfle i gyfrannu
8.8 Strategaethau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd heriol yn ystod cyfarfod
8.9 dibenion cofnodion a chynlluniau gweithredu
8.10 Dosbarthu papurau mewn modd amserol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.11 Sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfle i gyfrannu

8.12 sicrhau bod **papurau** yn cael eu dosbarthu'n amserol cyn ac ar ôl y cyfarfod

# Uned 546 Arwain a rheoli tîm therapi

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

**Contractau:** contractau ag unigolion ac awdurdodau lleol/byrddau iechyd/sefydliadau yn y Trydydd Sector

**Cydsyniad:** Yng nghyd-destun yr uned hon lle mae'r gwasanaeth yn cynnwys plant, meysydd penodol plant sy'n derbyn gofal, cyfrifoldeb rhieni, y gwahaniaeth o ran gofynion cydsyniad ar gyfer y rheini rhwng 0 a 15 oed a'r rheini sy'n 16 ac 17 oed a chanllawiau Frasier

Yn ystod **trosglwyddiadau gofal**, bydd pob gweithiwr proffesiynol yn gweithio gydag unigolyn mewn modd cydgynhyrchiol er mwyn sicrhau proses ddiogel wrth ei ryddhau/trosglwyddo ei ofal. Yn ogystal â'r unigolyn gall hyn gynnwys gofalwyr, staff y GIG, staff ALl, asiantaethau, y trydydd sector, gwirfoddolwyr ac eraill.
Y rheini sy'n gysylltiedig â gofalu am unigolyn ar ôl ei ryddhau; unigolyn, teulu/gofalwyr, timau cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, asiantaethau gofal, cartrefi gofal, gwasanaeth ambiwlans, gwasanaethau plentyn i oedolyn

**Gofal Cyfannol:** yn ystyried pob agwedd ar iechyd a llesiant unigolyn, gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac economaidd, ac unrhyw gyflyrau sy'n bodoli eisoes fel iechyd meddwl gwael, anabledd dysgu, anabledd corfforol, awtistiaeth, dementia, clefyd fasgwlaidd, cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a chyflyrau hirdymor

Canllawiau pellach oddi wrth:

1000 o fywydau
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/How%20to%20%289%29%20falls%20%28Feb%202011%29%20Web.pdf**
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/FRATtool.pdf**
E-lawlyfr Llywodraethu'r GIG
**http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards-supporting-gui-17**
**NICE**
**https://www.nice.org.uk/guidance/cg161/documents/falls-full-version2**

**Ystyriaethau cyllido:** systemau lleol gan gynnwys broceriaeth, Gofal Iechyd Parhaus, gwaith asesu a chymhwysedd, y Ddeddf Iechyd Meddwl adran 117 ôl-ofal

**Trafodaethau ynghylch ffyrdd iach o fyw,** gan gynnwys Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, agenda Iechyd y Cyhoedd, ffactorau ffordd o fyw

**Diwylliant di-fai:** dylai ymdrin â sut i godi pryderon gyda'r rheolwr lleol, yn ogystal â gweithdrefnau chwythu'r
chwiban yn GIG Cymru yn ôl polisi Cymru gyfan

**Llwybrau Cleifion:** dylai gynnwys y broses o bersonoleiddio'r llwybrau ar gyfer cleifion penodol

a'r rhesymau pam y gall therapydd benderfynu gwyro oddi ar y llwybr er mwyn darparu gofal person-ganolog

1.10

**Safonau Proffesiynol**

Fel y maent yn berthnasol i broffesiwn/arbenigedd yr unigolyn: gan gynnwys Codau Ymddygiad, llwybrau
clinigol penodol, canllawiau cysylltiedig gan NICE, cynlluniau cyflawni lleol

Mae **Amgylchedd Cefnogol** yn un sy'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol i gydnabod a herio rhagfarn,
tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion

Gall **cyfleusterau fideogynadledda** gynnwys fideogynadledda, Skype, Google Chats. Nid yw hon yn rhestr
gynhwysfawr.

***Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig***

Safonau Gofal Iechyd (2015),
Dyletswydd Gofal,
Dyletswydd Gonestrwydd (deddf newydd),
Deddf Galluedd Meddyliol,
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid,
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Gwerthoedd a Safonau'r GIG
- Gwerthoedd Sefydliadol
- Canllawiau Dirprwyo
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- **www.nice.org.uk/guidance**
  - Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Safonau'r Gymraeg 2018 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh
  - Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation,
  - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) http://www.waspi.org/hafan

Deddf ADY

**Rheoliad yr UE ar Ddyfeisiau Meddygol 2017/745; https://www.gov.uk/guidance/medical-devices-eu-regulations-for-mdr-and-ivdr#health-institutions-and-the-regulations**

# Uned 401 Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 35 |
| **Credyd:** | 6 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio gwybodaeth asesu er mwyn datblygu cynlluniau personol i ddarparu gofal a chefnogaeth sy'n cyflawni canlyniadau a nodwyd.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion neu blant a phobl ifanc. Byddai asesu ymarfer yn cynnwys teuluoedd/gofalwyr lle y bo'n briodol. |

## Deilliant dysgu:

1. Gwaith asesu a chynllunio gofal a chefnogaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolion
1.2 Sut mae'r adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesiadau
1.3 Y rhesymau dros y 'Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol'
1.4 Pwysigrwydd pum elfen gwaith asesu
1.5 **Elfennau allweddol** asesiad o angen
1.6 **Prif ffocws** gwaith asesu
1.7 Beth yw ystyr asesiad 'seiliedig ar ganlyniadau'
1.8 Hawliau unigolion i gael cefnogaeth eirioli ar gyfer eu hasesiad
1.9 Gofynion darparu ac adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth
1.10 Egwyddorion cynlluniau gofal a chefnogaeth, a'r gofynion o ran eu fformat a'u cynnwys
1.11 Sut y dyfernir anghenion gofal a chefnogaeth cymwys
1.12 Defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal a chefnogaeth
1.13 Cyfrifoldebau awdurdodau lleol am asesu oedolion a phlant yn yr ystad ddiogel
1.14 Pryd y gall fod angen asesiad integredig/arbenigol a phwy all fod yn rhan ohono
1.15 Trefniadau codi ffioedd am ofal a chefnogaeth gymwys mewn ardal leol

## Ystod

**Elfennau allweddol** – cydgynhyrchu, dull gweithredu seiliedig ar gryfderau, canolbwyntio ar ganlyniadau

**Prif ffocws** - adeiladu ar gryfderau a rhinweddau unigolyn, gan gynnwys ei alluoedd a theuluoedd/cymunedau

---

## Deilliant dysgu:

2. Defnyddio gwybodaeth asesu a chynlluniau gofal a chefnogaeth i ddatblygu cynlluniau personol

## Meini Prawf Asesu

Rydych yn deall:

2.1 Eich rôl eich hun yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau personol a'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn

2.2 Ffyrdd o weithio i feithrin cydberthnasau cadarnhaol a chefnogol ag unigolion, eu teuluoedd/gofalwyr, gan gynnwys dysgu am eu bywydau bob dydd, eu hanes a'u diwylliant

2.3 Sut i gynnal sgyrsiau ystyrlon ag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt

2.4 Sut i ymdrin â gwrthdaro rhwng safbwyntiau a dewisiadau unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr

2.5 Protocolau ar gyfer cael cydsyniad a'i gadarnhau:

- gan unigolion a theuluoedd/gofalwyr wrth rannu gwybodaeth â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol
- gan unigolion wrth rannu gwybodaeth â theuluoedd/gofalwyr ac eraill

2.6 Pwysigrwydd peidio â barnu amgylchiadau personol unigolion, eu teuluoedd/gofalwyr a'r ffordd y maent yn byw eu bywydau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.7 Adolygu gwybodaeth er mwyn nodi anghenion yr unigolyn sydd wedi'u hasesu a'i ganlyniadau sydd wedi'u nodi

2.8 Cadarnhau gyda'r unigolyn ei anghenion sydd wedi'u hasesu, y canlyniadau a nodwyd a sut y byddai'n hoffi cael ei gefnogi i'w cyflawni

2.9 Ymgorffori dull gweithredu cydgynhyrchiol er mwyn datblygu cynllun personol sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n nodi cefnogaeth gan:

- deuluoedd, ffrindiau, rhwydweithiau a chymunedau
- y gwasanaeth/gweithwyr

2.10 Cefnogi'r unigolyn i ystyried risgiau posibl a chytuno ar sut y gellir eu rheoli

2.11 Sicrhau bod y cynllun yn cynnwys elfen o hyblygrwydd er mwyn cefnogi canlyniadau cadarnhaol

2.12 Cefnogi'r unigolyn i ddeall sut y caiff y cynllun personol ei weithredu

2.13 Cytuno ar y ffordd y caiff y cynllun personol ei fonitro, ei adolygu a'i addasu er mwyn diwallu anghenion newidiol

2.14 Sicrhau bod y cynllun personol yn cael ei gofnodi ac ar gael mewn fformat hygyrch i'r unigolyn

# Uned 401 Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r cyfeiriadau yn y canllawiau at 'y Ddeddf' yn ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Codi tâl ac asesiadau ariannol:**

Disodlodd Rhan 5 o'r Ddeddf ddeddfwriaeth flaenorol gan roi disgresiwn i awdurdodau lleol godi ffioedd am y gofal a chymorth dibreswyl a phreswyl a ddarperir neu a drefnir ganddynt ar gyfer oedolion. Cyflwynodd y Ddeddf un set o drefniadau codi ffioedd ac asesiadau ariannol yn hytrach na'r trefniadau gwahanol blaenorol ar gyfer codi ffioedd am ofal a chymorth dibreswyl a phreswyl. Caiff uchafswm wythnosol a "byffer" eu cynnal, yn ogystal â therfyn cyfalaf i'w ddefnyddio i bennu pwy sy'n gyfrifol am dalu cost lawn eu gofal preswyl eu hunain.

Mae'r rheoliadau yn gwahardd codi ffioedd ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed (neu eu rhieni neu warcheidwaid) am ofal a chymorth a dderbynnir o dan Ran 4 o'r Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynlluniau talu gohiriedig gorfodol ar gyfer gofal preswyl. Mae cytundebau ar daliadau gohiriedig yn galluogi person i 'ohirio' yr angen i werthu ei gartref (neu ased arall) er mwyn talu costau ei ofal preswyl tan adeg fwy priodol yn ddiweddarach. Yn lle hynny, ei awdurdod lleol fydd yn talu am ei ofal preswyl, gyda chostau hyn yn cael eu gwarantu yn erbyn gwerth ei gartref drwy osod arwystl cyntaf drwy gyfrwng morgais cyfreithiol arno.

Gall awdurdod lleol godi cyfradd sefydlog lefel isel am waith ataliol neu gymorth i oedolion, ond nid ar gyfer gwasanaethau ataliol i blant. Noder na ellir codi ffioedd am ddarparu gwybodaeth a chyngor o dan y Ddeddf, ond gellir codi ffi sefydlog am gymorth.

Mae'r Ddeddf yn cynnal yr unigolion na ellir codi ffioedd arnynt ar hyn o bryd, ynghyd â'r mathau o ofal a chymorth i oedolion na ellir codi ffioedd amdanynt e.e. chwe wythnos o ofal am ddim mewn cartref yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

**Taliadau uniongyrchol**

Yn ôl y Ddeddf mae taliadau uniongyrchol yn gwella gallu unigolyn i gael dewis a rheolaeth wirioneddol dros y ffordd mae'n cyflawni ei ganlyniadau personol: mae'n annog eu defnyddio. Lle nodwyd anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth cymwys yn achos gofalwr, a bod unigolyn, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dymuniad i gael un, rhaid sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael ym mhob achos lle maent yn fodd i gyflawni canlyniadau personol.

Bwriedir i daliadau uniongyrchol gael eu defnyddio mewn ffordd hyblyg ac arloesol, ac ni ddylid gosod unrhyw gyfyngiad afresymol o ran eu defnydd ar yr amod y'u defnyddir i ddiwallu angen cymwys am ofal a chymorth. Mae'r Ddeddf yn dileu rhai eithriadau cyfredol o ran dosbarthiadau penodol o daliadau (gyda mesurau diogelu priodol).

Newid allweddol yw bod modd i daliadau uniongyrchol gael eu darparu ar gyfer unrhyw angen a nodwyd am gymorth y disgwylir i awdurdod lleol ei ddiwallu, yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol, mewn lleoliadau preswyl hirdymor.

Bydd oedolyn, plentyn / ei deulu neu ei ofalwr yn gallu defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu ei ofal a'i gymorth yn uniongyrchol oddi wrth ei awdurdod lleol os yw'n dymuno hynny (a waharddwyd yn flaenorol).

Roedd y rheoliadau blaenorol ar daliadau uniongyrchol yn caniatáu cyflogi perthnasau lleol a oedd yn byw ar yr un aelwyd ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cytuno bod angen gwneud hyn er mwyn bodloni gofynion yr unigolyn. Bellach caiff hyn ei ystyried a'i fynegi'n fwy cadarnhaol ar yr amod nad oes gan yr awdurdod lleol unrhyw amheuon ynghylch dymuniad yr unigolyn i gael trefniant o'r fath a'i fod yn cael sicrwydd y cyflawnir canlyniadau personol yr unigolyn drwyddo.

Mae llawer o bobl yn defnyddio'r taliad uniongyrchol i ddod yn gyflogwr e.e. drwy gyflogi cynorthwyydd personol. Os felly, dylai'r awdurdod lleol roi cyngor clir i bobl ar eu cyfrifoldebau wrth reoli taliadau uniongyrchol.

Yn gyffredinol, dylai pobl gael cymorth i barhau i allu cael taliad uniongyrchol lle na allant neu nad ydynt yn barod i reoli un.

**Cymhwystra am ofal a chymorth**

Bydd gan yr unigolyn angen cymwys am ofal a chymorth os bydd asesiad yn nodi mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ef i baratoi cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth i ofalwr, ar y cyd ac yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni, y gall oresgyn rhwystrau i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Os na all darparu gofal a chymorth helpu'r person i gyflawni ei ganlyniadau personol ni fydd angen ystyried cymhwystra. Nid diben y meini prawf cymhwystra yw cael gwasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol i ymdrin â heriau na allant eu hateb (fel darparu gofal iechyd, cyflogaeth, neu addysg).

Os na ellir cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn, neu na ellir eu cyflawni'n ddigonol, drwy'r gofal a'r cymorth a gydgysylltir ganddo ef ei hun, neu ei deulu neu ei ofalwyr yn unig, bydd gan yr unigolyn angen cymwys.

Mae'r penderfyniad o ran cymhwystra yn deillio'n naturiol o'r broses asesu. Rhaid ystyried y pum elfen fel rhan o'r asesiad, ac ar sail hyn bennu p'un a oes gan y person anghenion cymwys. Nid oes unrhyw drothwyon mwyach o ran cymhwystra. Nid oes a wnelo pennu cymhwystra â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae a wnelo â chael gafael ar ofal a chymorth er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

Nodwch fod yn rhaid i'r Set Ddata Graidd Ofynnol Genedlaethol gael ei chwblhau fel rhan o'r asesiad cychwynnol.

Mae'r rheoliadau yn nodi'n benodol yr anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer plant. Rhaid nodi p'un a fyddai effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn os na ddiwellir yr angen. Rhaid i'r broses o asesu anghenion plant ymwneud â sicrhau bod eu buddiannau pennaf yn cael eu diwallu a bod eu lles yn cael ei ddiogelu.

Rhan allweddol o'r asesiad yw pennu p'un a yw'n rhesymol credu bod oedolyn neu blentyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'n cael ei niweidio mewn ffordd arall, neu y gallai wynebu'r risg o hynny.

**Elfennau allweddol** asesiad o angen:
Roedd y Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd maent yn ymateb i unigolion sydd angen gofal a chymorth a'r gwasanaethau maent yn eu comisiynu. Yn sgil gweithredu'r Ddeddf, bu angen newid y broses asesu, gan roi'r gorau i nodi pa wasanaethau sydd eu hangen ar unigolyn a rhoi pwyslais ar y gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar yr unigolyn er mwyn cyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig iddynt – canlyniadau a nodwyd drwy sgwrs barchus am y ffordd mae'r unigolyn a / neu ei deulu am arfer rheolaeth dros benderfyniadau am ei ofal a'i gymorth.

Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar egwyddorion cydgynhyrchu fel bod ymarferwyr ac unigolion yn rhannu'r pŵer i gydgynllunio. Gallai hyn olygu newid yn y berthynas rhwng gweithwyr proffesiynol a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. I weithwyr proffesiynol bydd yn bwysig peidio ag ofni risg yn ormodol, a galluogi a grymuso unigolion.

Ystyrir bod datblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau yn agwedd allweddol ar gydweithio rhwng yr unigolyn a gaiff gymorth a'r gweithiwr neu'r gweithwyr proffesiynol sy'n ei gefnogi, gan gydweithio i bennu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar gryfderau a rhinweddau'r unigolyn.

Nid ar broblemau na diffygion y canolbwyntir yn bennaf, ond ar adeiladu ar adnoddau a rhinweddau pobl, gan gynnwys eu cryfderau, galluoedd a theuluoedd neu gymunedau. Efallai y bydd ymarferwyr am ddefnyddio'r rhestr ganlynol i ystyried eu hymarfer eu hunain:

- Seiliedig ar ganlyniadau: elfen ganolog dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau yw'r graddau y mae pobl eu hunain yn nodi'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni yn eu bywydau (i'r rhai â chyfrifoldeb rhiant dros y rheini sydd o dan 16 oed, y canlyniadau yr hoffent eu gweld ar gyfer eu plentyn) ac yna bod ymarferwyr yn gweithio gyda nhw i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- Y gallu i ddeall a datblygu ymatebion y gymuned i'r angen am ofal a chymorth yn achos unigolion, yn hytrach na chynnal asesiad ar gyfer gwasanaethau.
- Lleihau'r ddibyniaeth ar ddulliau gweithredu rhagnodol ffurfiol a phwysleisio ymhellach y defnydd o farn broffesiynol. Dylai gweithwyr proffesiynol symud tuag at rymuso, gan gadw lles a/neu lesiant yr unigolyn mewn cof drwy'r amser.
- Cynnal asesiadau sy'n gymesur â difrifoldeb yr angen am ofal a chymorth a natur gymhleth y sefyllfa.

**Adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol**
Rhaid i asesiadau, ar lefel sylfaenol, gofnodi gwybodaeth yn unol â'r adnodd asesu a chymhwysedd cenedlaethol, sy'n cynnwys y set ddata graidd ofynnol genedlaethol a dadansoddiad sy'n seiliedig ar y pum elfen asesu:

- asesu ac ystyried amgylchiadau'r unigolyn;
- ystyried ei ganlyniadau personol;
- asesu ac ystyried unrhyw rwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny;
- asesu ac ystyried unrhyw risgiau i'r unigolyn os na chaiff y canlyniadau eu cyflawni;
- asesu ac ystyried cryfderau a galluoedd yr unigolyn.

Mae'r broses asesu yn gofyn i ymarferwyr gynnal trafodaethau â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau personol maent am eu cyflawni (ac yn achos plant, y canlyniadau mae unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant drostynt am eu cyflawni ar ran y plentyn), a pha gyfraniad y gall yr unigolyn a'i deulu neu'r gymuned ehangach ei wneud i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Dylai asesiadau effeithiol fod yn brofiadau gwerthfawr ynddynt eu hunain. Dylent feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa rhywun, nodi'r dull gweithredu mwyaf priodol, a llunio cynllun sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei ganlyniadau personol.

**Cynllun personol** – mae cynllun personol yn nodi'r ffordd y caiff anghenion gofal a chefnogaeth eu diwallu. Dylai unigolion fod ynghlwm wrth y gwaith o baratoi eu cynllun gofal a chefnogaeth eu hunain cymaint â phosibl. Gellir hefyd gyfeirio at y cynllun personol fel y cynllun darparu gwasanaeth.

**Egwyddorion cynlluniau gofal a chefnogaeth, y fformat a'r gofynion o ran cynnwys**

Rhaid dilyn prif ddyletswyddau'r Ddeddf wrth lunio cynlluniau, a ddylai fod yn berson-ganolog, hyrwyddo llesiant a bod yn seiliedig ar ganlyniadau. Rhaid iddynt hefyd fod yn glir ac yn gryno a defnyddio iaith a dulliau cyfathrebu priodol, a bod mewn fformat hygyrch fel bod modd i'r unigolyn helpu i gynllunio ei gynllun a'i ddeall.

Mae gwaith diogelu wedi'i gynnwys drwy gydol y Ddeddf a bydd angen i bob ymarferydd fod yn effro i unrhyw risg o niwed i'r unigolyn neu i eraill. Bydd y gwaith o gynllunio gofal a chefnogaeth yn ystyried yr ymatebion posibl i'r risgiau hyn ac yn cytuno ar ddulliau o reoli risg a / neu ei lliniaru.

Hefyd, rhaid i gynlluniau gael eu hintegreiddio lle bo modd (a'i bod yn briodol gwneud hynny) a sicrhau bod pob ymarferydd yn cydberchen arnynt ac yn eu gweithredu ar y cyd. Er enghraifft, eu hintegreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, neu ofal cymdeithasol ac addysg.

Rhaid cytuno ar fformat y cynllun cefnogaeth gyda'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol (BILl) ac Ymddiriedolaethau'r GIG, a rhaid iddynt, ar lefel sylfaenol, fod yn gyson ar draws ôl troed rhanbarthol y BILl. Rhaid iddynt gydweithio er mwyn sicrhau bod templedi lleol ac arbenigol ar gyfer cynlluniau cefnogaeth yn bodloni'r set ddata graidd ofynnol genedlaethol a'r cynnwys sydd ei angen.

Rhaid i waith cynllunio adlewyrchu strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol a galluogi pobl i gyfathrebu a chyfranogi drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r cynllun gynnwys y canlynol, o leiaf:

- canlyniadau personol sydd wedi cael eu nodi gan yr unigolyn, a'r camau i'w cymryd er mwyn helpu'r awdurdod lleol ac eraill i'w cyflawni
- yr angen/anghenion gofal a chefnogaeth a ddiwellir
- y trefniadau adolygu a sut y caiff cynnydd ei fesur

Lle y bo'n briodol, dylai cynlluniau hefyd nodi:

- rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, y gofalwyr ac aelodau o'r teulu
- yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sydd eu hangen gan bob parti
- unrhyw daliadau uniongyrchol sy'n cyfrif am eich holl gynllun neu ran ohono.

**Gofynion darparu ac adolygu cynlluniau gofal a chymorth**

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu, a pharhau i adolygu, gynlluniau gofal a chefnogaeth ar gyfer plant ac oedolion, a chynlluniau cefnogaeth ar gyfer gofalwyr, sydd ag anghenion sy'n bodloni'r meini prawf o ran cymhwysedd.

Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn gymwys i bobl lle yr ymddengys i'r awdurdod lleol fod angen diwallu eu hanghenion er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu (i blant) niwed arall, neu'r risg o hynny.

Gellir diwallu anghenion gofal a chefnogaeth llawer o unigolion heb gynllun ffurfiol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r unigolyn neu ei deulu gael gwybod am wasanaethau ataliol neu gymunedol perthnasol yn glir. Rhaid cofnodi'r ffordd y caiff yr anghenion hyn eu diwallu heb gynllun ar yr Adnodd Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol.

Fodd bynnag, bydd angen cynllun lle nad yw'r unigolyn yn debygol o gyflawni ei ganlyniadau personol oni fydd yr awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i ddiwallu angen cymwys a nodwyd.

Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys yr unigolyn a datblygu'r cynllun ar y cyd a, lle y bo'n ymarferol, unrhyw ofalwr. Dylai'r cynllun nodi sut y gall yr unigolyn gael ei gefnogi i gyflawni ei ganlyniadau personol; y mathau o ofal a chefnogaeth a allai fod yn fwyaf addas iddo ac ar gael iddo; a sut y gellir cael gafael arnynt.

Rhaid parhau i adolygu'r cynllun. Os bydd yr awdurdod o'r farn bod angen cymwys unigolyn am ofal a chefnogaeth wedi newid, rhaid iddo gynnal asesiad a diwygio'r cynllun fel sydd ei angen.

Cyflwynodd y Ddeddf hygludedd cynlluniau cymorth i oedolion a phlant ar draws ffiniau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, os bydd rhywun ag anghenion cymwys yn symud yng Nghymru, fod gan yr awdurdod 'newydd' ddyletswydd i gynnal y gofal a'r cymorth a nodwyd yn ei gynllun blaenorol o leiaf hyd nes y bydd wedi cael y cyfle i adolygu ei anghenion.

**Yr ystad ddiogel**

Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswydd newydd ar gyfer awdurdodau lleol o ran oedolion ag anghenion gofal a chymorth sy'n rhan o'r ystad ddiogel yng Nghymru, ac ymestynnodd y ddyletswydd i awdurdod lleol ymweld â phlentyn sy'n derbyn gofal, neu blentyn a oedd yn arfer derbyn gofal, yn achos pob plentyn yn yr ystad ddiogel a newid y ffordd y caiff cyfrifoldebau presennol am ofal a chymorth plant yn yr ystad ddiogel (p'un a gânt eu cadw yng Nghymru neu Loegr) eu cyflawni.

Yr awdurdod lleol yn y man lle mae'r ddarpariaeth wedi'i lleoli sy'n gyfrifol am yr angen am ofal a chymorth gan oedolyn, ni waeth ble mae'n byw fel arfer cyn ei gadw. Roedd hyn yn newid mawr i awdurdodau lleol â charchardai ac mae ganddynt yr un dyletswyddau i'w cyflawni o ran asesu a diwallu'r angen am gymorth i oedolion yn yr ystad ddiogeledd ag i'w dinasyddion yn y gymuned h.y. y gofynion a amlinellir yn y sleidiau blaenorol. Mae angen iddynt gymryd camau cyfannol pan fydd unigolion yn bwrw eu dedfryd ac wrth gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.

Mae'r cyfrifoldeb am anghenion cymorth plentyn yng Nghymru ar ei awdurdod lleol cartref yng Nghymru, hynny yw yr awdurdod lleol lle roedd y plentyn fel arfer yn byw cyn ei gadw. Os nad oes gan y plentyn statws preswylio arferol hysbys, yna yr awdurdod lleol lle cedwir y plentyn fydd yn gyfrifol am ei anghenion cymorth, boed hynny yng Nghymru neu Loegr.

**Pryd y gall fod angen asesiad integredig/arbenigol**

Rhan allweddol o'r asesiad yw pennu p'un a yw'n rhesymol credu bod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'n cael ei niweidio mewn ffordd arall, neu y gallai wynebu'r risg o hynny, ac na all amddiffyn ei hun (o ran oedolion) a ph'un a oes angen cymryd unrhyw camau brys er mwyn diogelu'r unigolyn.

Dylai'r ymarferydd gynnal asesiad sy'n gymesur i'r amgylchiadau, ond dylai ystyried y pum elfen asesu sy'n fodd i wneud penderfyniad ynghylch cymhwysedd. Gall asesiad ddod i'r casgliad bod angen asesiad mwy cynhwysfawr neu arbenigol, gan gynnwys dull o weithio mewn partneriaeth gan un neu fwy o asiantaethau neu asesiadau proffesiynol. Dylai'r rhain i gyd fwydo i mewn i un asesiad integredig ac un broses asesu.

Dylai asesiad nodi p'un a allai darparu cyngor a gwybodaeth, neu gyfeirio at wasanaethau ataliol neu wasanaethau eraill, gyfrannu at gyflawni canlyniadau personol yr unigolyn, neu fel arall ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth, ac os felly i ba raddau.

Mae'r penderfyniad o ran cymhwystra yn deillio'n naturiol o'r broses asesu. Rhaid ystyried y pum elfen fel rhan o'r asesiad, ac ar sail hyn bennu p'un a oes gan y person anghenion cymwys. Os mai dim ond drwy gynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, y gall yr anghenion dan sylw gael eu diwallu yna byddant yn gymwys.

## *SGC cysylltiedig*

- SCDHSC0415: Arwain y broses o gynllunio darpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau i unigolion

## Deddfwriaeth *a chanllawiau cysylltiedig*

- **https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/asesu-a-diwallu-anghenion**
- Deddf GIG (Cymru) 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Rhan 3. Cod Ymarfer (asesu anghenion unigolion)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Rhan 4. Cod Ymarfer (diwallu anghenion)
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015

# Atodiad 1 Cydberthnasau â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Uned 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol